




HARVARD
COLLEGE
LIBRARY









1875.



MR. JAMES DAVIES

COFIANT

Y DIWEDDAR

BARCH. JAMES DAVIES,

RADNOR, O.

GAN Y PARCH. G. GRIFFITHS,

CINCINNATI, O.

UTICA, N. Y.

T. J. GRIFFITHS, ARGRAFFYDD, EXCHANGE BUILDINGS.

1875.

Call 5055-1080



New York, N.Y.

CYNWYSIAD.

AT Y DARLLENYDD	4
RHAGLITH	5—11
COFIANT	12—49
ENGLYNION COFFADWRIAETHOL	49
PREGETHAU	50—96
AMLINELLIAD O'I BRIF WEDDNODAU	97—106
ADGOFION PERSONOL AM DANO	107—114
ADGOFION BRODYR ERAILL AM DANO	114—133
YSGUBAU O LOFFION DIFYRUS AM DANO	134—148
PENILLION COFFADWRIAETHOL	149—156
ENGLISH DEPARTMENT	157—173
CAWELLAID O FAN SAETHAU EI FWA	174—187
PYNCIAU YSGOL	188—222

AT Y DARLLENYDD.

Er ys llawer, o flynyddoedd cyn ei farwolaeth ceisiasai y Parch. James Davies gan ei hen gyfaill, Iorthryn Gwynedd, ysgrifenu ei gofiant, os goroesai ef. Addawodd yntau wneyd; a chydabyddid yn gyffredinol ddoethineb y dewisiad. Ond o herwydd anghydwelediad cydrhyngddo a'r perthynasau, parthed i *ddull* ei ddygiad allan, efe a ymwrthododd yn bendant a'r cyfrifoldeb. Teimlwn fod yn ddyledswydd arnom ddweyd cymaint a hyna mewn cyfiawnder a'r brawd Thomas, er mwyn symud ymaith y dybiaeth mewn rhai manau, mai *am na roddasid iddo fwy o arian* at yr anturiaeth yr ymryddhaodd oddiwrth ei ymrwymiad. Wedi iddo ef nacâu, disgynodd y gwaith arnom ni, trwy ddewisiad unol, a thaer ddymuniaid y weddw a'i phlant. Yr oedd yn anhawdd genym gydsynio, o herwydd amledd a phwysigrwydd ein dyledswyddau i bobl ein gofal. Ond (i'w credyd cofnoder y ffaith), pan ddeallasant fod hyny yn peri i ni betruso, pasiasant yn unfrydol benderfyniad i ysgafnhau ein dyledswyddau iddynt hwy tra yn paratoi y bywgraffiad, ac wedi y gorphenem, eu bod yn rhoddi i ni fis o orphwysiant. Felly symudwyd ymaith yr unig rwystr oedd ar ein ffordd i ymgymeryd a'r dasg. Tua'r dyddiau cyntaf yn Mai dechreuasom arno. O herwydd fod cymaint o amser eisoes wedi ei golli, teimlem y dylesid gwneyd brys i'w gyhoeddi, a thrwy garedigrwydd a chydweithrediad calonog brodyr, yn enwedig y Parch. R. D. Thomas, a'n hen gyfaill, Josiah Brynmair, llwyddasom i'w orphen yn gynt na'n dysgwyliad. Gwelir hefyd i frodyr eraill wneyd yn rhagorol, trwy anfon i ni yn brydlon adgofion gwerthfawr am wrthddrych y cofiant.

Cynygir y llyfr yn awr i sylw hynaws y cyhoedd, fel y deyrnged oraf o barch a allem gyflwyno, dan yr anfanteision y llafuriem, i goffadwriaeth un o hen dadau mwyaf llafurus yr eglwysi Cymreig trwy y Talaethau, a chan ddymunio bendith Pen yr Eglwys arno, i beri i lawer feddwl am ei ffyddlondeb yn traethu iddynt air Duw, dilyn ei ffydd, ac ystyried diwedd ei ymarweddiad.

G. GRIFFITHS.

CINCINNATI, *Medi* 13, 1875.

R H A G L I T H .

Yn China, os aiff person at arluniedydd i gael ardeb o hono ei hun, gofynir iddo, Pa fath a ddymuna? Ac nid at faintioli y darlun, na'i ystum yntau ynddo y cyfeirir ychwaith yn yr ymholiad, fel gyda ni. Ond ei ystyr yno ydyw: *Pa un ai eilun prydferth a garech gael, ai ynte arddangosydd cywir o honoch eich hunan—hardd neu gethin?* Os telir yn dda am y paentwriaeth arno, mae yr *artist* yn barod i foddhau chwaeth, a chario allan syniadau ei gwsmeriaid am danynt eu hunain, pa mor eithafol bynag, heb ymofyn dim er mwyn cydwybod. Trawsnewidia, *ar len*, gyda rhwyddineb, yn neiliad ei bwyntel a'i wrychell, yr auferthwech corfforol, a'r hagrwech wynebol mwyaf anghynes i lunieidd-dra perffaith, a'r tlysnï mwyaf attyniadol—os cydnabyddir yn anrhydeddus greadigaethau ei athrylith a'i grefft!

Buasai yn gryn brofedigaeth i ni chwerthin am ben ynfydrwydd a gwag-ogoneddgarwch y paganiaid hyny, ar y naill law, a geisiant blyf benthyciol felly—a hoced eu brodyr ar y llaw arall a'u haddurnant gyda hwynt, er mwyn budr elw, oni b'ai yr argyhoeddiad ein bod ein hunain yn euog o rydresweithiau cyffelyb; os nad, yn wir, yn awdwyr rhithluniadau mwy anesgusodadwy na'r rhai y masnechir ynddynt yn ninas Pekin. A fyno glod, bid farw, sydd hen ddiareb Gymreig adnabyddus i ni, yn yr hon y cydgyfarfydda tri auhebgor y fath wir-eddau: "Byrdrâ, synwyr, a halen;" neu, yn ol darnodiad arall: "Bychander gwenynaidd, mel, a cholyn." Ei hamcan ydyw rhoddi llafar dealladwy a llym i'r dirmyg a deimlir yu nyfnderau yr enaid tuag at y gorawydd, a fradychir gan rai, hyd yn nod ar derfyn eu gyrfa ddaearol, i gael eu hedmygu a'u moli gan eu holafiaid, yn gystal a gorbarodrwydd eu cyfeillion i

gario allan eu hewyllys ddealledig yn hyny mewn marwnadau a chofnodion am danynt.

Ni bum erioed o'r blaen yn fwy, os mor agored ag yn awr i gerydd am hynyna. Y mae yn ffaith anwadadwy fod y duedd i borthi y chwaeth lygredig y cyfeiriwn ati, yn ymddangos mor amlwg mewn gweithiau o'r fath, nes, fel rheol gyffredin, na roddir dim rhithyn mwy o ymddiried yn yr hyn a gyhoeddir am yr ymadawedig, fel arddangosiad o'i ddoniau, ei gyflawniadau, a'i wir nodwedd, nag a roddem mewn darlun Chineaidd ei fod yn gwir osod allan wynebweidd yr hwn y dywedid ei fod. Un-ochrog iawn ydynt fynychaf. Ni ddywedir ond da am y marw. Edrychir hefyd ar y "peth daioni" a ddichon fod ynddo trwy chwydd-wydrau cryfion, a desgrifir ef mewn termau uchafraddol. O herwydd hyny yr ydys wedi dod i edrych ar y gangen hon o'n llenyddiaeth mewn ystyr yn wyngalchiad beddau y meirw yn hytrach nag adroddiad syml, a ffydlon, er addysg, rhybudd, a chefnogaeth i genedlaethau dyfodol, o'r modd yr aethant trwy eu rhan yn ngalwedigaethau bywyd.

Wedi darllen ambell awdl neu gerdd-goffa, nid ymddengys mor amlyced i ni fod y bardd wedi bod mor ofalus am gadw at y gwir yn ei ddelweddiadau o'i arwr, a'i fod wedi dirdynu holl alluoedd ei awen yn yr ymdrech i daflu ei gydymgeiswyr i'r cysgodion, ac enill yr arobryn a'r gadair eisteddfodol. Yn angladdau rhai personau, ystyrir yr hyn a draethir gan y gweinidog yn y ty ac ar lan y bedd am danynt yn sicrach mynegai o ansawdd ei deimlad ef tuag atynt, a'i ddymuniad i lefaru wrth fodd calon eu perthynasau galarus, nac o gynwysiad y "farn gyfiawn" fydd newydd ei phasio ar eu hachos, yn ol yr hyn a wnaethant yma yn y corff, ganddo Ef, gyda'r Hwn nid oes derbyn wyneb.

Gwnaed argraff annileadwy ar ein meddwl yn nglyn â'r mater hwn ychydig o flynyddau yn ol, gan hanes a ddarllenasom am ymgom, a gymerodd le mewn cyfarfod cyhoeddus yn New York, gydrhwng y diweddar Anrhydeddus Horace Greeley a'n cydwladwr dysgedig, y

Parch. W. R. Williams, D. D. Gwyr pawb am unplygrwydd diarhebol Mr. Greeley, mor ddifloesgni y datganai ei olygiadau ar bobpeth, ac am bawb; ac mor ddiarbed y condemniai bobpeth tebyg i weniaith a gwaseidd-dra, yn enwedig yn ngweinidogion yr efengyl. Ac y mae, ond odid, mor hysbys a hyny am dano, *ei fod yn dyngwr rhyfygus!* Ar yr achlysur y cyfeiriwyd ato, efe oedd y cadeirydd wrth ben y bwrdd. Un o'r llwnc-destynau a roddwyd allan oedd: "Ein Clerigwyr." Yn y cyflwyniad o hono, dywedodd Mr. Greeley fod ganddo barch calon i swydd y frawdoliaeth urddasol hono, ac i bawb a berthynent iddi y gallai gredu am danynt yr ymdrechent gyflawni eu dyledswyddau yn gydwybodol yn ofn Duw. Ond ei fod yn rhwym i ychwanegu fod ganddo un achwyn yn eu herbyn yn ddieithriad, sef—pa mor anghrefyddol bynag y byddai eu plwyfolion byw, pan gymerid hwynt ymaith yn ngafael eu pechodau, a chan eu drygioni, fod y gweinidogion yn eu harwyliau yn gwneyd dynion bucheddol o honynt, ac yn rhoddi iddynt fynediad helaeth i'r nefoedd! Cododd Doctor Williams i fyny i ateb tros y clerigwyr, a dywedodd fod ei gyfaill, Greeley, wedi syrthio i gamsyniad mawr mewn perthynas i'w frodyr. Tra na feiddiai wadu nad oedd yr hyn a ddywedasai yn rhy wir am weinidogion, yn gystal a golygwyr newyddiaduron; eto, fod ei ddarnodiad yn rhy ysgubellog—y gwyddai ef ei hunan am rai eithriadau tarawiadol. Er engraifft, meddai, gweinyddai brawd mewn claddedigaeth yn Rhode Island dro yn ol. Perchid yr ymadawedig yn fawr yn ei ardal ar gyfrif ei gymedrolder, ei onestrwydd, ei gymwynasgarwch, a llawer o rinweddau eraill y disgleiriai ynddynt. Ond yr oedd un brycheuyn hyll ar ei nodweddiad. Swm yr anerchiad a wnaed gan genad Crist uwch ei ben yn ei amdo yw hyn: Anwyl gymydogion, wedi i ni ddyfod yma i dalu teyrnged o barch i goffadwriaeth ein diweddar gyfaill, ac i anog y naill y llall i efelychu yr hyn oedd ganmoladwy ynddo, peidiwn, O peidiwn hefyd ag anghofio iddo lynu hyd ei ddiwedd mewn un arferiad dra phechadurus, ag y

dywed y Mawrhydi Dwyfol yn bendant na chyfiawnha y neb fyddo euog o hono : *Yr oedd ein cyfaill yn rhewr ofnadwy!* Gostyngodd Mr. Greeley ei ben, fel plentyn tan y wialen yn yr ysgol—cochodd hyd ei glustiau ; ond nid ynganodd air.

Ped ymddangosai y gonestrwydd a nodweddaï ymddygiad y brodyr ffyddlon y cyfeiriwyd atynt uchod yn amlycach yn mywgraffyddiaeth yr eglwys yn yr oes hon, diau yr atebai lawer gwell dyben nag y mae yn ei wneyd. Dylem astudio yn fwy trwyadl y cynlluniau a roddwyd i ni yn yr Ysgrythyr gan Yspryd y Gwirionedd, a chydymffurfio yn fanylach â hwynt. Dengys y rhai hyny y mynai Duw i ni ddysgu gwyliadwriaeth oddiwrth golliadau ei saint, yn gystal a pharch i ddaioni a phurdeb oddiwrth eu rhinweddau dysglaer. Er mwyn hyny y mae y naill wedi eu gosod ar gyfer y lleill yn y braslinelliadau sydd genym o fywydau yr henuriaid, y rhai trwy ffydd a gawsant air da. Ni fabwysiadwyd un ystrw i guddio y creithiau yn ngwyneb Noah na Lot. Mae ystaeniadau gwisgoedd Dafydd a Solomon mor gyhoeddus ag ydyw harddwch y rhanau eraill o honynt.

Rhaid addef mai prin y gwnawn ni chwareu teg weithiau yn ein beirniadaethau, hyd yn nod â chymeriadau patriarchiaid, a rhai cyfiawn y Llyfr Santaidd. Tan ddylanwad rhyw fath o deimlad gorbarchus tuag atynt, temtir ni i ymgymeryd a gwellhau gwaith yr Anffael-edig arnynt, trwy guddio ynddynt yr anmherffeithderau oedd yn nglyn â hwynt, neu y pechodau y syrthiasant iddynt, a'u cyfiwno i sylw y byd fel angylion Duw, heb arnynt frycheuyn na chrychni. Nid ydym i'n canmol am hyn. Edrycha y Goruchaf yn eiddigus ar bob ymryiad o'n heiddo i'r fath bwrpas. Ac ni theimla ysprydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd eu hunain ychwaith yn ddiolchgar i ni am ddysgu i ddynion synied yn uwch am danynt yma nag yr haeddent.

Yr hyn a ysgrifenyddyd am danynt dan gyfarwyddyd Ysprydoliaeth Duw, er addysg i ni yr ysgrifenyddyd ef—i fod yn esiampl a chymhelliad cryf i ni i bob gweithred dda. Ond tuedd uniongyrchol y caboliadau arwynebol

o honynt, gan lawer o esponwyr, ydyw rhwystro yr amcan teilwng hwnw, trwy beri i ni edrych arnynt fel bodau o uwch bonedd na ni, o ragorach manteision, a helaethach breintiau; ac o ganlyniad, yn gyfryw o ran eu ffydd, eu gobaith, eu cariad, eu santeiddrwydd, a helaethder eu defnyddioldeb, nad ellir dysgwyl i neb yn awr ddyfod i fyny gyda hwynt yn yr ystyron hyny. Os bydd argraff fel yna ar ein calonau mewn perthynas iddynt, diau na theimlwn lawer o awydd ceisio sangu yn ol eu traed. Ystyrir ef yn hytrach yn rhyfyg ar unrhyw ddyn i ymgyrhaedd at feddu y fath ffydd, amynedd, a sel eiriasog ag oedd gan Abraham, Job, ac Elias. I'r cyfeiliornad hwn y dylid priodoli i raddau mawr fychander cynydd proffeswyr crefydd mewn gras, ac yn ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist. Gorchymynir ni i feddwl am y cyfryw, ac i ddilyn eu ffydd, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad; i ystyried y perffaith, ac edrych ar yr uniawn, canys diwedd y gwr hwnw a fydd tangnefedd; i gofio beth oedd eu sefyllfa yn ystod eu prawf, lluosogrwydd a mawredd rhwystrau eu gyrfa, ac, er hyny, mor ffyddlon fuont, mor deced yr ymdrechasant, mor helaeth oedd eu mynediad i mewn i lawenydd y nef, ac mor ogoneddus a dedwydd eu hystâd yn awr—"fel na byddom fusgrell, eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy ffydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion."

Ni buasai yn rhesymol ein cymell i hyny pe buasent y fath fodau ag y byddwn ni weithiau yn dychymygu ac yn siarad am danynt. Mae cyfiawnder yr apeliad yna atom yn gorphwys ar y ffaith nad oeddynt wrth naturiaeth amgen na ninau. Perthynent i'r un teulu a ninau. Nid allasant, mwy na ninau, wadu eu haniad o'r hen Adda. Dygasant ddelw y daearol yr un ffunud a ninau. Naddwyd hwynt o'r un graig, a chloddwyd hwynt o'r un ffos a ninau. O'r pridd y cwymerwyd hwynt o ran eu cyrff. Gelwais ar y pwll, tydi yw fy nhad, ebe Job, ac ar y pryf, fy mam a'm chwaer wyt. Ni honent, ac ni honir gan neb arall yn yr Oracl Ddwyfol ar eu rhan ychwaith, eu bod yn uwchraddol i

ni. Yno rhwymir hwynt gydag eraill yn euogrwydd a thrallodion y cwmp. Cydgauwyd hwynt a ninau tan bechod. Rhodient gynt yn ol helynt y byd hwn, yn ol tywysog llywodraeth yr awyr, yr yspryd sydd yr awrhon yn gweithio yn mhlant anufudd-dod. Yn mysg y rhai hefyd y bu ein hymarweddiad ni oll gynt, yn chwantau ein cnawd, gan wneuthur ewyllysiau y cnawd a'r meddyliau; ac yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint megys eraill.

Yn awr, dyma ein dadl, ac yn hyn y mae ei grym: Os ydyw hynyna yn wir, nid yn unig am dadau parchus ac ymroddol a adwaenem, ac y cawsom y fraint o'u cymdeithas am dymor, ond hefyd am brophwydi yr Hen Destament, ac apostolion y Newydd; os oedd anian lygredig yn Enoch; os oedd gan Moses galon ddrwg; os oedd deddf yn aelodau Samuel a wrthryfelai yn erbyn deddf ei feddwl; os oedd Esaiah, Daniel, ac Ioan yn amblygedig gyda'r "llawer" yn nghanlyniadau andwyol anufudd-dod y dyn cyntaf, ac iddynt er hyny gyrhaedd y fath enwogrwydd mewn grasusau, a dringo i gymaint ffafr gyda'r Arglwydd—*P'am lai ninau?* Os ydym yn yr un dosparth a hwythau yn nechreud cwrs ein haddysgiad, pa esgusawd a'n cyfiawnha os byddwn yn mhell iawn islaw iddynt yn ei derfyniad? Dichell o eiddo y diafol i drymhau ein meddyliau a pharlysu ein breichiau, a'n cadw rhag ymadferthu yn ddyladwy i wasanaethu Duw a'n cenedlaeth, ydyw argraffu ar ein meddyliau nad allwn ni fod mor ddefnyddiol a'n brodyr sydd wedi cyrhaedd yr orphwysfa. Pe cynysgaeddesid hwynt â naturiaeth angylion, buasai rhyw sail i'r casgliad yna. Ond ni wnaed. "Elias oedd ddyn," yn rhaid iddo ddyoddef fel ninau; eto daeth yn feddianol ar gymaint dylanwad yn Llys y Nef fel yr ymddiriedwyd iddo allwedd ystafell y gwlaw. Joshua oedd ddyn, ac er hyny efe a wnaeth orchestgamp nad allasai y meintonydd enwog o Syracuse ei gyflawni gyda'i drosol, pe cawsai le i'w roddi i lawr. Dynion ydym ninau, yn gorfod goddef fel chwithau, ac yn pregethu i chwi ar i chwi droi oddiwrth y pethau gweigion yma at Dduw

byw, ebe Paul a Barnabas wrth eu gwrandawyr yn Lystra. Ond, er eu gwendid a'u dyoddefiadau, buont offerynol yn llaw eu Meistr i ddychwelyd miloedd oddiwrth baganiaeth, a'u cadw i fywyd tragwyddol.

Dengys y dyfyniadau blaenorol fod pwys mawr yn cael ei roddi yn Nghredo yr Apostolion ar *ddyndod* y duwiolion, yn gystal ag ar Dduwdod y Ceidwad—nad oes mwy sail ynddo i amldduwiaeth y Pagan, ac isdduwiaeth ganonyddol y Pabydd, nac i undodiaeth y Sosin; a'i fod yn dysgu am y rhai goraf a weinyddant mewn pethau cysegredig wrth allorau yr eglwys, eu bod, fel eu brodyr yn gyffredin, wedi eu hamgylchu â gwendid, mor blaened ag y darhona fod ei Goruchaf Ben, er wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninau, yn berffaith ddihalog a didoledig oddiwrth bechaduriaid. Ond nid i waradwyddo y saint y gwneir hyny, a'u gosod yn gân i ynyfdion; eithr fel yr ymddangosai gras Duw yn eglurach yn santeiddiad eu natur, a'i allu godidog yn eu gwasanaeth helaeth i'r byd—"er siampl i'r rhai a gredant rhagllaw ynddo Ef i fywyd tragwyddol."

Fe gesglir weithiau, oddiwrth ein syniadau datganedig yma, mai ein dealldwriaeth wrth ymgymeryd a dwyn allan gofiant yr henadur llafurus o Radnor oedd, y dysgwyliad iddo fod mor gywir i'w wrthrych ag y gallem, gyda'n hadnabyddiaeth bersonol a hanesiol o hono, ei wneyd; ac nid, o angenrheidrwydd, yn ganmoliaeth annosbarthol a digymysg o bobpeth ynddo. Os na bydd felly, gwyddom y delir ni yn gyfrifol gan y cyhoedd diragfarn am bechu yn ngwyneb goleuni, ac am beidio a gwneyd fel y dywedem y dylesid gwneyd. Ni theimlwn ei bod yn ddiogel i ni addaw llawer; eto ymrwymwn wrth ddechreu arno i geisio, hyd eithaf ein gallu, ei wneyd yn gystal cynrychioliad o deithi ei feddwl, a'i ymarweddiad Cristionogol a gweinidogaethol ag ydyw y gwawl-lun ar y rhagddalen o ddelweddau ei wynebpryd, fel ag y mae miloedd yn ei gofio tua diwedd ei yrfa yn Nghymru, a'i ddechreuad yn yr Unol Daleithau.

COFIANT.

ADRAN I.

Y PLENTYN—Y BACHGEN, A'R ADRODDWR PENODAU—
 "BETH FYDD Y BACHGENYN HWN?"

Hyd y gallwn ddeall, ganwyd gwrthddrych y cofiant hwn ar y laf o Ionawr, 1796, mewn lle o'r enw Brynmoelddu, yn agos i Troedrhiwdalar, swydd Frycheiniog, D. C. Enwai ei rieni oeddynt Isaac a Sarah Davies. Buont yn trigianu am lawer o flynyddoedd yn y tydd yn uchod. Rhoddasant eu hunain yn foreu i'r Arglwydd, a buont am ychwaneg na haner can' mlynedd yn aelodau o eglwys Crist, ac ystyrid hwynt fel yn rhagori ar y cyffredin mewn duwioldeb.

Saer maen oedd ei dad wrth ei alwedigaeth. Pan oedd y bachgen James tua chwe' mlwydd oed, symudasant i ardal Llangattwg, Brycheiniog, ac oddiyno yn ddilynol i gymydogeaethau Kendle a Merthyr Tydfil. Cyn ei fod yn llawn un-arddeg oed, gogwyddwyd ei feddwl at grefydd, a thueddwyd ef i ymofyn am le yn nhy, ac enw gyda phobl Dduw yn Soar, Merthyr, tan weinidogaeth y Parch. Daniel Lewis. Bu ei dad yn un o ddiaciaoniaid yr hen eglwys enwog hono am dymor maith. Yn ystod eu harosiad yno daeth cystudd trwm i'r teulu. Cymerwyd ei dad yn glaf, a throes ei glefyd allan mor beryglus fel nad oedd ganddynt am dymor ond gobeithion gweiniaid am ei adferiad. Yn y cyfamsr, daeth ewythr iddo, brawd ei dad, o gymydogeaeth Llanwrtyd i edrych am danynt. Pan ddychwelodd, efe a gymerodd ei nai, James, adref gydag ef, lle yr arosodd wedi hyny tros ysbaid pum' mlynedd.

Gellir nodi yr amgylchiad hwnw fel dechreuad cyf-

nod pwysig iawn yn ei hanes. Gan fod ei cwythr yn ddyn crefyddol, rhoddai iddo gymhellion beunyddiol i drysori cymaint ag a fedrai o'r Beibl yn ei gof; ac, ymddengys, na warafunai iddo ychwaith yr amser a gysegrai at hyny. Felly, tan gronglwyd hwnw yn Llwyn-y-gweision, y dadblygwyd ei allu rhyfeddol i gofio a ddarllenai, yr hyn a'i gwnaeth yn un o'r ysgrythyryr parotaf a chadarnaf hyd derfyn ei yrfa weinidogaethol. Daeth y Beibl i fod yn gydymaith cyson iddo, yn y maes ac ar y mynydd—yn y ty a'r ysgubor. Rhwymai ef megys ar ei galon; cylymai ef am ei wddf yn wastadol. Efe oedd ei arweinydd ar y ffordd; pan orweddaï, odid na byddai Testament tan ei obenydd; a phan ddeffroai, cydymddyddanai ag ef. Dywedir iddo adrodd penod bob Sabboth ond un o'r pum' mlynedd y bu yn aros ger Llanwrtyd, yn nghapel y Trefnyddion Calvinaidd, yr hwn a safai o fewn lled tri chae i'w gartref. Yr oedd ganddo agos i dair milldir i fyned i foddion at yr Annibynwyr, lle yr oedd ei gefnder—y diweddar Barch. D. Williams—yn gweinidogaethu. Er ei fod wedi myned i'r gyfeillach er's wyth mis cyn ymadael o Ferthyr, eto yn Llanwrtyd y derbyniwyd ef yn gyflawn aelod, ar unwaith a thri-arddeg eraill, yn mhen oddeutu dwy flynedd wedi ei symudiad yno, a phan ydoedd weithian tua thair-arddeg oed.

Nid oedd Ysgol Sabbothol gan y Trefnyddion Calvinaidd yn y Gorwydd, lle yr arferai efe adrodd penodau, pan aeth ef gyntaf i'r ardal. Ond yn fuan wedi y danganyddiad o'i fedrusrwydd darlleniadol, a'i ymroddgarwch i chwilio yr Ysgrythyrau, apeliodd hen felinydd duwiol o'r ardal, yr-hwn oedd aelod o eglwys y Methodistiaid, ato am ei gynorthwy i ddechreu dysgu ychydig o blant yr amgylchoedd hyny i ddarllen. Ac er nad ydoedd fawr ond plentyn ei hunan, cydunodd yn ebrwydd a'r gais, ac ymroddodd yn galonog at y gorchwyl. Profodd y dechreuad bychan hwnw yn fendith barhaus ac annhraethadwy werthfawr i'r lle. Nid yw y fechan hono eto wedi dod yn *fil*. Ond hysbyswyd ni ei bod

er's llawer o flynyddoedd bellach yn rhifo tros bum' cant! *Na ddiystyrer dydd y pethau bychain.* Mae y gronyn had mwstard, er y lleiaf o'r holl hadau, yn dod mewn amser yn bren uchel a llydan ei frig, ac adar y nefoedd yn nythu yn ei gangenau; yr ychydig lefain yn nawseiddio y badellaid flawd, ac yn gweithio y clamp toes; a'r ffrydiau bychain, mynyddig, yn rhoddi bodolaeth i afonydd mwyaf y byd. Felly hefyd yn nglyn a symudiadau diwygiadol, gwladol, moesol, a chrefyddol. Mae y ffyniant helaeth sydd wedi dilyn ymdrechïadau cenhadol yr hen felinydd, a'r crwtyn, James Davies, o amgylch y Gorwydd, uwchlaw tri ugain mlynedd yn ol, yn brawf mor ddiymwad o hyn ag ydyw y llwyddiant helaethach, â pha un y coronwyd llafur un arall o'n cydwladwyr, mewn cysylltiad â'r Gymdeithas Feiblaidd. Er, yn wir, mewn cyferbyniad i hwnw, nad ellir ei ystyried ond megys cornant wrth y Mississippi; eto fe wasanaetha ein pwrpas ni yma yn llawn cystal a hwnw, i argraffu 'ar feddwl y darlennydd y ffaith—os bydd yr achos *yn dda*, neu oddi uchod, na ddylid petruso parthed ei gynydd.

ADRAN II.

Y LLANC, Y PREGETHWR, A'R EFRYDYDD.

Wedi gwneyd pob ymchwiliad a allem gyda'i berthynasau a'i gyfeillion mwyaf mynwesol, ni lwyddasom i gael ond ychydig iawn o hanes Mr. Davies yn y cyfnod neillduedig i'r adran hon. Dan amgylchiadau gwaahanol i'r rhai y gosodwyd ef ynddynt yn moreu ei oes, dysgwylïasem glywed fod un o'i dymer wresog, a'i fywiogrwydd diorphwys ef yn arweinydd yn chwareuyddiaethau bachgenaid ei ddydd—yn gadben un o'r pleidiau gyda'r bêl, ac yn gwisgo y *belt* fel y curwr *bandi* goraf yn y fro. Ond ymddengys fod ei addysg yn y c&au diniwed, a llesiol hyny yn eu lle, wedi ei llwyr esgeuluso. Cafodd felly gam dybryd. Buasai yn well

ambell dro ei anfon allan i goetio, na'i gadw yn y ty i ddysgu penodau. Yspeiliwyd ef o bleserau cyfreithlon ac angenrheidiol mebyd ac ieuencyd, ac effeithiodd hyny yn niweidiol ar ei holl fywyd. Ni bu ganddo, wedi dyfod yn wr ac yn benteulu, o herwydd hyny, y cydymdeimlad a ddylasai feddu gyda difyrion plant. Tueddai gartref, ac yn yr eglwys, i gario dysgyblaeth yn erbyn pethau o'r fath i eithafoedd gormodol, i sicrhau y mwyniant helaethaf, a'r daioni yr awyddus ymgyrhaeddai ato. Gwnaem yn dda gymeryd addysg oddiwrth ei gamgymeriad ef ac eraill yn y peth hwn, a pheidio ag ychwanegu at iau esmwyth, a baich ysgafn yr Iesu, bethau trymion, enynol, a diangenrhaid.

Pan tuag un-ar-bymtheg oed, cymeryd ef oddiwrth ei ewythr at ei dad, i ddysgu celfyddyd saer maen. Tybed fod hyny wedi ei drefnu i fod yn rhan o'i ddysgyblaeth at adeiladu addoldai, am yr hyn y saif ar ei ben ei hun yn mysg ei frodyr yn y weinidogaeth? Pa gynydd a wnaeth yn yr alwedigaeth hono nis gwyddom. Ni ddaliodd ati yn hir; ond derbyniodd gymhellion, oddiwrth eglwys Llanwrtyd a'i gweinidog, i ddechreu arfer ei ddawn yn gyhoeddus, cyn ei fod yn llawn dwyar-bymtheg oed, sef yn Medi, 1812. A derbyniwyd ef i Athrofa Gwrexham yn mhen tua deunaw mis yn ddilynol i hyny. Yn absenoldeb tystiolaethau i'r gwrthwyneb, yr ydym yn casglu *na ragorodd* fel saer maen. Efe a ymroes at bregethu yr efengyl fel nôd ei fywyd. Dyna oedd yr un *idea* oedd wedi cymeryd meddiant o hono, ac a ddug bobpeth a berthynai iddo tan deyrnged iddi ei hun. Ffolineb ynte oedd ceisio gwneyd dim ond pregethwr o hono, nac o neb arall a'r fath yspryd wedi disgyn arno. Eto cyndyn ymdrechir at hyny yn aml. Hysbyswyd ni o sampl felly, pan oeddym mewn Ysgol Ragbarotoawl yn Templeton, swydd Benfro—lle y ceisiasai rhieni wneyd crydd o'u mab, oedd wedi ei neillduo o'r groth i'r weinidogaeth efengylaidd. Bu gyda'i feistr am dymor—ddigon o hyd i wneyd un esgid, ryw lun; ond gadawodd cyn gorphen y llall, ac am a wyddom fod hono heb ei chymares hyd heddyw. Ond er iddo droi

allan yn fethiant fel archenydd, *daeth* Caleb Morris i fod yn un o addurniadau penaf yr areithfa gysegredig yn Llundain! Gwyddom am engraifft arall yn y Gogledd, ag yr amcanwyd gwneyd cyfreithiwr o un cyffelyb. Ond yr oedd cymaint o gariad Crist wedi ei dywallt yn nghalon Evans Bach, Abernaw, fel na fynai wasanaethu ond wrth allor ei eglwys Ef.

Felly Mr. Davies. Er iddo aros gyda'i dad y rhan fwyaf o ddwy flynedd, credwn na chafodd crefft ei dad ond ychydig o'i sylw yn y cyfamser. Chwilota am lyfrau y byddai, a'u bwyta fel y ca'i hyd iddynt. Traflyncasai Gorff Duwinyddiaeth George Lewis cyn myned i'r Coleg, gan feddwl ond odid y byddai hyny yn gymeradwyaeth gref iddo i ffafr gyda'r awdwr, ac yn ddigon i sicrhau ei dderbyniad i'r sefydliad. Ar y Pasg, 1814, cafodd ddrws agored i fyned i'r Athrofa. Ni chwasai ond ychydig fisoedd o ysgol yn flaenorol. Eto ystyriai ei hun yn globyn o ddyn, gyda chymaint o dduwinyddiaeth iach, a chyfundrefnus yn ei gof—yn gymwys yn mron i eistedd yn *nghadair* yr athraw yn hytrach nac wrth ei ystol droed ef. A chan ei fod gyda hyny yn ymadroddus, wedi bod yn pregethu eisoes am ddwy flynedd (!) yn yr eglwysi cylchynol i'w gartref, a hyd yn nod yn nghwmni rhai o'r tadau ar deithiau pellach yn efengylu, braidd na feddyliasai y buasai yn llawn mor ddoethed iddo dderbyn galwad oddiwrth eglwys cyn myned trwy gwrs addysgol ag wedi hyny. Meithrinwyd y syniad hunandybus hwn ynddo gan eraill. Dyma fel yr ysgrifena ei hun ar y mater—"Ceisiodd llawer fy mherswadio i beidio a myned i Wrexham i *ddysgu balchder*, fy mod yn ddigon o ysgolhaig; a buont agos a llwyddo i'm troi oddiwrth fy mwriad. Eto myned a wnaethym, *gan feddwl beth bynag fy mod yn go wych*. Ond ni bum yno fis cyn deall na wyddwn ddim, a'm bod yn llai na'r lleiaf o'r efrydwyr i gyd. Dechreuasant dori ymaith fy hen geinciau anhylaw y naill ar ol y llall—nodi allan fy niffygion, a chwerthin am ben fy ffaelecteddau, nes o'r bron tori fy nghalon, a pheri i mi droi yn ol tuag adref. Daethum i ddeall cyn

bod yn gwr yd lles i mi er hyny; yna pa fwyaf ent arnaf, mwyaf yn y byd y carwn hwynt. Bum ddiwyd i fyfyrto, o herwydd fy mod gymaint yn uch yn ol nag un o honynt. Ac wedi bod yno tu blwyddyn, yr oeddwn yn gweled gwerth, ac yn brisio y fraint a gefais yn fy nerbyniad i'r coleg, ymhyfrydu fwy fwy mewn dysgeidiaeth."

yno am bedair blynedd, dwy yn yr Ysgol Ragawl a dwy yn yr Athrofa. Anfonid y myfyrwyr a thraw i bregethu ar y Sabbothau. Yr oedd mawr am eu gwasanaeth yn y Gogledd—y cynyn fawr, y meusydd yn addfed i'r cryman, a'r wyr yn anaml. A chan, yn fwyaf cyffredin, mai tlodion y byd hwn yr oedd meibion y prophwydi, rhaid a ddodasid arnynt hwythau i dderbyn pob ddiad a gaent, er mwyn cael bara a dwfr—dillad au. Felly yr arweiniwyd Mr. Davies i ymweled unfaircaereinion a Phenarth amryw weithiau. yd ef yn fawr gan yr eglwysi, a rhoddasant alwad n ngauaf 1818. Cyflwynodd yntau eu cais i sylw law, a dymunodd ei farn ar y priodoldeb iddo ei i. Anogodd Dr. Lewis ef i roddi heibio ar un bob meddwl am y weinidogaeth eto—ei fod yn uanc, a dibrofiad, a chanddo ddwy flynedd yn neg cyn gorphen ei gwrs yn y coleg. Cyngor yn ddiau, a roddwyd i lawer efrydydd heblaw ef, oddwyd yn ofer megys iddo yntau. Yn fuan ar i anfonwyd llythyr gan eglwysi Penarth a Llan- yr athraw, i daer ddymuno arno ollwng y gwr atynt, eu bod mewn mawr angen am ryw un i'w io, a'u bod yn unfrydol yn eu dewisiad o hono ef. dd y Dr. eu bod yn deall eu gilydd, ac "mai a fynent." Felly, ymddengys, i rwystro *elope-* yn gymaint a dim, efe a ddywedodd wrtho o'r d—"os oedd ef yn sefyll yn benderfynol am fyned," onai ef at y Bwrdd i Lundain i ofyn eu caniatad egid dysgwylid i bob efrydydd orphen ei dymor. eth, a chafodd eu cydsyniad i'w ollyngdod an-; Gwelodd Mr. D. ei gamsyniad ei hun; ond,

fel eraill, pan yn rhy ddiweddar, a phryd nad oedd lle i edifeirwch, fel y dengys y difyniad canlynol o lythyr iddo—"Yr oeddwn yn llawn awydd at y weinidogaeth, heb feddwl ond ychydig beth oeddwn yn ei wneyd. Collais yn fawr o eisiau gwneyd cyngor fy hen athraw parchus. Pe buaswn yn aros fy amser allan yn yr Athrofa, buasai yn fantais fawr i mi, ac yn help i'm defnyddioldeb yn y dyfodol, gan fod dysgeidiaeth mor angenrheidiol i gyflawniad o honi. A'm cyngor i bob brawd ieuanc sydd a'i olwg arni yw—*i ymgyrhaedd ei oraf am ddysgeidiaeth, ac a'i holl gyfoeth i geisio deall.* Bydd o wasanaeth gwerthfawr, ac yn llawforwyn hylaw yn iawn gyfraniad Gair y Gwirionedd."

Dechreuodd lafurio yn Llanfair tua'r Pasg, 1818. Ond cyn llawn sefydlu yno, aeth i ymweled a'i ardal enedigol, ac ar daith i Ferthyr Tydfil. Bu yn pregethu yn Soar, lle yr aethai gyntaf at grefydd. Cafodd wahoddiad taer i sefydlu yno; ond gwrthododd, tan ddyllanwad argyhoeddiad ei fod yn rhy fachgenaidd i gymeryd gofaleglwys mor luosog, a bod y maes bychan arall yn cyfateb yn well i'w dalent a'i oedran ef nag un o gynulleidfaoedd mwyaf y ddinas boblog ac anuwiol hono. Dychwelodd i Lanfair, ac ordeiniwyd ef yn mis Awst dilynol. Mae genym yn awr yr hyfrydwch i roddi lle i'r ffyddlonaf o'i gyfeillion, a'r cyfaddasaf o'i frodyr yn y weinidogaeth mewn un wlad, ar gyfrif eu perthynas *agos yn hir, a chariadus bob amser*—Y PARCH. R. D. THOMAS (*Iorthryn Gwynedd*)—i roddi adroddiad o'i lafur dihafal tros un-mlynedd-ar-ddeg-ar-hugain yn Llanfair a'r amgylchoedd.

ADRAN III.

Y PARCH. JAMES DAVIES YN LLANFAIRCAEREINION.

GAN Y PARCH. R. D. THOMAS (IORTHRYN GWYNEDD).

Ar daer ddymuniad fy anwyl gyfaill, y Parch. G. Griffiths, Cincinnati, Ohio, ac o barch diffuant i goffadwriaeth fy hen gyfaill ffyddlon, sydd yn gorwedd yn ei

ddystaw fedd yn Radnor, Ohio, er ys dros ddwy flynedd bellach, yr wyf yn ysgrifenu cynwysiad y benod hon. Mae ei hanes wedi ei ysgrifenu genyf yn gywir a chyflawn, yn Knoxville, Tennessee. Nid yw y defnyddiau hynny wrth law genyf yn awr, (Gor. 2, 1875), pan ar ymweliad a'm cyfeillion yn Columbus, Ohio. Mae hynny yn anfantais fawr i mi. Ond gan fod Mr. Griffiths, ysgrifenydd galluog y cofiant, yn ngydag ereill, yn barnu, 'na bydd, ac nas gall cofiant *Davies, Llanfair*, fod yn agos yr hyn a ddylai fod, pe cyfansoddid. ef gan yr awdwr galluocaf, heb benod gan ei hen gyfaill, a'i ffyddlon gydlafurwr am gynifer o flyneddau yn Mhenarth—y brawd I. G.”—a bod rheidwydd am anfon yr holl ysgrifau i'r argraffydd yn ddioed, ymdrechais ysgrifenu y llinellau canlynol, mor gywir ag y gallaswn, trwy adgofion am dano.

1. *Maes ei lafur yn Nghymru.*—Adnabyddid ef yn Sir Drefaldwyn, ac yn Ngogledd a Deheudir Cymru, a chan filoedd yn America, wrth yr enw—“Davies o Llanfaircaereinion” am mai yn y plwyf mawr, amaethyddol hwnw y bu byw, ac y llafuriodd yn egniol dros ei Waredwr, am dros dri deg o flyneddau. Tref fasnachol fechan oedd, ac ydyw Llanfair, o fewn 7 milldir i'r Trallwm, 12 m. i Lanfyllin, a 10 m. i'r Drefnewydd. Gwlad goediog a bryniog ydyw; ond iachus a hyfryd. Yn fuan ar ol ei ddyfodiad yno, helaethodd ef faes ei afur gweinidogaethol i'r plwyfau cyfagos, sef Manavon, Llanwyddelan, Llanlligan, Berriew, Llangynin, a Chasellcaereinion.

2. *Ei Gynlafurwyr.*—Bu hen weinidogion duwiol yr eglwysi Annibynol yn Llanbryn-mair a Lanfyllin, sef Lewis Rees, Abraham Tibbot, John Roberts, ac eraill, yn pregethu llawer, ar eu hymweliadau achlysurol, mewn gwahanol aneddau, yn mhlwyfau Llanwyddelan a Llanfair; a bendithiodd Duw eu hymdrechion er mill llawer o eneidiau at y Gwaredwr, a gwneyd arddeliad cyhoeddus o hono. Cydaddolent â'r Trefnyddion Calfinaidd am flyneddau yn mhlwyf Llanwyddelan, cyn adeiladu capel Penarth, yn mhlwyf Llan-

faircaereinion. Trwy gyngor yr anfarwol Jones o Llangan, D. C., yr hwn a arferai bregethu yn achlysurol yno, adeiladodd y T. C. gapel yr Adfa, yn mhlwyf Llanwyddelan, lle mae ganddynt eglwys lewyrchus eto. Wedi hyny, ymneillduodd yr Annibynwyr oddiwrthynt a chynaliënt eu cyfeillachau crefyddol, a'u cyfarfodydd cyhoeddus, mewn ty anedd o'r enw "Wttra Wen," yn mhlwyf Llanfair, lle y buont yn addoli am flyneddau; wedi hyny, trwy gynorthwy haelionus William Tibbot, o'r Ty Croes, adeiladasant gapel Penarth, tua'r flwyddyn 1790. Rhoddodd y gwr dauwiol hwnw dair neu bedair erw o dir iddynt, a llawer o ddefnyddiau, yn rhad; a gweithiodd lawer ar y capel a'i ddwyllaw ei hunan am ddim, o gariad at y Gwardwr a'i achos. Dyna esiampl deilwng o efelychiad. Dyna y capel cyntaf a adeiladwyd gan yr Annibynwyr yn mhlwyf Llanfaircaereinion, Maldwyn, G. C. Pregethwyd llawer ynddo gan weinidogion Llanbrynmair a Llanfyllin, a chan y ffyddlon Dafydd Richards, o Ty'nyfawnog, yr hwn wedi hyny a urddwyd yn weinidog sefydlog yn nghapel y "Sarnau," yn Maldwyn, lle y bu farw, ac y claddwyd ef. Bu llwyddiant mawr ar yr eglwys yn Penarth. Credwyf mai y gweinidog sefydlog cyntaf a fu yno oedd y Parch. James Davies, o Aberhafes, neu Bwlchyffridd, ger y Drefnewydd; ac mai yn ei amser ef y dechreuwyd pregethu mewn ystafell fechan yn nhref Llanfair. Yr oedd eglwysi Penarth a Bwlchyffridd dan ei ofal ef. Clywais ei fod ef yn foneddwr dysgedig, yn weinidog ffyddlon, ac yn bregethwr effeithiol. Llafuriodd yn dra llwyddianus yn y lleoedd uchod am tua deng mlynedd. Wedi hyny rhoddodd ofal yr eglwysi i fyny, a bu am ychydig amser yn cadw ysgol ddyddiol yn y Drefnewydd; a thua'r flwyddyn 1817, ymfudodd i America; bu yn gweinidogaethu mewn gwahanol fanau, gyda'r Cymry a'r Americanaid, yn nhalaethau Efrog Newydd ac Ohio; ac yn mhen blyneddau lawer, wedi myned trwy lawer o brofedigaethau, bu farw, a chladdwyd ef yn rhywle yn agos i Radnor, Delaware Co., Ohio. Onid oedd yn deilwng i gael careg ar ei fedd? Carem wybod

ei hanes yn fanylach. Paham y mae yr eglwysi Cymreig yn America mor ddibarch i goffadwriaeth ei hen weinidogion ffyddlon? Nid yw y ddiareb hon yn wir —“ Os myn glod, bydded farw.”

3. *Ei Sefydliad Cyntaf*.—Y tro cyntaf y pregethodd yn nghapel Penarth, Llanfair, oedd tua'r flwyddyn 1814, pan ar ymweliad â'r-Gogledd gyda y Parch. Methusalem Jones, Bethesda, Merthyr, D. C. Clywais fod Jones yn ddyn *tal iawn*; a bod J. Davies, y pryd hyny, yn fachgen ieuanc gwridgoch a bywiog; ac am ei fod, fel Zaccheus gynt, yn “fychan o gorpholaeth,” gorfu iddynt roddi dwy gareg fawr dan ei draed yn y pwlpudd cyn y gallai y gwrandawyr ar lawr y capel ei weled. Tynodd y dyn *tal*, a'r bachgen *bychan*, sylw mawr, a phregethasant yn effeithiol. Bu y bachgen gwridgoch hwnw wedi hyny yn derbyn addysg am flyneddau yn yr Athrofa Annibynol yn Llanfyllin, dan ofal yr enwog Dr. George Lewis. Meddyliodd eglwysi Penarth a Llanfair, unwaith, am roddi galwad i Wm. Jones, o'r Bala (wed'yn Jones, Penybontarogwy); ond barnasant nad oedd ei iechyd yn ddigon da i' ddal caledwaith y weinidogaeth yn ardaloedd uchel plwyf Llanfair. Nid anghofiasant bregeth gyntaf, effeithiol, y bachgen gwridgoch; galwasant am dano o'r Athrofa yn aml yno i bregethu; a chredasant fod Duw wedi ei gymhwyso ef, o ran corff ac enaid, i fod yn ddefnyddiol yn eu plith; a rhoddasant alwad unfrydol iddo i gymeryd eu gofal gweinidogaethol. Cydsyniodd yntau. Ymaflodd yn ei waith o ddifrif; a thynodd sylw cyffredinol. Credwyf nad oedd capel gan yr Annibynwyr yn nhref Llanfair y pryd hyny—dim ond ystafell, lle yr arferent gadw moddion gras er ys blyneddau; a chlywais fod hen eglwys Penarth wedi cydsynio a'r aelodau oedd yn byw yn Llanfair iddo gael ei urddo yn yr ystafell hono, Awst 22 a 23, 1818, a bod yr hen weinidogion parchus canlynol yn gweinyddu yn ei sefydliad, sef Dr. George Lewis, Llanfyllin; Wm. Williams, Llanwrtyd; John Roberts, Llanbryn-mair; Wm. Jones, Penybontarogwy, D. C.; a Robert Everett, Dinbych, (wedi hyny Dr.

Everett, Gol. y *Cenhadwr*). Dyna yr *ordination* gyntaf yn Llanfaircaereinion. Arferai bregethu, y pryd hyny, yn Penarth am 2 o'r gloch, ac yn Llanfair am 6, ac mewn gwahanol aneddau yn y plwyf am 10, ar y Sabbothau; a bu yn llwyddianus iawn. Yn fuan ar ol ei sefydliad yno, penderfynodd yr eglwysi dan ei ofal adeiladu capel yn Top Llan, Llanfair. Cawsant dir yn rhad gan Griffith Evans, Glover. Nid oedd ond capel bychan, diaddurn, ac annhrefnus; ond bu y draul o'i adeiladu yn agos i bedwar cant o bunau (£400)! Gwnaeth yr eglwysi a'r cynulleidfaoedd eu goreu i leihau y ddyled; ond nid oedd eu nifer ond ychydig, ac yr oedd amgylchiadau y rhan fwyaf o honynt yn isel. Llafurwyr a chrefftwyr oedd eu mwyafrif, ond yr oedd yn eu plith ychydig o dyddynwyr cyfrifol. Yr oedd gweddill y ddyled ar y capel yn drwm iawn arnynt—£300. Teithiodd Mr. Davies lawer trwy Gymru a Lloegr i gasglu arian er talu y ddyled. Llafuriodd yn galed, heb ond ychydig o dâl na diolch. Ond bu yn llwyddianus. Casglwr medrus oedd. Yr oedd y pryd hyny yn ddyn ieuanc, heb briodi, ac yn ei gyflawn nerth. Bu yn lletya gyda Joseph Richards, tyddynwr, Brynrhug, gerllaw capel Penarth, ac mewn manau eraill. Yr oedd yn cyfeillachu yn garwriaethol â merch ieuanc landeg a chyfoethog, o'r enw Miss Jones, o'r Gawres, plwyf Llanwyddelan, un o aelodau ei eglwys yn Penarth; ond yr oedd ei rhieni yn Eglwyswyr, ac yn anfoddlon iddo ef ei chael, am ei fod yn Ymneillduwr. Collodd hi pan oedd yn casglu yn Llundain! Erbyn iddo ef ddychwelyd, yr oedd hi wedi priodi â mab tyddynwr parchus o blwyf Llanrhaidr, yn Mochnant! Pan oedd yn pregethu am 2 o'r gloch yn nghapel Penarth, ar y Sabboth, daeth ei hen gariad—ei fwriadol wraig—a'i phriod, Mr. Roberts, i mewn i'r capel, ac eisteddasant yn eu *seat*, gan dynu sylw cyffredinol; a bu agos i Davies fethu pregethu. Yr oedd pawb yn cydymdeimlo âg ef yn ei brofedigaeth. Gwelodd hithau adfyd a phrofedigaethau chwerwon, er ei bod yn wraig nodedig gall a chrefyddol. Yr oedd

ei gwr yn ddynd hardd a chrefyddol ; dechreuodd fasnachu, ac aeth drwy ei holl gyfoeth yn fuan, a bu farw. Ond gofalodd Duw yn ei ragluniaeth am dani hi a'i hanwyl blant. Buasai yn llawer gwell iddi briodi Davies. Gofaled y merched ieuainc am beidio twyllo a gwneyd gwawd o genhadon ffyddlon Iesu ! Braint anrhaethol yw cael bod yn wraig ffyddlon i weinidog efengylaidd a llafurus. Ceir esboniad eglurach ar hyn yn y byd a ddaw.

4. *Ei Brofedigaethau.*—Pan oedd ef yn nghanol ei lafur a'i lwyddiant, cyn priodi, dechreuodd y gelyn genfigen, a chyfododd y storm ddisymwth, er ceisio pardduo ei gymeriad, ac atal ei lwyddiant. Yr oedd teulu cyfoethog yn byw yn nhref Llanfair, yn cynwys gweddw oedranus (ond tafodog a chyfrwys), o'r enw Mrs. —, ac yr oedd ganddi amrai o feibion a merched, wedi tyfu i fyny dros ugain mlwydd oed ; ac oll yn aelodau yn eglwys Davies yn Llanfair. Yr oedd un o'r meibion, os nad y ddau, wedi dechreu pregethu yn achlysurol yn yr eglwys hono ; a bernid eu bod yn uchelgeisiol, ac yn orawyddus am fod yn fwy cymeradwy a phoblogaidd na Davies—a bod un o'r merched yn awyddus am iddo ei charu a'i phriodi ! Ond am na lwyddasant, credir iddynt gydgyngreirio, fel teulu, i gynllunio a thaenu cablledau celwyddog yn ei erbyn, er ceisio cyrhaedd eu hamcanion eu hunain. Credodd llawer o ddynion anghrefyddol hyny, gyda rhai o aelodau yr eglwysi (ataliwyf gyhoeddi eu henwau, am y credwyf mai cael ei camarwain a gawsant) ; a chynhyrfasant heddwch, ac ataliasant gysuron y gymdeithas am fisoedd lawer. Cefnogwyd y terfysgwyr gan y pregethwyr cynorthwyol o wahanol fanau. Ond nid ymyrodd gweinidogion parchus y sir â'r achos, er fod Davies yn aelod o'u Cymanfa yn Maldwyn ; gadawsant i'w eglwysi ei hunan i ystyried a phenderfynu yr achos. Felly ymddygasant yn ddoeth, ac anrhydeddasant eu hegwyddorion a'u trefn fel Annibynwyr, yn ol yr Ysgrhythrau ; ac ataliasant i'r tân i ymdaenu, ac i derfysgu holl eglwysi yr Annibynwyr yn Maldwyn, a chreu teimladau

drwg rhwng gweinidogion ac eglwysi ffyddlon. Yr oedd digon o ddiaconiaid ac aelodau, duwiol a doeth, yn eglwysi Penarth a Llanfair y pryd hyny i drafod yr achos yn deg a diduedd; yn enwedig yr hen ddiacôn synwrygall, pwyllus, a duwiol, sef y boneddwr parchus John Jones, Ysw., o'r tyddyn a elwid y Gwnyndy, gerllaw Llanfair. Wedi ymchwiliad manwl a diduedd i'r holl gyhuddiadau a'r tystiolaethau, mewn amryw o gyfarfodydd eglwysig, penderfynodd mwyafrif mawr o aelodau yr eglwysi yn Penarth a Llanfair fod eu gweinidog ffyddlon, y Parch James Davies, yn *hollol ddieuog yn wyneb yr holl gyhuddiadau, ac mai o genfigen a malais y gwnaed y fath ymosodiad brwnt arno gan ei erlidwyr*. Daeth allan fel aur o'r ffwrnes danllyd hono. Clywais amrai o'r hen ddiaconiaid a'r aelodau yn tystiolaethu hyny. Ond dichon nad oedd Davies yn ddigon gofalus a doeth yn ei ymddygiadau a'i eiriau gyda y merched, cyn iddo briodi, ac ei fod i'w feiaw am hyny; ond profwyd fod ei gymeriad yn bur a difrycheulyd. Achosodd y terfysg hwnw lawer o siarad drwy yr holl wlad, a llawer o boen i'r eglwysi, a gofid i deimladau eu gweinidog ieuanc. Diarddelodd yr eglwysi yn Llanfair a Phenarth amrai o'r terfysgwyr, yn enwedig Mrs. W. ———, a'i meibion a'i merched, a rhai eraill; ac ymunasant â'r Bedyddwyr. Dyna ddechreuad eglwys y trochwyr yn Llanfaircaereinion. Wedi hyny cafodd yr eglwysi Annibynol yn Penarth a Llanfair lonyddwch ac undeb, a gwelodd eu gweinidog lwyddiant mawr ar yr achos. Gwell ydyw ymraniad tawel, na therfysgoedd llidiog a pharhaus, mewn eglwysi; er nad oes yr un o'r ddau yn ddymunol. Mewn byd drwg fel hwn, ac mewn eglwysi mor amherffaith, nid all na ddel rhwystrau. Yn gyffredin y terfysgwyr mewn eglwysi sydd yn cael cred a nodedd, a'u gweinidogion ffyddlon yn gorfod ymadael, wedi cael cam a dirfawr anmharch. Ond pan ddaw yr eglwysi Annibynol yn fwy goleuedig yn yr Ysgrythyrau, ac yn fwy duwiol yn eu calonau, nis gallant "oddef y rhai drwg," na pharchu terfysgwyr maleisddrwg a llidiog; ond

safant yn unol a phenderfynol o blaid eu bugeiliaid gofalus a ffyddlon.

5. *Ei Lafurion Diflino.*—Yn fuan wedi y terfysg a nodwyd, priododd Mr. J. Davies â merch ieuanc nodedig grefyddol a gweithgar, o'r enw Miss Mary Davies, aelod ffyddlon yn ei eglwys. Yr oedd ei rhieni parchus yn byw y pryd hyny mewn tyddyn bychan ffrwythlon, o'r enw Minffordd, nid yn mhell o Heniarth a chapel Jerusalem. Bu yn wraig ffyddlon iawn iddo ar hyd ei oes. Cydweithiodd ag ef yn egniol i fagu a chynnal eu teulu lluosog, ac i ledaenu achos yr Iesu. Buont fyw am flyneddau mewn tyddyn bychan o'r enw Maesycoesau, ger y Graig a Phenarth; ac wedi hyny am flyneddau mewn tyddyn mwy, o'r enw Ystrad, gerllaw Ty'nyfawnog, ar y ffordd o Lanfair i'r Cefncoch a Llanbrynmair. Gauwyd iddynt naw neu ddeg o blant anwyl yn y tyddynau uchod yn Nghymru. Yr oedd angen arnynt am gael llawer o arian at eu cynaliaeth gysurus, ac nid oedd yr eglwysi ond gweiniaid; am hyny gorfu arno ef a hithau i weithio yn galed ar eu tyddynau am flyneddau. Yr oedd hyny yn anfanteisiol iddo i ddarllen, a myfyrio, ac ysgrifenu. Collodd oriau lawer o amser ei gysgu, er mwyn hyny. Beiid ef gan rai am fod yn *rhyfydol*; a dichon mai hyny, yn mhen blyneddau, a ddaeth yn brif fai ynddo; ond ar y cyntaf, ac wedi hyny am flyneddau yn Nghymru, *gorfodwyd ef a'i briod i weithio yn galed*, er mwyn cynaliaeth eu teulu lluosog. Dylasai yr eglwysi yn Nghymru, ac yn America, gyfranu llawer mwy o arian at gynnal ei deulu, a llwyddiant ei weinidogaeth. Oni bae iddo gael ei orfodi i "ymrwystro â negesau y bywyd hwn," gallasai "Davies Llanfair" fod yn llenor mwy medrus, ac yn bregethwr mwy coethedig. Ond er yr holl anfanteision a'r rhwystrau a gafodd, ymroddodd â'i holl galon, trwy lafur mawr a lludded, i gyflawni yn ffyddlon ei holl ddyledswyddau, yn holl gylchoedd ei weinidogaeth eang. Addaswyd ef at galedwaith. Yr oedd ganddo gyfansoddiad corfforol nodedig gryf; a chafodd iechyd da ar hyd ei holl oes. Ymroddodd i

lafurio yn galed i helaethu cylchoedd ei weinidogaeth, trwy bregethu mewn aneddau, nid yn unig ar foreuau y Sabbothau, ond hefyd ar nosweithiau yr wythnos; cadwai gyfeillachau crefyddol ynddynt hefyd ar ol yr odfaon, a sefydlodd Ysgolion Sabbothol ac eglwysi mewn amrai o'r ardaloedd oddeutu tref Llanfair, sef yn y manau canlynol: 1. Ty'nyfawnog, lle wedi hyny yr adeiladwyd capel Siloh. 2. Rhiwhiraeth, ger Llanfair. 3. Garthlwyd, a Llanoddian, yn mhlwyf Llangyniw, lle wedi hyny yr adeiladwyd capel Peniel. 4. Brynelan, yn mhlwyf Castellcaereinion, ger palasdy y Ceufronydd, lle yr adeiladwyd capel Jerusalem. 5. Moedog—ty David Davies, ger y Gaer, yn yr un plwyf, yn nghyfeiriad y Trallwm. 6. Melin Bônnyfedw, lle yr adeiladwyd capel Canaan. 7. Brynhwdog, ar y Byrwydd, ar gyffiniau plwyf Manavon, y Castell, a'r Berriew, lle yr adeiladwyd capel y Byrwydd. Yn ei amser ef y sefydlwyd yr eglwysi Annibynol yn ardaloedd Ty'nyfawnog, Garthlwyd, a Brynelan, ac yr adeiladwyd capelau Siloh, Peniel, a Jerusalem, a chasglodd lawer o arian at dalu dyledion y ddau gapel blaenaf. Bu ganddo unwaith naw o Ysgolion Sabbothol a phump o eglwysi dan ei ofal. Yr oedd cyfanrif aelodau yr Ysgolion Sabbothol dros saith gant (700), a chýfanrif aelododau yr holl eglwysi, yn 1841, dros bedwar cant o aelodau (400); ond er hyny, ni chafodd erioed ganddynt oll gyda'u gilydd, dros £50 o gyflog blyneddol, a bu am flyneddau yno yn cael llawer llai na hyny. Pregethai a chadwai gyfeillachau braidd bob nos o'r wythnos; gweinyddai Swper yr Arglwydd bum' gwaith yn fisol; a phregethai bedair gwaith ar y Sabbothau, am flyneddau lawer, er mwyn cyflawni angenion ei eglwysi a'r cynulleidfaoedd, yn ei faes gweinidogaethol tra eang, yn y plwyfau a nodais—yr oedd dros chwe' milldir o hyd wrth bedair milldir o led! Yr oedd yn rhy fawr iddo, er ys llawer o flyneddau, i wneyd cyfiawnder â'r eglwysi. Cadwai geffyl da bob amser, ac yr oedd yn gyru hwnw ar garlam, ar ddyddiau Sul, gwyl a gwaith, wrth fyned i a dychwelyd o y gwahanol ardaloedd y

pregethai ynddynt, nes y byddai y bobl yn gorfod cilio oddiar ei ffordd at y cloddiau, ac yn rhyfeddu ato, ac aml un yn ei feiaw. Ond yr oedd efe ei hun wrth fodd ei galon pan y byddai ef ei hun a'i geffyl yn chwys ac yn faw; a phan yn codi ei ffon, yn ysbarduno ei farch, yn gwisgo y cadaŋ coch am ei ben, ac yn bloeddio ar y bobl ar y ffyrdd wrth fyned heibio iddynt; ac yn cael *hwyl nefol* wrth weddio a phregethu yn y capelau. Yr oedd ei weddiau yn gynwysfawr, teimladwy a thaerion, a'i bregethau yn nerthol ac effeithiol. Yr oedd ei ddull a'i ddawn yn dra derbynol gan drigolion yr ardaloedd hyny, yr amser hwnw; yr oedd ei ddull yn fywiog, ond nid yn foneddigaidd; ei lais yn gryf a hyglyw, ond nid yn berseiniol—nis gallasai ganu ei bregethau, ond rhoddai ryw swm cwynfanus ynddynt—yr oedd ganddo floedd uchel, ond nid toddedig ac effeithiol. Rywfodd gwn'ai i bawb fod yn effro, a dal sylw arno, ac yn aml gwn'ai i lawer wylo. Arferai yn aml iaith rhy sathredig, a chydmariaethau rhy amherthynasol a thywyllion, nes peri i'w wrandawyr mwyaf dichwaeth i chwerthin. Tybiai ef a hwythau mai *wit* oedd pethau felly! Ond mae gwir *ffraethder* yn beth gwahanol iawn i hyny—teifi oleuni sydyn mewn iaith eglur, nes gwefreiddio y glust, a sirioli y meddwl. Nid oedd dim o hyny yn Davies, Llanfair. Yn ei gymeriad pur—ei dduwioledeb amlwg—ei weddiau taerion—ei lais hyglyw—ei fywiogrwydd—ac ysgrythyroldeb ei bregethau, a'i ddyfal-barhad—yr oedd cuddiad ei gryfder.

Bu am flyneddau lawer yn bregethwr *poblogaidd*—yr oedd y *Uuaws* yn caru gwrando arno yn mhob man y pregethai; tynai sylw y miloedd yn y Cymanfaoedd a'r cyfarfodydd cyhoeddus, a bendithiodd Duw ei lafur i fod yn llesol i lawer o eneidiau. Yr oedd ynddo deimlad byw dros achubiaeth eneidiau a gogoniant Duw. Parod oedd i wneyd pob ymdrech ac aberth er mwyn hyny. Gwnaeth ddirfawr les gyda'r Ysgol Sabbothol; ei gynllun oedd, rhoddi penod o'r Beibl i'w dysgu allan, ac i'w myfyrio, am fis neu ddau gan yr holl ysgol-

ion yn eu teuluoedd; ac wedi hyny cael cyfarfod cyhoeddus ar y Sabboth yn Penarth neu Lanfair, i'w holwyddori gyda'u gilydd. Yr oedd yn fedrus iawn fel holwr yr ysgolion; yr oedd yn llawn o fywyd—cadwai bawb yn effro—arweiniai hwy i adrodd y benod, i ateb yr holiadau, ac i brofi eu hatebion o'r Ysgrhythrau. Yr oedd efe ei hun yn gyfarwydd iawn yn yr Ysgrhythrau, (fel y dylai pob pregethwr fod,) a dysgodd ei wrandawyr i'w chwilio a'u parchu. Bedyddiodd trwy daenelliad dros dri chant ar ddeg (1,300) o fabanod, yn eu tai a'r capelau, yn nghylch mawr ei weinidogaeth yn Nghymru; a derbyniodd ganoedd yn aelodau eglwysig. Priododd amrai dan y ddeddf newydd; a phregethodd mewn ugeiniau o gladdedigaethau. Ailadeiladwyd capelau Llanfair a Siloh yn ei amser ef, gyda thraul ddirfawr ar y ddau—gormod o lawer i ateb i amgylchiadau yr aelodau a'r gwrandawyr. Yr oedd yn agos i £200 ar gapel Siloh, yr hwn swm a lwyd dalwyd yn fuan drwy ei gydymdrech ef a'r bobl ffyddlon oedd yno. Yno y trigianai yr hen bererin ffyddlon, David Richards, Ty'nyfawnog, a'r cerddor medrus a'r diacon ffyddlon, David Davies, (yn awr o'r Temperance Hotel, Welshpool,) gyda lluoedd o ffyddloniaid eraill. Adgyweiriwyd capel bychan Peniel amrai weithiau, a thalwyd ei holl dreuliadau. Bu Lloyd o'r Tyddyn, a Hughes, Llanoddian, ac eraill, yn nodded i'r achos yno am lawer o flyneddau. Nid yn ei amser ef yr ail-adeiladwyd capel Penarth. Ni bu erioed yn casglu at yr addoldy hwnw, nac at gapelau newyddion Jerusalem a Chanaan, a Bywydd. Dyled drom (dros £500) capel Llanfair, dan gytundeb Owen Pugh, yn 1844, fu bron a'i ddirlethu ef a'i eglwys. Er fod yno lawer o aelodau a gwrandawyr y pryd hyny, cymerasant faich rhy drwm arnynt. Yr oedd yno rai o dyddynwyr cyfoethog y pryd hyny, megys Thomas Owen, Ysw., o'r Neuadd; John Jones, Penybryn; John Evans, Ysw., Heniarth; Mr. Humphrey Evans a'i briod, *shopkeeper*, Llanfair; Dr. William Theodore, Edward Jones, *hatter*, Mrs. Martha Whittington, ac eraill; ond

yr oedd y mwyafrif yn bobl dlodion; ond gwnaethant eu goreu er lleihau y ddyled. Ond bu ymdrechion a llwyddiant eu gweinidog, Mr. Davies, yn nodedig. Yn y flwyddyn 1845, casglodd mewn gwahanol drefydd yn yr Iwerddon dros £100, ac yn Scotland tua £114 yn glir, wedi talu ei dreuliadau; a chyfranasant gartref £110. Tynwyd y ddyled i lawr dan £200 y flwyddyn hono. Dyna ei lafurion mawrion yn Llanfair a'r cymydogoethau. Yr oedd eisiau *cawr* o ddyn i wneyd yr holl orchwylion hyny. Un felly oedd Davies o Lanfair. Yn mhob llafur y mae elw. Gwelodd fawr lwyddiant.

6. *Rhaniad ei Weinidogaeth.*—Yr oedd llawer yn barnu y dylasid *rhanu* maes ei weinidogaeth er ysblyneddau, am ei fod yn llawer gormod iddo; ond nid oedd efe ei hun yn hoffi hyny. Byddai myfyrwyr athrofa y Drefnewydd, ac ysgol Mr. Jones, yn Marton, yn arfer pregethu llawer yn Llanfair, a Phenarth, a'r lleoedd eraill; a galwyd Mr. Edward Wynn, o Lanrhaidr-yn-Mochnant, i'w gynorthwyo. Bu yno am tua dwy flynedd, a gwnaeth lawer o ddaioni yn yr ardal-oedd. Nid oedd ganddo ef lawer o alluoedd na doniau; ond yr oedd y bobl yn ei garu am ei fod yn ufudd a ffyddlon. Davies oedd yr *esgob*, a Wynn oedd y *curate*, ac yr oedd pob un o honynt yn hoffi ei enw a'i urdd. Cydweithiasant yn unol ac egniol. Ond bu agos i'r *esgob* ladd ei hun wrth geisio cadw y *curate*! Mynai y bobl ranu y weinidogaeth, a chael dau weinidog. Dewisodd Mr. Davies barhau i weinidogaethu i eglwysi Llanfair, Peniel, a Siloh; a derbynias inau allwad unfrydol yr eglwysi yn Penarth a Jerusalem. Dechreuais ar fy ngweinidogaeth yno yn niwedd y flwyddyn 1842, a sefydlwyd fi yno yn Mai, 1843. Yr yedd Ysgolion Sabbothol Moedog, a Brynhwdog, a Bonfedw, hefyd dan fy ngofal; ac yn fy amser i y talwyd dyled capel Jerusalem, yr ail-adeiladwyd capel Penarth, ac y codwyd capelau Canaan a'r Byrwydd; a thalwyd yr holl ddyledion trwy ffyddlondeb y bobl, a'm casgliadau inau yn America. Yn fy amser i hefyd y

dechreuwyd yr eglwysi Cymreig yn y Trallwm a'r Drefnewydd. Llafuriais yn egniol a llwyddianus yno am dros ddeng mlynedd. Bu John Davies, Brynelan; William Jones, Castell; David Davies, Moedog; Thomas Howells, ac eraill, yn nodedig ffyddlon yn Jerusalem; a John Price, Joseph Thomas, David Roberts, a John Jones, ac eraill, yn Penarth; a William a Thomas Baxter, a Morris Lewis, yn Canaan; ac Evan Roberts, Evan Evans, ac eraill, yn y Byrwydd. Teimlais lawer iawn o ddedwyddwch, a gwelais lawer iawn o lwyddiant ar yr eglwysi. Treuliais y blyneddau mwyaf dedwydd o'm holl oes yno. Dyna yr amser y cefais gyfleusderau i adnabod a mwynhau cymdeithas fy hoffus gyfaill, Davies, o Lanfaircaereinion. Buom yn gyfeillion ffyddlon i'n gilydd. Llauer diwrnod a noson ddedwydd a dreuliais yn ei gymdeithas ef yn y *Parlwr Bach* yn ei dy yn yr Ystrad, lle y cyfansoddasom lawer o esgyrn-gyrff ein pregethau—y cyd-ymddyddanasom am bynciau sylfaenol a rheolau dwyfol Cristionogaeth, a dyledswyddau pwysig y weinidogaeth efengylaidd. Yr oedd yn fedrus ac yn gyflym mewn cyfansoddi pregethau ar wahanol adnodau yn yr arddull testynol (*textual*); tynai allan ryw syniad ysgrythyrol o bob gair, ac yr oedd ganddo ffordd i'w trefnu yn rheolaidd, yn gyffredin; ond byddai ganddo yn aml lawer gormod o brif benau, a changenau, ac adraniadau yn ei bregethau; efelychai arddull yr hen Buritaniaid yn Lloegr gynt. Yr oedd eu pregethau hwy ac yntau yn debyg i'r hen dderwen Gymreig—yn gainc ar gainc, ac yn geinciau i gyd! Weithiau byddai ganddo dros haner cant o adraniadau mewn un bregeth, nes y byddai yn anhawdd iddo ef ei hun eu cofio, a chadw eu hunoliaeth (*unity*) a'u trefn yn eglur o flaen llygaid meddyliau ei wrandawyr. Yn ei amser goreu gallai ef eu cofio, a'u traddodi gyda nerth yn dra effeithiol; ond yn nyddiau ei henaint, colodd y nerth meddyliol a chorfforol hwnw i raddau mawr; ac yn aml byddai yn nghanol niwl a thywyllwch, wedi gwaeddi a bloeddio, yn gorfod tewi mewn gwendid. Bum yn aml yn teimlo

drosto, wrth adgofio ei nerth a'i ddylanwad gynt. Ni chlywais ef erioed yn pregethu ond yn yr arddull *tes-tynol*; ac nid wyf yn deall ei fod wedi myfyrio gwananol arddulliau Simeon, Sturtevant, ac eraill. Dyna yr achos fod ei bregethau mor unrhywiog, a bod mor anhawdd i'w wrandawyr eu cofio a'u hail-adrodd. Ond yr oedd ef bob amser yn llawn o ysbryd pregethu—yn orawyddus am gael pregethu—a braidd bob amser yn ei lawn hwyliau wrth bregethu. Teimlai ef yn ddedwydd yn ei ddirfawr *chwys!* Ond credwyf pe buasai yn gallu traddodi yn fwy pwyllus, ac *wylo* mwy, y buasai yn well iddo ef ei hun, ac yn llawer mwy effeithiol i'w wrandawyr. Er ei fod yn perthyn yn agos i'r enwog Williams, o Lanwrtyd, nid oedd ei amgyffredion na'i hyawdledd mor ddwfn dreiddiol a llifeiriol ag eiddo y pregethwr poblogaidd ac effeithiol hwnw. Y "parlwr bach" yn yr Ystrad, ger Llanfair, oedd "cysegr bychan" fy hen gyfaill Davies; yno yr ymbiliodd â Duw mewn gweddïau taerion—yno y darllenodd ac y myfyriodd y rhan fwyaf o'i bregethau—ac oddiyno yr elai allan yn ei nerth, dan eneniad Duw, i gyhoeddi anchwiliadwy olud Crist i bechaduriaid. Gwisgodd Duw ef â nerth o'r uchelder. Achubwyd canoedd o eneidiau dan ei weinidogaeth. Yr oedd yn hoff o ddifyrwch diniwaid yn ddirgelaidd gyda'i frodyr a'i gyfeillion, ond yr oedd yn dra gofalus am ymddwyn yn addas i'r efengyl, ac i'w swydd urddasol; a phob amser yn elyn i bechod, ac yn gefnogwr rhinwedd. Wedi rhaniad ei weinidogaeth llafuriodd yn galed er llwyddiant yr eglwysi yn Llanfair, Siloh, a Peniel, am dros 7 ml.; ond ni bu byth wedi'n yn teimlo mor ddedwydd. Yr oedd gweddill y ddyled ar gapel Llanfair, a thylodi yr amseroedd, ac anffyddlondeb rhai o aelodau ei eglwysi, yn ei ddigaloni ac yn atal llwyddiant ei weinidogaeth. Ychydig iawn o gyflog blyneddol a gafodd y blyneddau olaf a dreuliodd yn Nghymru. Ond yn yr amser hwnw y dechreuodd dau fachgen ieuainc duwiol a gobeithiol bregethu yn ei eglwys yn Llanfair, sef Joseph Jones, a Robert Lewis (nab i'r addfwyn John

Lewis). Yr oedd gan y ddau feddyliau parchus am eu gweinidog, a bu yntau fel tad tyner iddynt. Cawsant addysg yn Athrofa y Bala. Cafodd Joseph Jones ei urddo yn Sardis, Llanwddyn, Maldwyn; bu am flyneddau yn llwyddianus yno; ac y mae yn awr yn weinidog enwog gyda y Cymry yn Bristol, Lloegr. Sefydlwyd Robert Lewis yn Tynnycoed, Brycheiniog, D. C. Daeth yn bregethwr poblogaidd iawn yno, a bu farw yn ieuanc, yn nghanol ei ddefnyddioldeb. Bron yr un amser y dechreuodd Nathaniel Watkins a Price Howells bregethu yn nghanol Jerusalem. Mae y cyntaf yn dyddynwr parchus yn y Moat, Manavon, ac yn bregethwr cynorthwyol cymeradwy yn Penarth; a'r olaf yn weinidog enwog yn Blaenau Ffestiniog, Meirionydd, G. C. Cyd-deithiais lawer gyda'm hen gyfaill Davies i gyfarfodydd pregethu a dirwestol yn Maldwyn, ac i Gymanfaoedd yn Ngogledd Cymru. Yr oedd yn barchus a phoblogaidd yn mhob lle; ymddygai yn addas i'w swydd bob amser, a chefais lawer o hyfrydwch a budd yn ei gymdeithas. Yr oedd yn gyfaill ffyddlon a difyrus; a gwnai ei oreu dros les a defnyddioldeb y pregethwyr ieuainc a roddent barch a blaenoriaeth iddo ef, fel hen weinidog urddasol ac enwog; ond gwgai a chwyrnai ar bob un oedd yn ddigon hunanol neu annibynol i ameu a dirmygu ei urddas a'i enwogrwydd ef. Yr oedd ganddo lawer iawn o ragoriaethau, a rhai gwendidau amlwg. Ond ni chollodd ei gymeriad, na'i barch, na'i ddylanwad, tra y bu yn Nghymru.

7. *Ei Ymfudiad o Gymru i America.*—Yr oedd llawer iawn wedi ymfudo o ardaloedd Penarth i wahanol fanau yn America er ys llawer o flyneddau; ac yr oedd yntau yn dra hysbys o hanes y wlad hono. Wrth weled ei deulu yn lluosogi, a'i blant yn cynyddu, a'i gyflog yn lleihau, a rhenti a threthi y tyddynau yn codi yn uwch uwch, o'r diwedd penderfynodd ymfudo i'r Unol Dalaethau Amerigol, gan gwbl gredu fod yno well cyfseiriau i gynnal ei deulu, a mwy o fanteision addysgiadol i'w anwyl blant. Cafodd y cymeradwy-

aethau goreu gan ei eglwysi, a chan weinidogion yr eglwysi Annibynol yn Maldwyn; a chydunodd yr holl eglwysi yn Llanfair, Penarth, a'r cymydogaethau eraill, i gasglu rhodd (*donation*) arianol, fel arwydd o'u parch diffuant iddo, ar ei ymadawiad, a chyflwynwyd hi iddo mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llanfair. Ar ol ei lafur caled yn y weinidogaeth am dri deg o flyneddau yn Llanfaircaereinion, a'r lleoedd eraill—a'i ymdrechion ef a'i briod a'i blant ar y tyddynau—credwyf nad oeddynt yn werth llawer mwy na mil o ddoleri (neu £200) pan yn gadael gwlad eu genedigaeth; a phe buasai efe wedi aros yno, y buasai ef a'i deulu wedi dyoddef eisiau. Yn yr ystyr yma, bu ei ymfudiad i America yn llesol iddo ef, a'i briod a'i blant. Ond o ran cysuron crefyddol a defnyddioldeb gweinidogaethol, buasai yn llawer gwell iddo ef (a llawer eraill) fyw a marw yn Nghymru.

Yr olygfa ddiweddaf a welais arno yn Nghymru, yn haf 1849, oedd yn nhy Mrs. Hudson, (mam ei anwyl briod,) Ty'nycoed, ger y Cefncoch. Yr oeddwn wedi prynu amrai o'i hen lyfrau. Aethum yno i'w ceisio. Yr oedd ef gyda y bobl yn ei hen ddillad, yn yr ysgubor, yn cneifio defaid. Daeth i mewn i'r ty. Cawsom gydymddyddanion cysurus. Rhoddodd y llyfrau mewn hen sach, a hwyliodd hwynt mewn berfa (*wheelbarrow*) am dros haner milldir o ffordd gyferbyn a'r Ystrad; ac ar y ffordd yn y fan hono yr ymadawsom, gan ysgwyd dwylaw ac wylo dagrau. A'r tro cyntaf y gwelais ef wedi hyny yn America, oedd yn Utica, yn Nghymanfa yr Annibynwyr yn Oneida Co., N. Y., yn haf y flwyddyn 1850. Cofleidiasom ein gilydd yn anwyl, a chyddiolchasom am ofal rhagluniaeth Duw am danom. Pregethodd yn ei nerth a'i hwylian goreu yn holl gyfarfodydd y Gymanfa hono. Tynodd sylw mawr trwy ei bregethau, a'i boblogrwydd. Bu yno yn y Gymanfa flaenorol, yn haf 1849. Efe oedd prif bregethwr y Cymanfaoedd hyny. Yr oedd ei olwg, ei arddull, a'i lais, yn newyddbeth i Gymry Oneida y pryd hyny. Y gwr dyeithr—y pregethwr mawr—newydd dd'yfod dros

y Werydd—a gweinidog newydd, enwog, dinas fawr Cincinnati, Ohio, oedd y pryd hyny. Ond gwelodd yntau, fel llawer eraill, gyflawniad proffwydoliaeth ddymunol rhai o hen weinidogion Oneida Co., N. Y.—“Gadewch iddynt bregethu faint a fynont yn mhob cyfarfod; a gwaeddwch Amen fawr, uchel, gyda hwynt—ni raid i ni ofni eu hurddas a’u poblogrwydd—cyn pen dwy flynedd byddant hwythau yn bregethwyr *cyffredin* fel ninau.” Mor gyfnewidiol yw barnau, a chwaeth, a geiriau, ac ymddygiadau llawer o Gymry America! Ond daliodd Davies ei dir yn anrhydeddus, er hyn oll. Nid mewn *newydd-deb* y mae gwir boblogrwydd yn gynwysedig; ond mewn athrylith gref, mewn gwir ddysgeidiaeth, mewn doniau hyawdl, mewn buchedd dduwiol, ac mewn dylanwad dwyfol. Yn y rhai hyn y mae grym anorchfygol. Ond pethau siomedig yw canmoliaeth, a gwenau, ac Amenau dynion. Ein digonedd ni sydd o Dduw, ac nid o ddynion. Nis gall dim ladd defnyddioldeb gwir genhadon Iesu, ond eu hanffyddlondeb a’u beiau eu hunain. Nis gallant fod yn llwyddianus yn y weinidogaeth efengylaidd yn eu nerth eu hunain, rhaid iddynt gael eu gwisgo â nerth o’r uchelder. Ni chlywais neb erioed yn Nghymru, nac yn America, yn dyweyd ei fod yn ameu duwioldeb Davies, o Lanfair; ond clywais amrai yn dywedyd, (pan oeddwn ar ymweliad â Phenarth a Llanfair, yn haf 1873,) fod dylanwad bendithiol ei weinidogaeth yn parhau yn yr holl ardaloedd yno eto; a bod ei goffadwriaeth yn fendigedig gan bawb a’i hadwaenent. Pan soniais am ei enw, ei ymdrechion, a’i farwolaeth, yn y ddarlith a draddodais ar “Yr Enwogion Cymreig,” yn ei hen gapel yn Llanfaircaereinion, yn mis Mai, 1873, yr oedd yno ugeiniau yn wylo. A chredwyf mai cyffelyb yw barnau a theimpladau ei holl gyfeillion yn America. Dymunwyf fawr lwyddiant i’w hen eglwysi yn y ddwy wlad; a phob cysuron i’w briod a’i blant. Teimlwyf yn ddedwydd fy mod wedi cael bywyd ac iechyd i ysgrifenu yr “Adgofion” hyn am dano; a chredwyf fod gan fy nghyfaill Griffiths, o Cincinnati,

gymwysderau neillduol i ysgrifenu Cofiant *teilwng* o hono, a gobeithio y caiff gynorthwy *arianol* teilwng gan ei briod a'i blant i'w gyhoeddi, a chefnogaeth gyffredinol gan ein cydgenedl. Gall llyfr gwerth 50c. gynwys llawer iawn o'i hanes a'i bregethau, &c.; a bydd yn gofgolofn oesol iddo. Yr wyf yn hiraethu am ei weled ef, a lluoedd eraill o'm hen gyfeillion, yn y nef.

ADRAN IV.

EI WEINIDOGAETHAU YN AMERICA.

Daeth trosodd i'r wlad hon yn haf y flwyddyn 1849, a dechreuodd ar ei lafur yn Cincinnati yn mis Awst. Anfonai yr eglwys, sydd yn awr dan ofal yr ysgrifenydd, yn flaenorol at y Parchedigion S. Griffiths, Horeb, ac S. Roberts, Llanbryn-mair, i chwilio am fugail iddi. Derbyniwyd gair yn ol yn fuan, yn hysbysu fod Mri. Ellis, Mynyddislwyn; a Davies, Llanfair; a chredwn, rywun arall, yn awyddus i ymfudo. Yr oedd brawd i Mr. Ellis yn weinidog y pryd hwnw gyda'r Methodistiaid Esgobaethol yn Nhalaeth New York, a thyna yn benaf a'i tueddai ef i feddwl am ddyfod trosodd. Ond newidiodd ei fwriad yn ddilynol. Felly disgynodd y coelbren ar Mr. Davies, ac efe a dderbyniodd yr alwad.

Clywsom ei fod wedi arfaethu dyfod rai misoedd yn gynt, yr un pryd, ac os nad ydym yn camgymeryd, yn yr un llong a'i gyfaill, a'n diweddar frawd, Griffiths, Llanegryn. Ond rhwystrwyd ef gan ddyfodiad cystudd angeuol i'w deulu. Collodd ddau fachgen bach, o'r *scarlet fever*, un yn wyth mlwydd a haner, a'r llall yn bedair a haner, a chladdwyd hwynt ill dau yr un diwrnod yn Llanfair; ac un arall cyn pen pythefnos, a anwyd wedi claddu y ddau gyntaf. Teimlai ei fod wedi ei ddiblanta yn wir—dim ond *chwech* o'r *naw* wedi eu gadael iddo, pan, yn mhen llai na thri mis wedi hyny, yr hwyliodd tua thir machlud haul. Yr oedd ei brof-

iad yn debyg i'r eiddo Jacob pan ddywedai, "Yn fy erbyn i y mae hyn oll."

Mewn cyfeiriad at ei diriad a'i drigiad yn Cincinnati, fel hyn yr ysgrifennodd unwaith: "Cefais dderbyniad croesawus gan yr eglwys, a chefais iechyd rhagorol i lafurio yno hyd fy ymadawiad i Allen. Cafodd y plant fanteision addysgol da yn y ddinas, am y tymor y buom yn byw yno; a chefais brofion fod fy llafur yn fuddiol, yn nerbyniad amryw i'r frawdoliaeth. Bum yn lled ymroddol a llwyddianus hefyd yno gyda yr Ysgol Sabbothol."

Nid oes yma yn bresenol ond nifer fechan o'r rhai a berthynent i'r eglwys a'r gynulleidfa yn ystod y tymor y llafuriai efe yma; ac nid oes gan yr ychydig hyny adgofion bywiog am fanylion a dygwyddiadau neillduol tair blynedd ei arosiad yn y ddinas. Ond sicrhant i ni yn ddieithriad, y gallasai ddefnyddio ymadroddion cryfach, yn yr adroddiad uchod am ei lafur a'i lwyddiant, heb wneyd ei hun yn agored i'r cyhuddiad o fod yn euog o fostio hyd at bethau allan o'i fesur, ond yn ol mesur y rheol a ranodd Duw iddo—mesur i gyrhaeddyd hyd atynt hwy hefyd. Ac fel prawf o hyny crybwyllasant wrthym am ei waith yn casglu at y capel, am yr hyn ni chrybwyllodd air ei hunan.

Nid oedd Mrs. Davies yn mwynhau iechyd da yn Cincinnati, yn enwedig yn yr haf. Yr oedd y gwres yn rhy eithafol iddi. Parodd hyny iddo feddwl am brynu tyddyn, i wneyd cartref iddo ei hun a'i deulu yn y wlad; ac yn fuan prynodd gant a phedwar ugain o erwau o dir yn Allen, O., lle yr oedd sefydliad o Gymry, —y rhif lluosocaf o honynt o Swydd Drefaldwyn, ac yn hen gyfeillion iddo. Yr oedd yno hefyd eglwys fechan mewn angen am rywun i'w bugeilio. Derbyniodd alwad unfrydol oddiwrth yr eglwys hono i fyned i gymeryd gofal o honi; ac yn Mai, 1852, efe a symudodd yno. Bu yn llafurio yn galed yno am ychwaneg nag wyth mlynedd, á'i gorff ac á'i feddwl. Ymroddodd ef a'r bechgyn ati i arloesi y tir, am nad ydoedd pan brynwyd ef fawr gwell nag un goedwig fawr. Rhaid oedd

gwneyd hyn cyn y gallasant godi bara at eu cynaliaeth o hono. Amlhaodd y trigolion yno; aeth yr achos ar gynydd dan ei arolygiaeth; adeiladwyd yno addoldy da, a helaeth i'r boblogaeth y pryd hwnw, o briddfeini. Ond nid allwyd talu am dano heb gynorthwy o fanau eraill. Felly yn Hydref y flwyddyn 1856, troes Mr. Davies allan i gasglu ato i Dalaeth New York. Dychwelodd mewn dau fis gyda \$557 dros ben ei dreuliau; a derbyniodd yn ychwanegol \$300 ato o Gymdeithas Adeiladu Capelau y Cynulleidfawyr yn Ohio, yr hyn a lwyr ddileodd y ddyled.

Yr ydym yn ddyledus i'n hanwyl gyfaill, Mr. Josiah Jones, Gomer—un o ddiaciaoniaid hynaf yr eglwys yno, a chyd-lafurwr diffino gyda Mr. Davies, tra y bu yno—am yr adroddiad cryno a darllenadwy a ganlyn o'i

LAFUR YN ALLEN.

“Daeth Mr. Davies i gymeryd gofal yr eglwys yn Gomer, yn nechreu haf 1852. Ymaflodd yn ngwaith y weinidogaeth yn ei ysbryd bywiog, gweithgar, a llwyr-ymroddol, yn uniongyrchol. Nid oedd ball ar ei lafur a'i ymdrech, er enill yr ardal i goffeidio crefydd, a gwasanaethu yr Arglwydd. Cynyddodd y gynulleidfa a'r Ysgolion Sabbothol i raddau dymunol; a bu ei weinidogaeth yn llwyddianus i enill amryw i roddi eu hunain i'r “Arglwydd ac i'w bobl.” Yn fuan dechreuodd bregethu yn gyson unwaith bob Sabboth yn Leatherwood. Cyneswyd y brodyr a'r chwiorydd yn eu cariad a'u sel at y cyfeillachau a'r cyfarfodydd gweddio, a chafwyd prawf fod yr Arglwydd yn ei ras yn llwyddo ei lafur yn y weinidogaeth i raddau helaeth. Bu yn ffyddlon ac ymdrechgar i fyned pan y gallai i bregethu i Sugar Creek, Sir Putnam. Felly nid oedd ball ar ei lafur i godi Seion, ac adeiladu muriau Jerusalem. Cafodd lawer o anfanteision, megys ffyrdd drwg, addoldai cyfyng ac anghyfleus, ond ymwrolodd a gorchfygodd y rhwystrau. Yr oedd ei gorff a'i enaid yn llawn bywyd a gweithgarwch. Bu yn llwyddianus i adnewyddu y cyfarfodydd llenyddol a chystadleuol; a bu ei feibion,

James, Benjamin, a William, yn adgyfnerthiad mawr i'r cyfeillion gyda'r cyfarfodydd hyny. Cafwyd cyfarfodydd hynod ddifyrol ac adeiladol pan oedd y tri brawd, a'r Dr. Jones, D. I. Roberts, E. W. Jones, I. F. Jones, a T. H. Jones, ac amryw eraill, yn cyd-lafurio i ddiwyllio yr ieuencyd, a'u hyfforddi mewn gwybodaeth lenyddol. Yr oedd ysbryd cydgyfarfod, cydchwilio, gan gyd-ymanog i ymdrechu cynyddu mewn gwybodaeth naturiol a chrefyddol yn Gomer y pryd hyny, i raddau dymunol; ac y mae yn sicr genyf, er yr holl gyfnewidiadau, y blinderau, a'r croes awelon yn hen fyd y cystudd, na allodd, ac na all dim ddileu yr adgof melus am y cysuron a fwynhawyd y tymor hwnw; ac yr oedd Mr. Davies fel â'i holl galon yn cefnogi ac yn cyd-ymdrechu yn y cyfarfodydd hyny.

"Bu yn help mawr at adfywio a gwroli y bobl ieuainc gyda eu cyfarfodydd gweddi, y rhai oedd yn lled reolaidd yn cael eu cynnal cyn iddo ef ddyfod yma. Peth gwerthfawr i weinidog ydyw fod pobl ieuainc gweithgar a llafurus yn cydymdrechu yn eu cylchoedd priodol; heb hyny anmhosibl i weinidog gael chwareu teg i lwyddo fel y dymunai; a diau mai colled annhraethadwy ydyw esgeuluso manteision cyfarfodydd felly; a cheir profi y golled o esgeuluso yr adegau gwerthfawr, trwy yr oes.

"Yr oedd Mr. Davies yn enwog am ei ragofal a'i ymdrech i rybuddio yr ieuencyd, ac i ddiogelu cyfeillion rhag gwahanol brofedigaethau. Os byddai rhyw gynulliadau anfoesol yn y gymydogoeth, neu y trefydd cymydogoethol, neu ryw gynlluniau gan y gelyn i faglu, byddai ef yn sicr o roddi yr alarwm allan, gan dyner, ond yn bwysig rybuddio, 'Gwyliwch! ciliwch oddiwrthynt! na chyffyrddwch â hwy,' &c. Bu ei rybuddion prydlon yn foddion i atal llawer i ffyrdd drygioni, ac i ragflaenu llawer o ofidiau.

"Tuag un neu ddwy ar bymtheg mlynedd yn ol, yr oedd un o'r brodyr yn rhagbarotoi i godi ysgubor, ac yr oedd ef yn gwybod fod yn arferiad yn y wlad i gael diodydd meddwol ar adegau felly, a theimlai yn ddy-

ledswydd i ddileu yr arferiad. Aeth yn brydlon at y brawd hwnw, a chan roddi ei law ar ei ysgwydd, dywedodd, 'Frawd anwyl, peidiwch a dyfod a whisci i'r cyfeillion wrth godi yr ysgubor; peidiwch, frawd anwyl.' Nis gwn a oedd y brawd yn rhag-fwriadu peidio, cyn hyny, ond pa un bynag, ni chafwyd ef y diwrnod hwnw; a bu hyny yn ddechreuad ymwrthodiad â'r arferiad ar adegau felly o hyny allan. 'Llawenydd fydd i wr o herwydd ymadrodd ei enau; ac O, mor dda yw gair yn ei amser!'

"Fel y crybwyllir eto am ei ragoroldeb a'i ddawn gwresog wrth holi yr Ysgolion Sabbothol yn Nghymru, efe a ymaflodd hefyd yn yr un gorchwyl yn Gomer, a thrwy ei ddull gwresog, a'i fod mor hyddysg a pharod yn yr Ysgrythyrau, cododd y cyfarfodydd holi i fri a phoblogrwydd yma. Byddai y Sabboth holi fel rhyw uchel wyl pan fyddai y cyfeillion o Leatherwood o un galon ac ysbryd yn cydgyfarfod â chyfeillion Gomer ar Sabboth yr holi. Ychydig mwy o'r un ysbryd, gwres a ffyddlondeb felly, fyddai yn fendith ac yn iechyd enaid eto, ac yn sicr o greu adfywiad i'r ysgolion, a pheri cysur i'r gweinidog, gyda gwell 'myn'd' yn y gwersyll. Er fod llawer o bethau eraill yn rhagori yn y dyddiau hyn, rhaid cyfaddef fod y bywiogrwydd a'r gwres wedi cilio o'r Ysgolion Sabbothol ragor y pryd hwnw.

"Aeth yr hen addoldy yn Gomer yn fuan yn rhy fach; a dechreuwyd adeiladu un newydd yn y flwyddyn 1854. Bu Mr. Davies â'i holl galon yn gwneyd ei ran gyda'r gorchwyl. Ni phallodd ei ymdrech i gael talu am dano, ac ni orphwysodd nes ei gael yn llwyr o ddyled, yn addoldy rhydd, cyfleus i addoli. Myfyriodd, chwysodd, a phryderodd lawer yn yr ymdrech i achub eneidiau, ac adeiladu a meithrin yr eglwys, er ei gwneyd yn fam lawen i fabanod Seion.

"Bu yn ffyddlon a diorphwys yn holl gylchoedd ei weinidogaeth am yr wyth mlynedd y bu yn Gomer. Derbyniodd, o newydd a thrwy lythyrau, yn ystod yr amser, dros gant a haner; a diau mai teg crybwyll, nad

oedd yr eglwys yn alluog, *neu ei bod yn esgeulus, i gyffranu yn deilwng at ei gynul, yn atebol i'w lafur a'i ymdrech yn ein plith.* A fy nghred ydyw, pe buasai yr eglwys ac yntau yn deall eu gilydd yn well yn y mater, na buasai yr ysgariaeth yn cymeryd lle pryd y gwnaeth. Ond, beth bynag am hyny, mae ei goffadwriaeth yn gynes, a'i enw yn anwyl gan lawer yn yr eglwys a thrwy y gymydogoeth. Er iddo ymadael â ni, da genyf allu dyweyd ei fod wedi bod yn dirion, caredig, a ffyddlon i eglwys Gomer hyd ei fedd.

“ Mae yn wir iddo ef a ninau gyfarfod rhai siomedigaethau—ambell ystorm, a rhai dafnau o ddyfroedd Marah; ond mae y tymorau hyfryd, y gwleddoedd breision, yn nghyda'r mwynhad grasol a brofasom, yn boddi yr adgof o'r awelon croesion a'r tywydd garw, fel na feiddiwn, ac nad allwn dewi a diolch am a fwynhawyd o gysuron ysbrydol yn ystod ei weinidogaeth yn Gomer.”

Ond heblaw ei lafur a'i ludded yn nghyflawniad ei weinidogaeth, a'i ofal dros yr eglwysi, a ddesgrifir mor ffyddlon a theimladwy gan y brawd Josiah yn y tudalenau blaenorol, efe a gyfarfu yno hefyd ag un o orthymderau trymaf ei fywyd. Yn y flwyddyn 1855, cafodd Timothy Davies, ei fab ieuengaf, y cryd. Yr ydoedd yn flwyddyn wleb iawn. Yr oedd y wlad y pryd hwnw yn lled newydd, ac heb ei diwyllio gystal ag y mae yn bresenol; a'r canlyniad oedd fod llawer iawn o dwymynau mallawyraidd, ac yn enwedig y cryd, trwy y cymydogoethau yno. Ni ddiangodd braidd deulu rhag yr heintiau. Yr oedd teulu Mr. D. i gyd tanynt. Un diwrnod yr oeddynt oll yn eu gwelyau ond Timothy bach. Diangodd ef y diwrnod hwnw, a gweinyddai i angenrheidiau y lleill. Yn mis Hydref, rhoddasant ryw gyfferi iddo i dori y cryd, a adnabyddir fel *Thompson's powders*. Efe a dorodd y cryd; ond yn mhen naw diwrnod fe'i tarawyd gan ryw fath o barlys, yn yr hwn y collodd i fesur wasanaeth ei ochr aswy, ac yr anmharwyd ar ei lafar hefyd. Dilynwyd y *stroke* hono, yn mhen tua dwy wythnos gan un arall, yn yr hon y

llwyr amddifadwyd ef o'i allu i siarad. Dyna yr amser yr ymroed ati i geisio cymorth meddygol er ei adfer. Nid artedwyd na thraul na thrafferth i geisio ei wellhau. Gwnaeth y meddygon teuluaidd eu goraf drosto, yn eu plith Dr. R. E. Jones, Gomer, yr hwn a roddes ei wasanaeth drwy yr holl amser yn rhad. O'r diwedd deuwyd ag ef i Cincinnati, ddwy waith at Dr. Mussey, un o feddygon enwocaf America—ond ni wnaed fawr les iddo. Daeth mewn amser i allu cerdded ychydig, ond yn gloff. Bu fyw felly am ychwaneg nac wyth mlynedd. Estynwyd ei ddyddiau, yn ddiau, yn fwy trwy wyliadwriaeth a gofal diball ei fam, na dim arall a wnaed gan ddynion drosto. Yr hyn a welsom ydym yn ei dystiolaethu, yn gystal a'r hyn a glywsom gan y cymydogion yn gyffredinol tra yn aros am wythnosau yn yr ardal. Ymddangosai i ni fel wedi cwbl ymgylwyno i'r dasg o weini i'w phlentyn analluog yn y gadair. Trwy ei holl gystudd ni wybu beth oedd cymaint ag un noson o orphwysiant didor. Mewn amser daeth y llewygfeydd cysylltiedig a'i afiechyd i fod yn amlach a thrymach; ac ar y 27ain o Ebrill, 1864, rhoddasant derfyn ar ei yrfa o ddyoddefiadau. Claddwyd ef ar y 30ain—y dydd y buasai, pe yn fyw, yn ddwy-ar-bymtheg oed. Fel y canlyn yr ysgrifena ei dad wedi hyny am dano yn y *Cenhadur* :

“Tarawyd ef yn ei ochr aswy, gan y parlys mud, wyth mlynedd a phedwar mis yn ol. Ni ddywedodd un gair wedi hyny. Cafodd ganoedd lawer o'r hyn a elwir *convulsive fits*. Meddyliasom yn aml mai yn un o'r rhai hyny y byddai farw. Effeithiodd y rhai hyny yn fawr ar ei gyfansoddiad. Bu dan driniaeth feddygol gan y Professor Mussey, Cincinnati, dros yspaid dwy flynedd, a chafodd lawer o gyfferi oddiwrth feddygon eraill, ond yn hollol aflwyddianus i'w gryfhau. Nid oedd yn alluog i gymaint a phorthi ei hunan yn ystod ei glefyd maith. Dichon na byddai ddoeth i mi ddweyd llawer am rinweddau y bachgen bach pan oedd yn iach o gorff, a chilir ei feddwl; ond gallaf ddweyd ei fod wedi ei gynysgaeddu a galluoedd naturiol cryfion. Yr oedd

yn gofus iawn yn hanesiaeth yr Hen Destament. Dysgai yn gyflym, ac yr oeddyd wedi meddwl y buasai yn codi i lanw rhyw gylch pwysig o ddefnyddioldeb. Ond nid ein ffyrdd ni ydynt ffyrdd yr Arglwydd; ac nid ei feddyliau Ef ydynt ein meddyliau ni. Ymddangosai Timothy yn debyg fel arfer hyd o fewn wythnos i'w farwolaeth--wedi hyny gwanychodd yn gyflym, ac am bump o'r gloch bore y dydd a nodwyd, ehedodd ei ran anfarwol at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef; ac yr ydym yn hollol hyderus na ddylem dristáu megys eraill, y rhai nid oes ganddynt obaith. Mae genym bob sicrwydd fod pump o fechgyn bychain o'n teulu wedi ehedeg o fyd y cystudd mawr, i fyd y gwynfyd pur. Ein rhwymau a'n braint ni yw ymfoddloni i'w drefn Ef, er mor groes i'n teimladau ydyw, ac ymddidfydnu yn fwy llwyr oddiwrth wrthdychau darfodedig, a bod yn barod i fyned i mewn gydag Ef i'r briodas, i gyduno ag anwyliaid y Nef i glodfori yr hwn a'n carodd, ac a'n golchodd oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun. Yr oedd y Parch. G. Griffiths yn cynorthwyo eglwys Gomer ar y pryd, a gweinyddodd yn dra difrifol yn ei angladd, yn y ty ac wrth y bedd; a'r Sabboth canlynol, yn Leatherwood, anerchodd y gynulleidfa oddiwrth 1 Bren. 17 : 17—24."

Cof genym mai marwolaeth mab y weddw o Sarephatah, oedd ein testyn, a'n bod yn galw sylw at brofedigaeth y wraig, ei theimladau tan y brofedigaeth, ei gwardedigaeth o'r brofedigaeth, a chanlyniadau dedwydd y brofedigaeth, gan geisio gwneyd y cymwysiad goraf a fedrem o'r gwirioneddau at galon archolledig yr hen dad a'i deulu galarus. Yr oedd pawb o'r teulu yn bresenol yn arwyl Timothy bach, ond William, yr hwn oedd ar faes y gwaed. Pellebrwyd am dano yntau; ond yr ateb a dderbyniwyd yn ol oedd: "*Nis gallwn ddyfod pe byddech oll feirw.*" Yr oedd hyny yn galed iddo ef a hwythau.

Parhaodd Mr. Davies i wasanaethu eglwys fechan Sugar Creek, Swydd Putnam, am ryw dymor wedi iddo ymryddhau oddiwrth ofalon ei faes trymach yn Gomer;

ond yn Mawrth, 1862, gofynodd am ollyngdod oddiyno hefyd, i gydsynio â galwad a dderbyniasai oddiwrth eglwysi Trenton a Holland Patent, N. Y. Buasai yn dda gan y chwaer fechan yn Sugar Creek, ei gadw yn hwy, pe gallasai heb wneuthur cam ag ef; ond am nad allai, derbyniwyd ei ymddiswyddiad, i fyned i'w faes newydd, gyda chymeradwyaeth uchel i'w gymwysderau fel cenad i Grist, a datganiad o ddymuniadau goraf y frawdoliaeth am fendith y Meistr i goroni ei lafur yno.

“Bu yn llafurio (meddynt) gyda diwydrwydd a chymeradwyaeth mawr yn yr ardal hon am agos i ddeg o flynyddoedd. Ni chawsom ein gofidio o herwydd dim anghysondeb yn ei ymarweddiad; bu yn ofalus ac ymdrechgar i lanw ei gylchoedd trwy bob amgylchiad a dryghin. Pan wnaeth yn hysbys i'r eglwys ei fod yn bwriadu ein gadael, tarawyd ni oll a syndod a thristwch, wrth feddwl cael ein hamddifadu o fugail mor lafurus a didwyll. Gwyddom ei fod yn meddu cymwysderau i lanw cylchoedd mwy na'r cylch bychan sydd yma,—bydd colled nid bychan i'r eglwys hon, ac i'r ardal, ar ol ei lafur diffino. Yr ydym yn gwir ddy-muno ei lwyddiant er dychweliad eneidiau, adeiladu y ffyddloniaid, a dyrchafu y Gwardedwr. Cafodd y fraint i gadw ei goron hyd yn hyn, a hyderwn y caiff y fraint o'i chadw nes huno yn yr angau. Yr ydym yn ei gyflwyno i ofal y Pen Bugail dros yr amser sydd yn ol o'i filwriaeth.” Arwyddwyd dros yr eglwys gan David Evans, *Diacon*, a Daniel Jenkins, *Ysg.*, ac eraill.

Rhodddwyd iddo dderbyniad siriol a chalonog gan y brodyr yn Oneida, fel y dengys y penderfyniadau canlynol a fabwysiadasant mewn perthynas iddo yn eu Cyfarfod Chwarterol ar ei fynediad i'w mysg: “Dymunol oedd genym weled yr hen bererin, y Parch. James Davies, gyda ni. Dechreuodd ar ei waith yn eglwysi Trenton a Holland Patent, y Sabboth o flaen y cyfarfod. Llwyddiant iddo, a phobl ei ofal a fyddont ofalus am dano, a siriol wrtho, gan ddysgwyl bendith yr Arglwydd ar ei ymdrechadau. Pasiwyd ei fod i fyned trwy yr eglwysi i gasglu at ddileu y ddyled sydd yn

aros ar eglwysi Trenton a Holland Patent, a'i fod i fyned allan pan fyddo yn gyfleus iddo; hefyd ein bod yn anog yr eglwysi i fod yn hael iddo, a thyner wrtho pan y byddo yn myned oddiamgylch."

Pan gofier na symudodd Mr. D. ei deulu o Leatherwood, O., a'i fod eisoes mewn gwth o oedran, yn tynu ar ei bumed flwydd a thriugain, gwelir mai nid bychan oedd yr aberth a wnaeth wrth adael cysuron cartref, i fyned i lafurio i faes oedd bum' cant o filldroedd oddiwrth ei anwyliaid—ac ymddengys hyny yn eglurach fyth yn ngoleuni y ffaith iddo yno, fel yn mhob un o'i gynfeusydd, droi allan i gardota dros Iesu, er cael ei achosion tlodion o garchar dyled. Llwyddodd yno i hyny fel yn mhobman arall. Rhoes yr eglwysi hyny felly *tan ddyled o ddiolchgarwch oesol iddo ei hun*, trwy ddileu y llall a'i llethent. Cydnabyddasant hyny yn gyhoeddus ar achlysur ei ddychweliad i Ohio. Mynai y gwrandawyr yn gystal a hwythau iddo aros yno yn hwy i fwynhau o ffrwyth ei lafur; ond gwrthododd, o herwydd pellder y ffordd, a mawredd y draul, a'r anhawsderau i gael ei deulu ato.

Derbyniasai alwad oddiwrth eglwys Radnor, O., a chydsyniodd â hi, gan ddechreu ar ei lafur yno tua Mai 1863. Prynodd ddarn bychan o dir a thy arno yn mhentref Delhi—mewn lle cyfleus iawn i'r capel, ac yno y gorphenodd ei yrfa yn y fuchedd hon. Gwnaethom apeliadau parchus a thaerion at y cyfeillion yn Radnor, am grynodedb o hanes hwyrddydd ei weinidogaeth gyda hwynt. Buasai yn dda genym roddi nifer resymol o dudalenau at eu gwasanaeth i anrhydeddu eu hunain, fel yr eglwysi eraill fuont tan ei ofal yn y wlad hon, trwy ychwanegu eu tystiolaethau i barhad ei ddiwydrwydd a'i ffyddlondeb. Gwnaed addewid o ryw-beth o'r fath i ni *yn fuan*. Dysgwylasom yn *hir* a phryderus am y cyflawniad. Er mwyn corpholi yr hyn a gaem yn ei le priodol yn y llyfr, oedasom anfon y defnyddiau i'r argraffydd; ac er siomiant a gofid i ni, bu raid, wedi'r cwbl, eu hanfon cyn cael dim.

Deallwn, beth bynag, oddiwrth lythyr o eiddo Mr.

D., at Dr. Everett, yn 1868, ei fod y pryd hwnw heb roddi ei weinidogaeth i fyny; a'i fod yn teimlo pryder neillduol yn nghylch dylanwad ei genadwri ar y gwranda-wyr, a hiraeth dwys am gael profion ei bod yn alln Duw er iachawdwriaeth i bechaduriaid. Dyma fel yr ysgrifenodd: "Cadwyd wythnos y gweddiau yma yn afaelgar, a'r wythnos ganlynol trwyddi oll. Cawsom sail i gredu yr wythnos gyntaf, fod Ysbryd yr Arglwydd yn dylanwadu ar feddyliau amryw, a'r un modd yr wythnos ganlynol; a'r Sabboth cymundeb derbynias ddau ar-hugain trwy ddeheulaw cymdeithas, ac un yn cael ei hadferyd. Y cymundeb nesaf, pedwar. Yr oedd fy meddwl wedi myned i dristwch a gofid dibaid, er ys amser maith, gyda'r prophwyd Esaiah, 'Pwy a gredodd i'n hymadrodd?' wrth weled annheimlad-rwydd dynion dan y weinidogaeth; ond pan yr oeddwn agos a digaloni, a chilio o'r maes i roddi lle i ryw genad arall i geisio gwneyd daioni, ymwelodd yr Arglwydd â'i bobl."

Gwyddom yn mhellach hefyd iddo fod yn ymdrech-gar iawn gyda'r eglwys yn Radnor, i dalu dyled eu capel newydd hwythau, a adeiladwyd, os na chamhys-byswyd ni yn ystod ei amser ef gyda hwynt. Cof genym pan yr aethom, ryw fis cyn ei farwolaeth, yno i edrych am dano, ein bod yn pregethu ar noson waith yn y capel, a'i fod yntau yn myned yn ein braich o'i dy ei hun tua'r cwrdd, yn sefyll yn y cyntedd i'n cyfarch, gan ddywedyd: "Frawd Griffiths, dyma y *degfed* capel i mi lafurio yn galed i dalu ei ddyled."

O barch i enw Christopher Wren, adeiladydd enwog Eglwys St. Paul, yn Llundain, yr ydys wedi cerfio y frawddeg synwrlawn a ganlyn mewn lle amlwg yn yr adeilad: "*Os mynit weled fy nghofadail, edrych o'th gwmpas.*" Ni wyddom a oes mynor wedi ei osod erbyn hyn i nodi y lle y gorwedd yr hyn sydd farwol o wrth-ddrych y cofiant hwn; ac nid ystyriwn ychwaith fod cymaint o achos am dano, tra y byddo priddfaen ar briddfaen o'r deml hono heb eu datod, a'r ymadrodd am y groes yn cael ei gyhoeddi ynddi yn hen iaith Gwalia.

Wedi ei ymryddhad terfynol â gofalon gweinidog-aethol, pregethai yn achlysurol lle y byddai galwad am dano o fewn y dosbarth y perthynai iddo, a thu hwnt iddo hefyd. Talodd ef a'i anwyl briod ymweliad â'u meibion Benjamin (a fu farw wedi hyny, ac o'i flaen ef), a William, yn Kansas a Missouri. Daliodd yn rhyfedd o ran ei hoewder a'i fywiogrwydd hyd y diwedd, er fod ei gyfansoddiad wedi amlwg lesgau yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn 1873. Bu ar dro yn nechreu Ebrill tua Swyddi Allen a Vanwert, ac yn pregethu mor hwyliog ag erioed, o leiaf yn y lle olaf, fel y dywedwyd wrthym gan gyfaill oedd yn ei wrandaw yno. Ni chafodd fawr ond dychwelwyd, megys i ffarwelio â hoff gydmares ei fywyd cyn ei alw i ffordd yr holl ddaear, ac i rodio y llwybr ar hyd yr hwn ni ddychwela. Ar fore dydd Llun y 14eg o Ebrill, 1873, cymerwyd ef ymaith yn esmwyth a thra sydyn. Ni bu ei glefyd olaf fawr dros awr. Tarawyd ef gan ddiffyg anadl tra yn eistedd wrth y bwrdd i'w foreufwyd; aed ag ef yn ol i'w wely, ac yn fuan ymollyngodd i huno yn mreichiau ei War-edwr, hyd nes y dihunir ni oll gan floedd udgorn Duw i'n cydgasglu i'r farn gyffredinol. Dydd Mercher, Ebrill yr 16eg, ymgynullodd torf luosog, o bell ac agos, i hebrwng ei weddillion i dy eu hir gartref. Yr oedd y brodyr canlynol yn bresenol yn ei arwyl, ac yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth crefyddol yn y ty, y capel, neu ar lan y bedd: Powell, Troedrhiwdalar; Jones, Delaware; Cadwalader, Newark; Jones, Gomer; Jenkins, Radnor; Harries, Columbus, (T. C.); amrai weinidogion Seisnig o wahanol enwadau, a'r ysgrifenydd. Yn ddiweddglo i'r adran hon, cyfleuwn yma gyfran fechan o anerchiad a draddodasom i'n cynulleidfa ein hun ar ei farwolaeth, y nos Sabboth cyntaf, wedi ei gladdu.

Rhyngodd bodd i'n Tad Nefol i anfon cenad angeu i'n plith, i gymeryd oddiarnom dywysog, a gwr mawr yn Israel—tad yn yr Efengyl, a fawr berchid gan ei frodyr, y ceisiem ei farn ar faterion crefyddol, y gwerth-fawrogem ei gyngorion, ac y teimlir chwithdod a

chollod ar ei ol gan fyd ac eglwys. Yr Hybarch Davies, Llanfaircaereinion, wedi marw! Teimlem anhawsder mawr i gredu y newydd pan bellebrwyd ef i ni; ac hyd yn nod wedi myned i Radnor, i dalu y gymwynas olaf i'w ddyn oddiallan, ac yn mhresenoldeb profion gwel-edig a theimladol i'w ategu, nis gallasem yn ein byw, rywfodd, amgyffred ei gynwys. Bu am gyhyd o amser gyda ni. Yr ydoedd mor gyson yn ein cynullïadau, mor gyhoeddus yn ein cylchwyllïau—mor llawned o wres y weinidogaeth—mor chwim ei symudiadau, a'i lais mor deuluaidd i ni, fel y rhaid wrth gryn amser i'n hargyhoeddi yn *y marferol* nad edwyn ei le ef gyda ni mwy. Ond dyna y gwir er hyny; ac fe ddeuwn ninau, yn hwyr neu hwyrach, i'w gredu, ei ddeall, a'i deimlo. Mae bwlch gweladwy yn cael ei wneyd yn y goedwig pan gwmpa cedrwydden uchel, neu dderwen gref a llydan. Mae llawer o rai felly wedi eu cymynu yn ddiweddar yn ngwinllan Arglwydd y lluoedd, a'r prenau llai, o herwydd hyny, yn plygu eu penau mewn galar, ac yn hwyrfrydig megys i ymddilladu yn ngwisgoedd prydferth ac arferedig y tymor hwn o'r flwyddyn. Nid y rhan y perthynwn ni iddi yn unig sydd wedi ei hysgythru yn y modd y crybwyllwyd—ond pob rhan fel eu gilydd. Mor ddyfned a chyffredinol tristwch Esgobaethwyr Efroglaidd Ohio, a'r Taleithau oll heddyw, o herwydd colli y duwiolfrydig McIlvain. Ni rydd y brethyn du sy'n amwisgo eu hareithfau ond syniad gwan i ni am y prudd-der sydd wedi ymledu trwy holl gangenau ei Esgobaeth. Fel gweinidog presenol yr eglwys hon, y bu ein hen dad seintiedig, Davies, yn fugail iddi am rai blynyddau; teimlwn ei fod yn golled fawr i ni na chawsem gyfleusterau i gymdeithasu mwy gydag ef ar derfyn ei daith, i gasglu ffrwythau addfed ei brofiad, pan y llithrai, heb yn wybod iddo ei hun, tua rhydiau yr Iorddonen, fel y gallasem eu gosod ar y bwrdd o'ch blaen chwi yn enwedig yma heno, y rhai fuoch yn gydbererinion ag ef yma am dymor, ac sydd eto, trwy ffydd ac amynedd yn ei ddilyn, er eich cefnogi i ymddiried yn ngallu a gofal yr Arweinydd Hollalluog a'i

dug ef trwy yr anialwch, ac, o'r diwedd, a'i cododd ar edyn ei gariad i'w drosglwyddo i gynulleidfa y rhai cyntaf-anedig fry.

Yn symudiad tawel a dirybudd Mr. D., nis gallwn weled fod gan frenin dychryniadau le i ddyrchafu llawer ar ei gorn—edrycha i ni yn debycach i oruchafiaeth a'r angeu, yn hytrach na baeddiad ganddo. Wythnos i heddyw, dair gwaith yn nhy daearol Duw, yn addoli, mor effro a siriol a neb; ond cyn deg o'r gloch bore dydd Llun, mor heinif ag un angel, ac uwch ei lef nac un cerub yn ngwasanaeth y deml nefol! Bu farw, fel Dafydd, mewn oedran teg, ac yn llawn o ddyddiau. Cyrhaeddodd ychydig dros y cyfnod addawedig i ddyn ar y ddaear; ond ni adawyd iddo ddyoddef poen a blinder y rhai o gryfder a gyrhaeddant bedwar ugain mlynedd. Ni chadwyd ef ychwaith, fel y cedwir ni ambell dro ar siwrneuon daearol, i hir ddysgwyl am y cerbyd i'w gludo adref—na, yr oedd y *train on time*; ac yr oedd yntau yn barod. Ebe un :

“Sudden as thought is the death I would die,
I would suddenly lay my shackles by,
Nor *bear* a single pang at parting,
Nor *see* the tear of sorrow starting,
Nor *hear* the quivering lips that bless me,
Nor *feel* the hands of love that press me,
Nor the frame with mortal terror shaking,
Nor the heart where love's soft bands are breaking—
So would I die!
All bliss, without a pang to cloud it!
All joy, without a pain to shroud it!
Not slain, but caught up as it were,
To meet my Saviour in the air,
So would I die!
Oh, how bright were the realms of light
Bursting at once upon my sight!”

Felly, gynulleidfa, o'r bron y bu ymadawiad yr hen dad Davies i dangnefedd. Pwy na ddymunai ollyngdod felly, ond yn gyntaf gael sicrwydd fod y cyflwr yn dda, a'r bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw. Bendithied yr Arglwydd ei gymeriad annysgwyliadwy ef o'r byd i'n deffroi ninau o gysgu—i beri i ni drwsio ein

lampau, ac edrych am fod genym olew ynddynt, fel y byddom barod i fyned i mewn gyda'r Priodfab, ar ba wyliadwriaeth bynag y delo.

ENGLYNION

ER COFFADWRIAETH AM Y PARCH. JAMES DAVIES.

Mawr air yn Llanfair a fydd—i'r enwog,
A'r anwyl ddfinydd;
A'i glod a daen trwy'r gwledydd,
Am ei sêl, tra'r awel rydd.

Dyn Duw, yn ei fyw, ef oedd—a dênol
Mewn doniau pur ydoedd;
O'r Beibl rhoes i'r bobloedd,
Am oes hir, y gwir ar g'oedd.

Myfyriai ef am fawredd,—rhin, a grym,
Iawn y groes dros gamwedd;
Athraw gwir ei thrugaredd,
Draethai'r byd, ei hyfryd hedd.

Y dyn bach, oedd yn dân byw—ein temlau,
Teimlai dros ddynolryw;
Yn ei fywyd oedd yn enfyw,
A gorlawn o ddawn ei Dduw.

A'i ddwylaw, hylaw o hyd,—a'i ddeudroel,
Carodd adrodd hefyd;
Chwysai, a bloeddi, heb lid,
Wrth ei fodd yn nerth ei fywyd.

Nid llwfr oedd, ond llafurwr,—byw, effro;
Iôn iddo fu'n noddwr;
Bu yn enwog eneiniog wr,
Dan ei goron, fel dyngarwr.

Yn Allen ca'dd lawen lwydd—a Radnor
Oedd reidiol i'w fawrlwydd;
Yn ei lawn sêl cyflawnai'i swydd,
Yn eurglod i'w gyfiawn Arglwydd.

At yr Oen, o boen y byd—yn sydyn,
Ys hedodd i'r gwynfwyd;
Yn y fro mae'n llon ei fryd,
Iach ydyw ef uwch adfyd.

IORTHRYN GWYNEDD.

PREGETHAU.

PREGETH I.

CYSEGRIAD Y DEML.

“Gan adeiladu yr adeiledais dy yn breswylfod i ti; trigle i ti aros yn dragywydd ynddo.”—I BREN. 8: 13.

Mae y benod ardderchog hon yn cynwys hanes gwyl cysegriad teml Solomon. Yr oedd yr amgylchiad yn un o ddyddordeb a phwysigrwydd anarferol, ar gyfrif drudfawredd ei defnyddiau, cywreinrwydd yr adeiladaeth, a, mwy na'r cwbl, o herwydd amcan ei gwneuthuriad—sef i fod yn breswylfa ddaearol Duw y duwiau, ac Arglwydd yr arglwyddi, a phabell i'w bobl gyfarfod ag Ef, i gael gweled ei brydferthwch, ac ymofyn ag Ef oddiar y drugareddfa. *Dyna hefyd ddyben y ty hwn.*

Sylwer fod y brenin yn blaenori yn y gwasanaeth crefyddol hwn, megys ag y gwnaeth ei dad o'i flaen yn nygiad yr arch i Jerusalem. Mae yn anrhydedd i dywysogion a mawrion y ddaear gael cadw y drws yn nheml yr Arglwydd. Dyna farn ddatganedig Dafydd, a chredwn y buasai yn well gan ei fab Solomon hyn hefyd na thrigo yn mhebyll annuwoldeb, oddiwrth yr hyfrydwch a twynha yn nyledswyddau santaidd yr wyl hon. Cofier mai *blaenori* y dywedasom fod Solomon, nid gwneyd y cwbl ei hunan. Na, yr oedd henuriaid Israel, a holl benau y llwythau—yr offeiriaid a'r Lefiaid, a “holl gynulleidfa Israel gydag ef o flaen yr arch, yn aberthu defaid a gwartheg, y rhai ni rifid ac ni chyfrifid gan luosawgrwydd.” Y wers i'w thynu oddiwrth hyn yw hon—nad ydyw yr Arglwydd wedi cyfyngu y fraint o helpu ei achos i gyfoethogion nac uchel swyddwyr yn ei eglwys; ond ei fod am i'r iselradd, ac i aelodau cyffredin fod yn gydgyfranogion â hwythau o honi.

Mae Duw yn cymeradwyo eu gwaith, ac yn dwyn tystiolaeth i'w rhoddion. "A phan ddaeth yr offeiriaid allan o'r cysegr, y cwmwl a lanwodd dy yr Arglwydd, fel na allai yr offeiriaid sefyll i wasanaethu, o herwydd y cwmwl: canys gogeniant yr Arglwydd a lanwasai dy yr Arglwydd." Yn yr arwyddion gweledig a roddes o'i bresenoldeb, Efe a amlygodd iddynt ei fod yn derbyn yr arch, a'r deml, ac y gwrandawai y gweddiau a offryment yn y ty hwnw, a thuag ato o fanau eraill, yn gystal a'r weddi a offrymwyd gan Solomon ar yr achlysur hwnw. Athrawiaeth y testyn yw—Diball drigiad yr Anfeidrol yn ei eglwys. Dyma un o'r testynau melusaf a mwyaf cefnogol i'r saint o fewn yr holl Feibl.

I. GWNAWN RAI NODIADAU EGLURHAOL O'R ATHRAWIAETH.

1. *Beth a ddeallir wrth dy yr Arglwydd?*—Nid oes le i ameu nad ystyr lythyrenol y frawddeg yn yr adnod yw y deml a adeiladesid gan Solomon; ac y mae hyn yn wir am dani mewn llawer man arall y cyfarfyddir a hi. Nodwn y samplau canlynol: "Ac efe, y bachgen Joas, mab Ahaziah y brenin, a fu yn nghudd gyda hwynt yn nhy Dduw chwe' blynedd, ac Athaliah oedd yn teyrnasu ar y wlad. Ac efe, Manasseh, a osododd y ddelw gerfiedig yn nhy Dduw, am yr hwn y dywedasai Duw wrth Dafydd, ac wrth Solomon ei fab, yn y ty hwn, ac yn Jerusalem y gosodaf fy enw yn dragywydd. Canys aethwn gyda'r gynulleidfa, cerddwn gyda hwynt i dy Dduw, mewn sain cân a moliant, fel tyrfa yn cadw gwyl." Ond yn gyffredin iawn yn y Testament Newydd, dynoda gynulleidfa yr Arglwydd, neu o bobl yn credu yn Nghrist, ac wedi ymgyfamodi â'u gilydd i ddwyn ei achos Ef yn mlaen. "Ond os tariaf yn hir, fel y gwypech pa fodd y mae yn rhaid i ti ymddwyn yn nhy Dduw, yr hwn yw eglwys y Duw byw, colofn a sylfaen y gwirionedd; canys daeth yr amser i ddechreu o'r farn o dy Dduw."

2. *Beth a ddeallir wrth breswiliad Duw yn ei dy?*—Ni chynwysir y Mawrhydi Dwyfol mewn lle. Wele, y

nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ni allant dy gynwys di; pa faint llai y dichon y ty hwn a adeiledais i? Nid yw Efe yn trigo mewn temlau o waith dwylaw, ac nid â dwylaw dynion y gwasanaethir Ef, fel pe ba'i arno eisiau dim. Eto y mae yn trigo mewn tai daearol o ran dylanwadau ei Yspryd.

(1.) *Fel egwyddor bywyd yr holl gymdeithas.*—Heb-ddo Ef o'i mewn, pa mor lluosog bynag, neu gyfoethog bynag y gall fod, ni bydd amgen na dyffryn o esgyrn sychion, a gwywedig iawn, heb anadl o'u mewn. Er bod ganddi enw o fod yn fyw, marw a fydd.

(2.) *Fel ei Phen a'i Llywodraethwr.*—Ei ewyllys ddadguddiedig Ef ydyw cyfraith y ty. Efe a fynegodd y ddeddf, ac a'i hanfonodd allan o Seion; ac nid dieuog yn ei olwg Ef a fydd y neb a'i diryma i wneyd lle i gyffesiau a chredoau enwadol—i orchymynion dynion a thraddodiadau yr hynafiaid.

(3.) *Fel ei Diffynydd cadarn.*—Duw sydd yn ei chanol, nid ysgog hi—Efe a'i cynorthwya yn fore iawn. Am Seion y dywedir: Y gwr a'r gwr a anwyd ynnddi, a'r Goruchaf ei hun a'i sicrha hi. Er mor waned ei hunan, mai "pryf Jacob" y gelwir hi; eto am fod Crist, yr Hwn a osodwyd yn Frenin arni, yn castellu o'i hamgylch, pyrth uffern nis gorchfygant hi.

(4.) Ac yn mhob un o'r cymeriadau yna, *Efe a crys ynnddi byth.*—Preswylfod iddo ydyw, ac nid lle i letya tros nos. "Trigle i ti aros ynndo yn dragywydd." Mae llawer wedi troi eu cefnau ar y ty; ond yma y trigaf, medd y Goruchaf, am ei eglwys, canys chwenychais hi. *Gorphwysfa* ei ogoniant yw.

II. PROFWN WIRIONEDD YR ATHRAWIAETH O BARHAUS AROSIAD Y JEHOFAH YN EI EGLWYS.

1. *Y mae hyn yn gasgliad naturiol oddiwrth lawer o dystiolaethau yr Ysgrythyrr am greadigaeth a chynaliaeth y byd.*—Ni ddycepwyd y ddaear i fodolaeth yn-unig i fynegu gogoniant Duw fel Creawdwr; ond fel yr eglurid arni y dirgelwch, yr hwn oedd guddiedig o ddechreuad y byd yn Nuw, yr hwn a greodd bob peth trwy Iesu Grist, fel y byddai yr awr hon yn hysbys i'r

tywysogaethau ac i'r awdurdodau, yn y nefolion leoedd, trwy yr eglwys, fawr amryw ddoethineb Duw. Nid oedd creadigaeth ond banlawr i ddangos oddiarno drefn y prynedigaeth; na holl aberthau a seremonïau yr oruchwyliaeth Foesenaidd ond rhagymadrodd i hon. Mae darluniedydd medrus bob amser yn rhoddi ei brif wrthddrych yn y canol, ac yn addurno conglaau ac ymylon ei len gyda phethau llai pwysig a fyddant is-wasanaethol i hwnw. Felly yn ol ordeiniad y Duw unig ddoeth, y mae pob peth wedi ei ddwyn tan deyrnged i groes Crist.

2. *Oddiwrth y ffaith mai Efe ydyw adeiladydd Seion.*—Mae gan freninoedd y ddaear ofal mawr am y dinasoedd hyny a roddasant i fyny iddynt eu hunain; galwant hwynt ar eu henwau; yno y gosodant eu gorseddau, ac y treuliant y rhan fwyaf o'u hamser. Wel, y mae yr eglwys yn cael ei chyfenwi yn "ddinas Duw," yn "ddinas y Brenin Mawr," a "dinas Arglwydd y lluoedd." Os dywedodd Nebuchodonosor, Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiledais i yn frenindy, yn nghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi?—onid allai Duw yn briodol ddyweyd am ei eglwys, Onid hon yw yr eglwys a adeiledais I, o hen feini geirwon y cwmp, ac a gabolwyd gan fy Ysbryd, fel na welir staen yn unman arni? Frodyr, a ydym ni yn rhyw ran o'r adeilad hon? A chwithau, megys meini bywiol, ydych wedi eich adeiladu yn dy ysbrydol, yn offeiriadaeth santaid, i offrymu aberthau ysbrydol, cymeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist.

3. *Oddiwrth fawredd y draul y mae wedi myned iddi yn ei hachos.*—Ni chostiodd y creadigaeth i Dduw lafur na phoen, tra y mae ei eglwys wedi costio i'r Immanuel—y Duw mewn cnawd—lafur caled mewn corff ac enaid, blinder, chwys, newyn, syched, gwaed ei galon a'i fywyd. Ni chaiff yr holl draul hon, ynte, fod yn ofer. Mae ei mawredd yn warantiad y preswylia Duw yn ei dy.

4. *Sicrheir hyn hefyd gan ffyddlondeb y Tad i'w anwyl Fab.*—Fe orchymynodd Crist i'r dysgyblion nad

ymadawent o Jerusalem, eithr dysgwyl am addewid y Tad, yr hwn, eb Efe, a glywsoch genyf fi. Am hyny, ebe Pedr, Wedi ei ddyrchafu Ef trwy ddeheulaw Duw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glan, Efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awrhon yn ei weled, ac yn ei glywed. Wedi i'r Mab ogoneddu y Tad ar y ddaear, a chwblhau y gwaith a roddodd iddo i'w gyflawni, ni raid petruso nad enfyn y Tad yntau y Dyddanydd arall i lanw ei le ef, ac i'w ogoneddu yntau yn achubiaeth eneidiau, a santeiddiad ei bobl.

5. *Mae serch Duw at, a'i hyfrydwch yn, ei bobl, yn ategiad pellach o hyn.*—"Byddi hefyd yn goron gogoniant yn llaw yr Arglwydd, ac yn dalaith freninol yn llaw dy Dduw. Ni ddywedir am danat mwy, Gwrthodedig; am dy dir hefyd, ni ddywedir mwy, Anghyfanedd: eithr ti a elwir Hephshibah; a'th dir, Beulah: canys y mae yr Arglwydd yn dy hoffi, a'th dir a briodir." Er y bydd Seion weithiau, pan dan y tonau, yn dywedyd, Yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd; y mae hyny yn gamsyniad mawr. Fe anghofia gwraig ei phlentyn sugno, fel na thosturia wrth fab ei chroth, cyn ygwnaif fi dy anghoffio di, medd yr Arglwydd. Wele, ar gleidr fy nwyllaw y'th argreffais, dy furiau sydd ger fy mron bob amser.

III. CYMHWYSWN YR ATHRAWIAETH ATOM EIN HUNAIN.

1. *Rhyfeddwn anfeidrol ymostyngiad y Jehofah yn dyfod i breswyllo gyda dyn ar y ddaear!*—Safai Solomon gyda dwylaw dyrchafedig, megys gan syndod, uwchben y ffaith hon, wrth ystyried y pellder anfesuradwy a ysgara yr hwn sydd lanach ei olygon nag y gall edrych ar ddrwg, oddiwrth ddyn pechadurus. Ond gwir yw, er mor rhyfedd. Er nad yw y nefoedd, mewn cydmariaeth, lân ger ei fron; na lewyrcha y lleuad, ac nad yw y ser bur yn ei olwg ef,—er fod yn ddarostyngiad arno edrych ar y pethau yn y nefoedd, eto y mae ei hyfrydwch gyda meibion dynion. Mae yn

dyrchafu y tlawd o'r llwch, a'r angenus o'r domen.
O, moliant iddo.

2. *Gwylw'n rhag anmharchu a digio Preswyllydd a Pherchenog y ty.*—Gwasanaethu Duw wrth ei fodd a ddylai fod ein nôd uchaf yma bob amser. Mynegu ei rinweddau, a harddu athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr yn mhob peth, rhag i'w enw anwyl Ef gael ei gablu yn mysg y cenedloedd. Yn llys brenin, neu balas pendefig daearol, byddwn ofalus rhag, trwy un ymddgiad anweddauidd, tynu ei wg arnom. Cofiw'n hefyd wyllo ar ein traed wrth fyned i dy Dduw, a bod yn barotach i wrando nac i roddi aberth ffyliaid.

3. *Gan fod Duw yn preswyllo yn ei dy, os ydym ninau yn blant anwyl iddo, ac yn dda genym am dano, bydd yn hyfryd genym gyfarfod ag Ef yno.*—Arwydd o elyniaeth at Dduw ydyw anewyllysgarwch i dd'od i'w gysegr Ef, ac esgeulusdra o foddion gras. Mae enaid y duwiol yn hiraethu ac yn blysio am gynteddau yr Arglwydd, ei galon a'i gnawd yn gwaeddi am y Duw byw. Llawenycha ei galon pan ddywedant, Awn i dy yr Arglwydd. Dyna ei gartref—dyna lle mae ei Dad, ei fam, ei frodyr a'i gyfeillion; ac am hynny ei benderfyniad yw—Preswyliaf yn nhy yr Arglwydd yn dragwydd.

4. *Peidiwn ag anobeithio am weled yr eglwys yn gref a llwyddianus, ac yn foliant ar y ddaear, er gwaned ydyw, ac er gwaeled ei gwedd yn bresenol.*—Gan fod Duw ynnddi, fel purwr a glanhawr arian, Efe a lân bura ei sothach, ac a dyn ymaith ei holl alcam; gwna hi yn ardderchawgrwydd tragywyddol, ac yn llawenydd i'r holl genedlaethau. Efe a'i gesyd iddo ei hun yn eglwys ogoneddus, heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw, ond yn santaidd a difeius. Amen.

PREGETH II.

DERBYN CRIST A RHODIO YNDDO.

“Megys gan hyny y derbyniasoch Grist Iesu yr Arglwydd, felly rhodiwch ynddo; wedi eich gwreiddio a'ch adeiladu ynddo Ef, a'ch cadarnhau yn y flydd, megys y'ch dysgwyd, gan gynyddu ynddi mewn diolchgarwch.”—COL. 2 : 6, 7.

Colosse oedd ddinas nid anenwog yn Asia Leiaf, yn sefyll ar lan yr afon Lycus, i'r dwyrain o Ephesus, ac i'r gogledd o Laodicea. Mae esponwyr yn gwahaniaethu yn eu golygiadau am y person a fu yn offerynol i gario yr efengyl i'r ddinas hono, ac i blanu yr eglwys Gristionogol o'i mewn. Rhai yn dal allan mai Paul a wnaeth, ac eraill yn dal allan yn dyn nad é ddim, ac yn dwyn y geiriau canlynol o'r espistol i brofi eu haerïad: “Canys mi a ewyllysiwn i chwi wybod pa faint o ymdrech sydd arnaf er eich mwyn chwi, a'r rhai yn Laodicea, a chynifer ag ni welsant fy wynebi yn y cnawd.” Mynant hefyd fod y datganiad hwn o eiddo yr Apostol yn dangos mai Epaphras a'i sefydlodd: “Megys ag y dysgasoch gan Epaphras, ein hanwyl gydwas, yr hwn sydd drosoch chwi yn ffyddlawm weinidog i Grist.” Amcan penaf y llythyr yw, rhoddi y frawdoliaeth yno ar eu gwyliadwriaeth rhag heresiau llygredig a damniol. Rhagddywedasai Paul y blindid yr eglwysi yn y parthau hyny gan y cyfryw—“Canys myfi a wn hyn, y daw, ar ol fy ymadawïad i, fleiddiau blinion i'ch plith, heb arbed y praidd. Ac o honoch chwi eich hunain y cyfyd gwyr yn llefaru pethau gwyrdraws, i dynu dysgyblion ar eu hol.” Llafuria yma i'w hegwyddori yn dda yn athrawiaethau y wir grefydd, ac i'w dysgu i gydnabod dirgelwch Duw, a'r Tad, a Christ; yn yr hwn y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig. A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, fel na thwylllo neb chwi ag ymadrodd hygoel. Nid oedd y ffaith mai arall a gafodd y fraint o gychwyn yr achos da yno, nac o'i absenoldeb presenol oddiwrthynt, yn ei

wneyd yn ddidaro yn eu cylch ; ond yn hytrach, er yn absenol yn y cnawd, yr ydwyf gyda chwi, meddai, yn yr yspryd, yn llawenyachu, ac yn gweled eich trefn chwi, a chadernid eich ffydd yn Nghrist. Megys gan hyny y derbyniasoch Grist Iesu yr Arglwydd, felly rhodiwch ynddo, &c. Galwn chwi bellach i ystyried :

I. Y WEITHRED A BRIODOLIR IDDYNT.

Derbyn Crist. Gosodir hi allan trwy foddau eraill yn y Gair Santaidd—megys troi yr wyneb ato, dyfod ato, edrych arno, credu ynddo, bwyta ei gnawd ac yfed ei waed Ef ; ond yma *ei dderbyn*. A chynifer ag a'i derbyniasant Ef, Efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, sef i'r sawl a gredant yn ei enw Ef. Mewn trefn i fanylu ar y pwnc hwn, sydd yn nglyn wrth gadwedigaeth ein heneidiau, sylwn :

1. *Fod derbyn Crist yn cynwys crediniaeth o'r dystiolaeth Ddwyfol am dano*.—Mae y Tad wedi dwyn tystiolaeth ei fod wedi ordeinio ei Fab erioed i'r swydd gyfryngol, ac iddo yn nghyflawnder yr amser ei ddwyn Ef i'r byd, wedi ei wneuthur o wraig, a than y ddeddf, i berffeithio ffordd o waredigaeth i bechaduriaid—fod holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo yn gorfforol ynddo tuag at wneyd i fyny eu hangenion—fod pawb yn ddiwahaniaeth yn cael eu gwahodd ato fel y drebyniont o'r cyflawnder o ras, a chariad, a maddeuant sydd yn drysoredig ynddo, na wrthodir neb a ddeuant, na throir eu gweddi oddi wrtho, na'i drugaredd Ef oddiwrthynt hwythau. “Hyn yw tystiolaeth Duw, yr hon a dystiolaethodd Efe am ei Fab, Yr hwn sydd yn credu yn Mab Duw, sydd ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun.” Trwy y derbyniad ymddiriedol o'r datganiadau yna am dano, y mae Crist yn cael ei ffurfio yn yr enaid yn obaith gogoniant.

2. *Cymeradwyaeth wresog y galon o hono*.—Nid derbyniad oeraidd a roddasant iddo, fel a roddir i berson nad ellir peidio agoryd ein drysau iddo, er y dymunasem hyny ; ond rhoddasant iddo groesawiad didwyll. Pan ddywedodd Ef, Ceisiwch fy wyneb, eu henaid hwythau a ddywedodd, Dy wyneb a geisiwn, O Ar-

glwydd. Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys, medd Ef. Amen, meddynt hwythau; yn wir, tyred Arglwydd Iesu.

3. *Ymgysfwyniad llwyr i'w wasanaeth Ef.*—Ni cheisia yn hwy wasanaethu dau arglwydd. Beth sydd i mi mwyach a wnelwyf ag eilunod? meddai. Ni all Assur ein hachub ni; ni farchogwn ar feirch, ac ni ddywedwn mwyach wrth waith ein dwylaw, O ein duwiau: o herwydd ynot ti y caiff yr amddifad drugaredd. Mae yr enaid gwir edifeiriol wrth dderbyn Crist yn ei dderbyn yn yr oll ag ydyw, ac yn ei holl swyddau. Ymostynga iddo fel Brenin, dysga ganddo fel Prophwyd, ac fel Archoffeiriaid santaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid, ac wedi ei wneuthur yn uwch na'r nefoedd, ymbwysa yn hollol ar ei aberth drud am gymod â Duw. Ni fyn wybod dim ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio—nac ymfrostio mewn dim, ond yn nghroes Crist.

II. Y RHWYMEDIGAETHAU A DDILYNANT EI DDERBYNIAD.

Rhodio ynddo—ein gwreiddio a'n hadeiladu ynddo Ef, &c. Gwelir oddiwrth y geiriau fod dysgwyliad i broffeswyr crefydd fod yn weithgar a dianwadal. Mae y ddau ddrychfeddwl yna i'w gweled yn amlwg yn y "rhodio" a'r "gwreiddio" yma. Nid ydynt i eistedd i lawr yn esmwyth arnynt yn Seion, nac i ymestyn ar eu glythau; ond i rodio, a rhodio yn Nghrist—efelychu ei ddiwydrwydd, a'i fywyd santaidd Ef; ac y mae y gwreiddio, yr adeiladu, y cynyddu, a'r cadarnhau y sonir yn y testyn am danynt, yn rhoddi ar ddeall i ni na ddylent fod fel plantos yn bwhwman, yn cael eu cylcharwain gyda phob awel dysgeidiaeth. Mae y sefydlogrwydd a argymellir arnom gan yr ysgrifenydd yn bwysig iawn, fel y gwelir os ystyrir:

1. *Na byddwn gynrychiolwyr teilwng o Grist heb fod felly.*—Nid yw yr anwadal a'r dau ddyblyg ei feddwl yn rhodio ynddo, neu yn dwyn y tebygrwydd lleiaf iddo Ef.

2. *Nad ellir dysgwyl i ni gynyddu mewn crefydd heb*

fod yn sefydlog.—Mae hen ddiareb a ddywed—Y gareg a dreigla, ni fwsogla. A phe meddylid am blanhigyn, neu bren a symudid, neu a drawsblenid bob tymor, nid edrychem am ffrwyth arno. Felly hefyd yn nglyn a'r mater hwn. Yr aelodau hyny sydd wedi eu gwreiddio yn egwyddorion Cristionogaeth, fel cedrwydd mawrion a henafol Libanus, sydd yn dwyn ffrwyth yn ei bryd, ac a'u dail yn wyrddion, yn dirfion ac iraidd yn eu henaint, i fynegu mai uniawn yr Arglwydd eu craig, ac nad oes anwiredd ynddo.

3. *Mae amledd y rhwystrau ar ein ffordd, a chryfder yr ymosodiadau a wneir arnom gyda chrefydd yn ei wneyd yn bwysig ac anhebgorol.*—Mae Iesu Grist mewn rhan o ddameg yr hauwr yn dangos hyn mewn dull plaen a chymwys. “A'r hwn a hauwyd ar y creigleoedd, yw yr hwn sydd yn gwrando y gair, ac yn ebrwydd trwy lawenydd yn ei dderbyn; ond nid oes ganddo wreiddyn ynddo ei hun, eithr dros amser y mae; a phan ddelo gorthrymder neu erlid oblegid y gair, yn y fan efe a rwystrir.” Mor frawychus hefyd y disgrifiad a rydd Pedr i ni o sefyllfa a chospedigaeth yr ansefydlog. “Y rhai hyn ydynt ffynonau diddwr, cymylau a yrid gan dymestl; i'r rhai y mae niwl tywyllwch yn nghadw yn dragywydd.” Gwelwn ynte mor briodol, ac amserol y cyngor yn yr adnod ddilynol i'r testyn: “Edrychwch na bo neb yn eich anrheithio trwy philosophi a gwag dwyll, yn ol traddodiad dynion, yn ol egwyddorion y byd, ac nid yn ol Crist.” Mae angen am y fath rybudd yn ein dyddiau ninau. Mae athrawiaethau amryw a dyeithr wedi gwneyd eu hymddangosiad yn ein plith; ac y mae y rhai a'u lledaeniant yn gyfrwys yn y dulliau a fabwysiadant i hyny. Arferant eiriau denu ac ymadroddion gwenieuthus. Canys gan ddywedyd chwyddedig eiriau gorwagedd, y maent hwy trwy chwantau y cnawd, a thrythyllwch yn llithio y rhai a ddiangasai yn gwbl oddiwrth y rhai sydd yn byw ar gyfeiliorn. Canys y rhai sydd gyfryw, nid ydynt yn gwasanaethu ein Harglwydd Iesu Grist, eithr eu bol eu hunain; a thrwy ymadrodd

teg yn twyllo calonau y rhai diddrwg. Trwy rith ymddangosiadau o dduwioldeb a sêl tros y gwirionedd a buchedd rinweddol, ceisiant ddylanwadu ar y werin, a llithio eneidiau anwadal. Trwy geisio lladd dylanwad y rhai a ddysgant athrawiaeth iachus, ymwithiant i ffafir yr ehad a'r anwybodus, fel y gwnai gelynyon yr apostol. "Y maent yn rhoi mawr serch arnoch, ond nid yn dda: eithr chwenych y maent eich cau chwi allan, fel y rhoddoch fawr serch arnynt hwy." A thrwy bregethu athrawiaethau penrydd, rhyddid oddiwrth fanylrwydd gofynion cyfraith y nef, ac yn enwedig oddiwrth ei thragywyddol gosp, llwyddant i raddau gormodol yn eu hymgais, a thwyllant lawer. Gwelwn ynte fod galwad uchel, o herwydd y peryglon hyn, am i ni gael ein gwreiddio yn ddyfnach yn addysgiadau Crist, fel y gallom ddal rhuthriadau corwyntoedd cyfeiliornadau—am i ni gael ein cydio, ein *cementio* yn gryfach, gryfach, yn mur y deml ysbrydol, fel na'n symuder yn fuan gan yr anrheithwyr a geisiant ein dymchwelyd.

Terfynwn gyda nodi dan awgrym sydd yn y testyn pa fodd i gyraedd sefydlogrwydd crefyddol.

1. *Helpu y naill y llall trwy egwyddori ein gilydd.*—“Megys y'ch dysgwyd,” ac fel y dywedir mewn rhan arall o'r epistol—“Megys y dysgasoch gan Epaphras, ein hanwyl gydwas, yr hwn sydd drosoch chwi yn ffyddlon weinidog i Grist.” Rhaid i ni o'r areithfa wneyd ein goraf i iawn gyfranau gair y gwirionedd, ac i borthi y dysgyblion â gwybodaeth ac â deall. Rhaid i athrawon yr Ysgolion Sabbothol, ac yn enwedig rieni crefyddol, gydlafurio â ni yn hyn yma. Os na hauwn ni had da, fe dyfa y chwyn; a gwaeth na hyny, fe haua y gelyn efrau a felldithiant y maes.

2. *Pob un drosto ei hun, ac ynddo ei hun, faethu yspryd defosiynol, a chadw ei sel grefyddol heb oeri yn ei fynwes.*—“Gan gynyddu ynddi mewn diolchgarwch.” Derbyniasoch Grist Iesu yr Arglwydd yn awyddus, fel rhai a'i hystyriant yn anrhydedd i gael eich rhifo yn mysg ei ganlynwyr—parhewch i'w arddel yn y bechad-

urus genedlaeth hon—gwisgwch Ef am danoch, a rhodiwch ynddo. Derbyniasoch Grist gyda meddwl tyner a llygaid yn llifo gan ddagrau, wrth wrando am ei gariad rhad tuag atoch. Gwyliwch na chaledo y galon trwy dwyll pechod. Derbyniasoch Grist gyda'r bwrriad, a than addaw glynu wrtho hyd y diwedd. Cadwch at y penderfyniad hwnw; na fyddwch fusgrell; ewch rhagoch at berffeithrwydd; na fwriwch ymaith eich hyder; cadwch y ffydd, gan gynyddu ynddi mewn diolchgarwch.

PREGETH III.

GALARNAD CRIST DROS JERUSALEM.

“Ac wedi iddo ddyfod yn agos, pan welodd efe y ddinas, efe a wylodd trosti, gan ddywedyd, Pe gwybuasit tithau, ie, yn dy ddydd hwn, y pethau a berthynant i'th heddwch! eithr y maent yn awr yn guddiedig oddiwrth dy lygaid.”—LUC 19: 41, 42.

Rhydd yr Efengylwr yma ddesgrifiad o ymddangosiad Llys-genadydd anrhydeddusaf Brenin y breninoedd yn Jerusalem. Ac er ucheled person ydoedd, a phwysiced ei neges, nid oes dim tebyg i drahausder yn ei ymddygiad; ond yn ol y brophwydoliaeth a aethai o'r blaen am dano, “Y mae Efe yn llariaidd, ac yn marchogaeth ar asyn, ac ar ebol llwdu asen.” Yn nghanol yr holl arddangosion o barch iddo gan y lluaus, yr oedd ei feddwl ef dan wasgfa a gofid mawr yn herwydd y genedl a'r ddinas santaidd. Cofiai ei mawredd gynt, tra y mwynhâi yn y deml arwyddion neillduol o'r Presenoldeb Dwyfol; tra y gweinyddid wrth ei hallorau gan ddynion yn ofni yr Arglwydd, ac yr esgynai y llwythau yno mewn sain cân a moliant, i wir addoli. Meddyliai am ei chyflwr dirywiedig presenol, ei hanmharch o'r cenadau ffyddlon a anfonwyd ati, ac fel y cynllwynai y bobl yn barod i'w roddi yntau i farwol-aeth. Rhagwelai hefyd beth fyddai y canlyniadau adfydus o hyn; fel y llwyr-ddinystrid y ddinas ardderchog hon, oedd unwaith yn degwch bro, ac yn llawenydd

yr holl ddaear, ac y darostyngid y genedl i ddyoddef-
iadau na chlybuwyd erioed am eu bath mewn arswyd-
olrwydd. Ar hynny Efe a wylodd trosti, ac yn ngeiriau
ein testyn a ddatganodd ei ddymuniad am heddwch
iddi: "Pe gwybuasit tithau, ië, yn dy ddydd hwn, y
pethau a berthynant i'th heddwch.

I. NODWN RAI O'R PETHAU ANGENRHEIDIOL EU
GWYBOD TUAG AT GAEL CYMOD A DUW.

1. *Rhaid i ni wybod fod dynion wedi gwrthryfela yn
erbyn Duw.*—Ein bod oll wedi pechu, a myned yn ol
am ogoniant Duw; a'n bod trwy anufudd-dod a gwrth-
ryfel wedi gosod ein hunain yn gyfiawn agored i gosb-
edigaeth oddiwrtho. Hyd nes yr argyhoeddir ni o hyn,
ac y caffom ynom ein hunain farn angeu, diau na wel-
wn ogoniant trefn y cymod, na'i theilyngdod o dder-
byniad genym.

2. *Rhaid i ni wybod fod y bai yn hollol arnom ein
hunain.*—Pan dyr anghydfod cydrhwng dynion a'u
gilydd, o'r bron yn ddieithriad mae peth bai o'r ddeutu;
ond nid felly yma. Mae y Jehofah yn ein herio i roddi
achwyn *teg* yn ei erbyn ef. "Fy mhobl, beth a
wnaethum i ti? ac yn mha beth y'th fliniais? tystiol-
aetha i'm herbyn. Pa anwiredd a gafodd eich tadau
chwi ynof fi, gan iddynt ymbellhau oddiwrthyf, a rhod-
io ar ol oferedd, a myned yn ofer?" Mae y cyfrifoldeb
am yr ymrafael yn gwbl wrth ein drysau ni, a rhwydd
gydnabyddir hynny gan y da, fel Dafydd, gan ddywed-
yd, "Cyfaddefais fy mhechod, a'm hanwiredd ni chudd-
iais: dywedais, cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwir-
eddau i'r Arglwydd, a thi a faddeuaist anwiredd fy
mhechod."

3. *Rhaid i ni wybod fod gan Dduw drefn i gymodi
gelynyon ag ef ei hun.*—Mai y lladmerydd grasol cyd-
rhwng y pleidiau yw Iesu Grist—yr hwn yn ei berson
ei hun a ddug ein pechodau ni ar y pren, trwy roddi
iawn digonol i Dduw, ac anrhydedd i'w ymerodraeth,
fel y byddai Efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb
sydd o ffydd Iesu.

II. FOD AMSER NEILLDUOL WEDI EI BENODI I NI

DDERBYN Y CYMOD.—“Dy ddydd hwn.” Cyfnod ein bywyd a'n breintiau; ac y mae o'r pwys mwyaf i ninau adnabod amser ein hymweliad, a gwneyd y defnydd goraf o hono. (1.) *Oblegid ei fyrdra a'i ansicrwydd.*—Mae yn pasio yn gyflym, fel gwenol gwehydd, a llongau buain. Blynnyddoedd i ni wedi myned heibio fel mynyddau a dreuliasom i wrando chwedl ddifyrus. (2.) *Obligid mae ein sefyllfa dragywyddol yn dibynnu ar y defnydd a wnawn o hono.*—Os sefyll ar hyd y dydd yn segur, neu blethu dwylaw i gysgu a wnawn, nid oes i'w ddsygwyl ond y tloidi mwyaf gresynol. Darfu yr haf, ac nid ydym ni gadwedig, a fydd ein cwyn. O, na wrandawsem ar lais ein hathrawon, ac na roddasem glust i'n dysgawdwyr!

III. ER EU MANTEISION I'W GWYBOD, FOD MIL-OEDD YN NGOLEUNI Y DYDD DYSGLAER HWN TAN EU DWYLLAW YN NGHYLCH Y PETHAU A BERTHYNANT I'W HEDDWCH.—“Pe gwybuasit.” Nodwn rai o'r arwyddion o hyny.

1. *Pan fyddo dynion yn mynwesu dysgwyliadau am gymod yn ol eu dyfeisiau eu hunain, yn hytrach nag yn ol trefn ddadguddiedig y Nef.*—“Canys hwynt-hwy, heb wybod cyfiawnder Duw, ac yn ceisio gosod eu cyfiawnder eu hunain, nid ymostyngasant i gyfiawnder Duw.”

2. *Pan wedi ymollwng i ddiotalwch yn nghylch y mater hwn.*—Mae hyn mor beryglus a dim, ac, ond odid, yn achosi dinystr cynifer o eneidiau a dim moddion arall a ddefnyddir gan ddiabol. Dywedir am yr estrys, ond iddi gael lle i guddio ei phen, fel na welo yr erlynnydd, na thralloda ei hun yn nghylch y drwg nes y delo arni. Dyna fel y gwna miloedd o ddynion yn nghylch y digofaint sydd ar ddyfod. Ac am hyny y mae Duw yn tywallt ei deimladau mewn perthynas iddynt, gan ddywedyd, “O, na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd!” ac yn y testyn, “Pe gwybuasit dithau, (neu, O, na wybuasit dithau) y pethau a berthynant i'th heddwch!”

3. *Pan yn tramgwyddo wrth onestrwydd y cymwysiad o'r weinidogaeth at eu cymeriadau.*—Pan yn digio

wrthi o herwydd ei bod yn condemnio eu pechodau parod. Pan y mae yn faen tramgwydd, ac yn graig rhwystr, i'r rhai sydd yn tramgwyddo wrth y gair, gan fod yn anufudd, ac y dywedant gyda dysgyblion y torthau, am athrawiaeth ein Hiachawdwr, "Caled yw yr ymadrodd, a phwy a ddichon wrando arno?" Dyna iaith ymddygiad llaweroedd yn ein dyddiau ninau; ac fel y rhai hyny, na rodiasant mwyach gyda'r Iesu—ni ddeuant hwythau i wrando y gair.

4. *Pan wedi ymlithro i'r fath ystad o galedwch ag i gellwair a, ac i wneyd gwawd o'r weinidogaeth.*—Mae yn ddichonadwy i bersonau fyned i'r fath eithafoedd mewn rhyfyg a chabledd ag i dynu arnynt y ddedfryd arswydol hono, "Gad iddo," a chael eu rhoddi i fyny i amryfusedd cadarn, fel y credont gelwydd. Mae sefyllfa yr anffyddiwr erlidgar, a oleuwyd unwaith am yr iawn ffordd, ac a brofodd y rhodd nefol, a fu tan argraffiadau crefyddol, a brofodd ddaionus air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw, ac wedi hyny a syrthiodd ymaith i anffyddiaeth isel ac anfoesol yr oes hon, yn anaddawol yn wir. Beth bynag am rai eraill, nis gallwn ameu am y rhai hyn, nad ydyw y pethau a berthynant i'w heddwch yn nghudd oddiwrthynt.

IV. FOD Y FFAITH HON YN PERI I'R CEIDWAD DEIMLO YN DDWYS DROSTYNT, AC Y DYLAU BERI I NINAU DEIMLO DROSTYNT HEFYD.—"Pan welodd efe y ddinas, efe a wylodd drosti." Mae môr anhysbyddadwy o dosturi yn nagrau yr Iesu; ac y mae nerth eu dylanwad ar y galon yn gryfach na deng mil o resymau. Dylai ein penau ninau fod yn ddyfroedd, a'n llygaid yn ffynonau o ddagrau, o herwydd y cyffelyb achosion, sef, (1.) *Gwerth annhraethadwy yr eneidiau sydd mewn perygl.*—Os na ddeuir i adnabod mewn dydd o ras y pethau a berthynant i'w heddwch, ac i feddiant ymarferol a phersonol o honynt, nid oes yn eu haros ond rhyw ddysgwyl ofnadwy am gopedigaeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwy. (2.) *Yr ystyr-iaeth y bydd y golled yn un anadferadwy.*—Mae hi yn awr yn amser cymeradwy arnom ni, ac yn ddydd iach-

awdwriaeth—Duw yn estyn ei law atom ar hyd y dydd i gynyg heddwch; a'i weision yn erfyn, “Cymoder chwi â Duw.” Ond nid hir y pery fel hyn. Gwrthod-er gwrandaw arno ond ychydig yn hwy, bydd ar ben am byth ar yr anedifeiriol, a Duw yn dyweyd, “Yn gymaint ag i mi eich gwahodd, ac i chwithau wrthod; i mi estyn fy llaw, a neb heb ystyried; minau a chwardd-af yn eich dialedd chwi, a phan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni.”

PREGETH IV.

GWEDDI AM ADFYWIAD.

“Clywais, O Arglwydd, dy air, ac ofnais; O Arglwydd, bywha dy waith yn nghanol y blynyddoedd, pâr wybod yn nghanol y blynyddoedd; yn dy lid cofia drugaredd.”—HAB. 3 : 2.

Nid yw yn gwbl hysbys o ba lwyth yr oedd y prophwyd Habacuc, ac nid yw o gymaint pwys i ni wybod hyny ychwaith. Mae yn amlwg beth bynag oddiwrth bethau yn ei ysgrifeniadau, iddo flodeuo heb fod yn mhell oddiwrth y caethgludiad i Babilon, os na pherthynai i'r cyfnod trallodus hwnw. “Clywais, O Arglwydd, dy air,” meddai, *y son*, ar ymyl y ddalen—sef y son am, neu y rhagfynegiad yn nghylch goresgyniad y wlad gan y Caldeaid—“ac ofnais.” Ac yn yr ing a deimlai, a'r pryder a lanwai ei fynwes yn achos ei genedl, a'i wlad, ac eglwys Dduw ynddi, tyr allan i weddio yn daer am i'r Goruchaf eu cofio, a dod allan o'u plaid. “O Arglwydd, bywha dy waith yn nghanol y blynyddoedd”—blynyddoedd eu gorthrymder a'u caethiwed. Mae cymwysder yn y weddi i'n hamser ninau. Galwn eich sylw gan hyny—

I. AT RAGDYBIAETH Y WEDDI: Fod crefydd yn isel ac anmhoblogaid ar y pryd. O lawer o bethau eraill a ellid enwi a brofant ei bod felly yn bresenol, gellir nodi y rhai canlynol: (1.) *Bychandra cydmarol nifer y rhai a ymgynullant i foddion gras.*—Wrth rif y

boblogaeth, mewn gwlad a thref, ni welir ond megys gweddill bychan a fynychant leoedd o addoliad. Tra y mae eisteddfanau y gwatwarwyr yn llawnion, a'r chwareudai mor dyned o edrychwyr, o'r pwll hyd y nen, nes yr ymsangant y naill y llall, mae llawer o'n capelau wedi eu gadael megys lluesty mewn gwinllan—megys llety mewn gardd cucumerau. (2.) *Anamledd y rhai a ddychwelant at yr Arglwydd.*—Nid oes ond ychydig a ofylant mewn gwasgfa enaid—Beth a wnawn fel y byddom cadwedig? Mae ffyrdd Seion yn galaru, o eis-iau rhai yn dyfod i'r wyl arbenig; ei holl byrth sydd anghyfanedd, ei hoffeiraid yn ucheneidio, ei morwynion yn ofidus, a hithau yn flin arni. Mae yn wrthod-edig ac yn gas, mewn llawer man, ac heb gyniweirydd trwyddi; yn druan digysur, a helbulus gan dymestl: ond yr arwydd amlycaf a mwyaf digalon, ar ryw olwg o hyny, ydyw, (3.) *Y difaterwch, y claiarineb, a'r es-mwythdra pechadurus sydd mor gyffredinol trwy yr eglwys ei hun.*—Pe deuai yr eglwys ei hun i deimlo megys ag y dylai, a phed ymgyffroai hi at ei dyled-swyddau ca'i lwyddiant buan. Pan glafycha, hi a esgora ar ei meibion, a'i merched.

II. CYNWYSIAD Y WEDDI —“Bywha dy waith.”

1. *Trwy ddwyn ei deilyngdod yn fwy i'r amlwg.*—Mae pethau eraill eto yn harddach yn ngolwg, a mwy atyniadol i'r byd nag achos Duw. Mae mynyddoedd eraill eto sydd uwch eu penau na mynydd ty yr Arglwydd, am hyny mae gwerthfawr feibion Seion yn gweddio am i Dduw ail ymweled â hi, ac yn penderfynu “Er mwyn Seion na thawant, ac er mwyn Jerusalem, na ostegant, hyd onid elo ei chyfiawnder hi allan fel dysgleirdeb, a'i hiachawdwriaeth hi fel lamp yn llosgi; ac y gwelo y cenedloedd ei chyfiawnder, a'r holl freninoedd ei gogoniant.”

2. *Trwy lanw aelodau yr eglwys ag yspryd i ymdrechu yn egniol tros lwyddiant ei waith.*—Os ceir hyn ni raid petruso yn nghylch ffyniant yr efengyl. Cawn esiampl gefnogol yn hanes adeiladiad yr ail deml o'r hyn ellir gyflawni tan anfanteision o'r fath fwyaf. Nid

oedd y rhai a ddychwelasant o wlad y caethiwed ond ychydig o bobl druain a thlodion. Yr oedd eu gelynyddion yn lluosog a chryfion, a'r gwaith yn fawr; eto am fod "gan y bobl galon i weithio," fe'i cwblhawyd—dygwyd y maen penaf allan yn nghanol y llofioedd-iadau, "Rhad, rhad, iddo!"

3. *Trwy dywalltiad o'r Ysbryd Glan i arddel y genadwri o enau ei weision, a'i gwneyd yn foddion dwysbigiad calon a dychweliad i filoedd.*—Heb hyn ni cheir adfywiad byth. Er i'r gweision fod yn ddiwyd gyda'r planu a'r dyfrhau, yn ofer ac am ddim y llafuriant, oni cheir yr Ysbryd oddi uchod i roddi y cynydd. Ni bydd yr eglwys, er hwyrach yn aml ei haelodau, a chyfoethog ei meddianau bydol, amgen na dyffryn llawn o esgyrn gwyw a sychedig, hyd nes y daw yr anadl oddiwrth y pedwar gwynt, i roddi bywyd ynddynt. "O, anadl, tyred oddiwrth y pedwar gwynt, ac adadla ar y lladdedigion hyn, fel y byddont byw."

III. Y CALONDID SYDD GENYM I WEDDIO FEL HYN AM LWYDDIANT AR GREFYDD.

1. *Mae perthynas agos cydrhyngddo ef ei hun a'r gwaith.*—"Bywha dy waith." Gwinllan Arglwydd y lluoedd yw ty Israel, a gwyr Judah yw ei blanhigyn hyfryd ef. "Eglwys y Duw byw yw yr eglwys Gristionogol, wedi ei phwrcasu gyda phriod waed ei Fab ef. Felly, yn sicr, ni thry ein gweddi am lwyddiant arni oddiwrtho."

2. *Byddai ei aflwyddiant a'i fethiant yn gwmwl ar ei ogoniant ei hun.*—Dyma ddadl gref i ni i'w defnyddio o flaen y drugareddfa, am amddiffyniad i achos crefydd, a helaethiad teyrnas y Cyfryngwr. Deallid hi gan Moses, a gwnaeth ddetnydd llwyddianus o honi. Pan fygythiodd Duw daro y genedl â haint am eu drygioni, a'u difa, Moses a ddadleuodd, "Felly yr Aiphthaid a glyw, ac a ddywedant i breswylwyr y tir hwn; yna dywed y cenedloedd, y rhai a glywsant son am danat, mai o eisiau gallu o'r Arglwydd ddwyn y bobl yma i'r tir y tyngodd efe iddynt, y lladdodd efe hwynt yn yr anialwch."

3. *Mae genym addewidion gwerthfawr am lwyddiant ar ei waith.*—"Ac am Seion y dywedir, y gwr a'r gwr a anwyd ynndi; a'r Goruchaf ei hun a'i sicrha hi. Canys y ddaear a fydd llawn o wybodaeth yr Arglwydd, megys y mae y dyfroedd yn toi y môr." Amser a ballai i ni fyned tros y ddegfed ran o honynt. Maent oll yn sicr, yn ië ac yn amen yn Nghrist. Llanwn ein geneuau â rhesymau o honynt wrth weddio, "Deled dy deyrnas."

PREGETH V.

GWNEYD SICRWYDD YN SICRACH FYTH.

"O herwydd pahan, yn hytrach, frodyr, byddwch ddiwyd i wneuthur eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn sicr: canys tra fyddoch yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithrwech chwi ddim byth."—
2 PEDR I : 10.

Mae yr apostol yn y blaendestynau yn enwi saith o rasau tra gwerthfawr, y rhai sydd megys tlysau, neu fodrwyau aur, er harddwch a defnyddioldeb, ac yn anog ei frodyr i ymgyraedd atynt, a chynyddu ynddynt. Gwna hyny trwy osod allan y mawr fuddioldeb o hyny, "Canys os yw y pethau hyn genych ac yn aml hwynt, y maent yn peri na byddoch na segur, na diffwrth yn ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist"—tra y mae y rhai sydd hebddynt yn segur a diffwrth, "Yn ddall, heb weled yn mhell, ac wedi anghofio ei lanhau oddiwrth ei bechodau gynt." Sylwn, bellach:

I. **AR GYNWYSIAD Y DDYLEDYDD A ERCHIR, A'R MODD I'W CHYFLAWNI.**—Gwneyd ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr, sef yn amlwg i ni ein hunain; i gyraedd adnabyddiaeth o'n hundeb â'r Gwardwr, a llawn sierwydd gobaith o nefoedd yn y diwedd. Beth sydd ofynol tuag at esgyn i'r tir yna?

1. *Gwneyd derbyniad calonog o Fab Duw fel pechaduriad hunan-ddinystriol.*—Mae yr Iesu yn barod i dderbyn pawb a nesânt ato mewn edifeirwch. O du y troseddwr y mae y cyndynrwydd a'r anewyllysgar-

wch ; ac mor gynted ag yr ymblyga ef i drefn yr efengyl, mae hi yn myn'd yn briodas yn ebrwydd cydrhyng-ddo â'r Cyfryngwr. Pan egyr ef ddrws ei galon, fe â yr Iesu i fewn i swpera gyda ef, ac i *roddi* iddo wledd hefyd o fraserder yr iachawdwriaeth.

2. *Gwneyd cyffes gyhoeddus o hono ger bron dynion.*—"Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf. Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded ag ef ei hun, a chyfoded ei groes a chanlyned fi." Mae cysylltiad annatodadwy cydrhwng cyffesu Crist a chael ein cyffesu ganddo, a rhwng ei wadu ef a chael ein gwadu ganddo. Nis gellir byth gyrhaedd sicrwydd mewn perthynas i'n hawl i'r deyrnas addawedig i bobl Dduw, heb fod yn barod i'w ddilyn yn wrol trwy barch ac anmharch, clod ac anghlod.

3. *Gofal i gyflawni yn ffyddlon ymrwymiadau ein cyfamod eglwysig.*—Yr ydym yn hwnw wedi addunedu caru Duw â'n holl galon, am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni. Caru y brodyr hefyd ; dwyn beichiau ein gilydd ; cymeryd Gair Duw yn rheol ffydd ac ymarwedd-iad ; bod yn ffyddlon i'n cydgynulliad ; cadw undeb yr ysbryd yn nghwlwm y tangnefedd ; ymddibynu yn hollol ar rinweddau Iawn y Groes am gymeradwyaeth gyda Duw, a gwneyd ein goraf i ddwyn eraill i adnabyddiaeth o'r gwirionedd, trwy weddiau, esiamplau, a chyingorion. "Yna y rhai oedd yn ofni yr Arglwydd a lefarasant bob un wrth ei gymydog."

4. *Parhaus ymarferiad a'r ddyledswydd o hunanymholiad.*—Mae perygl i ni gael ein twyllo, yn gystal ag i ni fod yn ffurfiol a rhagrithiol. Mae ein gelyn yn gyfrwys, a phe byddai hyny yn ddichonadwy, efe a dwyllai hyd yn nod yr etholedigion. Angenrhaid, gan hyny, a osodwyd arnom i edrych yn fanwl ac yn aml os ydyw ein hamcanion yn bur, ein golygiadau yn gywir, a'n hegwyddorion yn efengylaidd. Mantais fawr i wybod am sicrwydd ein galwedigaeth yw bod yn hyddysg yn llyfr y galon.

II. PAHAM YR ERCHIR DIWYDRWYDD YN HYN.

1. *Mae y gwaith yn un o'r pwys mwyaf.*—Mae yn

gydbwys a gwerth enaid. Mae y Beibl yn son am rywrai a geisiant fyned i mewn trwy y porth cyfyng, ac nis gallant, am na cheisiant yn ddigon egniol a diwyd. Gan fod ein dedwyddwch tragwyddol yn dibynu ar ein diwydrwydd yn hyn, gellid meddwl fod yr ystyriaeth hon ei hunan yn ddigon i'n cymell i wneyd ein goraf; ond gellir ychwanegu,

2. *Fod rhwystrau lluosog a mawrion ar ein ffordd i'w gyflawni.*—Nid o du yr Arglwydd y cyfyd y rhwystrau a'r amheuaeth, ond o'n tu ein hunain. Amharodrwydd ynom ni i wneyd yr hyn a geisir genym er dod i lawn oleuni ar y mater, a diffyg yr hunan-ymwadiad a'r gwroldeb angenrheidiol i wneyd yr aberthau a ddylem, i farwau ein haelodau y rhai sydd ar y ddaear, a thori ymaith ein llaw a'n troed de, sydd yn gwneyd yr ymroddgarwch a ddynodir mor bwysig.

3. *Mae yn cael ei gymeradwyo gan esiampl Pen-tywysog a Pherffeithydd ein ffydd.*—Os dangosodd Ef y fath ddiwydrwydd i ddarparu iachawdwriaeth, a'i dwyn i oleuni—os teimlai Ef fod yn rhaid iddo weithio gwaith yr hwn a'i hanfonodd, tra yr oedd yn ddydd, nid afresymol, yn ddiau, yr anogaeth i ninau ymdrechu i gymeryd gafael ynddi.

4. *Mae yr ystyriaeth o ganlyniadau difrifol y gwaith yn ei argymell.*—Iachawdwriaeth a fydd byth, a chyfiawnder na dderfydd, a gorfoledd yn y gobaith am danynt, a fydd canlyniad dedwydd ei gyflawniad. Ac o'r tu arall, tristwch ac ing, a rhyw ddysgwyl ofnadwy am gopedigaeth ac angerdd tân, fydd rhan y rhai a'i hesgeulusant.

III. GRYM YR ANOGAETH I'R DDYLEDSWYDD.—“Ni lithruch chwi ddim byth.”

1. *Ni lithruch i gyfeiliornadau mewn barn.*—Gwnaeth y Galatiaid hyny—symudwyd hwynt yn fuan oddiwrth yr hwn a'u galwodd i ras Crist, at efengyl arall. Ond yr achos o hyny oedd iddynt, wedi rhedeg yn dda am dymor, ymrwystro a difateru.

2. *Ni lithruch yn ol mewn profiad crefyddol, eithr*

chwi a gynyddwch mewn gras a gwybodaeth, nes dod yn wyr perffaith.

3. *Ni lithrwrch i bechodau gwaradwyddus.*—Ni wnaethai Noah, Lot, Dafydd, na Phedr, pe yn ddiwyd gyda'u dyledswyddau priodol. Ni wnawn ninau chwaith. Dwyllaw plethedig y diofal yn Seion a ddefnyddir gan Satan i ddrygioni.

4. *Ni lithrwrch i golledigaeth dragywyddol.*—Bydd y neb a barhao hyd y diwedd gadwedig. Caiff y ffyddlon hyd angen goron y bywyd. Caffer ni o'u nifer. Amen.

PREGETH VI.

Y BRIDOLEDD O ALLU DUW.

"Ond pwy a ddeall daranau ei gadernid ef?"—JOB 26: 14.

Mae Job yn y benod hon yn cydnabod mawredd gallu Duw, ac yn sylwi yn fanylach ar y briodoledd hon na Bildad. Prif ddefnyddiau myfyrdodau Job yn y penodau o'r blaen oedd llwyddiant tymorol annuwiolion a chystuddiau amserol duwiolion; a Bildad yn rhoddi darlith ar lywodraeth Duw yn ei helaethrwydd, rhifedi ei fyddinoedd, ac uniondeb difrychau ei natur. Mae Job yn ei gymeryd i fyny o'r adnod 1af hyd y 5ed, mewn dull o wawdiaith nad oedd ef wedi cyffwrdd â'r pwnc mewn llaw, ac o'r 7fed adn. hyd y diwedd mae yn rhoddi darlith fywiog ar allu Duw yn ei weithredoedd naturiol. Dywed yn y 7fed adn. ei fod yn taenu y gogledd ar y gwagle, ac yn crogi y ddaear ar ddiddym." Mae'r ddaear fel pellen yn nghanol yr awyr deneu, a'r un faint o awyr ar bob ochr iddi, heb un golofn i'w chynnal ond ei allu ef. Yn yr 8fed adnod, y mae yn "rhwymo y dyfroedd yn ei gymylau," er eu holl bwysau naturiol, nes y byddont yn gymwys i ddisgyn ar y ddaear—mae yn peri i'r gwlaw ddefnyddu o'r cymylau megys trwy lian main, i ddyfrhau y ddaear a'i ffrwythloni. Y 9fed adnod, "Y mae yn atal wyneb ei orseddfainc," &c. Mae'r cymylau fel gorchudd rhwng gwres

yr haul a'r ddaear i'w gadw rhag crino y planhigion a llosgi dynion. Yn y 10fed adn. mae yn disgyn i'r môr, —mewn rhai manau mae cloddiau y môr yn greigiau cedyrn, mewn manau eraill nid yw ond tywod gweiniaid; er ei fod yn ewynu, yn rhuo, a'i donau yn cael eu gyru gan wyntoedd cryfion fel mynyddoedd yn erbyn y glanau, maent yn ostyngedig wrth ddyfod at y lan, ac yn dychwelyd yn eu hol, fel pe byddai arnynt gywilydd ac edifeirwch yn eu meddianu. Adn. 11eg, “Y mae colofnau y nefoedd yn crynu,” &c., wrth y rhai y deallir y mynyddoedd uchel, y rhai a ymddangosant o bell fel pe baent yn cynal yr awyr. Yn y 12fed adnod, “Efe a rana y môr â'i nerth,” &c. Mae Duw yn darostwng ei dônau mawreddog, ac yn gorchymyn iddo ddystewi a llonyddu. Yn adnod 13eg, “Efe a addurnodd y nefoedd â'i Ysbryd,” &c., y goleuadau mwyaf a lleiaf, megys yr haul, y lleuad, a'r sêr, addurniadau a dodrefn y nefoedd. Wrth y “sarth dorchog” fe ddichon y deallir rhyw ddosbarth o sêr yn y ffurfafen, ac nid y Lefiathan (Esa. 27 : 1.) Mae Job, yn adnod y testyn, yn casglu y cwbl i ddau beth.

1 Mae yn parchus gydnabod y datguddiedigaethau a wnaeth Duw o hono ei hun, “Wele, dyma ranau ei ffyrdd ef.”

2. Mae yn rhyfeddu dirgelwch y pethau na ddatguddiwyd; “Ond mor fychan yw'r peth yr ydym ni yn ei glywed am dano ef!” Athrawiaeth y testyn, yw Hollalluogrwydd Duw.

I. RHAI GOSODIADAU EGLURHAOL AR Y BRIODOLEDD HON YN EI NATUR.—Mae gallu Duw yn gystal a'i ddoethineb yn dysgleirio yn ei holl weithredoedd, (Salm 62 : 11). Mae rhai beirniaid wedi sylwi fod hollalluogrwydd yn cael ei briodoli i'r Jehofah ddeg a thriugain o weithiau yn y Datguddiad dwyfol. Mae y briodoledd hon yn cael ei chyfaddef gan holl genedloedd y ddaear. Sylwaf—

1. *Fod gwahaniaeth rhwng gallu Duw a'i awdurdod.*—Dichon fod gan un awdurdod er ei fod yn amddifad neu yn ddiffygiol o allu, megys tywysog ieuanc yn cael

ei ymlid gan wrthryfelwyr ; ganddo ef mae yr awdurdod, er ei fod yn amddifad neu yn ddiffygiol o allu i amddiffyn ei hun ac i weinyddu ei awdurdod. Felly nid awdurdod Duw yw ei allu, ond y nerth sydd ganddo i weithredu. Mae gallu Duw yn cael ei ddisbarthu yn ddeublyg, sef annibynol ac ordeiniol. Gallu annibynol Duw yw y nerth sydd ynddo i wneyd yr hyn nad yw wedi ei wneyd neu yn ei wneyd, ond a ddichon wneyd. Gallasai wneyd y bydoedd filiynau o flynyddoedd cyn y cyfnod y gwnaeth hwynt, a gallai eu diddymu y fynydd hon. Gallu ordeiniol Duw yw yr oll a fwriadodd wneyd, ac nis dichon beidio a'u gwneyd, o herwydd ei anghyfnawidoldeb. Mae y gallu deublyg hyn yn cael ei egluro yn Matt. 26:53, 54, "A wyt ti yn tybied nas gallaf yr awr hon ddeisyf ar fy Nhad, ac efe a rydd yn y fan i mi fwy na deuddeg lleng o angylion. Pa fodd ynte y cyflawnid yr Ysgrythrau, mai felly y gorfydd bod?" Mae'r adnod gyntaf yn cyfeirio at ei allu annibynol, a'r olaf at ei allu ordeiniol. Mae y gallu ordeiniol yn cael ei reoli gan ei ewyllys.

2. *Mae yn eglur mai gallu Duw yw y nerth sydd ganddo i ddwyn oddiamgylch yr hyn a ewyllysio.*—Mae ei allu yn gymaint a'i ewyllys—gall wneyd yr oll mae yn ewyllysio yn hawdd, yn ddiatal, ac i ddybenion priodol.

3. *Gallu Duw yw bywyd ei holl berffeithrwydd eraill.*—Ni byddai ei gyngor tragywyddol ond ofer heb allu i'w effeithio ; ni byddai ei drugaredd ond egwan dosturi heb allu i waredu ; ei gyfiawnder ond gwan ofn heb y gallu i gosbi ; na'i addewidion ond swm gwag heb nerth i'w cyflawni. Santeiddrwydd yw harddwch, a gallu yw bywyd ei holl briodoliaethau. Mae gallu Duw yn cyraedd dros ei holl weithredoedd, "ei dragywyddol allu ef a'i dduwdod."

4. *Mae y gallu hwn yn wreiddiol a hanfodol yn natur Duw.*—Mae gallu a nerth breninoedd yn eu deiliaid, ond mae gallu pawb yn wreiddiol yn Nuw, (Salm 62 : 11). Mae hollalluogrwydd yn anghyfranogol,—nid oes neb ond Duw yn addas i'w gynwys.

5. *Sylwaf fod gallu Duw yn berffeithrwydd anfeidrol—mae ei allu yr un faint a'i hanfod.*—Mae gwrthrychau gallu Duw yn aneirif, nid oes dim yn rhy anhawdd iddo ef. (Job 22 : 23—26 : 23 : 4 ; 26 : 22, 23.) Mae Duw yn weithredydd rhydd, nid ei allu yw rheol ei ewyllys, ond ei ewyllys yw rheol ei weithrediadau. Mae yn anfeidrol mewn parhad, “Na ddiffygia ac na flina Duw tragywyddoldeb,” (Esaiah 40 : 28).

6. *Nid yw fod yn anmhosibl i Dduw wneyd rhai pethau yn un sarhad ar ei hollalluogrwydd.*—Mae rhai pethau yn anmhosibl yn ei natur; megys i creadur rhesymol fod heb reswm—i ewyllys gael ei thraws.gymell, mae rhyddid yn hanfodol iddi. Mae yn anmhosibl i dywyllwch a goleuni fod yr un peth. Mae rhai pethau yn anmhosibl eu gwneyd o herwydd anghymwysder y creadur. Mae yn anmhosibl i creadur afresymol gael cymundeb gyda Duw, nac i ddyn halogedig gael ei dderbyn i ddedwyddwch. “Nid â i mewn yno ddim aflan.” Mae rhai pethau yn anmhosibl i natur Duw; megys, ymddifadu ei hun o'i fywyd, “Yr hwn yn unig sydd ganddo anfarwoldeb.” Nis gall garu pechod, “Ydwyt lanach dy lygaid nag y gelli edrych ar ddrwg,” (Hab. 1 : 13). Nis gall ei wadu ei hun, (2 Tim. 2 : 13). Mae rhai pethau yn anmhosibl eu gwneyd oblegid bwrriad Duw. Yr oedd gallu digonol ganddo i foddi ho'll drigolion y byd; ond cadwodd had ynddo, gan iddo fwriadu achub y byd tywy Iesu Grist. Gallasai droi y cwpan heibio, heb i'r Gwardwr ei hyfed; ond nid oedd bosibl yn ordeiniad Duw i achub y byd ond trwy farwolaeth ei Fab.

II. PROFI GWIRIONEDD YR ATHRAWIAETH.

1. *Mae y gallu sydd mewn creaduriaid, yn dangos gallu anamgyffredudwy yn Nuw.*—Nid oes un creadur yn y byd yn amddifad o allu gweithredol yn ol ei natur—gallu yr haul i oleuo a gwresogi y ddaear—gallu yr egin i dyfu—gallu o gynydd synwyr yn y creadur. Mae rhai yn fwy a rhai yn llai galluog na'u gilydd; mae yr angylion “yn gedyrn o nerth, yn gwneuthur ei air ef.”

Mae yr holl allu hyn yn cyfarfod mewn undeb yn y Creawdwr—yr Hollalluog.

2. *Heb hollalluogrwydd nis gallai fod yn anfeidrol berffaith.*—Duw yw y bod cyntaf. Mae pob gradd o wendid yn ddiffyg; ond gan fod Duw yn fod gwreiddiol, y mae anfeidrol bellder rhyngddo a diffygion. Job 11:7, “A elli di wrth chwilio, gael gafael ar Dduw? a elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd?”

3. *Mae unplygrwydd Duw yn profi hyn.*—Mae perffeithrwydd yn fwy unol mewn unplygrwydd nag mewn cymysgedd. Mae angelion, gan eu bod yn ysbrydion pur, yn fwy galluog na dynion. Lle mae yr unplygrwydd mwyaf y mae yr undeb mwyaf, ac yno y mae y gallu mwyaf. Nis dichon dim atal Duw i wneyd beth bynag a ewyllysio—gwnaeth bob peth, mae pob peth yn dibynu arno, nis gall dim ei siomi yn ei fwriadau.

4. *Mae yr holl wyrthiau a wnaed yn y byd yn profi hollalluogrwydd Duw.*—Ataliad gyrfa yr haul—adgyfodi meirw—cau safnau llewod rhag dryllio Daniel—atal angerdd y tân rhag difa y llanciau—atal y berth rhag difa, er llosgi. Nid llai gwyrthiol oedd hollti y môr i gael ffordd sych i'r gwersyll deithio. Mae yn troi natur yn groes i'w helfenau “yr hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddodau,” (Salm 136:4)—yn nghyd a holl wyrthiau y Gwardwr a'r apostolion.

III. YN MHA BETHAU Y MAE GALLU DUW YN AMLYGU EI HUN.

1. *Mewn creadigaeth.*—Mae Duw yn amlygu ei allu mewn llinellau mawreddog yn rhoddiad bodolaeth i'r bydysawd, (Salm 19:1). Wrth yr enw Hollalluog, yr oedd yn cael ei adnabod yn oesoedd cyntaf y byd, (Exod. 6:3). Gelwir ef yr Hollalluog yn amlach yn llyfr Job nag mewn un rhan o'r datguddiad dwyfol. Trwy y briodoledd hon y dangosir annrhaethol ragoriaethau Duw ar yr holl eilunod a'r gau dduwian, (Salm 135:5, 6; Esaiah 45:12—16; Jer. 10:11, 16; Dat. 10:6). Mae yn egluro ei allu trwy wneyd pob peth o ddim, (Gen. 1:1). Mae y pellder rhwng dim a bodolaeth mor fawr, na ddichon ond gallu anfeidrol eu dwyn yn

nghyd. Dichon dynion ddyfeisio a chynllunio, ond rhaid iddynt gael defnyddiau. Dengys ei allu-hefyd trwy godi cynifer o greaduriaid o'r defnydd a greodd; yr haul fel lamp fawr i gyflwyno goleuni a gwres, y lleuad a'r sêr—rhai o honynt yn teithio yn nghylch cant a chwech-ar-hugain o filiynau o filldiroedd bob awr. O'r un sylwedd y lluniwyd y ddaear a'r holl lysiau a dyfant allan o honi; ac o'r pridd y lluniwyd corff dyn, (Gen. 2: 7); a'r holl greaduriaid a'r ymlusgiaid sydd ar, ac yn y ddaear, ac yn y môr mawr—pysgodlyn yr eglwys. Gwnaeth y cyfan gyda'r rhwyddineb mwyaf, heb gyngor na chynorthwy neb, (Esaiah 44: 24); heb beiriant ond ei air, na chynghor ond ei hunan, (Esaiah 45: 18); gwnaeth y cwbl gyda'r cyflymdra mwyaf; yr oedd ei air yn berffeithiad pob peth mewn moment.

2. *Mewn rhagluniaeth.*—Mae llywodraeth Duw yn weithred o eiddo deall, ewyllys a gallu—callineb i ddyfeisio yn perthyn i'w ddeall—etholiad y moddion yn perthyn i'w ewyllys—a chyflawniad y cwbl yn perthyn i'w allu. Mae gallu Duw yn ei lywodraeth yn cael ei gysgodi yn y “creaduriaid byw.” Gwel (Ezec. 1: 10.) “Wyneb dyn,” i arwyddo doethineb; wyneb “llew” ac “eryr,” i arwyddo eu gwroldeb a'u gallu i gyflawni eu swydd, &c. Mae llywodraeth Duw yn ddwy gainc:

(1.) *Ei lywodraeth naturiol.*—Yn nghynaliaeth y byd, (Salm 104: 27); yn nghynydd a lluosogiad pob peth; mae'n peri i'r gwellt dyfu ar y mynyddoedd, a llysiâu at wasanaeth dyn, (Salm 104: 13—15); yn rheoleiddiad symudiad y bodau nefol trwy'r holl oesoedd, cadw y môr yn ei wely rhag boddi y ddaear—“hyd yma yr âi, ac nid yn mhellach.”

(2.) *Ei lywodraeth foesol.*—Trwy atal natur falseisus y diafol. Gan fod iddo allu angel, a malais cythraul, pa amddiffyn a fyddai i'n personau rhag dinystr? Mae yn ein ceisio i'n nithio, (Luc 22: 31); megys llew rhuadwy yn rhodio oddiamgylch, gan geisio y neb a all ei lyncu, (1 Pedr 5: 8). Ond er iddo ruo, nis dichon fyned yn mhellach na hyd ei gadwyn, (Matt. 8: 31; Luc 11: 24). Ei eiddo ef yw'r twyllwr a'r twyllledig,

(Job 12 : 16). Mae yn rheoleiddio llygredigaethau naturiol y rhai a ddesgrifir yn Gen. 6 : 5 ; Job 15 : 16 ; Rhuf. 3 : 10. Mae y llygredigaeth hwn yn gyffredinol i bob dyn. O, y fath agwedd ddychrynlyd fyddai ar ein byd ni, oni bae fod Duw yn cau y dwfrddorau. Darlunir dyn wedi ei roddi i fyny, (Rhuf. 1 : 24—29). Mae Duw yn goruwchlywodraethu amcanion dynion i'w amcan ei hun, (Exod. 3 : 21, 22), yn enwedig yn amgylchiad Pharaoh, (Exod. 9 : 16), a Senacherib, (2 Bren. 19 : 35).

3. *Mae hollalluogrwydd Duw yn ymddysgleirio yn nhrefn fawr iachawdwriaeth.*—Nis gallasai neb ond Duw ddyfeisio y fath, na neb ond efe ei heffeithio. Mae holl waredigaethau tymorol y Jehofah yn suddo o'r golwg yn y weithred fawr hon ; y penaf o ffyrdd Duw ydyw ; mae " rhagorol fawredd ei nerth " yn ymddysgleirio ynddi.

(1.) *Yn y Person a osodwyd i ddwyn y gwaith yn mlaen.*—Yn ei gnawdoliaeth ; mae ynddo undeb naturiaethau, heb gymysgedd na dyrswch. Yr oedd anfeidrol bellder rhyngddynt â'i gilydd ; pwy a ddichon fesur, y pellder rhwng Creawdwr a chreadur, rhwng tragywyddoldeb ac amser, y Bod Uchaf a dim, hollalluogrwydd a gwendid, hollwybodaeth ac anwybodaeth, anghynewidioldeb a chyfnewidioldeb, y Duw bendigedig yn oes oesoedd a'r gwr gofidus a chynefin a dolur ? Onid oedd angen am anfeidrol allu i ddwyn y pellaf-oedd hyn yn nghyd ? Ffurfiwyd ei ddynoliaeth gan yr Ysbryd Glan ; ganwyd ef yn y preseb ; rhwymwyd ef mewn dillad gwael, (Luc 1 : 35 ; Ioan 1 : 14 ; Mat. 1 : 18. Yn y dull hwn o ffurfiad ei ddynoliaeth y mae santeiddrwydd ei natur wedi ei diogelu, a'i gymwysder i'w swydd wedi ei sicrhau ; mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo ynddo yn gorphorol. Yn nghynydd ei fywyd, y gwyrthiau a gyflawnodd, mawredd ei ddyoddefiadau, perffeithrwydd ei amynedd danynt, ei farwolaeth iawnol, a'i adgyfodiad oddiwrth y meirw, yr eglurir hollalluogrwydd Duw. (Rhuf. 1 : 4 ; Ephes. 1 : 19.)

(2.) *Yn nghyhoeddiad y drefn*—yn y pethau canlynol:—Yn natur yr athrawiaeth. Dan argraff hollol wahanol i philosophyddiaeth y cenedloedd, yr oedd yr efengyl yn dramgwydd a ffolineb yn ngolwg Iuddewon a chenedloedd; yr oedd yn milwrio yn erbyn arferion y byd, yn taro at wraidd crefydd y byd; yr oedd athrawiaeth yr efengyl i chwyldroi holl grefyddau y byd. Rhaid fod yr athrawiaeth yn nerthol trwy Dduw er bwrw cestyll fel hyn i'r llawr, a'r holl ddychymygion, a chaethiwo pob meddwl i ufudd-dod Crist, (2 Cor. 10: 4, 5). Mae hollalluawgrwydd yn ymddysgleirio yn yr offerynau a ddefnyddiwyd i gyhoeddi yr athrawiaeth—gwaél a gweiniaid—“llestri pridd,” (2 Cor. 4: 7). Yn amddifaid o gyfoeth dysgeidiaeth, yn ddirmygedig gan yr Iuddewon, ac yn watworgerdd gan y cenedloedd, dechreusant gyhoeddi yr athrawiaeth yn Jerusalem, ac ymdaenodd yn fuan dros ran fawr o'r byd. Dylanwadwdd hwy gan allu Duw oedd y Cyngor yn rhyf-eddu, wedi deall mai dynion anllythyrenog ac annysgedig oeddynt. Trowyd eu hofn yn wroldeb i lefaru yn hyf yn enw Iesu. Yr oedd Pedr, ychydig cyn hyn, yn rhy wan i wrthsefyll cyhuddiad morwynig, yn a'r yn ddigon gwrol i sefyll ger bron y Cyngor, (Act. 4: 8—10). Mae gallu Duw yn ymddangos yn y moddion trwy ba rai y mae'r athrawiaeth yn cael ei lledaenu—nid trwy fin y cleddyf, megys Mahomet—pregethu “Crist croeshoeliedig,” ac er fod arferion y byd, crefyddau y byd, ac ansawdd calon y byd yn ei herbyn, er hyny hi lwyddodd i fesur anghyffredinol, fel y prophwydwyd am hyn, (Esa. 54: 2, 3). Yn fuan iawn wedi tywalltiad yr Ysbryd Glan ar yr apostolion, cawu fod tair mil wedi eu dwys-bigo yn eu calon. Gosododd yr efengyl i fyny ei hegwyddorion yn y dinasoedd mwyaf enwog, megys Jerusalem, lle y croeshoeliwyd ei thestyn; yn Antiochia, lle yr enwyd y Cristionogion gyntaf; yn Rhufain, prif orseddfainc eilun-addoliaeth y byd. Dyma ryfeddodau gallu—fod haul mor ddysglaer wedi codi o gwml mor fychan, i ymlid tywyllwch y byd o'i flaen. Mae y llwyddiant hwn yn egluro

gallu Duw yn ysblenydd yn nychweliad eneidiau. Yr efengyl yw cleddyf yr Ysbryd, yn trywanu i bwrpas, (Heb. 4: 12). Mae yr un gallu yn ymddysgleirio yn mharhad y saint mewn santeiddrwydd hyd y diwedd, "yr hwn a rydd nerth i'r diffygiol, ac a amlha gryfder i'r dirym." "Y cyfiawn a ddeil ei ffordd, a'r glân ei ddwylaw a chwanega gryfder."

IV. ADDYSGIADAU YMARFEROL ODDIWRTH YR ATHRAWIAETH.

1. *Gan fod Duw yn hollalluog, rhaid ei fod yn meddu annhraethol ddedwyddwch.*—Nis dichon fod arno eisiau dim, "y Duw bendigedig yn oes oesoedd" yw ei enw. Nid oes dim a ddichon atal ei ddedwyddwch; ni all neb ei niweidio, na'i yspeilio o'r hyn sydd yn ei feddiant.

2. *Ei fod yn wrthddrych addas o addoliad dwyfol.*—Prif golofnau crefydd yw daioni a gallu Duw; nis gallwn ddysgwyl derbyn bendith ganddo heb ddaioni, na mantais oddiwrtho heb allu. Mae y rhai hyn yn cael eu nodi yn 2 Bren. 17: 36. Ei allu yw sylfaen gweddi, "Canys eiddot ti yw y deyrnas, y gallu a'r gogoniant." Dyma oedd sail gweddi y Gwardwr, (Heb. 5: 7); ac Abraham, (Rhuf. 4: 12). Yn ein holl weddian, dylem gadw ein golwg ar hollalluawgrwydd Duw—mae yn meddu ar anfeidrol gyfoeth, ac anfeidrol allu i'w weinyddu.

3. *Dysgwn fod hollalluogrwydd Duw yn sylfaen ein ffydd yn athrawiaeth yr adgyfodiad.*—A ddygodd efe bob peth i fod trwy ei air, ac oni ddichon gyfodi y y meirw trwy yr un gair. Mae cael gafael ar ronyau ein llwch yn perthyn i'w hollwybodaeth, a'u hadgyfodi i fywyd eilwaith yn perthyn i'w allu—nid oes dim yn rhy anhawdd iddo ef.

4. *Fod dirmyg ac anfri mawr yn cael eu taffu ar y briodoledd ardderchog hon trwy anymddiried ynddo,* (Num. 13: 32; Salm 78: 9)—trwy ymddiried ynom ein hunain ac mewn gwrthddrychau gwaharddedig—trwy ofni dyn yn fwy nag ofni Duw, (Esa. 51: 12, 13)—a

thrwy anghredu tystiolaeth Duw, pan mae amlygiadau mor eglur wedi eu rhoddi o'i ddwyfoldeb.

5. *Gan fod Duw yn hollalluog, fod ei holl wrthwyn-ebwyr mewn cyflwr annhraethol druenus.*—Maent yn troseddu ei gyfraith, ond nis gallant wanychu ei fraich; gallant ddirmygu ei drefn, ond nis gallant orchfygu ei allu, (Esa. 14 : 23, 24). Nid oes a wared o'i law ef, (Job 10 : 7). Pa mor ffol yw i'r fath bryfyn gwael ag ydyw dyn herio brwydr â Duw ! Bydd dinystr yr annuwiol yn deilliaw oddiwrth “ogoniant ei gadernid ef;” efe a'i dryllia hwynt â gwialen haiarn, maluria hwynt fel llestr pridd. Gwell yw syrthio wrth draed nag yn nwyllaw y Duw byw.

6. *Gwelwn fod hollalluogrwydd Duw yn dysgu gostyngyddrwydd ac ymostyngiad i'w ewylllys.*—“Ymddarostyngwch gan hyny dan alluog law Duw.” Dyma gy-sur cryf i weiniaid Seion, (Eph. 6 : 10). Myfyriwn arno, ymddiriedwn ynddo, ac ymostyngwn yn ufudd i'w holl oruchwyliaethau.

PREGETH VII.

CREFYDD DEULUAIDD.

“Gwr defosiynol, ac yn ofni Duw, yn nghyda'i holl dy, ac yn gwneuthur llawer o elusenau i'r bobl, ac yn gweddio Duw yn wastadol.”—ACT. 10 : 2.

Yr oedd dwyn yr efengyl i'r cenedloedd, y rhai oedd-ynt heb Grist, wedi eu dyeithrio oddiwrth wladwriaeth Israel, yn estroniaid oddiwrth amodau yr addewid, heb obaith ganddynt ac heb Dduw yn y byd, yn ddirgelwch mawr i'r apostolion eu hunain, ac yn rhyfeddod mawr ganddynt. (Eph. 3 : 3—6.) Dichon fod rhai o'r cenedloedd yn myned yn achlysurol i synagogau yr Iuddewon, ond ni phregethid yr efengyl yn rheolaidd iddynt. Cornelius yw blaenffrwyth y dychweledigion cenedlig. Yr hanes a gawn am dano yw,

1. Ei fod yn swyddog milwraidd, (adn. 1). Yr oedd ef a'i fyddin yn awr yn Cesarea, dinas gadarn, wedi ei

hadgyweirio gan Herod Fawr. Enwyd hi Cesarea er anrhydedd i Augustus Cesar. Yr oedd yn gorwedd ar fin y môr, yn gyfleus i ddal masnach â Rhufain. Yma yr oedd y llywodraethwr Rhufeinig yn byw. (Act. 23 : 23, 24 ; 25 : 26.)

2. Ei fod yn ddyn crefyddol, "gwr defosiynol," (adn. 2). Yr oedd yn credu bodolaeth un Duw, Creawdwr nef a daear; yn meddu parch mawr i anrhydedd ac awdurdod Duw, a dychryn santaidd rhagei anfoddloni.

3. Yr oedd yn cadw crefydd yn ei deulu, "yn ofni Duw yn nghyda'i holl dy, ac yn gweddio Duw yn wastadol." Mae gofal gan bob dyn duwiol am iachawdwr-iaeth ei deulu.

4. Yr oedd yn llawn cymwynasgarwch, "yn gwneuthur llawer o elusenau i'r bobl." Un o brif gymeriadau y duwiol yw, "Gwasgarodd, rhoddodd i'r tlodion, ei gyfiawnder sydd yn parhau byth." Y mater i fod dan sylw yw, Crefydd Deuluaidd:

I. RHESYMBOLDEB CREFYDD DEULUAIDD. — Mae rhwymedigaeth ar bob pen teulu, fel y cyfryw, i offrymu gweddiau a deisyfiadau at Dduw dros ei deulu, yn eu presenoldeb, a thrwy eu cydsyniad. Mae crefydd deuluaidd yn cynwys llywodraeth a dysgyblaeth deuluaidd, darllen y Gair, gwylio ar ymddygiadau, egwyddori y plant a'r rhai fyddont dan ein gofal, eu ceryddu am gam-ymddygiadau, ac yn neillduol am beshu yn erbyn Duw—ac yn arbenig offrymu gweddi, yr hon a gynwys anerchiadau parchus, cyfaddefiadau didwyll, deisyfiadau taerion a gostyngedig, yn nghyda diolchgarwch gwresog. Ymddengys rhesymoldeb y ddyledswydd,

1. *Oddiwrth y berthynas sydd rhwng pob teulu a Duw.*—Mae goleuni natur a rheswm yn ein dysgu i barchu ein huchafion, a bod y parch uchaf yn gweddu i Dduw, ein Creawdwr a'n Llywydd. Mae teuluoedd yn gymdeithasau cyfansoddedig gan Dduw, (Salm 63 : 6), a'u dyled yw ei wasanaethu. Mae ei ragluniaeth i'w chyd-nabod mewn serchiadau cymdeithasol, a'r darpariadau a wnaeth er eu cyson weithrediadau, yn eu cyfarwyddo yn y dewisiad o'u perthynasau, dwyn yn mlaen

achosion eu teuluoedd, a darparu ar eu cyfer. Mae pob teulu yn dibynu yn hollol a gwastadol arno. Yn yr ystyr hyn y mae yn Dduw i holl deuluoedd y ddaear, ac onid yw yn naturiol iddo ddysgwyl parch ac uffudd-dod oddiwrthynt fel y cyfryw? "Os wyf fi dad, pa le y mae fy anrhydedd?" (Mal. 1 : 6.) I ba berthynas bynag y mae rhagluniaeth wedi ein dwyn, yr ydym dan rwymau i'w wasanaethu yn y berthynas hono. Mae teuluoedd wedi eu ffurfio, nid er mwyn y byd hwn, ond er mwyn y byd i ddyfod, fel bodau rhesymol ac anfarwol, i gadw had duwiol. (Mal. 2 : 15.) Amcan perthynas deuluaidd yw cynal crefydd i fyny yn y byd. Mae manteision neillduol gan deuluoedd i wasanaethu Duw, yn eu hagosrwydd, eu cymdeithas, a'r gofal a ddylai fod ganddynt am eu gilydd yn eu perthynas â'r ddau fyd, "A mynegu y boreu am dy drugaredd, a'th wirionedd y nosweithiau. (Salm 92 : 2.)

2. *Oddiwrth berthynas gwahanol gangenau y teulu a'u gilydd, a'u dibyniad ar Dduw.*—Mae trugareddau teuluaidd i'w cydnabod. Mae'r holl deulu yn cyd-uno yn y cysuron, a gweddus iddynt gyd-uno yn y diolchgarwch. Pan ystyriom amddiffyn Duw trosom, bod daioni a thrugaredd wedi ein cylchynu holl ddyddiau ein bywyd, onid yw yn naturiol i bob teulu ofyn, "Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau?" Mae genym bechodau teuluaidd i'w cyfaddef, ac i ymostwng ger bron Duw o'u herwydd, ac i weddio yn eu herbyn; ac onid yw yn rhesymol fod yr holl deulu yn cyd-uno yn y gwaith hwn? Onid oes ar yr holl deulu gyd-ang-en trugareddau a bendithion teuluaidd, ac onid yw yn rhesymol iddynt gyd-uno mewn gweddi am danynt? Hefyd y mae perthynas agos iawn rhwng pob penteulu ag amrywiol aelodau y teulu, ar gyfrif eu hawdurdod arnynt—y serchiadau a ddylai fod ganddynt at bob un o'r aelodau, a'u ffyddlondeb tuag atynt. A phaham y cyfansoddwyd teuluoedd fel hyn, onid er mwyn ei daioni ysprydol yn benaf, trwy eu cyngori, eu rhybuddio, a'u harwain yn ngwasanaeth Duw? Cofiw'n fod ein

llywodraeth, ein cariad a'n ffyddlondeb teuluaidd yn ein rhwymo i gadw crefydd yn ein teuluoedd.

3. *Ymddengys rhesymoldeb y ddyledswydd oddiwrth berthynas teuluoedd a'r byd.*—Cyfaddefir yn gyffredin fod crefydd ac addoliad Duw i gael eu dwyn yn mlaen yn y byd, ac onid yw teuluoedd, fel y cyfryw, yn rhan o'r byd? Dyledswydd pob teulu yw gwneyd pob dationi a allont mewn ystyr ysbrydol i'w gilydd, mewn doethineb, duwioldeb, cyflawnder, addfwynder, a chariad; ond pa fodd y gallant gyflawni y pethau hyn, os na fydd addoliad Duw yn cael ei ddwyn yn mlaen yn eu teuluoedd? Mae tuedd mewn crefydd deuluaidd i feithrin yr holl rinweddau hyn, ac i fod yn esiampl ragorol i'r holl gymydogoeth.

4. *Oddiwrth esiamplau rhai eraill.*—Megys, (1.) Esiamplau paganiaid, nad yw y ddeddf ganddynt, y rhai ydynt wrth naturiaeth yn gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf. Mae yn eglur oddiwrth hanesyddiaeth foreu fod ganddynt ddefosiynau teuluaidd, heblaw addoliadau cyhoeddus yn eu temlau a'u llwyni. Yr oedd ganddynt dduwiau teuluaidd, i ba rai yr oeddynt yn talu parch ac yn offerymu gweddïau ac aberthau. O'r un natur, mae'n debyg, oedd y seraphim neu eilun dduwiau Laban a Micah. Mae yn dra thebygol fod cyfeiriad at addoliad teuluaidd y paganiaid gan Esaiah, (57 : 8), "Yn nghil y drysau hefyd a'r pyst y gosodaist dy goffadwriaeth." (Ezec. 8 : 12). (2.) Mae hanes ddiweddarach y ddwy India yn dangos fod ganddynt ryw ddelwau fel gwrthddrychau addoliad yn eu teuluoedd. Bydd eilunaddolwyr yn codi yn y farn yn erbyn deiliaid goleuni efengyl a esgeulusant grefydd deuluaidd. Lleferydd natur yw lleferydd Duw ei hun. (3.) Esiamplau duwion dan bob goruchwyliaeth, megys Abraham, (Gen. 18 : 19); Joshua, "Myfi, a'm tylwyth a wasanaethwn," &c.; Eliseus yn gweddïo gyda eu weinidog, (2 Bren. 4 : 33); Y frenines Esther a'i morwynion yn cadw ympryd neillduol yn ei theulu, (Est. 4 : 16); Dafydd, (2 Sam. 6 : 20); Solomon, (Diar. 6 : 20); Job, (pen. 1 : 4);

Daniel, (pen. 6 : 10). Hefyd gwel, Luc 9 : 18 ; Act. 10 : 30 ; 16 : 15 ; Rhuf. 16 : 5 ; 1 Cor. 16 : 19 ; Eph. 6 : 4.

II. MANTEISION CREFYDD DEULUAIDD.—Mae defnyddioldeb crefydd deuluaidd yn ymddargos,

1. *Oddiwrth y gymdeithas felus a gynyrcha addoliad teuluaidd.*—Mae crefydd yn ei natur yn gymdeithasgar, yn neillduol addoliad crefyddol. Mewn crefydd deuluaidd mae rhieni yn gweddio dros eu plant, a'r plant dros eu rhieni ; brodyr a chwiorydd yn anfon deisyfiadau dros eu gilydd ; rhaid fod undeb deisyfiadau yn effeithio yn ddaionus i gynesu calonau y teulu tuag at eu gilydd. Mae'r bendithion a ofynir yn gyffredinol i'r holl deulu. Pan y byddo y penteulu yn gweddio dros un, mae'n gweddio dros yr holl deulu. Y mae yma fel mewn perthynas naturiol, pan y mae un yn dyoddef mae'r holl deulu yn teimlo, pan y mae un yn cael ei anrhydeddu y mae'r holl deulu yn llawenhau. Mae crefydd deuluaidd yn tueddu gwneyd pawb yn siriol, ufudd a diwyd, yn eu galwedigaethau, a'r pethau hyn yn tueddu at lwyddiant tymorol yn gystal ag ysbrydol ; y mae yn tynu bendith Duw ar yr oll a feddom, "Ond efe a fendithia drigfa y cyfiawn." Ac y mae bendith Duw yn anheggorol er llwyddiant. "Os yr Arglwydd nid adeilada y ty, ofer y llafuria ei adeiladwyr wrtho." Mae yr holl addewidion a roddodd Duw am atebiad gweddi yn cryfhau ein dysgwyliad am ei fendith.

Effeithia crefydd deuluaidd ar ein crefydd bersonol, argraffa ystyriaethau o fawredd Duw a phwysigrwydd pethau ysbrydol ar ein meddwl. Effeithia yn ddaionus ar ein hymarweddiad ; cynyddu ein dynoliaeth, ein cymwynasgarwch, a'n haddfwynder at ein teuluoedd, bydd yn ein llanw â thangnefedd—pa le bynag yr elom, a pha ddygwyddiadau bynag a gymerant le yn ein teuluoedd, bydd yn gysur mawr i ni ein bod wedi eu cyflwyno i Dduw mewn gweddi.

2. Mae crefydd deuluaidd yn meddu dylanwad nerthol ar iawn-drefn a llywodraeth deuluaidd. Mae addoliad Duw y boreu a'r hwyr, yn dechreu a gorphen gor-

chwyllion y dydd gyda chysondeb a gweddeidd-dra efengylaidd. Ysbryd trefn yw ysbryd crefydd; mae yn meithrin undeb a heddwch, yn peri na byddo'r haul yn machlud ar ein digofaint. Mae plant yn myned allan o deuluoedd i'r byd peryglus, yn wynebu ar luaws o brofedigaethau a maglau; ac oni ddylai fod genym dosturi drostynt a gofal am danynt? Gweddi yw un o'r moddion goreu i ddysgu crefydd i'r plant, i'w gwneyd yn sobr, ufudd a gonest. "Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy â hi."

3. *Mae buddioldeb crefydd deuluaidd yn ymddangos yn ei pherthynas a llwyddiant teyrnas y Cyfryngwr yn gyffredinol.*—Teuluoedd ydynt athrofeydd pob cymdeithas. Mae trefydd, dinasoedd, cenedloedd ac eglwysi, wedi eu gwneyd i fyny o deuluoedd. Pa ddylanwad a ddichon un teulu crefyddol gael ar deyrnas neu wladwriaeth o bobl hyd ddiwedd y byd, trwy fod plant a gweinidogion duwiol yn dyfod allan o deuluoedd crefyddol, dan fendith Duw, yn cyflwyno yr un ysbryd i'w teuluoedd hwythau, "Fel y gwybyddai yr oes a ddél, sef y plant a enid, a phan gyfodent, y mynegent hwy i'w plant hwythau," (Salm 78 : 6.) Mae crefydd deuluaidd yn debyg i'r halen a daflodd y prophwyd i lygad y ffynon, yn halltu'r ffrydiau. Mae nerth mawr mewn siampl; fel yr oedd nhad a mam yn gwneyd, felly y gwnaf finau. Felly yr oedd yr eilunaddolwyr yn amser Jeremiah, (Pen. 44 : 7). Mae penau teuluoedd yn offerynau i ddamnio'r byd, neu i'w achub.

III. Y GWRTHDDADLEUON A GYFODIR YN ERBYN CREFYDD DEULUAIDD.

Gwrthddadl 1af.—Nid oes un gorchymyn pendant yn llyfr Duw dros arferyd crefydd deuluaidd. I'r cyfryw sydd yn gwneyd yr wrthddadl hon, gofynaf, A ydym i ymwrthod â phob dyledswydd Gristionogol nad oes genym orchymyn pendant yn llyfr Duw am dani? Ai ni ddylem addoli ar y dydd cyntaf o'r wythnos? A oes genym awdardod i atal y rhyw fenywaidd oddiwrth Swper yr Arglwydd, am nad oes genym orchymyn pendant mewn cynifer o eiriau? Mae yr hyn a adrodd-

wyd yn yr esiamplau yn ddigonol i wrthbrofi yr wrthddadl hon.

Gwrthddadl 2ail.—Nid oes dim gwahaniaeth rhwng y rhai sy'n gweddio Duw yn eu teuluoedd ag eraill. Yr oedd rhai yn amser Job o'r golygiad hwn, (Pen. 21: 15), "Pa beth ydyw'r Hollalluog fel y gwasanaethem ni ef?" a pha fudd fydd i ni, os gwëddiwn arno? Ac yn nyddiau Malachi yr oedd rhai yn dywedyd, "Oferedd yw gwasanaethu Duw." Bydded i'r esgusodwyr ystyried beth yw gwir lwyddiant. Onid heddwch tuag at Dduw, tangnefedd a dyddanwch yn y meddwl, gobaith da trwy ras, &c.; a gallwn benderfynu nad yw yr anrhegion hyn i'w cael ond yn llwybr ein dyledswydd ac uffudd dod i Dduw. Ac os edrychwn allan i'r byd, cawn wëled fod gwahaniaeth mawr yn bod rhwng teuluoedd gweddi a'r rhai diweddi. Pa deuluoedd sydd lawnafo anghrefydd, anhyfiawnder, llwon, meddwod, ac anmarch i'r Sabboth, onid teuluoedd diweddi?

Gwrthddadl 3ydd.—Ei bod yn cael ei hesgeuloso gan y rhifedi lluosocaf, a chan rai dynion da, ac yn ganlynol nad yw mor bwysig ag y soniwyd ei bod. Y gofyniad yw, A ydyw yn ddyledswydd ai nid yw? Os ydyw, nid ein rheol ni yw dilyn y lluaws i wneuthur drwg; mae hyn yn hytrach yn anogaeth iddi nag yn esgus rhagddi, a dylai gynhyrfu ein sêl ati fod mor lleied yn ymarferyd â hi—mae yn amheus iawn am dduwioldeb yr esgeuluswyr.

Gwrthddadl 4ydd.—Nad oes ganddynt amser i gyflawni y ddyledswydd. Cyfeiriaf at gydwybodau y cyfryw yn ngwydd Duw, beth bynag fyddo eu masnachau, ai nid ydynt trwy ryw ffordd yn treulio mwy o amser yn segur nag a fyddai raid iddynt gymeryd i gynal yr addoliad teuluaidd? ac, a oes un fasnach o gymaint pwys a mater enaid? Onid yw ein holl fasnachau yn dibynu ar fendith Duw? Po helaethaf fyddo y fasnach, mwyaf i gyd o angen sydd am weddi. Yr oedd masnach a goful mawr ar Abraham, Joshua, Job, Dafydd, a Daniel; er hyny yr oeddynt yn cymeryd amser i weddio.

Gwrthddadl 5ed.—Mae diffyg doniau yn wrthddadl gan laweroedd. Dyma yr unig amgylchiad mae dynion yn meddwl yn fach am eu galluoedd. Mae clywed dyn yn dweyd na fedd ddawn i weddio, medd Esgob Wilkins, yr un fath ag areithiwr yn methu siarad, neu deithiwr yn methu cerdded, neu dlawd yn methu cardota, o eisiau doniau. Nid yw doniau hyawdl yn angenrheidiol i weddio, ond teimlad o angen enaid ger bron Duw, “Y tlawd hwn a lefodd, a'r Arglwydd a'i clybu, ac a'i gwardodd o'i holl drallodau.” “Deued uchenaid y carcharorion ger dy fron,” ac, “Ni ddiystrodd eu dymuniad.”

Gwrthddadl 6ed.—Ofn a chywilydd. Gofynaf i'r cyfryw, a oes arnynt gywilydd i gyflawni eu gorchwylion cynefin?—a oes arnynt gywilydd i bechu?—a oes arnynt gywilydd i erlid a gwawdio crefydd a chrefyddwyr?—a oes rhyw beth mewn crefydd yn achos o gywilydd? Cofied y cyfryw Marc 8 : 38.

Gwrthddadl 7fed.—Na chaniatâ eu tylwyth iddynt wneyd. Mae yr wrthddadl hon yn gyffredin wedi ei hadeiladu ar gamgymeriad; oblegid y mae plant yn gyffredin yn parchu crefydd, oni bydd eu meddyliau wedi eu caledu trwy gamymddygiadau eu rhieni, a bychan yw rhifedi y gwragedd hyny yn ngwlad efengyl a ddibrisiant ordinhadau crefydd i'r fath raddau ag y ceisiant rwystro eu gwyr i gynal addoliad yn y teulu. Gofynaf i'r penteulu sy'n ymesgusodi, A ddarfu i chwi wneyd prawf? Os na wnaethoch, pa fodd y gwyddoch? Mae gan benau teuluoedd awdurdod i gadw crefydd yn eu teuluoedd, ac os yw y wraig yn gwrthwynebu, mae genych achos i ymostwng ger bron Duw oblegid hyny; os yw y plant yn gwrthwynebu, yr ydych wedi colli eich llywodraeth deuluaidd mewn modd truenus, ac wedi esgeuluso eich dyledswydd tuag atynt yn yr amser a aeth heibio.

Gwrthddadl 8fed.—Hir esgeulusdod crefydd deuluaidd, na wyddant yn y byd pa fodd i ddechreu a datguddio anghysondeb eu cymeriad i'w teuluoedd. Mae yr wrthddadl hon, o'i gweithio allan, yn gwrthdaro pob

adnewyddiad, ac a rwystra bob pechadur i ddyfod at Iesu Grist am fywyd tragywyddol. Nid yw yn gywilydd i ddyn gyfaddef ei gamsyniadau a'u gadael. Yr oedd dyn ieuanc yn Rhufain yn dyfod allan o dy drwg, a phan welodd Cato rinweddol yn dyfod ar yr heol, trodd yn ei ol yn ddioed. Ar hyn dywedodd Cato wrtho, "Tyred allan, tyred allan, cywilydd oedd myned i mewn, ond nid cywilydd oedd dyfod allan." Ond nid yw yr holl wrthddadleuon hyn ond dyfeisiau wedi eu mabwysiadu gan ddynion o feddwl llygredig, yn gwirfoddol esgeuluso y ddyledswydd.

PREGETH VIII.

PREGETHU CRIST.

"Yna Phylip a aeth i waered i ddinas Samaria, ac a bregethodd Grist iddynt."—ACT. 8: 5.

Rhoddir yn y benod flaenorol hanes un o'r gweithredoedd mwyaf anghyfiawn ac ysgeler a gofnodwyd erioed, sef merthyrddod Stephan dduwiol. Ac yn nechreu y benod hon dangosir fod Saul o Tarsus (wedi hyny yr Apostol Paul) yn cytuno, yn cymeradwyo y weithred waedlyd, ac yn anrheithio yr eglwys ei hunan, gan fyned i mewn i bob ty, a llusgo allan wyr a gwragedd, efe a'u rhoddes hwynt yn ngharchar. Un o gynllwynion y diafol i ddinystrio eglwys Dduw ydyw cyrhyrfu y byd i'w herlid. Ond y mae yr Hwn sydd yn preswyltio yn y nefoedd yn chwerrthin am ben ei ymgeisiadau dichellus—yr Arglwydd yn ei watwar ef a'i weision, ac yn gwneyd i'w cynddaredd ei folianu, gan wahardd gweddill eu cynddaredd. Gwir i'r dysgyblion gael eu gwasgaru gan yr erledigaeth ffyrnig; ond nid enillodd y gelyn ddim trwy hyny; oblegid yn eu gwasgariad hwy *fe wasgarwyd y gair hefyd*. Gan faint eu sel a'u gwresawgrwydd crefyddol, yr oedd y brodyr, yn eu ffoedigaeth, yn rhoddi y byd ar dân megys yn mhob man yr ymwelent. O'r cenhadau ymroddol hyn nid y lleiaf

oedd Phylip, y diacon y dywedir am dano yn y testyn, a aeth i waered i Samaria, ac a bregethodd Grist iddynt.

I. BETH SYDD YN GYNWYSEDIG MEWN PREGETHU CRIST.

1. *Pregethu urddas a gogoniant ei berson.*—Hyn a ddylai fod testyn penaf ein myfyrdodau. Cydgyferfydd yn ei berson ef berffeithderau Duw, a phurdeb a sant-eiddrwydd gwreiddiol y ddynoliaeth. Rhaid pregethu mawr ddirgelwch duwioldeb fel yr ymddengys ynddo yn undeb dirgelaidd ac anymgyffredadwy y ddwy natur ynddo. Mae yr holl gyfundraeth Gristionogol yn dibynu ar hyn. A phe llwyddai anffyddiaid i ddymchwelyd y maen hwn sydd wedi ei sylfaenu yn Seion, fe ddisgynai yr holl oruwchadeiladaeth athrawiaethol a orphwysa arui i'r llawr gyda hi. Ond y mae cadarnsail Duw yn sefylli. Crist yn Dduw yn unig a fuasai yn ormod i'r ddaear; a phe ond dyn yn unig, ni buasai weddus i'r nefoedd. Pe ond delw y Duw anweledig, nid allasai dynion nesáu ato; a phe ond mab Dafydd, ar y llaw arall, buasai yn rhy isel i'r Duwdod. Ond fel Immanuel, y Duw gyda ni, y mae yn addas ladmerydd cydrhwng Duw a dynion, a'i groes Ef yn ganolbwynt diogel ac anrhydeddus i Nef a daear i gyfarfod â'u gilydd i ymgofleidio mewn hedd.

2. *Ei ddwyfol osodiad yn y swydd gyfryngol.*—Fel y dangoswyd yn barod, ei briodoleddau fel Duw-ddyn yw ei gysaddasder i'r swydd; ond ei *osodiad* ynddi gan y Tad a roddes iddo yr *awdurdod* i gyflawni ei dyledswyddau. Gellir casglu o'r gyfrol Ddwyfol luaws mawr o dystiolaethau yn cadarnhau ei apwyntiad, yn dangos ei fod wedi ei osod yn Frenin ar Seion, mynydd sant-aidd Duw—ei fod wedi ei eneinio gan Dduw ag olew llawenydd tu hwnt i'w gyfeillion—fod yr Arglwydd wedi ei eneinio i efengylu i'r rhai llariaidd, a'i anfon i rwymo y rhai ysig eu calon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sydd yn rhwym. Ac wedi ei berffeithio, efe a wnaethpwyd yn awdwr iachawdwriaeth dragywyddol i'r rhai oll a ufuddhant iddo,—wedi ei gyfenwi gan Dduw yn Archoffeiriad yn

ol urdd Melchisedec. Dyma bethau yn nghylch Iesu o Nazareth, ag y mae yn hanfodol i'r byd eu gwybod; ac felly dylem eu pregethu.

3. *Purdeb a santeiddrwydd ei nodwedd.*—Yn nghymeriad y Mab y mae pobpeth a ddichon crefydd gymradwyo, a phob rhinwedd a ddichon addurno y ddynoliaeth. Yn ei fywyd gwelwn y ddeddf yn cael ei hanrhydeddu, a'i holl orchymynion yn cael perffaith uffuddod. Mae colliadau yn y dynion goraf; ond am Iesu, gallai godi ei law i'r nefoedd, a herio byd cyfan, gan ddywedyd, "Pwy a'm hargyhoedda I o bechod?" "Ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau. Cafodd y Tad Santeiddiol lwyr foddlonrwydd ynddo. Yr oedd, ac y mae hefyd yn Archoffeiriad santaidd, diddrwg, dihalog, a didoledig oddiwrth bechaduriaid."

4. *Yn helaethrwydd ei gariad a'i ras.*—Mae bywyd a marwolaeth Iesu yn esboniad tarawiadol ar nerth ei gariad at ddynion, oedd yn cyneu fel fflam angerddol yn ei fynwes erioed. Mae ei ymddarostyngiad i breseb Bethlehem, i ddyoddef tlodi, dirmyg, erledigaeth, ac angau melldigedig y groes, yn ddatganiad o hono nas gellir ei ameu.

5. *Rhinwedd a digonolrwydd ei aberth.*—Dyma y pegwn pwysig ar yr hwn y mae holl gyfundrefn y prunedigaeth yn troi. Felly y mae yn annhraethadwy bwysig i ni fod genym olygiadau cywir, cyson, ac Ysgrythryol ar natur, dyben, a pherthynas Iawn y Cyfryngwr a'r ddynoliaeth. Heb hyny, nyni o angenrheidrwydd a ballwn yn mhob pwnc. Mae y ddeddf yn gofyn perffaith uffuddod oddiwrth holl ddeiliaid llywodraeth foesol y Jehofah: ond y mae dyn wedi ei throddeddu, ac o herwydd hyny y mae yn agored i'w melldithion, ac yn rhwym o fod tanynt, os nad ellir boddloni gofynion y gyfraith, a'i hanrhydeddu mewn rhyw ffordd arall. Wel, i'r dyben hyny, wele Fab Duw, etifedd cyfreithlon yr orsedd wen fawr yn y nefoedd, yn offrymu ei hun yn offrwm ac aberth i Dduw o arogl peraidd. "Canys yr hyn ni allai y ddeddf, o herwydd ei bod yn wan trwy y cnawd, Duw a ddanfionodd ei Fab ei hun yn nghyffel-

ybiaeth cnawd pechadurus, ac am bechod a gondemniodd bechod yn y cnawd. Fel y cyflawnid cyfiawnder y ddeddf ynom ni, y rhai ydym yn rhodio nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd." A baich ein pregethiad ni ydyw, fod ei ddyoddefiadau a'i angau drud Ef wedi symud ymaith o du'r Nefoedd bob rhwystr i'n cadwed-igaeth; a bod rhinwedd digonol yn ei waed Ef i sant-eiddio pawb, ac i lanhau oddiwrth bob pechod.

6. *Pregethu neu egluro egwyddorion ei deyrnas.*—Fel gwobr ei lafur caled, derbyniodd Iesu deyrnas; rhoddwyd iddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear, fel arwydd o foddlonrwydd y Tad yuddo, a'i lawn gymeradwyaeth o'r hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd. Ac ar sail yr awdurdod hono, efe a genhadodd ei apostolion i fyned i'r holl fyd a phregethu yr efengyl i bob creadur. Tra yr oedd ar y ddaear ei hun, ei brif orchwyl oedd egluro natur ei deyrnas, a chyhoeddi ei hegwyddorion; ond wedi ei esgyniad i ogoniant, y mae hyn wedi ei ymddiried i'w ganlynwyr. Ac y mae angen neillduol eto, fel yn amser Crist ei hun, i roddi cyhoeddusrwydd mawr i'w symledd a'i hysbrydolrwydd—nad ydyw o'r byd hwn—na wneir hi i fyny gan bomp a defodaeth—nad yw teyrnas Dduw fwyd a diod, ond cyfiawnder, tangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glan.

7. *Uchder ei ddyrchafiad a'r ddeheulaw y Mawredd.*—Efe a esgynodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai efe bob peth. Anfonwyd gosgordd o angylion i'w gyrchu adref *in state*. Yr oedd ei ddysgyblion yn llygad-dystion o'r amgylchiad—eu bendithio ar fynydd yr Olewydd yr oedd pan gymerwyd ef. Ac wedi iddo basio heibio i filoedd o sér, planedau, a heuliau, dacw y cerbyd breninol yn cyrhaedd hyd at gaerau y Jerusalem nefol; a dyma y gorchymyn yn cael ei roddi i'w groesawi a'i anrhydeddu: "O byrth, dyrchefwch eich penau, ac ymddyrchefwch ddrysau tragwyddol, a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn. Pwy yw y Brenin y gogoniant hwn? Arglwydd y lluoedd, Efe yw Brenin y gogoniant."

II. PA FODD Y DYLLID PREGETHU CRIST.

1. *Gydag amcan gonest i'w ddyrchafu.*—Mae yn ddichonadwy i ni bregethu trwy ein hoes, ac eto fod heb bregethu Crist—pregethu ein hunain, ac nid Crist Iesu, yr Arglwydd; dwyn ei enw santaidd i'n pregethau, a dweyd weithiau yn lled dda am ei ragoriaethau, eto fod yn bersonol ac ymarferol ddeythr i'w Ysbryd a'i ddoniau achubol—prophwydo yn ei enw, ac yntau heb ein hadnabod—pregethu i eraill, a bod ein hunain yn anghymeradwy. O feddwl sobr! Ofnwn, gan hyny.

2. *Gydag awydd cryf am fod yn offerynol i enill eneidiau i gredu ynddo.*—Gymaint ag a baro i ni *erfyn* drost Grist ar ein gwrandawyr ddod i gymod â Duw, ac i wneuthur ein hunain yn bobpeth i bawb, fel y gallwn yn hollol enill rhai.

3. *Gydag yni a gwresawgrwydd, a helaethder dyfalbarhaol.*—Er cael gwrthwynebiadau, dylem ddal ati. Nid yw y ceidwaid ar y mur i dewi ddydd na nos; er na chredir i'n hymadrodd yn aml, ni wiw rhoddi i fyny—ac er na ffyna na hwn yma, na hwn acw, ein dyledswydd ni yw gwasgaru yr had da, bod yn sicr, diymod, a helaeth yn wastad, a ni yn gwybod na bydd ein llafur yn ofer yn yr Arglwydd; hau mewn dagrau, eto mewn gobaith cael yn y man lawen gasglu ysgubau.

III. PAHAM Y DYLEM BREGETHU CRIST.

1. *Am mai Efe yn unig ydyw Iachawdwr y byd.*—Efe ydyw gobaith holl gyrau y ddaear, a'r rhai sydd bell ar y môr. Byd heb obaith a fuasai byd heb Grist. Gallasem fforddio colli haul natur yn fil gwell na Haul Cyfiawnder, a'r hwn yr ymwelodd Duw, o diriondeb ei drugaredd, â'n daear.

2. *Mae gweithredoedd Crist yn y byd yn fwy haeddol i'w cyhoeddi na gweithredoedd neb arall a fu ynddo erioed.*—Os cyfansoddir arwrgerddi gan feirdd Groeg a Rhufain, i osod allan wrolweithiau eu cadbeniaid rhyfelawg; os traethir cymaint am haelfrydedd Howard, a gwladgarwch Washington, yn sicr mae yr hyn a wnaeth Iesu yn haeddu ei bregethu.

3. *Mae y datguddiad a wnaed i ni o'r hyn a fwriada yn mhellach wneyd dros ei drigolion, yn ein rhwymyo i'w*

bregethu i'r byd.—Addawa deyrnas i'r rhai a'i dilynant yn ei brofedigaethau ; gorphwysfa dragwyddol i'r rhai a lafuriant heb ddiffygio yn ei winllan ; gogoniant i'r rhai a ddyoddefant gydag Ef dros yr amser presenol hwn—mewn gair, ni welodd llygad, ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'u carant Ef. Angenrhaid ynte i'r byd wybod hyn. Dyna, os dim, a'u henilla i'w gofleidio. Gwae ni oni phregethwn.

ADDYSGIADAU.

1. *Mor fawr yw braint a chyfrifoldeb pregethwyr.*
 2. *Os ydyw mor bwysig i ni bregethu Crist, fod pwys mawr hefyd i'n gwrandawyr ei dderbyn a chredu ynddo.*
- Pa fodd y diangwn ni os na fynwn ddyfod ato, ac os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint ?

ANERCHIAD AR Y GENADAETH GARTREFOL.

TRADDODWYD YN CINCINNATI, NADOLIG, 1849.

Mae y byd i gael ei lanw â llythyren yn gystal ag âg ysbryd Cristionogaeth. Mae y goleuni nefol a dorodd ar Galfaria, i ymdaenu dros yr holl ddaear, o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd eithaf y byd. Ac y mae i gael ei wasgaru trwy offerynoliaeth dynion—nid yn wyrthiol, na thrwy ryw oruchwyliaethau anghyffredin o eiddo rhagluniaeth y Nef. Cwmpesir hyn trwy gyd-weddiau, cydgyfraniadau, a chydymdrechiadau y saint o'i phlaid. Ond i ba le y trown ni i edrych am y fath ymegniadau i ddwyn y gwaith da yn mlaen ? I Asia, o'r lle y daeth allan ? Na, mae caddug Mahometaniaeth ac ofergoeldd fel wedi ymsefydlu ar y wlad brydferth hono a'i thrigolion. Ac os trown ein golwg wedi hyny tua rhai parthau o Ewrop, nid llawer mwy gob-eithiol yr ymddengys pethau i ni ar hyn. Dacw Rwsia, gyda'i miliynau o *serfs*, ac â dosbarthiadau eraill ei dinasyddion, i fesur hefyd, yn gorwedd yn wasaidd wrth draed un dyn, ac â iau drom eglwys Groeg ar eu

gwarau. Prif nod yr ymerodraeth hono ydyw eangu ei therfynau ei hun—nid llwyddiant teyrnas Brenin Seion—a gwna hyny gyda'r cledd, y bidog, a'r gyfiegr, a thrwy waed a chelanedd. Ofer hefyd yr edrychir tua'r Almaen am ymwared, oblegid yr oll a all hi ei wneyd tros grefydd bur yn bresenol ydyw ei chadw yn fyw yn nghanol ei hanffyddiaeth ryfygus, a'i chwareudai, a'i phleserdai, sydd yn fagwrfau yr anfoesoldeb bryntaf. Mae Awstria a Ffrainc, yr Hispaen, Portugal ac Itali, ynte, yn hollol tan awdurdod y Butain Fawr Babyddol, nid yn unig yn analluog i wneyd dim tros ddiwylliad gwledydd eraill, ond mewn angen am gynorthwy o fanau eraill, i ysgwyd ymaith oddiarnyt yr ormes lethiadol. Edrychwn bellach i Brydain Fawr. Mae hi wedi gwneyd llawer er efengyleiddio y cenedloedd. Mae miloedd o'i phlant hi wedi dyoddef merthyrdod yn achos Cristionogaeth, ac y mae hyd yn nod ei rhyfeloedd hi yn yr India a China, a buddugoliaethau yr Unol Dalaethau ar Mexico, wedi eu goruwchlywodraethu gan Dduw i ledaenu Beiblau, ac agoryd drysau i genadau hedd fyned i lafurio i feusydd paganaid. Ond nid yw pobl orchfygedig yn barod iawn i dderbyn crefydd eu gorchfygwyr. Nid oes cydgoriad cydrhwng arfau rhyfel a deniadau at dduwioledb, ac y mae amser maith yn ofynol i ddileu y rhagfarnau cenedlaethol a gynyrchir gan ddifrod a chreulonderau ymrysonau felly. Mae gan Loegr hefyd waith mawr i'w wneyd gartref, i ddatod y briodas anachaid rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Ac wedi iddynt gael llonydd cyhyd yn yr undeb anghydmarus, nid gorchwyl hawdd na diberygl i'r naill na'r llall a fydd eu hysgaru. Eto dylid gwneyd hyny, ac fe'i gwneir—nid mewn blwyddyn, na deg, nac efallai haner can' mlynedd. Ond pe buasai hyny wedi ei gyflawni yno, mae crefyddoli y byd yn ormod gorchwyl i un genedl fechan. I b'le, ynte, yr edrychwn am yr adgyfnerthion angenrheidiol, ond i'r wlad hon? Mae hanesiaeth, rheswm, a phrofiad yn cydgyfeirio at gymysgedd genhedlig America am y cenhadau cyfaddasaf i ddwyn y gwaith hwn yn mlaen yn

y dyfodol. Yr ydym yn sefyll yma megys ar derfynau eithaf y ddaear, i wasgaru bendithion tymorol a chrefyddol yn mhob cyfeiriad—i Greenland ac Ynysoedd y Tawelfor—tros y Werydd i Affrica, ac i'r Gorllewin, trwy ein tiriogaethau llydain ein hunain, a thros y môr mawr, llydan, i China. Gellir ystyried y tadau pererinol cyntaf a ddaethant yma o Loegr, fel cenhadau Crist i gymeryd meddiant o'r wlad enwog hon yn ei enw Ef. Ar eu hol hwy mae rhyw amrywiaeth rhyfedd o bobl wedi ymfudo yma. Mae bywiogrwydd y Ffrancod, synwroldeb yr Ysgotiaid, diwydrwydd yr Ellmyniaid, gwresogrwydd y Gwyddelod, a diniweidrwydd y Cymry, yn cyfarfod yma, ac yn cael eu cyfrododdu yn brydferth gyda'u gilydd yn gymdeithasol a chrefyddol. Meddyliaid, gan hyny, y fath fantais y mae hyn yn ei roddi i ni ragor pobl un wlad arall, i wneuthur daioni yn gyffredinol, ac i wasanaethu ein cenedlaeth. Oni ddylem, ynte, fod yn ymroddol iawn i ddiwyllio ein gwlad ein hunain? Gallwn wneyd, gyda bendith yr Arglwydd ar ein llafur. Mae ameu hyny yn anffyddiaeth o'r fath waethaf—yn wadiad o nerth, gwiredd, ac o lywodraethiad, a hyd yn nod fodolaeth Duw! Os codwn ni ati hi, a gwneyd ein rhan yn ffyddlon a dyfbarhaol, ni bydd ein llafur yn ofer yn yr Arglwydd. I'r dyben hyny rhaid planu cangen-genadaethau cartrefol ar hyd a lled y wlad, ac atolygu ar Arglwydd y cynhauaf anfon allan weithwyr llawn o ffydd, o sêl, ac o'r Ysbryd Glan, ac a'u calonau yn llosgi gan gariad at Grist, a chan awydd i gadw eneidiau, i gymeryd gofal o'r cyfryw. A phan y ceir hwynt, rhaid i ninau eu hanfon, a'u cynal yn y meusydd hyny, ac edrych na laeso eu dwylaw o herwydd eisiau. Mae addewidion a prophwydoliaethau yr Ysgrythyr yn ein sicrhau mai canlyniad dedwydd hyny a fydd, tywalltiad helaeth o'r Ysbryd o'r uchelder, ac y bydd yr anialwch yn ddoldir, ac y cyfrifir y doldir yn goed-tir—yna y trig barn yn yr anialwch, a chyfiawnder a erys yn y doldir. Diwreiddir yma ddrain a mieri Pabyddiaeth, ei hegwyddorion llygredig, ei threfniadau eglwysig, sydd hollol wrth-

wynebol i addysgiadau ein Cyfansoddiad Llywodraethol; a'i chwil-lysoddd, sydd flotiau duon, hyd yn nod ar gymeriad yr oesau tywyllion, am eu barbaredd-dra. Ac er fod anffyddiaeth yn frigog yma yn bresenol, fe'i llwyr arloesir o flaen dyfodiad nerthol a gogoneddus Mab Duw yn y llwyddiant mawr addawedig ar yr efengyl. Gyfeillion, mawrhawn ein braint, ein bod yn cael cydweithio â Duw i ddwyn y cyfnewidiadau dymunol hyn oddiamgylch, yn nghreadigaeth y nefoedd newydd a'r ddaear newydd, yn y rhai y cartrefa cyfiawnder; a meddylw'n gymaint yn rhagorach ein manteision ni yn yr oes hon i wneuthur daioni, na ffyddloniaid cenedlaethau sydd wedi myned heibio. Yr unig fodd y gallai Paul helpu lledaeniad Gair Duw oedd trwy ymweliadau personol â lleoedd, a thrwy ysgrifenu llythyrau at yr eglwysi, a'r rhai hyny i gael eu hadysgrifenu gan erall, a'u hanfon nid gydag agerdd, fel yn ein dyddiau ni, ond yn nwyllaw personau a deithient ar draed, y rhan fwyaf. Ac eto gallai yr Apostol gywir a gostyngedig ddywedyd: "Trwy nerth arwyddion a rhyfeddodau, gan nerth Ysbryd Duw; hyd pan o Jerusalem, ac o amgylch hyd Illyricum, y llenwais efengyl Crist." Pa faint mwy a wnaethai pe cawsai, fel nynt, argraffwasg at ei wasanaeth, i droi allan filoedd o Feiblau bob dydd; pe cawsai y clud-gerbydau buain sydd genym ni i'w hanfon; pe cawsai filoedd o genhadau trwy y gwledydd, o wasgarwyr traethodau a *colporteurs* i'w helpu! Oni ddylem ninau, frodyr, ymroi ati? Mae Duw yn galw yn uchel arnom i ddyfod allan yn gynorthwy iddo yn erbyn y cedyrn. Mae genym y seiliau cryfaf i hyder yn llwyddiant yr anturiaeth, yn mwriadau tragwyddol y Jehofah, yn rhinwedd aberth Calfaria, yn y llwyddiant mawr sydd wedi ei dilyn yn barod, yn arwyddion yr amseroedd presenol, y drysau sydd yn agoryd i dderbyn yr efengyl. Deffrown yn gyfiawn, ynte, ac na phechwn; canys nid oes gan rai wybodaeth o Dduw.

AMLINELLIAD O'I BRIF WEDDNODAU :

FEL PREGETHWYR, DUWINYDD, A GWEINIDOG.

Diangenrhaid i ni geisio rhoddi desgrifiad o ffurf ei berson, a delweddau ei wynebpryd, gan yr arddangosir hwynt mor gywir yn y darlun yn nechreu y gyfrol. Bernir fod hwnw yn un rhagorol o hono tua'r amser y cymerwyd ef, sef yn 1850, neu 1851. Ond y mae cyf-iawnder a'r ardebydd yn ein rhwymo i ddweyd iddo ei adgynyrchu dan yr anfanteision mwyaf. Tynwyd ef allan o dŵr (*group*) teuluaidd ; ac, fel yr oedd gwaethaf y modd, gwthiesid ef, yn eu trefniad i gongl gyfyng a thywyll. Buasai yn well genym ei gyflwyno yma i'w gyfeillion fel yr edrychai tua diwedd ei oes, pan yr adnabyddid ef fel yr "Hynafgwr Davies, Radnor." Ond dyna yr unig ddarlun o hono sydd ar gael gan ei berthynasau, a hyd y gallasom ddeall, wedi ymchwiliad manwl, gan neb arall hefyd.

Fel pregethwr, enillodd iddo ei hun radd dda pan yn ieuanc, ac ni cholodd ei goron wedi iddo heneiddio. Yr oedd yn draddodwr llithrig ac effeithiol. Dibynai gryn lawer am *hwyl* ar gydymdeimlad y gynulleidfa, ac os byddent grintachlyd o'u moliant a'u hamenau uchel, ni phetrusai ofyn am danynt, a danod iddynt yr anniolchgarwch a'u gwnai mor gyndyn i dalu cymaint a hyny o deyrnged i'r Hwn, ag esfe yn gyfoethog, a ddaeth er ein mwyn ni yn dlawd, fel y cyfoethogid ni drwy ei dlodi ef. Yn nghyfansoddiad ei bregethau, mae yn anhawdd penderfynu pa un ai yr elfen destynol, a i-athrawiaethol, sydd fwyaf cyhoeddus. Ond nid oedd waeth pa un a ddygwyddai gael y flaenoriaeth, ni fethodd un amser a chysylltu yr *ymarferol* a'r naill a'r llall.

Perthynai iddo yn y cymeriad dan sylw amryw hy-

nodion—*eccentricities*—rai ag y mae gonest argyhoedd-
iad o ddyledswydd yn ein rhwymo i'w hanghymeradwyo,
am y credwn iddynt wneyd niwed iddo, a bod i fesur
yn rhwystrol i dueddbeniad da a chyffredin ei bregeth-
au. Mae genym ei addefiad ei hun, fod llawer o hen
geinciau ceimion yn perthyn iddo pan aeth i'r Coleg;
ac i'w gydfyfyrrwyr droi amryw o honynt ymaith, trwy
wawdiadau digrifol o hono; ac nid oes le i amheuaeth,
ped arosasai i fyned drwy ei dymor yn yr Athrofa, nad
ysgythrysesid ychwaneg o honynt drwy yr un modd-
ion, y rhai oeddynt ry amlwg yn ei arddull a'i agwedd-
ion i rod-di i'w bregethiad bob amser y cymesuredd a
ddymunesid. Nid ein meddwl wrth ddywedyd hyn
yw, fod dim yn debyg ynddo yn yr areithfa i'r pregeth-
wyr cellweirus hyny y dywed Sterne am danynt, y gell-
id meddwl wrth wrandaw arnynt rai prydiau, "y dy-
mument daflu eu perwigau i wyneb eu cynulleidfaoedd."
Na, yr oedd Mr. D. yn un o'r pregethwyr mwyaf sobr;
ac eto, yn nghanol ei ddifrifwch, a phoethder ei eiddig-
edd dros ogoniant y Gwardwr—a phan, fel Jeremiah,
yn llawn o lid yr Arglwydd; ac, wedi blino yn ymatal,
y tywalltai ef ar gynulleidfaoedd—bradychai weithiau
ddiffyg gofidus mewn barn a chwaeth, yn y mydumiau
a wnaï, yn nghyd a'r dôn, a'r termau a arferai. Tuedd-
ai hyn i beri i rai, nad adwaenent ef yn dda, feddwl ei
fod yn haner ysmalio, pan, mewn gwirionedd, y byddai
iddo dristyd mawr, a gofid dibaid i'w galon yn achos
eneidiau yr annychedig. A'r effaith amlwg yn rhy
fynych hefyd a fyddai ysgafnder yn y gwrandawyr, a
hyd yn nod chwerthiniadau uchel, lle y byddai y preg-
ethwr, a Duw hefyd, "yn galw i wylofain, ac i alarnad,
ac i foeledd, ac i ymwisgiad mewn sachlian."

Yn awr, gan fod y mater hwn wedi dod i fyny heb
ei drawslusgo, nid ystyrir ef allan o le i ni yma ddal ar
yr achlysur i ddatgan yn ddiffoesgni ein barn fod gal-
wad uchel am ddiwygiad tra chyffredin yn ein mysg yn
nglyn ag ef, a'r fath ddiwygiad grymus a thrwyadl ag
a ysguba o'r ddesc gysegredig bobpeth *tebyg* i chwardd-
gampwaith a mursendod, a rydd weddeidd-dra i draed,

a phuredd i wefusau y rhai a efengylant ynndi, ac a'u prydferthant â symledd, â difrifoldeb, ac â *naturioldeb* yr Athraw Mawr.

Darllenasm yn ngwaith rhyw awdwr Seisnig, fod edrychiad Charles, o'r Bala, yn yr areithfa, ynndo ei hun, yn bregeth ddylanwadol ar hynawsedd Cristionogol; ac am Massillon, fod ei ymddangosiad yn y pulpud mor ostyngedig, mor rydd oddiwrth rydresgarwch, mor ddielfrydol, ac eto mor briodol ei ystum, mor deimladwy ei dôn a chyfaddas ei iaith, i drosglwyddo ei ddrychfeddyliau ysblenydd i'w wrandawyr, nes y gorfuwyd y pruddrithiwr Baron, wedi bod yn ei wrandaw un tro, i wneyd yr addefiad darostyngol a ganlyn parthed ei alwedigaeth ei hun:—"Fy nghyfaill, mae Massillon yn *areithiwr*, tra nad ydym ni ond *chwareuwyr*."

Fel duwinydd, Calvin cymedrol oedd Mr. D.; darllenodd a meddyliodd lawer yn mherthynas i'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb; a chredwn iddo, wedi manwl a phwyllus olrheiniad, ddewis canol y ffordd cydrhwng eithafoedd Arminiaeth ac Antinomiaeth. Daliai yn lew, a datganai yn groew fel rhai o brif erthyglau ei ffydd—iawn cyffredinol, a rhyddid ewyllys dyn yn nerbyniad neu wrthodiad bywyd tragwyddol ar y naill law, a phwysfawredd ac anhebgoredd y dylanwadau dwyfol ar y llaw arall, er gwir ddychweliad pechaduriaid at Dduw. Gellir dywedyd ei fod yn un o ddysgyblion Dr. Edward Williams, Rotherham. Yr oedd yn edmygydd digel o weithiau gorchestol y duwinydd enwog hwnw ar "Uniondeb y Llywodraeth Ddwyfol, a Phenarglwyddiaeth Gras," a'i "Amddiffyniad i Galfiniaeth Gymedrol" yn erbyn Esgob Lincoln, Lloegr. Er fod ganddo barch mawr i, ac ymddiried diysgog mewn awdwyr eraill, hen a diweddar, addefai mai dyna y llyfrau a roddasant fwyaf o oleuni iddo, ac o foddlonrwydd i'w feddwl ar "gymeriad deublyg Duw, a chymeriad deublyg dyn—y rhai sydd fel dwy wythien yn rhedeg trwy yr holl ddadguddiad."

O ran ei farn ar natur eglwys, yr ydoedd yn Gynulleidfawr egwyddorol a chyson. Myntumiai fod hawl

gan y nifer leiaf o Gristionogion a ymgyfamodant a'u gilydd i addoli yr Arglwydd, a chynal i fyny goffadwriaeth o'i enw, i wneyd hyny fel y barnont ddoethaf eu hunain; ac nad oes gan un llys eglwysig awdurdod i ymryd a'u hachosion, trwy orfodi arnynt fesurau a ffurfiau, na swyddogion yn groes i'w hewyllys eu hunain, nac i'w cospi am eu gwrthod. A'r hyn a wyddom yr ydym yn ei dystiolaethu pan yn dywedyd, yr arferai wyllo gyda dyfalwch ac eiddgedd dros iawnderau personau ac eglwysi lleol, rhag cyfyngu arnynt-gan drais arglwyddiaeth gorfforaethol neu gymanfaol. Ac am swyddogion yr eglwys, fel y canlyn yr atebodd ofyniad yn eu cylch a gyfeiriwyd ato: "Nid oes ond dau dds-barth i fod ynddi—sef Esgobion, Henuriaid, Gweinidogion, neu Fugeiliaid i bregethu y Gair a gweinyddu yr ordinhadau; a Diaconiaid i wasanaethu byrddau—bwrdd yr Arglwydd, bwrdd y weinidogaeth, a bwrdd y tlodion."

Fel gweinidog, yr oedd yn nodedig am ei *weithgarwch*. Nid allai oddef seguryd yn unman. Ni chyffyrddodd y drwg hwnw erioed ag ef; ac nid ydym yn credu y beiddiasai neb awgrymu y fath beth am dano. Pe gwnaethid, buasai yn ddigon i beri i'r ceryg yn muriau, a'r trawstiau yn ngwaith coed yr holl addoldai y bu yn *pregethu* ynddynt, heb son am y rhai y bu yn brif offeryn i dalu am danynt, i lefain yn groch yn erbyn yr enllib ar ei gymeriad, ac i beri hyd yn nod i ganoedd o hen foncyffion coedydd ar ei dyddyn yn Allen, i uno gyda hwynt yn ei amddiffyniad. Fel llawer o'i frodyr yn y weinidogaeth yn yr Hen Wlad ac yma, rheidrwydd a osodwyd arno i weithio a'i ddwyllaw er cynaliad ei deulu, ac iawn-addysgiad ei blant. Oblegid nid digon at hyny y gydnabyddiaeth a dderbyniai oddiwrth yr eglwysi. Nid hawdd, beth bynag, wedi bod yn aredig, neu blanu corn, neu fedi yn ngwres y dydd, oedd cerdded gryn bellder i gynal cyfarfodydd gweddi, neu gyfeillach eglwysig yn y capel, nac ychwaith eistedd yn ei fyfyrgell yn hir i barotoi negethau erbyn y Sabboth. Eto efe a'i gwnaeth yn ew-

yllysgar am flynyddau. Digon tebyg na byddai ei bregethau ambell dro, dan yr amgylchiadau hyny, mor orphenol a thrwsiadus ag y dymunesid iddynt fod, a'i fod hwyrach yn ddiarwybod yn ail-adrodd yn rhy fynych i foddhau ambell feirniad hunan-ddoeth yn mysg ei wrandawyr. Ond, heb gymeryd arnom y gwaith o'i hollol gyfiawnhau yn y mater hwn, dywedwn y dylasai y rhai a'i beient am na fuasai *lai yn y maes, a mwy yn ei study*, gofio leied oedd ei weinidogaeth yn ei gostio i'w llogellau, ac, heblaw hyny, ei bod bob amser yn cael ei gwneyd i fyny o *fwyd iach*, a gwirioneddau ag y mae genym hanes yn yr Ysgrythyr am rai oedd a newyn a syched arnynt am wrandaw geiriau Duw, yn atolygu ar Paul a Barnabas, i bregethu "*y geiriau hyn iddynt y Sabboth nesaf;*" ac nad oedd *pregethu*, mwy nac *ysgrifenu* "*yr un pethau*" trosodd flin gan yr Apostol, tra i'w wrandawyr yr oedd yn ddiogel a manteisiol i'w cynydd mewn gras a gwybodaeth.

Dygai fawr sel dros yr Ysgol Sabbothol. Planodd amryw gangenau, a dyfrhaodd fwy. Ystyrid ef yn un o gefnogwyr gwresocaf y sefydliad yn Swydd Drefaldwyn, os nad yn Ngogledd Cymru. Cymerai ddyddordeb neillduol mewn cyfarfodydd arholiadol; ac yr oedd ganddo ffordd hapus iawn *i greu dyddordeb ynddynt*. Anfonid am dano o bell ac agos i wasanaethu ar achlysuron felly. Safai yn uchel yn Llanbryn-mair—Athen yr Annibynwyr yn Ngwynedd, fel holwr ysgolion. Clywsom y byddai cystadlenueth frwd, ond brawdol, cydrhyngddo weithiau, yn yr Hen Gapel, & rhai o gedyrn yr Esgobaeth hono. Hwyrach y byddai yn ormod dweyd yr arferai *yn fwriadol* daenu rhwydau i'w traed ar mylon y ffyrdd yr arweiniai hwynt; ond y mae yn ddiogel dweyd nad allai gelu ei foddineb wrth weled rhai o honynt yn llithro iddynt, ac yn ymnyddu wrth geisio dod yn rhydd o honynt. Os atebid ef heb fethu unwaith, cyfrifid hyny yn gryn orchest. Edrychid yn wastad am ryw ddal-fachau (*catches*) cywrain a dyeithr oddiwrtho, a pharai y dysgwyliad hwnw iddynt astudio y pwnc yn drwyadl, a chwilio yn ofalus iddo

yn ei holl gysylltiadau. Cyfansoddodd lawer o bynciau ysgolion, rai ar ol ei ddyfodiad i America; a pharhaes ei fwa yn gryf o blaid yr achos da hwn hyd derfyn ei daith. Bu yn yr ysgol y Sabboth olaf o'i drigiad ar y ddaear.

Yr ydoedd yn gyfaill calon i bob diwygiad, gwlad-wriaethol ac eglwysig; ac i'w ganfod yn ddieithriad yn mlaen-rés y rhai a ddadleuent drostynt. Unwaith yr argyhoeddid ef fod y mudiad yn dda, ni phetrusai o herwydd ei newydd-deb cyn ymrestru tan y faner a'i cynrychiolai, i ymdrechu dros ei lwyddiant. Nid un o filwyr yr "Odyn Galch" ydoedd, y rhai a ymguddient nes y gwelant o du pwy y try y fuddugoliaeth cyn dechreu bloeddio a lluchio i fyny eu capiau. Nid oedai i holi a oedd yr achos yn boblogaidd, a rhai o'r pen-aethiaid yn credu ynddo, ac o'r cyfoethogion yn ei arddel cyn gwneyd ei feddwl i fyny a roddai ei ddylanwad o'i blaid. Troes allan gyda Meibion Dirwest, yn y rhyfelgyrch ar gestyll meddwdod a diota, pan oedd-ynt yn anaml mewn cydmariaeth, yn weiniaid, a dirmygedig. Cymerodd gwyn y caeth i fyny yn yr Unol Dalaethau, a dadleuodd dros ei iawnderau, gyda'r un hyfder a brwdaniaeth ag y gwnai o'r tu hwnt i'r Werydd. Gwnaeth felly pan wyddai fod hyny yn ei osod yn agored i aflonyddwch a pherygl personol, ar adegau ac mewn manau ag yr oedd y caethfeistri a'u cydfradwyr gwasaidd yn ddigon digywilydd a mileinig i dafu ei fath ef i garcharau, wedi eu gwisgo yn gyntaf â chôt o byg a phlyf. Ac y mae y gair ar led yr arferai fynychu un o addoldai y Negroaid yn y ddinas hon, ac iddo rai troion wneyd anerchiadau mor danllyd a hyawdl iddynt, nes y torodd allan yn orfoledd cyffredinol trwy y dorf, ac yntau yn gwaeddi gogoniant yn eu canol yn Gymraeg.

Peth arall canmoladwy iawn ynddo fel gweinidog oedd *manylwch ei wyliadwriaeth dros yr holl braidd tan ei ofal*. Bugeiliai y defaid a phorthai yr wyn. Ceisiai ddilyn esiampl y Penbugail sydd yn dwyn yr wyn yn ei fynwes, ac yn coleddu y mamogiaid; ac, fel goruchwyl-

iwr ffyddlon a doeth, a osodasid ar deulu Duw, roddi i'r plant eu cyfluniaeth mewn pryd. Mae hyn yn gasgliad naturiol oddiwrth yr amrywiaeth a ganfyddwn yn mhenau ei bregethau talfyredig. Dosberthir hwynt fel "pregethau i'r hen bobl" a "chynghorion i boblieuainc," &c. Ond, heblaw hyn, y mae genym y dystiolaeth ganlynol o'i eiddo ei hun i'n hategu ar hyn: "Y dull a gymerais i gyflawni fy ngweinidogaeth oedd bod mor gyson ag y gallwn yn nghylchoedd cymdeithasol yre glwys. Trwy hyn byddwn yn cael mantais i wybod teimladau yr aelodau, a pha wirioneddau a fyddent fwyaf pwrpasol i'w hamgylchiadau o wythnos i wythnos; heb hyn gwyddwn na byddai fy mhregethau ar y goraf ond megys saethau a'r antur. Mabwysiedais yr arferiad hefyd o ysgrifenu llythyrau personol at rai a feddylion a fyddent tan wasgfa yn nghylch eu cyflwr; ac yr wyf yn gwybod i hyn, tan fendith yr Arglwydd, fod yn foddion i enill rhai i dderbyn Crist. Mae rhywbeth mewn llythyr crefyddol sydd yn ymddyddan yn ddystaw a'r gydwybod, ac yn gadael argraff ddwfn ar y galon."

Ond coron ardderchawgrwydd ei weinidogaeth oedd ei Christionogrwydd amlwg, a'i Hysgrythyroldeb llawn a chyfaddas. Mae nerth a phrydferthwch heb eu bath yn ngeiriau y Beibl, pan ddyfynir hwynt yn ddoeth, neu y gwneir cymwysiad cyfreithlon a naturiol o honynt; ac y mae yr awdurdod uchaf dros dynu yn fynych a helaeth o'r drysorfa hon, wrth gyhoeddi y newyddion da o lawenydd mawr am y Ceidwad. Mae y Tad Mawr ei hun wedi rhoddi esiampl i ni, yn ei dystiolaeth am yr Iesu ar fynydd y Gweddnewidiad: "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd; gwrandewch arno Ef." Er nad yw y datganiad ond byr, eto cynwysa ddyfyniad o dri o wahanol fanau yn yr Hen Destament, lle y cyfeirir at y Messiah. Ni feddylir mai tlodi iaith yn Nuw oedd yr achos iddo fenthycu y geiriau uchod ar yr achlysur hwnw; na, credwn yn hytrach mai ei amcan oedd dangos ei fod yn mawrhau ei Air ei hunan; ac nad da yn ei olwg waith

y rhai a ddiystyrant ei eglurder dirodres. Mae y gweinidog hwnw ynte yn deilwng i'w resu yn y dosbarth blaenaf, ac yn haeddu y sylw manylaf a pharchusaf, sydd a thafod dysgedig ganddo yn iaith Dwyfol Ysprydoliaeth, i lefaru gair mewn pryd am Waredwr wrth eneidiau diffygiol. Yn hyn yr oedd Mr. Davies yn enwog. Gwyddai yr Ysgrythyr Lân er yn blentyn; preswyliai gair Crist ynddo yn helaeth; parchai ef o'i galon; chwiliai ef yn fanwl; myfyriai yn nghyfraith yr Arglwydd ddydd a nos. Yr oedd ei geiriau ar flaen ei dafod bob amser, a'i gawell yn llawn o'i saethau, yn barod ar unrhyw a phob adeg, i'w gollwng oddiar ei fwa. Safai i'w fiodyr yn aml yn lle Mynegair Ysgrythrol. Nid anaddas a fyddai y cyfenw Mynegai Cylchrodianol (*Peripatetical Concordance*) iddo. Gonest ymfalchïai yn ei hyddysgrwydd yn y Beibl. Nid oedd a'i cythruddai yn fwy na chlywed adnodau yn cael eu llurgynio gan bregethwyr yn y pulpud. Gwelid ei anfoddlonrwydd i hyn yn union yn ei wynebpryd; clywid ef yn ei ebychiadau; ac ar rai adegau nis gallai ymatal heb adrodd y geiriau yn uchel ei hun. Yr oedd ganddo syniadau uchel am lawer o lyfrau eraill. Darllenasai gyda gwanc a blas, ac i gofio, deall a defnyddio, weithiau hen awduron Puritanaidd. Yr oedd yn edmygwyr gwresog o Howe, Owen, Charnock, Pool, Henry, Watts, a "Sion Flavel" ys galwai ef; eto gwnei i'r ysgubau a hoffai o feusydd eu llafur hwynt oll blygu yn isel o flaen ysgubau y prophwydi, yr apostolion a Christ. Gwnai i sêr dysgleiriaf ffurfafen duwinyddiaeth hen a diweddar droi o gylech yr orsedd santaidd fel eu canolbwynt. Tra y gwastraffai ambell un ei ganmoliaeth ar y llyfr newydd hwn, ac y gorddyrchafai yr athraw newydd arall, dychymygnwn ein bod yn ei glywed ef y mynyd hwn yn dywedyd: "*Gwell yw yr hen. Gofynwch am yr hen lwybrau, lle y mae ffordd dda, a rhodiwch ynddi.*" Tybiwn ein bod yn ei weled yn awr yn myned yn ddiseremoni ar ei gyfer at Tyndall, Strauss, Renan a rhesymolwyr eraill a drais-esgynasant neu a drais-wthiwyd i gadair y Prophwyd Mawr, a

chyda digter yn fflachio o'i lygaid, a pheth chwerwder yn ei lais, yn eu cyfarch, gan ddywedyd : "Foneddigion, disgynwch oddiyna, mae yma un anrhydeddusach na chwi. Wel, a siarad yn ddiweniaith, un nad ydych chwi yn deilwng i ddatod carai ei esgidiau ef. Dowch i lawr ar frys, ac eisteddwch yma wrth ystôl droed yr Hwn na lefarodd dyn erioed yn debyg iddo."

Galiasem, pe buasai hyny yn angenrheidiol, ymhel-aethu llawer ar rai o weddnodau y pin-ddarluniad hwn, yn gystal a'u lluosogi. Ond, am fod brodyr eraill, rai oeddynt yn fwý cyfarwydd ag ef na ni, wedi cyfeirio atynt, a'u desgrifio mor darawiadol yn adran yr Adgofion Personol, barnasom yn ddoethach i ni ddwyn y benod hon i derfyniad yn y fan yma, rhag y cwynid o herwydd gormod o ail-adroddiadau.

Fel atodiad i'r uchod nyni a ychwanegwn y nodiadau canlynol am dano, gan y Parch. R. D. Thomas, ar rai delweddu ynddo na ddycpwyd allan yn amlwg genym ni.

EI RINWEDDAU.

1. Taerineb mewn gweddian.
2. Gofal am grefydd deuluaidd.
3. Medrusrwydd i wneyd cyfeillachau eglwysig yn fywiog.
4. Ymlyniad cryf wrth y weinidogaeth sefydlog.
5. Gwir ofal am ogoniant Duw.

EI WENDIDAU.

Dichon nad oedd ef ei hun, na'i edmygwyr, yn eu gwyled, nac yn eu hystyried, yn *wendidau*; ond ni chynghorem neb i geisio ei efelychu yn y pethan a gofnodwn isod.

1. Nid oedd wedi efrydu digon ar yr iaith Gymraeg, er ei alluogi i'w hysgrifenu yn gywir; ac i bregethu yr Efengyl gydag eglurder a phrydferthwch. Nid oedd yn *Gymreigydd* da.

2. Er iddo fod yn yr Athrofa, yn efrydu gwahanol ieithoedd, *nid* oedd yn gyfarwydd iawn yn elfenau yr iaith Saesonaeg, nac yn gallu ei pharablu yn gywir; er hyny yr oedd yn *rhy hoff* o bregethu ynddi, gan ffol-dybied ei fod yn feistr arni.

3. Yr oedd yn arfer pregethu yn llawer *rhy hir*, ac *rhy galed*; ac nid oedd ei ysgogiadau (*actions*) yn brydferth a naturiol.

4. Yr oedd yn rhy barod i ddigio os na phenodid *ef* i bregethu yn *mhrif* oedfa y cyfarfodydd a'r cymanfa-oedd; ac yn aml, os na chaffai bregethu ddwywaith yn yr un cyfarfod.

5. Nid oedd ganddo alluoedd *ymresymiadol* cryfion; ac nid oedd trefn (*order*) yn mysg ei ragorion amlwg. Am hyny nid oedd ynddo gymwysder i wneyd Llywydd da, na dadleuydd llwyddianus mewn cynadleddau a Phwyllgorau.

6. Nid oedd yn ddigon llygad-graffi adnabod dynion yn fuan; am hyny byddai, weithiau, yn drwg-dybio y dynion goreu, ac yn rhoddi gormod o ymddiried yn y crefyddwyr gwaelaf. Arweiniwyd *ef* felly rai troion i drallod. Yr oedd *efe* yn rhy rasol a diniwed i *gynllunio* drwg, ac yn rhy dyner i'w gario allan er niweidio ei frodyr a'r eglwysi."

ADGOFION PERSONOL AM DANO.

Mae ein hadgofion cyntaf o Mr. Davies, yn ein cario yn ol tua deng-mlynedd-ar-hugain, ac yn peri i olygfeydd rhamantus rhan helaethaf o Ogledd Cymru, a gwynebau llawer o'r tadau yn y weinidogaeth, o'r rhai nad oes ond nifer fechan yn aros hyd heddyw, i basio yn awr o flaen llygaid ein meddwl, fel mewn cylchar-lunfa. Wedi myned i Gymanfa Meirionydd yr oeddym, a gynelid y flwyddyn hono ar un o uchafdiroedd ein cysefin fro—yn Mhenystryd, Trawsfynydd—hen eglwysdy o fendigedig goffadwriaeth, am mai yno yr ymunodd Williams y Wern gyntaf ag achos yr ymadrodd am y groes.

Aethom yno yn nghwmni nifer fawr o fechgyn ieu-ainc tebyg i ni o bentref Ffestiniog, a chymydogoethau y chwarelau. Cofiwn yn dda i ni gael yr anrhydedd gydag eraill y diwrnod hwnw i gael ein croesawu i gymeryd lluniaeth tan gronglwyd hen chwaer Fethodistaid, nodedig am ei chrefyddolder, ac am ei hwyliau mewn Cymanfaoedd a Sasiynau—Sarah Davies, Llychedris. Nis gwyddom a ydyw y fam hono yn Israel wedi ei chanoneiddio yn llyfr Cronicl Methodistiaeth yn Nghymru a'i nad yw; ond gwyddom yr haeddai fod, yn llawn cystal a Chadi Randall. Mae yn ein meddiant ddefnydd penod fechan o adgofion personol am dani ar wahanol achlysuron y cyfarfuasom â hi, ag a fyddai yn ddifyrus ac adeiladol hefyd; ond nid dyma y lle i'w chyhoeddi.

Cafwyd Cymanfa hyfryd yn mhob ystyr—hin ddymunol, torf luosog o wrandawyr astud, rhwyddineb a nerth i'r cenhadau i lefaru. Pregeth y pregethau, i ni beth bynag, y tro hwnw oedd yr eiddo y Parch. W. Ambrose, ein tad yn y ffydd, ar "gipiad y pentewyn." Ond at oedfa y prydawn y bwriadem gyfeirio yma yn benaf.

Ieuwyd tri o gedyrn Maldwyn gyda'u gilydd i'w dwyn yn mlaen—y Parch'n R. D. Thomas, Penarth; (Iorthryn Gwynedd), J. Roberts, Llanbrynmair, a gwrth-ddrych y cofiant hwn. Mynid i'r brawd Iorthryn bregethu ar ddirwest—"Na, na," meddai yntau, "nid oes achos am hyny, *mae hi yn rhy sych yma yn barod.*" Ac ni wnaeth, ond rhoes i ni bregeth fer, fer, eto wir flasus a derbyniol ar y geiriau: "Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth, mewn harddwch santeiddrwydd o groth y wawr y mae gwllith dy enedigaeth i ti."

Dilynwyd ef gan J. R. Teimlem braidd yn anfoddog na phregethasai "y dyn bach" o Lanfaircaereinion, o'i flaen ef. Er nad oeddym erioed wedi ei weled na'i glywed cyn y diwrnod hwnw, ystyriem nad ydoedd fawr lai na rhyfyg anesgusodadwy ynddo i bregethu ar ol un o "fechgyn Llanbrynmair," oeddynt tua'r adeg hono yn nghanol eu poblogrwydd. Testyn J. R., oedd yr adnod hono yn Nghaniad Solomon: "Deffro di ogledddynt, a thyred ddeheuwynt, chwyth ar fy ngardd, fel y gwasgarer ei pheraroglau: deued fy anwlyd i'w ardd, a bwytaed ei ffrwyth peraidd ei hun." Er fod ein dysgwyliadau yn uchel oddiwrth J. R., y pryd hwnw, fel un o'n "tri chyntaf" yn mysg arwyr yr ar-eithfa gysegredig yn y Dywysogaeth, ni'n siomwyd ynddo. Swynid ni yn wastad gan dlysnï a naturioldeb ei bregethau ef. Canfyddai flodau yn y maes agored, ar y mynydd uchel, a hyd yn nod yn mysg siglenydd peryglus "glyn cysgod angau," i iachâu a sirioli y pererin blin pan yn pasio trwyddo. Ond, fel y sylwyd, i ardd yr Anwlyd yr arweiniodd ni y tro hwnw; a chof genym ein bod yn ei ddilyn yn awyddus o'r naill wely perlyisiau i'r llall, tra y casglai o'u blodau braf, ac y rhwymai hwynt yn bwysiau a wasgarent arogledd Baradwysaidd trwy yr holl le.

Ar ei ol yntau esgynodd Mr. Davies y banlawr; wedi tynu ei gadach, a dadfotymu ei wasgod, i ddechreu o ddifrif ar y gwaith o *chwynu* yr ardd, ag yr oeddym newydd glywed cymaint am ei rhagorion, darllenai fel ei destyn, "Profwch chwychwi eich hunain, a

ydych yn y ffydd ; holwch eich hunain. A'i nid ydych yn eich adnabod eich hunain, sef bod Iesu Grist yn och, oddieithr i chwi fod yn anghymeradwy ?” Sylwai yn ei ragymadrodd fod tri pheth neillduol mewn golwg gan yr Apostol wrth ysgrifenu y llythyr. (1.) Profi iddynt yn Corinth mai o orfod y peidiodd a thalu ymweliad â hwynt yn ol ei addewid. (2.) Eu hanog i dderbyn yn ol i'w cymdeithas y person a ddiarddelesid am odineb, gan ei fod yn wir edifeiriol, ac wedi bod yn hir dan gerydd cyhoeddus a llym. (3.) Ac apelio atynt am gasgliad i'r saint tlodion yn Judea. Ac yn y benod o'r hon yr oedd ei destyn yn rhan (13) byggythiai yr ysgrifenydd y gau-athrawon a ymosodent arno yn ei absen â thrinfa ddiarbed. Hefyd y gellid meddwl fod crediniaeth rhai o'r frawdoliaeth yn ei apostoliaeth wedi ei siglo gan eu hachwynion,—“*Gan eich bod yn ceisio profiad o Grist, yr hwn sydd yn llefaru ynof.*” Nid oedd ganddo, beth tynag, y gwrthwynebiad lleiaf i hyny. Eto meddyliai y buasai yn llawn cystal iddynt, yn gyntaf, edrych yn fanwl dipyn yn nes adref : “*Profwch chwyched eich hnnain,*” &c.

A gaulyn sydd amlinelliad amherffaith, digon tebyg, a wnaethom o'i bregeth.

I. DYLED SWYDDAU A ARGYMELLIR.—“Holi, profi, ac adnabod ein hunain.”

1. *Maent yn amrywiol.* 2. *Y bersonol.* 3. *I'w cyflawni yn ofalus a diesgeulus.* Profi eu hunain yn nglyn a phwnc eu bywyd.

II. Y BUDDION O'U CYFLAWNI YN ONEST.—1. *Deuwn felly i adnabod ein hunain.* 2. *I wybod mwy am athrawiaethau crefydd.* Cawn wybod “*a ydym yn y ffydd.*” 3. *Cawn sicrwydd a ydym mewn undeb a'r Gwarddwr,* neu a ydyw Crist ynom.

III. TRUENUS GYFLWR Y RHAI A'U HESGEULSANT.—*Y maent “ yn anghymeradwy.”* Felly: 1. *Heb heddi Duw.* 2. *Heb gymdeithas â Duw.* 3. *Heb gymwysder i'r nefoedd.*

CASGLIADAU.—(1.) *Fod hunan-adnabyddiaeth yn gyrrhaeddudwy.* (2.) *Mai peth ffol a pheryglus yw es-*

geuluso profi ein hunain. (3.) *Y dylem hefyd, fel mesur o ddiogelwch rhag hunan-dwyll, ofyn i Dduw ein chwilio, ein profi, a'n tywys i'r ffordd dragywyddol.*

Er nerth ein pleidgarwch i'r brodyr a'n rhagflaenasant yr oedd y "dyn bach o Lanfair," wedi enill arnom cyn diwedd y cyfarfod, ac wedi, i'n tyb ni, ychwanegu cufydd o leiaf at ei faintioli. Beth bynag ein hedmygedd o ddrychfeddyliau tarawiadol a barddonol Iorthryn Gwynedd am "harddwch santeiddrwydd o groth y wawr," neu *ogoniant plygeiniol* dydd teyrnasiad y Messiah. A pha mor flasmus bynag i'n harchwaeth yr afalau pêr a dynwyd i ni gan J. R., oddiar goedydd ffrwythlawn gardd yr Arglwydd; fe ddealla y darlennydd oddiwrth y crynodeb blaenorol o'i bregeth, i ni gael *bara iach, a bwyd cryf o'r fath a roddir i'r rhai perffaith*, gan Mr. Davies ar eu hol.

Dyna yr unig waith y cawsom y pleser o'i wrandaw cyn ei ddyfodiad i'r wlad hon. Yn Nghymanfa Oneida, yn 1854, y cyfarfuasom gyntaf ar dir America; efe wedi dod iddi o Gomer, O., a ninau o ddinas New York. Er syndod cyffredinol a chryn anesmwythder, methodd a chyrhaedd mewn pryd i gymeryd rhan yn y cyfarfodydd yn Utica. Ofnem fod rhyw ddamwain anffodus wedi ei gyfarfod ar y daith, neu hwyrach afiechyd sydyn wedi dygwydd yn ei deulu i'w luddias, nes tua deg o'r gloch, noson olaf yr wyl yno, y gwelid ef yn yr orsaf, ac y clywid ef yn diarhebu "*arafwch y bad*" a gymerasai yn Cleveland, fel yr achos o'r holl bryder a'r siomiant iddo ei hun a'i gyfeillion.

Ond er colli ei wasanaeth yn Utica, mynwyd digon o hono yn ystod y ddwy wythnos ddilynol i wneyd i fyny y diffyg. Ni feddylia y rhai a'u hadwaenent ef fod ein defnyddiad o'r gair *mynwyd* yn golygu fod achos am lawer o gresu a chymell ar yr hen frawd i bregethu. Y cwbl a feddyliem yw, y mynai y torfeydd ei glywed, ac *na fynai yntau fod yn anufudd i'r vox populi*. Cyplyswyd ni gydag ef y rhan fynychaf yn ein symudiadau o'r naill gymydogoeth i'r llall. Nid oeddym ddiystyr o'r anrhydedd a wnaed â ni, yn ein

gwendid a'n gwyrddni bachgenaidd yn hyny; eto, rhwydd addefwn *na warafunasem y fraint i ryw frawd arall*, pe disgynasai yn ol yr arfaeth dragywyddol i'w ran. Bu odrwydd ei ffyrdd, a'i anamynedd-dra yn gryn brofedigaeth i ni yn fynych ar y daith hono. Pan ddywedem rywbeth wrth ei fodd, cymeradwyai ef yn uwch nag un clochydd, yr hyn a fyddai yn fagl yn hytrach nag yn help i ni. Codai bryd arall yn sydyn o'n hol, mewn pulpudau cyfyng, dyfnion, ac uchel,—safai wrth ein penelin, edrychai yn ein hwyneb, a phorthai y gwasanaeth yn ei ddull anefelychadwy ei hun. Brydiau eraill teimlai ein bod yn cymeryd mwy na'n rhan o'r amser. Dechrenai ocheneidio, rhwbio ei ddwyllaw ar ei liniau, a rhuo yn fygythiol. Byddem yn sicr pan godai ar adegau felly, o glywed, mewn sylwedd, ei fod yntau wedi bod yn euog ryw dro, fel y gwr ieuanc o'i flaen, o gyfansoddi pregethau *hirion*, ar gyllun ystrydebol yr athrofaeu, a'u gwneyd i edrych, ys dywedir, *fel pin yn y papyr*;* ond ei fod weithian wedi goroesi yr ynfydrwydd, ac y ceisiai roddi i ni bregeth fwy nodedig am ei *llydanrwydd* na'i *hyd*, ac am ei hysgrythyroldeb nac am odidawgrwydd ei hymadrodd. Wrth gwrs nid oedd genym i'w wneyd ond gostwng ein pen mewn cywilydd, os nad mewn edifeirwch, a thewi a son. Druan o hono, bu raid iddo ddwyn penyd drom, o herwydd ei orawydd i bregethu, cyn diwedd y Gymanfa. Pregethasai ni allan cyn cyraedd Penymynydd. Gorphwysasom yn nhy cyfaill yn Remsen y diwrnod hwnw; ac o herwydd iddi droi allan yn wlawog anarferol, ymddengys fod yno brinder o frodyr i gario y cyfarfodydd yn mlaen. Nid oedd i'w wneyd ond gyru ar yr hen "*war horse*" o Allen. Boreu dranoeth pan gyfarfuasom ger Bethel, yr oedd yn wir "ddrych i'r byd, i angylion, ac i ddynion," wedi ei lwyr weithio allan, ac a chrygni poenus arno. Gafaelodd yn ein hysgwydd, a gofynodd, "Pa'm na ddaethost ti i fyny i'n cynorthwyo yn Mhenymyn-

* O, resyn iddo roddi yr arferiad heibio! Gymaint yn ysgafnach a fusasai ein llafur ni heddyw, wrth adysgrifenu ei bregethau!

ydd?" "A roes yr hen dad Benymynydd ar dân ddoe?" meddwn ninau yn ateb iddo. "Ar dan, yn wir," ebe yntau drachefn, "pwy ddichon gyneu tân yn nghanol y fath lifogydd?" Trwy y cyfan, beth bynag, cafodd dderbyniad brawdol a llawer o sirioldeb nad allai lai na bod yn adloniadol iawn i'w yspryd wedi hyny. Bu felus genym ein dan, lawer tro wedi hyny, fynd tros helyntion y Gymanfa hono.

Mewn Cymanfa byth a hefyd, saith mlynedd yn ddi-weddarach, y taflwyd ni nesaf i gymdeithas y naill y llall, yn Wisconsin. Torasai y rhyfel allan ryw ddau fis yn flaenorol. Yr oedd James, ei fab hynaf ef, wedi ymresu yn barod, yn mysg y milwyr cyntaf a alwyd allan i ddarostwng y gwrthryfelwyr, ac wedi ei anfon i ryw ran o'r maes. Cofiw'n yn dda mai nid bychan oedd y cysur i ni, wrth draethu yn lled ddifloesgu, mewn rhai manau ar y daith hono, ein syniadau ar gaethiwed, a dyledswydd y Llywodraeth i roddi bwyall ei hawdurdod yn union ar ei wraidd, i wybod fod yr hen arwr Davies, oedd wrth ein cefn ar y banlawr, yn gefn i ni mewn gwirionedd, ac yn barod, os ymosodid arnom yn y Gynadledd, neu trwy yr argraffwasg, gan gyfeillion yr ymrwygwyr, i roddi dyrnodiau trymion o'n plaid.

Yr ydoedd yn wladgarwr pur a thrwyadl. Rho'es ei amser a'i ddylanwad at wasanaeth ei wlad fabwysiedig yn yr argyfwng hwnw. Rho'es o'i feddianau, a rhodd-es ddau o'i feibion, oeddynt fel canwyll ei lygaid, i'w chynorthwo yn yr ymdrech â'r gallu caethiwol. Yn y flwyddyn fythgofiadwy y gwnaeth Democratiaid anhoyrngarol Ohio, gais i ethol yr archfradwr Vallandigham yn llywydd y Dalaeth, i gynal breichiau Jeff. Davies, yr oedd Mr. Davies yn gweini i eglwys yn mhell o gartref, er fod ei deulu yn aros yn Leatherwood. Ni chai bleidebu yn y lle yr arosai ei hunan, am nad dyna ei drigfan yn llygad y gyfraith. Ca'i *votio* yn Allen os elai yno—efe a aeth yno, ac ar ei draul ei hun. Mae ambell ddirmygwr o hono, ag y tynwyd y scraffell

ganddo braidd yn arw tros ei goryn, yn hoffi ei ddarlunio fel un *rhy awyddus am y ddolar*; ac eto, mwy na thebyg i'r daith hono yn achos rhyddid a'i wlad gostio mwy i'w logell ef, nac a dreuliwyd i'r un amcan, gan ei oganwyr trwy yr holl ymgyrch! Yr oedd *votio* yn fater cydwybod ganddo ef, yn ddyledswydd grefyddol; ac yn ofn Duw efe a'i cyflawnodd.

Wedi ein symudiad i Cincinnati yn 1866, cyfarfuasom amryw weithiau mewn cyfarfodydd mawrion. Ur-waith y mwynhasom y fraint o'i gyfeillach ar ol ein dychweliad o'r Gorllewin, sef yn Nghyfarfod Chwarter-ol Columbus, Mawrth, 1873. Cyfnewidiasai yn fawr yn ystod blynyddoedd ein hysgariad, eto ni feddylasom ei fod i'n gadael mor gynted. Cynlluniai deithiau pell-enig i bregethu yr haf dilynol, ac, os nad ydym yn camgymeryd, efe a brynodd ddiddosben a gwlawlen newydd i'r daith cyn gadael y dref.

Goddefer i ni yma, heb dalu cymaint o sylw i drefn ein hadgofion o hono, wneyd crybwylliad am dano yn nghymeriad tangnefeddwr, a'i ymdrechion i dafu olew cariad ar ddyfroedd cythryblus cwerylon eglwysig a chynadleddol, o ba rai yr oeddym yn llygad-dyst ar yr achlysur y cyfeiriwyd ato. Heb fanlyu na chyhoeddi enwau, digon yw dweyd fod yno gryn anghydweliad cydrhwng y brodyr ar bwnc lled gynhyrfus, a ddadleuid yn frwdfrydig cydrhwng pleidiau yn ein heglwysi mewn dwy Dalaeth, ac yr ofnid hefyd eu bod yn paratoi i ymladd arno hyd y diwedd chwervw. Teimlai ef yn awyddus dros ben i roddi terfyn ar y mater, a symud ymaith asgwrn y gynen am byth. Ni ddymunem atal oddiwrth eraill y credyd sy' ddyledus iddynt am derfyniad doeth a dedwydd y ddadl hono, oedd wedi peri llawer o anhunedd yn flaenorol—eto dywedwn ein barn sicr, mai i apeliadau teimladwy a difrifol, a gweddi af-ælgar a byth-gofiadwy y patriarch o Radnor, yn fwy na dim a wnaeth *un dyn arall*, y mae hyny i'w briodoli. "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, canys hwy a elwir yn blant i Dduw." Yr ydoedd yn un o honynt; dymunai

heddwch Jerusalem, a llwyddiant y rhai a'i hoffant. Ac, wedi rhodio yn ei uniondeb yma, efe a aeth i dang-nesfedd.

“ Mae pawb o'r brodyr yno 'n un,
 Heb neb yn tynu 'n groes ;
 Yn moli 'r Duwdod yn y Dyn,
 A chofio angau loes.”

ADGOFION BRODYR ERAILL AM DANO.

DELAWARE, O., *Mehefin* 7, 1875.

AT Y PARCH. G. GRIFFITHS :

Anwyl Frawd—Derbyniais eich nodyn yn gofyn os oedd genyf ryw grybwyllion i'w cyflwyno i Gofiant y Parch. J. Davies, Radnor. Nid wyf wedi arfer ysgrifenu pethau o'r fath, eto anfonaf ychydig i chwi i'w rhoddi i mewn neu beidio. Cefais lawer o gymdeithas Mr. Davies, trwy yspaid ei arosiad yn America. Cyfarfuasom lawer gwaith mewn Cymanfaoedd, Cyrddau Chwarterol, a Chyrddau Diwygiadol. Yr oedd yn dda genym fel brodyr yn y weinidogaeth, ac yn dda gan y cynulleidfaoedd hefyd, gael presenoldeb a gwasanaeth yr hen frawd ar achlysuron felly. Mwynhaem ei gymdeithas, ei gynghorion, ei weddïau, a'i bregethau, yn fawr. Os na welid ef yno ar y cyntaf, gofynid yn gyffredin, “ Beth debygech chwi, gan na ddaeth efe i'r wyl?” Parai hyny i ni feddwl am rywbeth a ddarllenais am John Elias. Dywedai yr ysgrifenydd, er fod llawer o weinidogion galluog, doniol, a defnyddiol, gan y Methodistiaid Calфинаidd yn Mon, eto a ydyw Elias wedi do'd a fyddai ar bob tafod, fel pe buasai rhyw fwlch mawr yn y Sasiwn os byddai ei le ef yn wag. Tebyg y teimlem ninau flynyddau yn ol yn absenoldeb Mr. Davies. Un hawdd i wneyd cyfaill o hono ydoedd, parod i estyn ei law, ac agor ei fynwes i'w frodyr a'i gyfeillion. Yr oedd yn anwyl gan ei frodyr, ac yn hoff o'u cwmni. Fel traddodwr, yr oedd yn siariadwr rhydd,

gwresog a blasus. Un o'r Cyfarfodydd Chwarterol diweddaf y cawsom ei gyfeillach oedd yn Cincinnati. Dodwyd ef i ddwyn yn mlaen y gwasanaeth nos Sadwrn. Yr oedd yn hynod o boeth yn yr haf, ac felly yn anhawdd pregethu, ac yntau yn llesg o ran ei gorff, ar ol cwrs o selni diweddar. Yr oedd yn amlwg, er fod ei yspryd mor barod ag erioed, fod pregethu yn galed iddo y tro hwnw. Cydymdeimlem ag ef, a gweddiem dros-to am y nerth o'r uchelder. Aeth trwyddi yn well nag y gallesid dysgwyl. Mewn ofn fod ei orymegniad wedi ei dafu i salwch, aethym yn fore dranoeth i edrych am dano. Cefais ef yn eistedd wrtho ei hun mewn ystafell, ac wedi cyfarch a dechreu son am yr oedfa y nos o'r blaen, torodd yr hen dad i wylo, gan ddywedyd ei fod wedi mawr ofni y buasai yr oedfa hono yn tynu cwmwl ar y cyfarfod ; ond ei fod yn diolch i'r Arglwydd am yr help a dderbyniodd yn ei wendid. Yr oedd o bwys mawr yn ei olwg am i'r Ceidwad gael ei ogoneddu yn a thrwy ein cyfarfodydd.

Yr eiddoch, &c.,

JOHN H. JONES.

BIRMINGHAM, PA., *Mehefin* 21, 1875.

AT Y PARCH. G. GRIFFITHS :

Anwyl Frawd—Fy nghôf cyntaf am y Parch. J. Davies, yw ei glywed yn pregethu yn Saesonaeg, yn agoriad capel Tyn-y-coed, Morganwg, tua'r flwyddyn 1832. Edrychai yn dew ac iachus, a chyfrifid ef yno yn mysg y dosparth blaenaf fel pregethwr, ac felly yn gyffredin hefyd. Yn y ddinas hon y cyfarfuasom y waith nesaf, pan oedd ef wedi dyfod o Cincinnati i Pittsburgh, i agoriad capel Ross St. Yr oedd wedi dal yn ei fywiogrwydd a'i wres dechreuol wrth bregethu. Cyhoeddai fwriadau mawrion Duw i achub pwy bynag a gredai yn y Ceidwad. Pan, wedi hyny, yr oeddym ein dau yn cydlafurio yn Ohio, aethom yn gyfeillion myn-wesol, buom lawer yn nghwmni ein gilydd, a chymal-iasom i fyny ohebiaeth frawdol gyda'n gilydd hyd ei

farwolaeth ef. Bum yn cyd-letya ag ef mewn llawer man, ac yr oeddwn yn ei garu yn fwy wedi pob cyfeillach. Nodaf ddau neu dri o bethau rhagarol oedd ynddo.

1. *Gwnai arferiad o siarad am bethau crefyddol yn y tai lle yr arosai.*—Cof genyf i ni gael ein gwahodd i'r un ty i gael lluniaeth, ar amser Cymanfa. Yr oedd yno amryw wahoddedigion heblaw ni,—cyfle da i dreio adgoffâu iddynt y gwirioneddau a wrandawsant. “Wel,” ebe Mr. Davies, “pa le yr oedd fy nhestyn i heddyw?” “Dalla i ddim galw i gof yn awr,” atebai y cyntaf, a'r ail, a'r trydydd, a'r pedwerydd, er syndod a gofid iddo. Ac yn y lle yr arosem tros nos, gofynodd yr un peth i wr y ty. “Yn Esaiah,” meddai hwnw. “Na,” ebe yntau, “nid yno yr oedd.” Galwyd am y Beibl mawr i'r bwrdd, ond methwyd a chael gafael yn y testyn nes daeth mab y ty adref, yr hwn a droes ato yn Mhrophwydoliaethau Jeremiah. Yr oedd tuedd dda yn y dull a gymerai i holi am y testyn i beri i bersonau ddal yn well ar y pethau a glywent rhaglŵaw. Nid wyf yn meddwl fod y personau y cyfeiriwyd atynt yn fwy anghofus nac eraill o eiriau Duw. Diau pe byddai mwy o holi syml am y testynau, y gwnelai les mawr.

2. *Ei bleser penaf oedd pregethu Crist fel Gwardwr addas a digonol ar gyfer y byd colledig.*—Yn hyn yr ydoedd yn wir olynedd i'r apostolion. Er fod Paul yn ddysgedig iawn, dywedai: “Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio.” Barnai rhai ei fod yn rhedeg i eithafoedd yn ei awydd i ddal Crist yn uchel a chyson o flaen y bobl ar drostan ei weinidogaeth. Ond credai ef, fel yr hen dduwinydd a sylwai, “fod pregeth heb Grist ynddi fel corff heb enaid;” ac am y credai felly, llefarai yn wastad a chroew o'r areithfa am Grist.

3. *Yr oedd ei lythyrâu yn sylweddol, ac o duedd i wneyd lles.*—Gan fod yn ein meddiant lythyr a ysgrifenyd ganddo ddeuddydd cyn ei farwolaeth, anfonwn ran o hono i chwi i'w gyhoeddi.

RADNOR, O., *Ebrill* 12, 1873.

Anwyl Frawd—Wele fi eto yn anfon ychydig o linellau atoch er mwyn cael gwybod am eich iechyd, a gadael i chwi wybod am ein iechyd ninau. Gauaf gwasgedig a gawsom, y caletaf ydym yn gofio yn ein hoes. Bu fy mhriod yn wan ac ariach y rhan fwyaf o'r gauaf; ond trwy drugaredd mae hi yn cryfhau yn raddol. Bum inau yn cael fy mlino gan boen yn fy ochr aswy, a chan ryw fath o *golic*; ond yr ydwyf yn go wych er's rhai wythnosau. Bu genym Gyfarfod Chwarterol er's wythnosau yn ol, yn Columbus. Cawsom gynulleidfaoedd lluosog. Y gweinidogion canlynol yn bresenol: D. Sebastian Jones, R. Powell, J. H. Jones, T. Jenkins, D. Jones, G. Griffiths, Cincinnati, a'r ysgrifenydd. * * * Cofiwch ni at Mrs. Edwards, ac anfonwch yn ol cyn hir.

JAMES DAVIES.

Dichon mai dyma y llythyr olaf a ysgrifennodd. Yr oedd hyny ar ddydd Sadwrn—a boreu dydd Llun canlynol efe a alwyd gan ei Arglwydd i well lle. Gadawodd nid yn unig berthynasau anwyl i alaru o herwydd ei gollu, ond lu o gyfeillion a'i parchent yn fawr. Boed i'r cyfryw amlygu eu parch iddo trwy wneyd a allant dros werthiad ei Gofinat.

T. EDWARDS.

AT Y PARCH. G. GRIFFITHS:

Anwyl Frawd—Da genyf ddeall eich bod yn parotoi Cofiant i'r diweddar Barchedig dad, James Davies, o Radnor, O. Yr oedd ynddo lawer o ragoriaethau y byddai yn dda i bob ymgeisydd ieuanc am y weinidogaeth lafurio er eu meddu. Nid oes angen i mi yma ymhelaethu arnynt, gan y byddwch yn rhoddi amlygrwydd (*prominence*) iddynt yn ddiau yn y Cofiant. Crybwyllaf yn fyr yma am ychydig, o lawer, ellid nodi o ragoriaethau y gweinidog da hwn i Iesu Grist, ac un a safai yn y rhestr flaenaf ydoedd.

Ei hyddysgrwydd yn yr Ysgrythyrau Santaidd.—Yr oedd fel pe buasai yr holl Feibl ganddo yn ei gôf, a

phob adnod yn barod wrth ei orchymyn. Medrai restru prophwydi ac apostolion yn weision ufudd wrth ei ewyllys; fel, os Jeremiah, Eſaiah, Petr, neu Paul a alwai, byddai ar unwaith wrth law a'i adnod i'w gynorthwyo. Yr wyf yn cofio ei glywed yn adrodd penodau yn olynol, o rai o epistolau Paul, heb fethu gair. Parai yr adnabyddiaeth helaeth o'r Ysgrythyrau a feddai, ei fod yn dra Beiblaidd yn ei bregethau bob amser; a byddai hefyd yn dra gofalus am adrodd yr Ysgrythyrau yn gywir, a'u pwysleisio yn briodol. Dywedai fod yn well peidio defnyddio adnod o gwbl, na'i chamddefnyddio. Gan ei fod mor hyddysg yn yr Ysgrythyrau, ni byddai byth yn brin o faterion yn ei bregethau. Yr oedd pob pregeth a glywais ganddo erioed yn or-gyfoethog o ddefnyddiau; a braidd nad ellid dweyd fod pob un o'r bron yn cynwys corph o dduwinyddiaeth mewn ystyr. Dichon y dywedai rhai fod ei ddull o gyfansoddi yn ei arwain i wasgu gormod o faterion i'w bregethau, ac i roddi mwy o ddefnyddiau ynddynt nac a allai y gwrandawyr gofio a defnyddio. Ond diau fod hyn yn llawer gwell na myned i'r eithafion gwrthgyferbyniol o draddodi pregethau glasdwradd, a dienaid, nas gwyr neb i ba beth y maent da, fel y gwna rhai yn y dyddiau hyn. Yr oedd dull Puritanaidd a hen ffasiwn y Parch. James Davies, yn peri na byddai byth yn dlawd na diflas yn ei bregethau; ond huliai fwrdd llawn bob amser o ddysgleidiau breision i'r sawl oedd ag archwaeth at ymborth iachus a maethlon yr Ysgrythyr Santaidd.

Yr oedd hefyd yn hynod ofalus am gadw ei urddas fel gweinidog yr Efengyl.—Yr oedd yn ystyriol o bwysigrwydd ei safle fel cenad Crist. Ni luddiai hyn y ef i fod yn gyfeillgar a siriol, nac i fwynhau difyrwch diniwed. Mewn cyfeillach rhai yr oedd ganddo ymddiried ynddynt, yr oedd yn llawn o fywyd a digrifwch; a chaffai foddhad mewn adrodd hen hanesion difyr, neu draethu am droion chwerthinus, ac yn neillduol mewn adolygu hen gymanfaoedd a'r gwrhydri a wnaed ynddynt. A phob amser, pan y byddai mewn hwyl, adroddai gyda'r fath yni, a thaffai ei holl enaid i'w adroddiad,

nes y cynhyrfai bawb o'i gylch, ac y gyrai bawb i chwerthin, pa un bynag a gredent mewn chwerthin a'i peidio. Ond o flaen y cyhoedd, byddai yn dra gofalus am fod ei eiriau a'i ysgogiadau yn addas i Efengyl Crist.

Yr oedd yn fawr am fod ei drwsiad yn weddus hefyd, er y byddai weithiau, yn mhoethder ei wres a grym ei hwyl, yn cwbl anghofio pob peth am hyn; ac aml y cwynai am na buasai Mrs. Davies o fewn cyrhaedd i ofalu am dano yn hyn. Byddai meddwl ei fod wedi ymddangos yn annestlus, yn boen iddo. Yr wyf yn cofio am un amgylchiad yn Waterville, ar adeg Cymanfa, fod yr hin yn lled boeth, ac yntau, fel arfer, i bregethu yn y brif oedfa y prydawn. Daeth i fewn i'r capel a'i gôt ar ei fraich, ac eisteddodd felly yn yr areithfa tra y bu brawd yn pregethu o'i flaen. Yna cyfododd, a gofynodd arwydd trwy ddyrchafiad dwylaw gan y gynulleidfa, a fuasent yn foddlon iddo gael pregethu heb roddi ei gôt am dano, o herwydd poethder yr hin. Rhoddwyd arwydd unfrydol o foddlonrwydd, wrth gwrs, a diolchai yntau iddynt yn barchus, gan ychwanegu: "Nad ewyllysiai wneuthur dim a fuasai yn annheilwng o'r Efengyl, neu yn tueddu i dynu un diystyrwch ar bwysigrwydd y weinidogaeth."

Yr oedd yn dra ffyddlon i gadw ei gyhoeddiad.—Nid oedd nac oerni na gwres, gwlaw na hindda, a'i atal-iai rhag myned i'w gyhoeddiad, os byddai hyn o fewn terfynau posiblwrwydd. Clywais ef unwaith yn dweyd na thorodd gyhoeddiad erioed.

Yr oedd yn fawr ei ofal am' brydlondeb.—Mynai fod yn yr amser. Ni allai oddef y meddwl, fod neb yn aros un mynyd wrtho ef. Côf genyf am un amgylchiad, pan oedd, o herwydd rhyw drafferth, fynydd neu ddau yn ddiweddar, yn dyfod i'r cyfarfod gweddi o flaen yr oedfa ar foreu dydd y Gymanfa yn ei gapel ei hun; ond dyma ef yn dyfod gyda brys gwyllt, a chyda'i fod o fewn y drws, dechreuai roddi penill allan i'w ganu, ac yr oedd wedi myned trwyddo, ac yn barod i roddi allan y ddwy linell gyntaf drachefn erbyn ei fod wedi cyrhaedd y bwrdd o dan y pulpud.

Yr oedd yn hynod ymdrechgar ac egniol gyda phobpeth a gymerai mewn llaw.—Yr oedd yn gwirioneddol fyw allan eiriau y Pregethwr, “Beth bynag a ymafael dy law ynddo i’w wneuthur, gwna a’th holl egni.” Nis gallai lai na bod a’i holl egni gyda phobpeth. Pe buasai gadfridog rhyfel, buasai yn lled sicr o fod yn un dewr a llwyddianus; neu collasai ei fywyd yn yr ymdrechfa. Gyrasai ei yni ef i fan poethaf y frwydr, a mynasai fuddugoliaeth, neu drengu ar y maes. Yr oedd yr yni a’r angerddolrwydd hwn ynddo, yn ei yru yn anesmwyth a diorphwys, fel march pan ddygir allan i’r rhedegfa, fel yr agerbeiriant pan ar gychwyn i’w daith, a’r ager i fyny, yn chwythu ac yn crynu, nes bron ei godi oddiar ei wadnau. Felly byddai yntau ar adegau; tarawai y bwrdd, neu ben y fainc, a’i law, neu y llawr a’i droed, nes byddai pawb o’i gylch yn neidio gan ddychryn. Ac yr oedd am i bob peth gael ei wneyd heb oedi amrantiad. Byddai gwaith y dechreuwr canu yn chwilio yn hir am y dôn, ac yn petruso pa un a gymerai, yn peri blinder mawr i’w ysbryd; ac nid anfynych y ceryddai ar g’oedd bob cyfryw hwyrfrydigrwydd.

Yr oedd yn fawr am gael yr hyn a elwid er’s llawer dydd yn HWYL wrth bregethu.—Nitheimlai fod yr oedfa wedi ateb ei dyben, os na chlywid rhyw gynhwrfyn rhywle cyn ei diwedd; a theimlai yn dra isel a gofidus ar ol oedfa dywyll a thlawd. Nid oedd yn foddlon heb weled fod pob ergyd yn gwneyd *execution* yn rhywle, a theimlai ar uchelfanau y maes pan y gwelid arwyddion fod caerau y gelyn yn cael eu malurio. Yr oedd yr ysbryd hwn yn dra chanmoladwy ynddo ef a phawb eraill. Y mae yn ofnus ei fod i raddau mawr wedi colli o’r byd yn yr amser presenol; ond nid ellir dysgwyl llwyddiant mawr ar y weinidogaeth, nes yr adferir i genhadon Crist yr ysbryd hwn drachefn. Wrth ysgrifenu y llinellau hyn, y mae hen adgofion yn lluosogi, ond ni ellir yma eu cofnodi; ac nid oes angen, gan y bydd iddynt gael eu cyfleu mewn gwell trefn yn ddiâu gan eraill yn y Cofiant. Llafuriodd yr hen dad Davies yn

galed, a chwysodd lawer iawn am flynyddoedd meithion yn Nghymru, ac ni phallodd ei ffyddlondeb yn America. Ni chafodd ond cyflog bychan, am lafur cyson a chaled iawn. Ond y mae wedi gorphwys, a myned oddiwrth ei waith at ei wobwr mawr iawn yn y nefoedd. Bydded i'w goffadwriaeth dueddu llawer o'r genedl sydd yn codi i ymgyraedd at efelychu ei ragoriaethau lluosog a gwerthfawr. Yr eiddoch, &c.,

Waterville, N. Y.

E. DAVIES.

BARCH. G. GRIFFITHS :

Anwyl Gyfaill—Da genyf ddeall eich bod yn ymgymeryd a'r gorchwyl o ysgrifenu cofiant i'r llafurus a'r bywiog weinidog, y diweddar Barch. James Davies. Teimlaf yn dawel a hyderus y cawn gofiant teilwng o'r hen batriarch anrhydeddus.

Yr wyf yn cofio yn dda y tro cyntaf y daeth i bregethu i Lanbryn-mair, er nad oeddwn ond tua saith oed y pryd hyny. 'Rwyf yn meddwl mai tua y flwyddyn 1814 ydoedd. Yr oedd siarad a dysgwyl mawr am dano cyn ei ddyfodiad; pawb yn holi "Bryd yr oedd y bachgen bach yn dyfod?" A son bod raid cael cadair neu ystôl o tan ei draed yn y pulpud. Er fod amser maith er hyny, cofiwyf yn eithaf da ei weled yn bwt bywiog, a llawn gwres, yn pregethu nes trydanu y gynulleidfa, a'r hen bobl yn edrych, a gwenu trwy eu dagrau dan ei weinidogaeth.

Nid mor aml yr oedd, pan yn yr Athrofa, a rhai o'r myfyrwyr eraill yn ymweled a Llanbryn-mair; ond pan y deuai, byddai yr hen gapel yn orlawn; pawb yn ei hoffi. Wedi iddo ddod i weinidogaethu i Lanfair, yr oedd yn arferiad gan y ddau frawd S. a J. R., newid â rhai o'r gweinidogion cymydogaethol ar adegau holi yr ysgolion, yr hyn a gymerai le yn gyson bob tri mis; a Mr. Davies, neu y Parch. R. D. Thomas (Iorthryn Gwynedd) fyddent, y rhan amlaf, yn newid a hwynt. Byddai un o'r brodyr yn Lanfair, ac yntau gyda'r llall yn holi yn yr Hen Gapel. Cyfarfodydd rhyfedd ac an-

wyl oedd y rhai hyny. Yr athrawon a'r ysgolheig ior wedi eu llyncu yn hollol gan bwnc neu benod yr holi a Davies fel aderyn byw, a'i ofyniadau parod, yn cadw y gynulleidfa fawr yn eu llawn waith; hwythau, yn ugeiniau gyda'u gilydd, am y cyntaf, mewn amran tiad yn ateb nes byddai y llais fel swn rhaiadr, yn ad-sain trwy y coedwigoedd amgylchynol. Un tro, pan oedd ef yn holi ar "Lwyddiant yr Efengyl," a phawb mewn hwyl, a'r llanw yn lled uchel, ar ol aros yn gynnes ar y 5ed a'r 6ed adnodau o'r 43ain o Esaiiah—"O'r dwyrain y dygaf dy had," &c., gofynodd, Dewch ag adnod anwyl y pedair A yn awr? Ar hyny dyma un o'r brodyr yn taro i gychwyn, "Wele fy ngwas a lwydda," a'r holl gynulleidfa yn cyd-daro, a lwydda; a godir; a ddyrchefir; ac a fydd uchel iawn." Gwaeddodd yntau, "Amen, i fyny yr elo." Ar hyny dyma y dorf fawr, fel toriad cwmwl, yn ateb, "Amen ac Amen." Bloeddiodd yntau eilwaith, "Amen," gan daro astell yr areithfa, nes i un gainc o'r canwyllbren neidio o'r crai (*socket*), a disgyn heibio i ben un hen frawd oedd yn eistedd islaw, fel y cododd ar ei draed yn lled gyflym, gan edrych i fyny, fel pe yn ofni i'r holwr, yn ei wres, neidio i lawr ar ol y darn canwyllbren. Ond yr oedd dylanwad addewidion y "pedair A," yn rhy gryf i'r ddamwain hono atal y llif-eiriant. Adegau bendigedig oedd y rhai hyny. S. R., gyda'i ddawn tyner, yn alluog i arwain yr holl ysgolion i adrodd y canoedd adnodau mor hyddysg, fel y dywedai llawer y gallai ef eu harwain i adrodd y Beibl i gyd; a'i frawd J. R., mor darawiadol, cynes, a llithrig, yn denu ac yn toddi pawb i'r un sianel ag yntau, fel nad oedd wahaniaeth pa un o'r ddau fyddai gyda Mr. Davies, ar ddydd yr wyl fawr, byddem yn sicr o gael Jubili y pryd hyny. Yn wir, cryn gyfnewidiad oedd dyfod o ganol awyrgyleh mor gynnes yn ngwlad ein tadau, i awyr oer ddifywyd, adegau holi y wlad hon. O, na ddisgynai yr ysbryd, a'r bywyd, ar Gymry America, a'u hysgolion!

Cafodd Mr. D. nerth a hwyl anarferol ryw dro wrth bregethu yn yr Hen Gapel, ar Mat. 6:6. "Ond tydi, pan weddiech, dos i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws,

gweddia ar dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel," &c. Yr oedd ef yn y fath nerth, hwyl, a theimlad, yn pregethu, a'r gynulleidfa wedi eu caethiwo gan ei eiriau, yr hen a'r ieuainc yn cyd-doddi, a'r dagrau yn araf lithro hyd ruddiau ugeiniau. Cafwyd yn yr oedfa ryfedd hono un o'r gwleddoedd anwylaf, a neillduol ddylanwadol. Yr oedd, ac y mae y bregeth hono yn un o'r rhai agosaf ac anwylaf gan fy nghalon hyd yr awr hon.

Cafwyd gwledd felus a ddifyrus yn yr un addoldy wrth wrando arno yn adrodd ei hanes ar ol bod yn Scotland a'r Iwerddon, yn casglu at gapel Llanfair, neu ryw un arall yn nghylchoedd Llanfair. Yr oedd yn ddigrif, ac yn hynod darawiadol yn hanes y casglu, y cydymgomio a gwahanol bersonau, ac yn neillduol pan yn adrodd ei deimlad yn nghapel rhyw un o Ddoctoriaid Dublin, os wyf yn cofio yn gywir. Yn methu mwynhau ei hun yn gysurus yn ngown y Dr., yr hen fraich yn methu chwareu yn gysurus, y traed a'r dwylaw fel yn y caethiwed, a'r Saesonaeg yn lled anhyw-aeth, ond yn *bound* o wneyd y tro, gan ei fod wedi cael ei ddal, fel nad oedd dim ond gyru yn mlaen, ac ymladd y frwydr allan. Yr wyf hyd eto, pan yn cofio am dano yn adrodd hyny, fel yn gweled yr hen batriarch yn y gown du—y chwys, a'r gwres Cymreig yn ei nerth yn ei danio, nes anghofio pa le yr oedd; a chariad Crist wedi ei lyncu, nes llwyr ddibrisio, ac anghofio boneddigion a Doctoriaid wrth bregethu golud gras, a darpariadau trugaredd i'r Gwyddelod tlodion. Gobeithiaf y ceir hanes y casglu yn yr Iwerddon a Scotland yn gywirach ac yn llawnach yn y cofiant na dim allaf fi roddi. Yr oedd ei lafur a'i lwyddiant yn fawr iawn yn y lleoedd crybwyllledig. * * *

Wel, rhaid rhoddi fyny adgofion am dano yn Nghymru, ac yn yr Unol Dalaethau, neu yn hytrach y cofrestriad o honynt, rhag gormesu ar le rhai eraill, er fod llawer yn ychwaneg o bethau yn ei gylch yn dylifo i'm meddwl, ac yn ceisio lle ar y llen—"Ac efe a fu farw." Mae y tafod fu yn dweyd mor gynnes am oludoedd yr iachawdwriaeth wedi tewi; ond mae yr enaid tanllyd, a'r

yspryd hoew, wedi goddiweddyd y llawenydd, ac yn mwynhau yr hyfrydwch yn ngolwg yr orsedd, ar yr hon yr eistedd yr Iesu a ganmolodd, a'r Gwardwr a gyhoeddodd mor ffyddlon ar y ddaear—ac mewn llawer gwell hwyl yn ei folianu a'i goroni nac y gwelwyd yn yr adegau goraf tra yma yn y cnawd. Disgyned deuparth o'i ysbryd ar ei hiliogaeth, a bydded yr Arglwydd yn gysgod, ac amddiffynydd i'r gweddill plant, a'r anwyl fam Mrs. Davies, nes daw yr adeg i'w galw hwythau i gydfwynhau y nefoedd yn nghwmni y tad a'r plant sydd yno yn barod, yn eu dysgwyl hwythau adref. Dywedaf inau, O, am addfedrwydd i fyned atynt a'r cyfeillion lawer gyda hwy, sydd yn gweled yr Iesu fel y mae. Teimlwyf rywfodd fel yn myned yn fwy unigac alltudiedig wedi colli y fath lu o hen gyfeillion, ac yn barod i ddweyd gyda'r hen Williams:

“ Ffarwel deiau, ffarwel diroedd,
 A'r eilunod pena' erioed;
Mi'ch tyngheda' ngwydd y nefoedd,
Na ddilynoch ol fy nhroed!
 Myn'd 'rwy'n llwm tua thir y bywyd,
 Ffon yn unig yn fy llaw;
 Af yn mlaen trwy yr Iorddonen,
 Mae 'nghyfeillion anwyl draw.”

Gomer, Gor. 1, 1875.

JOSIAH JONES.

AT Y PARCH. G. GRIFFITHS:

Anwyl Frawd—Da genyf glywed eich bod wedi cydsynio i ysgrifenu Cofiant i'r diweddar Barch. James Davies, Radnor. Yr wyf yn credu eich bod yn addas iawn at y gorchwyl; oblegid nid oes neb yn Ohio yn fwy cyfarwydd ag ef yn ei holl gylchoedd na chwi, yr hyn sydd yn fantais ragorol i chwi i dynu darlun cywir o hono. Yr ydych yn barnu y dylwn inau, fel un o'i frodyr hynaf, ac agosaf ato, yn niwedd ei oes, gyflwyno gair at ei wneuthuriad. Wel, mae yn debyg y dylwn, ac nid wyf anewyllysgar i wneyd ychwaith. Cefais y ffrainc o fod yn ei gyfeillach, ei wrandaw, ym-

gomio gydag ef, a bod yn gymydog iddo am lawer o flynyddoedd.

Pe gofynesid i mi ddesgrifio ei berson, dywedaswn am ei faint a'i ffurf, mai dyn bychan, cydnerth, ydoedd, a gwynebpryd tywyll, gwallt du, a llygaid gleision, yr hyn sydd braidd yn anghyffredin i rai o'r lliw hwnw.

Yr ydoedd yn un o dymer naturiol wresog, ac, wedi yr elid i adnabyddiaeth ag ef, yn rhydd a llawen. Yr oedd yn un gwir *gyfeillgar*, fel y geill ei gydnabod oll dystio. Nid oedd yn ei dy un amser ddim yn rhy dda ganddo ei ranu a'i gyfaill; nac un drafferth yn ormod ganddo ei chymeryd er gwneyd ei gyfaill yn gysurus. Byddai yn was i weinyddu, yn dad i ddarparu at angenion, ac yn delyn i ddifyru ei gyfaill.

Ac heblaw fod ei gyfeillach yn ddifyrus, yr oedd hefyd yn *adeiladol*. Yr oedd ei feddwl mor llawn o ystorïau am hen bobl, a hen weinidogion, a chanddo y fath fedrusrwydd i'w darlunio fel y gallech dybied eich bod yn eu gweled, ac yn eu cwmni.

Fel pregethwr, yr oedd yn ddoniol iawn *yn ei ffordd neillduol ei hun*. Byddai ganddo twnc mewn llaw yn gyffredin—coflaid o fater, a thriniau ef yn ngoleuni yr Ysgrythyrau eu hunain yn benaf. Yr oedd ei hyddysgrwydd yn y Beibl yn gynorthwyol iawn iddo i hyny. Arweiniau ei ragymadrodd yn esmwyth at y pwnc; darllenai ei destyn yn ddigon uchel i hawb ei glywed, dosparthai ef yn dra threfnus yn brif benau, a mân ganghenau yn codi o'r rhai hyny, a "*chymwysiadau o'r athrawiaeth*." Yna elai yn ol i sylwi arnynt bob yn un ac un; ond cyn dechreu, ceisiau enill serch, sylw, a chydymdeimlad ei wrandawyr. I godi eu dysgwyliadau, awgrymai fod ganddo rywbeth o bwys. Ei hoff bwnc oedd ymresymu â phechadur ar fater ei enaid—dangos ei drueni ynddo ei hun, ac anchwiliadwy olud Crist ar ei gyfer. Ac O, mor danbaid y cyhoeddai y newyddion da am y Ceidwad! Yr oedd ei bregethau yn llawn o Grist, ac felly yn berffaith gyfaddas at gyflwr pechadur colledig. Safai yn ymyl y groes, a dad-blygai rinweddau yr iawn a roddwyd arni, a thrysorau

rhad ras yn y prynedigaeth, nes y byddai mynwesau ei wrandawyr yn twymno, a thafodau rhai mudion yn tori allan i folianu Duw am danynt.

Yr ydoedd yn un cadarn mewn gweddi. Diau ei fod yn ffyddlon yn ei ymwneyd dirgelaidd â Duw—ei fod yn arfer myned i'w ystafell, a chau ei ddrws i ddweyd ei gyfrinach yn nghlustiau ei Dad Nefol. Mewn gweddi yr oedd ei fawr nerth a chuddiad ei gryfder; ac yr oedd yn hoff o weddio. Prin y carai bregethu heb weddio ei hunan i ddechreu y cyfarfod. Cyfrifid ei weddïau gan lawer yn rhagori ar ei bregethau. Byddai ei weddi bob amser yn dra chyfaddas i'r amgylchiad; os mewn teulu yr arweinïai mewn gweddi, cofiai am blant a phawb wrth eu henwau; os mewn angladd, gwnai yr un modd a'r weddw a'r amddifad, a chydaf fath ddwysder a theimlad. Ac yn y cyfarfodydd gweddi yr oedd yn ei elfen ei hun. Meddyliwn am ei rinweddau—byddwn ffyddlon, nes y gelwir ninau ar ei ol; yna cawn fyned ato, ac at Parry, a Price, ac Everett, a'ch anwyl frawd, a lluoedd eraill sydd wedi cyraedd Mynydd Seion.

Yr eiddoch, anwyl frawd, yn rhwymau yr Efengyl,
REES POWELL.

Troedrhiwdalar, O., Mehefin 30, 1875.

PARISVILLE, O., *Gorph.* 5, 1875.

BARCH. G. GRIFFITHS:

Anwyl Frawd—Y mae coffadwriaeth Mr. Davies, Radnor, yn haeddu parch. Yr oedd yn enwog ei hun am barchu hen bobl dda; galwai hwynt “yr hen deilwngyddion.” Nid wyf yn cofio neb yn gwneyd Crist a phen Calfaria yn ganolbwynt ei weinidogaeth i'r graddau y gwnelai ef. Nid oedd wedi meddwl am weddusder mewn ystumiau wrth draddodi. Yn Nghymanfa Pomeroy, yn 1864, yr oddwn, wrth edrych ar ei agweddau mewn un oedfa, yn teimlo braidd yn ysgafn, ond erbyn edrych dros y gynulleidfa, gwelwn fod, efallai, eu haner, yn colli dagrau wrth ei wrando. Celai hwyl

ar weddi ambell dro, oedd yn profi ei fod yn byw mewn agos gymundeb a'r nefoedd. Disgynai at fanylion yn ei weddiau lawer pryd, nes peri iddynt dynu sylw mawr. Yn Nghymanfa Newark, 1858, gweddiar dros Everett a Price (Dinorwig), y brodyr o Gymanfa New York. Diolchai i'r Arglwydd am eu cadw ar eu taith cyn belled; ceisiai ganddo eu cadw a'u diogelu yn mhellach yn mlaen i Gymanfa Wisconsin, a gofalu am eu teuluoedd yn eu habsenoldeb, a'u dychwelyd hwythau yn fyw ac iach at eu teuluoedd, &c. Adroddai un tro am ei fynediad at grefydd yn Soar, Merthyr, yn hogyn tua 12 oed, ac un bychan iawn oedd o'i oed. Gofynai rhyw hen flaenor, pan aeth i'r gyfeillach gyntaf, "Beth wyt ti yn ei geisio yma?" Dywedodd yntau fod arno awydd dod at grefydd. "Wyt ti yn bechadur?" ebe'r hen flaenor. "Odw," ebe yntau. "Wyt ti ddim llawer o bechadur?" ebe'r hen flaenor. "Odw'n bechadur mawr," ebe yntau. Edrychodd yr hen flaenor, a dywedodd, "Pe baet yn bechod i gyd, ni fyddai'n llawer o beth." Beth bynag am faint ei bechod cafodd ei dderbyn i'r eglwys. Pan ddeallodd y crytiaid gydweithient ag ef am hyny, dechreuasant ei boenydio, a galw "yr hen weddiwr arno." Yr oedd un hogyn yn ymosod arno yn aml, ac yn ei guro yn hollol ddiachos oblegid ei fod yn grefyddol. Gwyddai James Davies, neu Shemi bach, tel y galwai ei hunan, ei fod yn drech na'r hogyn hwnw, ond yr oedd ofn arno i godi llaw yn ei erbyn am ei fod gyda chrefydd. Ond un tro, fe gynhyrfodd ei hen ddyn dan y cam dderbyniai, a dechreuodd ergydio yn ol, ac ni orphwysodd nes rhoddi iddo grasfa effeithiol. Ar ol hyny, gofidiai yn chwervw, a cholllai ddagrau yn lli, rhag ofn y buasai yn cael ei ddiarddel o'r eglwys. Aeth i'r cwrdd eglwys lle'r oedd ychydig flaenoriaid wedi dod yn nghyd, ac ychydig o droseddwyr i gael eu dysgyblu am ryw gamymddygiadau. Pan welodd yr hen flaenor grybwyllwyd yn barod, yr hogyn ieuanc yno yn mhlith yr adar duon, gofynodd iddo, "Beth wyt ti'n geisio yma? Wyt ti wedi gwneyd rhywbeth maes o le?" "Odw," ebe yntau, ac adrodd-

odd wrthynt am ymddygiad drwg y crotyn ato, a'i fod yntau wedi cynhyrfu, ac wedi ei guro. "Ro'ist ti gurfa dda iddo?" ebe'r hen flaenor. "Do, mi ro'is gurfa dda iddo," ebe yntau. "Wel," ebe hwnw, "wn i am ddim yn well all'sit ti wneyd iddo," a dyna i gyd o gerdd gafodd Shemi bach gan hen flaenoriaid tyner Soar.

Yr wyf yn meddwl fod dros ddengain mlynedd er pan welais ef gyntaf ar daith trwy y Deheudir; yr oedd i bregethu yn Nghapel Iwan. Hen focs mawr, haner crwn, ac hynod ddwfn, oedd y pulpud yno, a gan ei bod yn noson waith, yr oedd y gynulleidfa i gyd ar y llawr. Aeth Davies i fewn i'r *box*, ond nid oedd son am dano, na threm i'w gael ar un rhan o'i berson; ond yn mhen enyd, dyna ddrws y pulpud yn agor, ac yntau yn dyfod i'r golwg, ac yn amneidio ar un o'r blaenoriaid ddyfod ato, ac yn dweyd wrtho, "Yr wyf fi yn llai na'r lleiaf o'r holl saint, ac nis gallaf bregethu yn y pulpud hwn, y mae'n rhy uchel i mi." Aeth hwnw allan i dyanedd i gyrchu cadair i'w rhoddi dan ei draed, ac ar ben y gadair yn y pulpud y pregethodd y tro hwnw. Yn mysg pethau eraill y tro hwnw, yr wyf yn cofio ei fod yn gwaeddi, "Adda, pa le yr wyt ti?" Ac yna yn crymu o'r golwg yn y pulpud i ddangos fel yr oedd Adda yn ymguddio. Y mae hen was iddo o'r enw John Paul, yn byw yn Tallmadge. Siarada hwnw yn hynod o barchus am dano. Dywedai fod rhai yn dweyd ei fod yn rhy awyddus am y byd, ond meddai, yr oedd yn rhaid iddo fod yn ofalus a chynil, oblegid nid oedd yn cael ond y peth nesaf i ddim gan ei eglwysi, hyn yw yn Llanfair a'r lleoedd cylchynol. Y mae gan hwnw feddwl uchel am dano fel dyn duwiol. Dywedai "*ei fod yn filain yn erbyn perhod*," ac nad oedd dim a'i hataliai i fyned i'r cyfarfodydd eglwysig, a chyrrdau eraill ar hyd yr wythnos. Dywedai i'r ceffyl syrthio yn farw o tano un tro, pan newydd gychwyn i ryw gwrdd; trodd yn ei ola chymerodd geffyl arall, a ffwrdd ag ef i'w daith, gan adael y ceffyl cyntaf yn y man y syrthiodd. Byddai yn wastad yn pregethu dair gwaith y Sabboth, yn Nghymru, a bu am dro yn pregethu bedair

gwaith y Sabboth. Yr wyf wedi meddwl lawer gwaith am yr agwedd oedd arno yn gweinyddu yn y *gown* yn nghapel Dr. Wardlaw, ac yn taro y Beibl, a'r Dr. yn cwyno, "*Oh, my poor Bible.*"

Os meddylwch fod yn yr uchod a ysgrifennai ar garlam wyllt, rywbeth a fydd o werth i egluro ei nodwedd, neu ei hanes, gellwch wneyd defnydd o hono.

Yr eiddoch yn gywir,

D. DAVIES.

AT Y PARCH. G. GRIFFITHS:

Anwyl Frawd—Cefais adnabyddiaeth â Mr. Davies tua thriugain mlynedd yn ol, pan yr ydoedd yn yr ysgol yn Llanfyllin. Nid oeddwn ond tua deg oed ar y pryd. Cof genyf am ei ordeiniad yn Llanfair. Yn fuan wedi ei sefydliad torodd allan yn ddiwygiad grymus dan ei weinidogaeth, pryd y dychwelwyd amryw o rai gwylltaf y gymydogiaeth. Byddent yn gorfoleddu am oriau hyd ganol nos. Yr wyf yn meddwl nad oedd ganddo ond dwy eglwys dan ei ofal pan ddechreuodd ar ei lafur yno, ond nid hir y bu cyn amlhau o honynt hyd yn chwech, a phregethai mewn llawer o fanau eraill hefyd. Pregethai bedair gwaith y Sabboth yn yr haf, a chyda hyn unwaith neu ddwy yn yr wythnos mewn tai anedd.

Yn mhen pedair neu bum' mlynedd ar ol ei sefydliad, cynhyrfodd uffern wrth ei lwyddiant, a chododd iddo elynion cyfrwys a galluog. Un oedd benyw weniethus a berthynai i'r eglwys, ac a mab iddi yn bregethwr; a'r farn gyffredin oedd mai eisiau ei le i'w mab oedd wrth wraidd yr ymosodiad arno. Llwyddodd i hudo nifer fechan i'w rhagrith—naw neu ddeg i gyd, ac yn eu mysg dri o swyddogion. Cyhuddent ef o feddwod ac ymgeisiadau at odineb. Chwiliwyd i mewn i'r achos, a chafwyd boddlonrwydd nad oedd dim gwirionedd yn y cwynion, a thorwyd yr aflonyddwyr i gyd allan. Gallasai eu cospi â chyfraith—anogwyd ef i wneyd, gan Berson y plwyf, yr hwn oedd Ustus Heddwch, yn gystal a chan eraill. Cynygiodd Mr.

Minshall, cyfreithiwr ymneillduol enwog o Groesos-wallt i gymeryd ei fater, ond ni fynai ddial. Yr oedd yn rhy lawn o ysbryd ei Feistr i hyny.

Tua'r adeg hono yr aethum i'r gyfeillach yn un o'i eglwysi ef. Yr oeddwn wedi bod dan argyhoeddiadau oddiar yn wyth oed. Ond yn nechreu haf 1823, y llwyr enillwyd fi gan y darluniad a roddai y gweinidog ieuanc y pryd hwnw o gariad Crist, oddiwrth yr adnod "Dyrchafodd i'r uchelder; caethgludodd gaethiwed; derbyniodd roddion i ddynion," &c. Felly gallaf ddweyd mai mewn amserau blinion y'm ganwyd yn ysprydol; a chredaf i'r hyn a glywais ac a welais ynddo ef fod yn foddion i'm cyfaddasu inau i sefyll ambell i storom fechan wedi hyny, fel yr ydwyf yn aros hyd heddyw. Ni lethwyd ef gan y curo a fu arno; ond fe'i gloewyd, ac yr wyf yn credu ei fod heddyw yn diolch am dani.

Yn y flwyddyn 1824, myfi a ymadewais ag ardal Llanfair; felly ni wn ond ychydig o'i hanes hyd nes y dychwelais o Swydd Fynwy ar enw o bregethwr, tua'r flwyddyn 1830. Pan y cyfarfuom, ac y deallodd fy mod wedi dechreu dweyd ychydig yn gyhoeddus, efe a ddywedodd wrthyf: "*Wel, John bach, ni fuost ti erioed o'r blaen yn bêl droed i bawb.*"

Yn ystod fy arosiad yn yr ysgol yn y Drefnewydd, byddwn yn ymwelwr beunyddiol a'i deulu—bum yn treilio fy *vacation* yn ei esgobaeth—yn aros am wythnosau yn ei deulu, ac yn y cyfamser yn pregethu llawer i'w eglwysi—felly cefais fantais dda i'w adnabod fel dyn, fel myfyriwr, a gweinidog. Llawer gwaith y gofynodd i mi ar foreufwyd: "Wel, John, oes gen' ti destyn heddyw?" Os dywedwn, oes, e'id i'w *study* yn union i'w ystyried—efe yn rhanu, a minau yn ysgrifenu. Weithiau amheuwn ei gywirdeb. Elai yn ddadl boeth. Byddai rhaid galw Mary (Mrs. Davies) i farnu rhyngom, a'r hyn a ddywedai hi a safai. Brydiau eraill codai anghydweiliad rhyngom yn nghylch y lleoedd i'r naill a'r llall bregethu. Byddai yn fy anfon, i'm tyb i, i wasan-aethu y cynulleidfaoedd bychain—ac ar un adeg myfi a

ffoais, fel Jonah, yn lle myn'd i'r lle yr erchid i mi; ac ni lwyddais mwy na hwnw, er na fwriwyd fi i fol morfil.

Diau y rhoddwch gyhoeddusrwydd i'w sêl gyda'r Ysgol Sabbothol; felly ni ddywedaf ond ychydig ar hyny. Aml y gwelais ef yn holi cynifer a thair o ysgolion gyda'u gilydd; ac un tro ei fod yn gofyn "Pa-ham y galwyd Abram yn *Abraham*, a Jacob yn *Israel*?" O ffafir ac anrhydedd iddynt oedd yr ateb. "Pa fodd y gwnewch allan fod hyny yn arwydd o ffafir a pharch?" Dystawrwydd hollol yn teyrnasu. Gofynodd eilwaith, ond nid oedd llef, na neb yn ateb. O'r diwedd efe addwedodd: "Myfi a wn fod yma *un* a fedr ateb." Atebais inau yn bryderus, fod Duw, yn y newidiad wedi rhoddi cyfran o'i enw ei hun iddynt—*Ha* yn *Abraham* o Jehofah, ac *El* yn *Israel* o Elohim. Gellid priodoli ei lwyddiant yn Nghymru i raddau mawr i'w ymdrechadau gyda'r ysgol Sabbothol.

Yr oedd yn llawn o yni gyda phobpeth; yn ddarllenwr mawr, yn meddu cof da, yn gyfansoddwr pregethau rhwydd; ond yn aml y byddai digon o ddefnyddiau *pedair* pregeth mewn *un*, pe manylasai ar ei holl raniadau. Ond nid bob amser y cadwai at ei raniadau; ymollyngai weithiau i fyn'd gyda'r awel os ca'i hwyl, heb ofalu dim am ei *chart* na'i gwmpawd. Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio oedd ei hyfryd bwnc. Efallai mai ei ddiffyg pwysicaf fel pregethwr, oedd dilyn normod ar yr *un strain*, a rhy fach o amrywiaeth mewn materion a moddau i'w trafod. Buasai yn wellhad mawr i'w ddull hefyd ped arferasai fwy o gydmariaethau. Treiliodd lawer ar ei esgidiau mewn pulpudau, fwy efallai nag wrth deithio, a phrofodd gadernid sylfaen ac estyll llawer o honynt wrth, fel Ezeziel, "daro a'i law, a churo a'i droed," pan yn dywedyd yn erbyn pechod.

Yr eiddoch,

Patriot, Gallia Co., O.

J. A. DAVIES.

ANWYL FRAWD GRIFFITHS :

Enw adnabyddus i mi, yn neillduol oddiar yr amser yr wyf yn y wlad hon, oedd Davies, Llanfair. Daethum i gyfarfyddiad â llawer o bersonau yn Pennsylvania, a New York, ag oeddynt yn gyfarwydd iawn ag ef, ac a gawsant y cyfleusdra, a'r pleser o'i wrandaw yn traddodi y genadwri am y groes mewn gwahanol fanau; a chrëai y desgrifiad a roddent o hono fel pregethwr, awydd cryf ynwyf am ei weled, a'i wrandaw, yr hyn na chaniatawyd nes dyfod i'r ardal hon.

Yr oedd yn perthyn iddo fel pregethwr, fel y gwyddoch, ei hynodion; ac fel dyn hefyd, o ran hyny. Nis gall fod neillduolion yn y pregethwr heb eu bod yn y dyn; canys y dyn yw y pregethwr mewn cylch gwahanol a mwy cyhoeddus; a'r cylch hwn, o angenrheidrwydd, yn dwyn yn fwy i'r amlwg neillduolion ei gymeriad. Y mae *eccentricities* cymeriadol, o fewn *terfynau*, yn fan-teisiol yn y weinidogaeth.

At y pethau hynod a berthynent iddo y cyfeirid yn gyffredin gan y rhai a'u gwelsant, ac a'u clywsant—megys ei aflonyddwch, ei ffurfiau, a'i fywiogrwydd, a'i yni digyffelyb. Canys nid ei dafod, a'i enau ef a fyddai ar waith yn unig, ond ei holl gorph; trethai bob aelod. Yr hynodion hyn a fyddent i fesur wedi dwyn eu sylw, ac a ffurfient mewn rhan fawr, destyn eu hymddyddanion yn eu perthynas ag ef. Canmolent ef yn fawr fel pregethwr nerthol a doniol, yr un amser, ac eto nid oedd yn bosibl penderfynu pa fath bregethwr oedd yn yr ystyr fwyaf beirniadol. Ychydig a wn am danynt, yn ein cynulleidfaoedd, a fedrant roddi i chwi gryno-deb o bregeth, ac a ddesgrifiant y modd y trinir y rhanau hyny o'r gair a gymerir yn destynau. Hwyrach fod hyn i'w briodoli yn benaf i ddiffyg penderfyniad i sylwi, a chofio. Nid wyf wrth ddweyd hyn yn awgrymu nad ydynt yn deall, ac yn barnu yr hyn a wrandawant. O ydynt; gwyddant y gwahaniaeth rhwng y gwael a'r gwerthfawr; meddant archwaeth nas gellir ei thwylio. Nid yw ein gwrandawyr yn fanwl o dan ba reolau ac yn ol pa drefn y cyfleuir iddynt y gwirioneddau a dra-

ddodir, os byddant yn adfywiadol a derbyniol. Felly dywedant am wrthddrych y cofiant hwn, mai pregethwr yn iawn oedd, ac eto ni chefais un syniad i'm galluogi i benderfynu i ba ddsbarth y perthynai.

Synwyd fi yn fawr y tro cyntaf y clywais ef yn pregethu mewn Cyfarfod Chwarterol, yn Troedrhiwdalar, ar fy nyfodiad i'r lle hwn. Yr oedd yn wahanol yn ei arddull (*style*) i'r hyn a ddysgwylwn; triniau ei destyn yn y modd mwyaf tarawiadol, a chyda newydddeb boddhaol. Y mae hyn yn syndod, gan mai gweithian y Puritaniaid oeddynt ei brif lyfrau, ac ynddynt yr ymhyfrydai; ond er hyn y'r oedd yn mhell o efelychu eu dull o drin adnodau yn bregethwrol. Yr oedd yn bregethwr wrth naturiaeth. Yr oedd ei allu yn neillduol i gynllunio pregeth yn darawiadol, naturiol, a thlws. Di-os fod genych yn eich meddiant engreiffiau lawer o hyn. Yr oedd ganddo hefyd lais da, a chryn lawer o'r elfen hono a elwir "dawn," ag sydd mor effeithiol ar deimlad y Cymro. Ac yn ei ddyddiau goraf, medrai ef ei defnyddio i bwrpas.

Cyn terfynu, dylwn ychwanegu am yr hen dad—iddo fod yn ffyddlon iawn gyda phob rhan o'r gwaith wedi fy nyfodiad I i fod yn olynwr iddo. Yr oedd yn mhob moddion cyhoeddus—y cyfarfod gweddi, y gyfeillach grefyddol, ac oedfaon y Sabboth, a phregethai gyda'r parodrwydd mwyaf yn fy lle, pan fyddwn oddicartref, neu ryw rwystrau eraill ar fy ffordd i wneyd fy hun. Pregethais yn nglyn a'i farwolaeth, oddiar y geiriau: "Ac efe a fu ffyddlon yn ei holl dy, megys gwas." Ac nid oes amheuaeth nad yw heddyw yn mysg y ffyddloniaid, ac yn dysgleirio fel yr haul yn nheyrnas Dduw.

Radnor, O., Gorph. 13, 1875. THOS. JENKINS.

YSGUBAU O LOFFION DIFYRUS AM DANO.

 METHUSALEM A IAGO LEIAF.—Y CAWR A'R CRWT
AR DAITH.

Pan oedd Mr. Davies yn ddeunaw oed, cymerodd ei daith bregethwrol gyntaf trwy y Dywysogaeth, yn nghwmni y Parch. Methusalem Jones, Merthyr—dyn o gorff mawr, cryf, a golygus. Yr oedd y gwahaniaeth yn eu maintioli a'u hoedran, yn gystal ag yn eu doniau, yn darawiadol, a thynai sylw cyffredinol. Un ond hogyn byrach ac eiddilach na'r mwyafrif o fechgyn o'i oedran—y llall o haner cant i driugain oed, ac yn ymddangos, yn ymyl ei gyfaill, fel un o feibion Anac. Oni b'ai eu bod wedi troi allan i anrhydeddusach a chyfiawnach milwriaeth na'r ddau hyny, cyfenwasem hwynt yn Goliath a'i Yswain.

 Y CLADDEDIGAETH MAWR

Yn fuan wedi fy sefydliad yn Penarth, yn Mai 1843, ebe y Parch. R. D. Thomas, bu farw y ffyddlon a'r selog Edward Morris, o'r Glyn. Tyddynwr parchus oedd. Aethum i'r claddedigaeth; yr oedd tyrfa fawr wedi ymgynull yno. Ar ol y gwasanaeth crefyddol, trefnasant y bwrdd, lle yr oedd croesaw i bawb i gael bwyd a diod. Eisteddai y Parch. James Davies, wrth ben y bwrdd, cyfododd ar ei draed i ofyn bendith; ac yna dechreuodd dori y cig, yn enwedig yr *ham*, er diwallu y bobl. Galwodd fi ato, a dywedodd yn ddystaw yn fy nghlust, "Frawd anwyl—dyma ran o'n gwaith fel gweinidogion yn y wlad hon; mae yma rai pobl yn *fwytawyr ofnadwy*—deuant deirgwaith at y bwrdd—

rhaid i ni ofalu am dori y y cig yn *denu iawn*, er codi cywilydd arnynt, a chael digon i bawb.”

Y GLUSTOG (THE YELLOW CUSHION).

Yn y flwyddyn 1844, aethum gydag ef i gyfarfod blynyddol capel Cefn-y-Vaenor, plwyf y Berriew, lle yr oedd tyrfa fawr a pharchus o Saeson a Chymry wedi ymgasglu. Yr oedd y capel wedi ei arlliwio yn hardd, a'r boneddigesau cyfoethog (Mrs. Landford, ac eraill), wedi gwneyd a gosod *clustog felen hardd* ar ystyllen y pulpud. Aethum i a Davies i fyny i'r areithfa i bregethu Saesonaeg, am 10 o'r gloch y boreu. Pregethais yn gyntaf, a theimlais yn annedwydd oblegid fod y glustog yn rhy uchel. Amlygais hyny iddo ef, cyn iddo ddechreu pregethu. Gwnaeth wyneb hir; dechreuodd rwnnach, ac yn ddioed ymaflodd a'i ddwyllaw a'i freichiau ynddi, tynodd hi o'i lle, a gosododd hi ar yr eisteddfa, a dywedodd: "*I will not suffer this yellow mountain to hinder me to preach, and to obstruct you to see the glory of the blessed Redeemer.*" Yr oedd pawb wedi synu; y boneddigesau wedi tramgwyddo, a'r bobl ieuainc yn gwenu.—*Gan yr un.*

WMFFRE! WMFFRE!

Yr oedd ef a minau yn dra hysbys o'r enw uchod er's dros 28 mlynedd. Nid oedd raid i ni ond *dweyd* neu *ysgrifenu* yr enw, nes byddai yn ein gwefreiddio, ac yn ein gorloni, yn ein hadegion mwyaf difrifol. Adgofiai i ni yr hanes canlynol:—Tua'r flwyddyn 1845, yr oedd dyn diniwed o'r enw Wmffre Humphreys, yn aelod yn fy eglwys, yn Jerusalem, ac yr oedd yn cadw *Turnpike* uchaf Heniarth—rhwng capel Peniel a Jerusalem. Yr oeddwn i yn tybied ei fod yn aelod yn fy eglwys yn Jerusalem, a Davies yn meddwl mai aelod o'i gapel ef yn Peniel oedd; ac yntau ei hunan yn meddwl y gallai fwynhau moddion y ddau gapel a'r ddwy eglwys, heb fod yn gyfrifol i'r un o honynt! Felly yr

ceiliwr i a Davies yn colli ei brechenoldeb yn aml; ac nid oedd yr un o'r ddau eglwys yn cael fawr o'i gymerchwy. Pan ymddyddanem ag ef yn bersonol, dywedai wrtaf i ei fod yn aelod o eglwys Davies, yn Peniel; ond dywedai wrth Davies, mai aelod o'm heglwys i yn Jerusalem oedd. Felly daeth achos Wmffre yn ddrysbyrne i'r ddau weinidog. Ond er mwyn tori y ddadl, a dal Wmffre yn ei anffyddlondeb a'i anwireddau, penderfynasom fyned gyda'n gilydd ein dau, i dalu y mweliadag ef, yn ei dy wrth y *Turnpike*. Aethom ein dau i mewn i'r ty heb guro y drws, a daliasom ef yn ddisymwth. Nid oedd y wraig gartrefar y pryd, neb ond efe ei hunan. Dvn lled fyr, coesau ceimion, gwallt du, llygadgroes, a thawel iawn oedd. Pan aethom i mewn yno gyntaf, yr oedd efe ar ei liniau ar lawr y ty, yn chwythu y tân gyda megin fechan, a'i gefn atom. "Wmffre!" meddai Mr. Davies, "Wmffre!" Cyfododd i fyny ar frys, a'r fegin yn ei ddwyllaw, gan edrych yn llygadgroes, ac yn rhyfedd iawn! Ychwanegai Davies, "Wel, Wmffre, dyma ti a Mr. Thomas, wedi dyfod yma i dy ddal di." Gwaeddai yntau, "Mr. Davies, Mr. Davies, am beth?" "Am dy gelwyddau a'th anffyddlondeb. Dywed i ni y gwir, yn awr, Wmffre,—aelod yn mha eglwys wyt ti? Jerusalem neu Peniel?" Nis gwyddai beth i'w ateb. Edrychai yn syn, a gwaeddai, "Mr. Davies, Mr. Thomas!" "Pw! pw!" meddai Davies, "ofer yw i ti, Wmffre, wneyd yr hen wyneb hyll yna, ac edrych yn groes ar y pared a'r fegin yna. Edrych arnom ni—a dywed y gwir. Yn mha eglwys yr wyt ti yn ystyried dy hun yn aelod?" Ni chawsom atebiad. Aelod o'm heglwys i yn Jerusalem oedd mewn gwirionedd. Addawodd ddiwygio; a bu yn fwy ffyddlon. "Nac esgeuluswch eich cyd-gynulliad eich hunain, megys y mae arfer rhai." Nis gall neb fod yn aelod rheolaidd a ffyddlon mewn dwy eglwys; ac ni ddylai gweinidogion gefnogi crwydriaid felly. Cofiwch hanes Wmffre!—*Gan yr un.*

(REDINIAETH DYN ANNUWIOL MEWN GWEDDI.

Yr oedd yn arferiad yn Llanfair, fel trwy Gymru, i apwyntio dyddiau o ymostyngiad a gweddi pan fyddai y wlad tan arwyddion o wg yr Anfeidrol—yn enwedig mewn cynhauf gwlyb. Yr oedd yn byw gerllaw yno, amaethwr mawr a chyfoethog, ond hollol ddigrefydd. Un haf gwlypach nac arfer, clywyd ef yn gofyn gyda phryder a difrifwch mawr, "*Pa'm na chadwa Davies bach y Capel Uchaf yna gwrdd gweddi i ni gael y cynhauf?*" Yr unig adegau trwy gydol y flwyddyn y gwelid y dyn hwnw yn nghysegr Duw oedd, dyddiau ympryd a diolohgarwch. Adwaenem rai brodyr iddo mewn ardaloedd eraill yno. Er lleied o ddaioni sydd yn hyny, ystyriem y byddai yn golled gofidus iddynt gael eu hysbeilio gan Resymoliaeth o'u ffydd yn llywodraeth *bersonol a chyson* Duw tros y byd, a'u hyder yn effeithioldeb gweddi y cyflawn.

ISRAEL YR YMLADDWR.

Dodir yr hanesyn canlynol i fewn, i ddangos y parch a deimlid ac a ddangosid, hyd yn nod gan y rhai mwyaf rhyfygus o'n cenedl yn ngwlad ein genedigaeth tuag at weinidogion teilwng, er mwyn eu gwaith. Ryw dro yn ffair Llanfair, yr oedd dyn o'r enw Israel, person llywethol, cryf, gwrol, a nodedig fel cwffiwr. Wedi ei gyffroi a'i gymell i ymladd, efe a ymnoethodd hyd ei ganol, ac a aeth allan i'r heol, gan herio un dyn yn y dref i frwydr ag ef. Dilynid ef gan fagad o edrychwyr at bellder diogel. Gwyddid trwy y parthau hyny am ei ddewrder, a nerth rhyfeddol ei ewynau. Ni feiddiai neb dderbyn ei her, na hyd yn nod swyddog ddodi ei law arno i'w ddodi yn ngharchar. Cerddai i fyny ac i lawr gan waeddi: "Mae fy ngwar i fel gieuyn haiarn, am talcen fel pres." Gwelodd Mr. Davies y dorf, a deallodd mai Israel, yr hwn a adwaenai, wedi ei wallgofi, oedd arwr yr achlysur. Aeth i fyny ato, er gwaethaf gwrthwynebiadau Mrs. Davies, oedd gydag

ef yn y fan, ac a ddywedai, "Cym'rwch ofal D., fe'ch tery yn siwr." Ond ato yr aeth, a chymerodd afael yn ei fraich gan ddywedyd yn dirion wrtho: "Israel anwyl, peidiwch â ffolineb fel hyn—de'wch gyda mi i wisgo am danoch, a byddwch yn ddyn deche." "Wel," ebe Israel, "mi ddof gyda *chwi*," ac efe a aeth. Dynay tro olaf i Israel wneyd ei hun yn *sport* i ynyfdion yn y modd hwnw, a diolchodd lawer tro wedi hyny i Mr. D. am ei wasanaeth iddo ar y pryd.

CLERIGWR MEWN RHEDEGFA CEFFYLAU.

Unwaith ar daith i Gymanfa, gydag wyth o weinidogion eraill—oll ar feirch, dygwyddai fod gan Mr. Davies geffyl bychan, teneu, a drwg yr olwg arno, ond er hyny yn crotiwr diuil yn mron. Wedi iddynt ddarfod trafod pynciau athrawiaethol ac eglwysig, dechreuasant ddadleu ar "gnawd ceffyl," neu rinweddau cydmarol yr anifeiliaid a farchogent. Myntumiai pob un mai ei un ei hun oedd y goraf; ond cydunai *wyth* o honynt mai un Mr. D. oedd y gwaelaf, yr hyllaf, a'r trwstaneiddiaf yn ddiau. Bu ef a'i anifail truan felly yn wrthddrychau eu digrifwch diniwed am lawer milldir. Methodd o'r diwedd a dyoddef eu hymaldod ar draul ei geffyl, a dywedodd er mai y lleiaf a'r salaf o honynt ydoedd, y trechai y rhif luosocaf, os nad yr oll o honynt mewn rhedegfa. Erbyn hyn yr oedd yn rhaid profi eu cyflymdra. Buasai gwrthod yn gyfaddefiad ymarferol o ffuantrwydd eu bost yn rhagoriaeth eu hanifeiliaid. Nid allesid cael gwell lle na'r fan hono—na gwell adeg na'r pryd hwnw. Ymaith a hwynt—naw o glerigwyr, nerth y carnau, fel pe buasai ysprydion Gadarenia wrth eu hysgil yn ysparduno y ceffylau. Ni chadwasant gyda'u gilydd fawr o ffordd. Cyfyngwyd yr ymdrechfa gydrhwng Mr. D. a Mr. Williams, y Wern. Cariodd hel-farch uchel a golygus Mr. Williams, y dydd arno ryw ychydig. Terfynodd hyny, beth bynag, y chwertthin am ben "*merlyn cynffon gwta*" Mr. Davies.

NO SIR, IT WAS GOD'S MONEY.

Mae Eglwys Henadurol Gyntaf Cincinnati, yn nodedig am ddau beth o leiaf yn mysg ei chwirydd eglwysi yn y ddinas Freninol. 1. Bu un o weinidogion galluocaf a ffyddlonaf America yn pregethu iddi am flynyddau—yr anfarwol Lyman Beecher, tad Henry Ward Beecher a Mrs. Stowe, ac amryw blant eraill a safant yn uchel fel awdwyr a phregethwyr. 2. Mae pinacl ei chapel yn uwch na'r eiddo un arall yn y dref. Tyna sylw ymwelwyr o bell gyda'r mynegfys ar ei gopa yn cyfeirio yn arwyddocaol tua'r nef. Mae ei uchder yn ddolur llygaid tost i'n cymydogion Pabyddol. Arfaethasant roddi un uwch nag ef i fyny ar gapael y maent yn awr yn ei adeiladu a'r Heol Sycamore; ond hysbyswyd ni yn ddiweddar eu bod wedi deall nad allent, *o herwydd gwendid ei sylfaen*, ac felly wedi rhoddi y bwriad heibio.

Galwyd sylw Mr. Davies at uchder ac ardderchawgrydd yr adeiladaeth. Fel un o edmygwyr gwresog Dr. Beecher, teimlai ddyddordeb neillduol yn y ty a'i hanes. Arweiniwyd ef gan un o'r swyddogion trwyddo, ac o'i ddeutu. Ni wyddom amgen na foddheid ef yn burion yn ystafelloedd y capel a'u dodrefniad. Ond wedi dod allan, a thra yn sefyll ar y cwrt gyda'i arweinydd, i gymeryd ail olwg ar y pinacl, dechreuodd godi ei ddwyllaw, megys mewn syndod ac â braw arno, gan ymsoni, eto fel y clywid ef gan y boneddwr wrth ei ochr: "*What a sin! what a sin!*" "*Well, what is the trouble?*" ebe ei gyfaill. "*What a sin!*" atebai Mr. D. eilwaith, "*to spend so much money needlessly on this tower, when you might have built two or three other churches for Christ, in some destitute country places with it!*" "*Well,*" ebe y boneddwr eilwaith, braidd yn ffrom, "*It was our own money.*" Taniodd hyny yspryd yr hen frawd gymaint nes peri iddo ei ateb yn gwta a phendant, gan ddywedyd: "*No, Sir, it was God's money.*"

EI OLWG FACHGENAIDD.

Cadwodd ei oedran yn dda hyd y diwedd. Nid ellid meddwl, wrth edrych ar ei ddarlun yn y llyfr hwn, ei fod yn dair-ar-ddeg-a-deugain pan dynwyd ef. Nis gallwn ymatal heb gyflen yma un hanesyn braidd yn ddigrifol am dano mewn cysylltiad â hyn. Dygwyddodd pan yn lled ieuanc fyn'd ar daith i bregethu trwy ranau o Ddeheudir Cymru. Arosai gyda'r Parch. Thomas, Penmain, Mynwy—hen weinidog, deallwn, nodedig am barodrwydd ei atebion a'i arabedd. Yn y boreu dymunai Mr. Davies eillio ei wyneb, a gofynodd i'w letywr am fenthvg yr arfau priodol at hyn. Deehrenodd Mr. Thomas alw ar y gath. Aeth o amgylch yn y ty tan waeddi, "Pwsi, pwsi, dere yma." "Beth sydd arnoch eisiau gyda'r gath?" ebe Mrs. Thomas. "O," atebodd yntau, "ei heisiau i *shario* tipyn ar Davies bach yma sydd arnaf." Meddwl yr oedd, mae'n debyg, y buasai tafod garw y gath yn gystal a dim i smud yr ychydig fantlew oedd ar wyneb ieuengaidd y llane.

"A'R GYRIAD SYDD FEL GYRIAD JEHU."

Dywed yr hanesydd Ysgrythyrol am hwnw ei fod yn gyrru yn *untud*—yn anghymedrol gyflym. Gyrwr felly oedd Mr. D., fynychaf, fel y geill pawb a gofiant ei weled ar ei daith Sabbothol oddentu Llanfair, dystio. Ac yr oedd arbenigion eraill yn perthyn iddo fel marchogwr, a'u gwnaethent yn wrthddrych campus i athrylith Nast, yn *Harper's Weekly*, ac wrth ba rai y rhwydd adnabyddid ef o bellder mawr. Cadwai ei sodlau ar waith yn wastad ar ystlysau ei anifail, a daliai ei law chwith i fyny, tuag uchder ei ysgwydd, gyda gwialen ysgwydedig ynddi.

CYMERADWYO CUSANAU HENRY.

Aeth pregethwr unwaith i Radnor yn ei amser ef i oddi tro, a phregethodd amryw droion yn ystod ei

ymweliad. Lletyai gyda Mr. D. Wedi gwasanaeth y noson gyntaf, yr hwn ni adawodd argraff ddymunol ar feddwl yr hen frawd, a chyn yr oedfa nesaf, efe a ofynodd i'r gwr dyeithr, pa destyn a fwriadai lafaru oddiwrtho? Dywedodd yntau ei fod i'w weled yn yr ail Salm, a'r ddeuddegfed adnod: "Cusenwch y Mab, rhag iddo ddigio a'ch difetha chwi o'r ffordd." "Wel," ebe Mr. D. wrtho, "mae esponiad Henry yn y llyfrgell yma, ac y mae ganddo bedwar o gusanau ag y byddai yn dda iawn i ti eu cael: Cusan *heddychiad*, cusan *mawrhad*, cusan *serch a chariad diffuant*, cusan *ffyddlondeb ac ymlyniad wrtho*." Aeth y gwr ieuanc i'r study i edrych beth allai wneyd o honynt; ond daeth allan yn lled fuan gan sylwi, nad oedd Mathew Henry ag yntau ddim yn cymeryd yr un olwg ar y geiriau. "Felly," ebe Mr. D., "ac y mae hyny yn dda, ond odid hefyd, i'r rhai sydd a chryn lawer o ffydd yn Henry."

CYFARWYDDIADAU I CHWAREU CARDIAU.

Pan oeddynt yn byw yn Allen, prynodd un o aelodau y teulu lyfr tra phoblogaidd a gyfenwir, "Inquire Within;" yr hwn a gynwysa lawer o hyfforddiadau gwir werthfawr, ac o wasanaeth mawr, yn nghyd a rhai eraill y buasai yn well eu gadael allan. Canfu Mr. Davies ef yn ei lyfrgell ryw ddiwrnod, ac yn ol yr anogaeth ar ei glawr, efe a edrychodd i mewn iddo. Boddheid ef yn fawr ynddo hyd nes y daeth ar draws y rheolau a rydd i lawr i chwareu cardiau. Cauodd ef yn union, a gofynodd gydag anghymeradwyaeth a difrifwch: "Pwy sydd wedi bod yn hau efrau yn mysg fy ngwenith i?" A chan nesu at y tan mawr, yn y simddeu agored, efe a'i bwriasai yn aberth i'r fflamau oni b'ai iddo gael ei atal. Casai gardiau, a ffugchwedlau, a phob perthynas iddynt hefyd â chasineb perffaith.

YN Y CRYDWST (AGUE.)

Dyoddefodd lawer pan yn Allen oddiwrth y clefyd adnabyddus ac arswydawn hwn. A phan tano, medd-

yliai a dywedai hefyd, nad oedd gofid neb fel ei ofid ef. Credai y byddai farw yn ddios yn un o'i bangfeydd a'i ysgytiadau, a siaradodd un diwrnod am geisio Squire Griffiths i ysgrifenu ei lythyr cymun. Dro arall cymerwyd ef gan ryndod yr "haint echryslon" pan yn pregethu ar brydnawn Sul poeth yn Gomer. Rhinciai ei ddanedd ac ymdaenasai gwedd welw tros ei wyneb tra yn ceisio dweyd am *Hyfrydwch ffyrdd crefydd a heddwch ei llwybrau*.—Diar. 3:17. Gwnaeth ei oraf i chwysu, ond yn gwbl ofer. Ac i'r rhai na chawsant brofion o loesion y cryd, ac a wyddant fel yr arferai y chwys redeg yn ffosydd tros ruddiau Mr. D. wrth bregethu, y gauaf fel yr haf, nis gwyddom am gymhwysach ffaith i ddangos yr oerder eithafol sydd yn fferu gwaed dyn yn ei wythienau pan ddelir ef yn ei grafangau.

CIFWILIO AM YSGOL IW FERCH.

Yn fuan wedi ei ddyfodiad i Cincinnati aeth i chwilio am ysgol o radd uwch na'r ysgolion cyffredin i'w ferch henaf. Cyfarwyddwyd ef gan ryw un direidus i'w chymeryd i sefydliad Pabyddol yn y ddinas, ar heol y Chweched, cydrhwng Sycamore a Broadway, ond ni fynegwyd iddo ef gymeriad yr ysgol. Ffwrd ag ef yno i gael gweled pa fath ydoedd, ac i gytuno am le i Sarah. Wedi canu o hono y gloch, fe'i hatebwyd gan forwynig, yr hon a'i harweiniodd i ystafell eang, ac a barodd iddo eistedd i lawr, hyd nes y deuai y *Superior* ato. Aeth hi allan a chlodd y drws arno, gan ei adael wrtho ei hun. Cadwyd ef i hir ddysgwyl, ac felly cafodd hamdden i edrych o'i ddeutu, ac er ei syndod a'i ddychryn deallodd, oddiwrth y darluniau ar y parwydd a'r delwau ar y fantell simdde o'i flaen, ei fod yn ddiarwybod iddo ei hun wedi myn'd i grafangau y llew rhuadwy yn un o ffauau Eglwys Rhufain. Tybiodd ei bod yn ddiwedd byd arno. Dechreuodd hanes erledigaethau a mwrddradau Mari Waedlyd redeg trwy ei feddwl. Ymrithiai tânau Maes y Gofaint o flaen ei lygaid. Edrychai pob mynyd y bu yn aros yno yn *awr*

os rad mwy. Os oedd purdan y Pab yn lle mwy ar-
teithiol nag oedd yr ystafell hono iddo ef, dymunai o
eigion enaid nad anfonid ef byth iddo. Dysgwyliai
bob eiliad weled dau neu dri o ddynion yn dod i mewn,
wedi eu mygydu, iw arwain i'r chwil-lys, neu ei estyn ar
y ddirdynglwyd, gan ei fod wedi diniwaid hysbysu y
forwyn mai gweinidog Protestanaidd oedd. Ond o'r
diwedd daeth y *Superior* i fewn, ac wedi ei gyfarch,
gofynnodd beth oedd ei neges a hi? "Wel, frawd anwyl,"
ebe Mr. Davies ei hun, wrth adrodd yr hanes wedi
hyny, "mi dorais y stori yn gwta iawn trwy ddweyd
fod galwad arnaf ar y pryd mewn lle arall, y cawswn
ei gweled drachefn (er yn gobeithio na ch'ai byth), a
dymuned arni fy esgusodi. Ond pan gefais fy nhraed
yn rhyddion, gellwch fod yn sicr na chymerodd fawr o
amser cyn i mi gyraedd fy nghartref a'r Fifth Street
Hill. Frawd anwyl, ni chymeraswn y byd am fyned
yno eilwaith." Ymddengys oddiwrth dystiolaethau
eraill hefyd yr aeth dros yr helynt wrthynt yn hwyr y
dydd hwnw, ei fod yn meddwl na chafodd un morwr
erioed, wedi llongddrylliad arswydawn, waredigaeth
gyfyngach, na mwy gwyrthiol nag a gafodd ef y tro
hwnw o balfau y *Superior*.

GWEDDIO DROS BREGETHWRE ANNUWIOL.

Ryw dro yn ystod ei arosiad yn Radnor, daeth crwydr-
yn ar enw pregethwr i'r ardal. Aeth i ymofyn am y
gweinidog wrth gwrs, a gwnaeth ei gartref gydag ef yn
benaf tra yn aros yn y gymydogaeath. Cyn cael cyf-
leustra iw wrandaw yn pregethu, yr oedd ei ymegni-
adau wrth arwain yn y weddi deuluaidd, yn ngyda
rhyw bethau eraill ynddo, wedi deffro drwgdybiaeth yn
meddwl yr hen dad mai *dafad ddu* oedd wedi ymwithio
i'w gorlan. Ac *wedi ei glywed*, yr oedd ei amheuon
wedi troi yn sicrwydd yn ei feddwl ei hun. Felly efe
a benderfynodd ei wyllo. Yn ganlynol i'r Sábboth
aethant gyda'u gilydd i wneyd ymweliadau. Buont
yn cysgu gyda'u gilydd yn nhy cymydog un noson.

Ar ol myned i'r gwely, dechreuodd Mr. D. gadw seiat gydag ef, neu yn hytrach "gwrdd parotoad" manwl a threiddiol o'r hen flasiwn, gan ei holi am ei argyhoeddiad, yr amser, y modd, ei hyd, ei led, a'i ddyfnder—beth oedd ei brofiad crefyddol presenol—beth oedd natur y cymelliadau a dderbyniasai i bregethu yr Efengyl, a'i resymau dros feddwl fod ei drwydded wedi ei selio gan y Meistr Dwyfol? Yr oedd ei atebion yn bell o fod yn foddhaol; ac am hyny efe a ddywedodd wrtho: "Machgen anwyl i, mae arna'i ofn am danat ti, ac awydd codi i fyn'd ar fy ngliniau i weddio drosot." Gwnaeth felly, ac ymdrechodd gyda thaerni dwys ar ran ei enaid, yr hwn, credai, oedd mewn bustl chwewder, a rhwymedigaeth anwiredd. Dychwelodd i'w wely, a gofynodd i'w gydymaith, "pa fodd y teimlai erbyn hyn, ai nid oedd ei gadwynau yn cael eu dryllio, a'i galon yn dechreu meddalhau?" "Dim," ebe'r adyn, "rwy'n teimlo'n gwmws fel y teimlwn cyn i chwi ddechreu." "Ow, Ow," ebe Mr. D., "be' ddaw o hono fe, Arglwydd? Wel, rhaid i mi fyn'd ati hi eto i ofyn am drugaredd i chwi." Ac felly y bu hi; gweddiodd yn wresog yr ail waith, ond gyda dim gwell llwyddiant. Erbyn hyn dechreuodd deimlo yn wir frawychus yn nghylch cyflwr y dyn; eto ni fynai mwy na Jacob, roddi i fyny heb dreio o ddifrif. Daliodd ati i ymgodymu a'r angel bedair neu bump o weithiau yn olynol cyn rhoddi i fyny mewn llwyr anobaith; ac yr oedd yr ymdrech mor galed a thrystfawr tua'r diwedd fel y deffrodd y teulu gan y swm, ac y daethant at ddrws yr ystafell i edrych beth oedd y mater. Ond para yn ei galedrwydd, a wnaeth y pregethwr trwy y cwbl. Cyn hir wedi hyny cafwyd prawf cyhoeddus a diymwad o gywirdeb y farn oedd Mr. D. wedi ei ffurfio am dano—sef mai blaidd mewn croen dafad ydoedd. Otlegid efe a redodd i ffwrdd gyda gwraig gwr arall, wedi bod yn dirgel ohebu gyda hi tan yr enw Paul Timothy. Dalwyd ef yn Pittsburgh; ond cafodd ryw dwll bychan i ymgripio trwyddo o afael y gyfraith, fel y bydd ei fath yn cael yn rhy fynych.

[Yr ydym yn ddyledus i'r brawd Iorthryn Gwynedd am y gweddiill o'r Llofion.]

YR YSTORM AR LYN ERIE.

{Ar ol terfyniad y Gymanfa yn Oneida County, N. Y., yn niwedd Medi, 1850, Mr. Davies oedd fy arweinydd i, a John Davies, yn awr o Columbus, o Utica i Buffalo, N. Y., a thros Lake Erie i Ohio. Yr oedd ef yn dychwelyd i Cincinnati; a dywedai mai *greenhorns* oeddynt ni ein dau y pryd hyny. Cyfarwyddai ni pa fodd i fwyta ac yfed; i eistedd, i deithio, ac i gysgu; a rhybuddiai ni i fod yn ochelgar rhag cael ein twyllo a'n hyspeilio gan ladron America! Yr oedd yn ofalus iawn am danom, ac yn ceisio ein cysuro trwy ei ddigrifwch. Yr oedd yn ei gryfder y pryd hyny. Gwisgai gochl fawr am dano; cludai *carpet-bag* yn ei law; ac yr oedd yn edrych yn esgobaidd iawn. Wedi cyrhaedd Buffalo, dilynasom ef drwy yr heolydd yn min nos at yr agerfad. Yr oedd hwnw wedi ei orlenwi cyn i ni gyrhaedd ato. Talasom am ein cludiad i Cleveland, Ohio, ac am ein bwyd, a gwely i orwedd arno. Cawsom fwyd, sef ein swper. Ond wedi hyny deallasom nad oedd modd i ni gael *room* na gwely i orwedd arno, am fod yr oll wedi eu meddianu gan eraill. Dechreuodd Davies ddangos arwyddion cyffredin ei anfoddlonrwydd, trwy agor a chamu ei enau, gwneyd gwyneb hir, ac edrych yn sarug, a chosi ei freichiau. Symudwyd y bwyd a'r llestri oddiar y bwrdd mawr hir, a thaenwyd *mattresses* arnynt, ac ar darawiad amrant cymeryd meddiant o honynt gan yr Yaukees ac eraill, trwy eistedd arnynt. Nid oedd Davies yn deall hyny, mwy na ninau. Gorfu iddo ef a ninau eistedd ar ein *carpet-bags*. Grwgnachai ein harweinydd. Ar y *mattress* oedd ar y bwrdd gyferbyn â ni yr eisteddai dyn ieuanc prydfferth, tal iawn. Yn mhen ychydig amser cododd a cherddodd o amgylch. Yn ei absenoldeb, cododd Davies a gorweddodd ar ei gefn ar y *mattress* hwnw, a'r gochl fawr am dano, a'r *carpet-bag* dan ei ben, a'i fraich drwy ei ddolenau; gan benderfynu gorwedd a chysgu arno hyd y boreu; credai

fod ganddo hawl ynddo am ei fod wedi talu am wely. Daeth y dyn ieuanc yn ol, a gwelodd Davies yn gorwedd arno. Cyffyrddodd ef a'i law yn esmwyth, a dywedodd: "This is my bed, please, sir." "What?" "This is my bed, please, sir." "Your bed, is it? I paid for it, and will rest on it till daylight." "I took possession of it first; that is the rule of the boat, and I would be sorry if you compel me to inform the officers, and call on them to decide the matter." Cododd Davies ar ei eistedd, ac edrychodd i fyny yn ngwyneb y dyn ieuanc, a dywedodd: "Go, and inform the officers if you wish, sir. They must prepare a bed for me, or return my money. Go, go! You are but a young man; but I am an aged minister of the gospel of Christ; I have been in the Christian ministry for the past thirty-one years at Llanfaircaereinion, Montgomeryshire, North Wales, Great Britain." Chwarddodd y gwr ieuanc, ac a dywedodd: "What a long tail! Why don't you add to it, in the great universe of God!" Ac ychwanegodd, "My dear sir, because you are an aged minister of the gospel, I will say no more; you shall have it; and I wish you a pleasant rest on it till morning." Ymadawodd y gwr ieuanc mewn tangnefedd, a gorweddodd Davies ar y *mattress* hyd y boreu. Yn nghanol y noson hono cyfododd ystorm arswydol ar Lyn Erie, nes oedd pawb yn ofni ac yn crynu. Ond dan nawdd y nef cyrhaeddasom Cleveland, Ohio, yn ddiogel, boreu dranoeth. Yr oedd Mr. Davies yn hoff iawn o ail-adrodd hanes Wmffre! ond nid oedd yn caru clywed neb yn son am ei ymddygiad at y gwr ieuanc boneddigaidd ar Lake Erie. Ni chafodd ef na neb arall, lonydd i orphwys nac i gysgu yn dawel y noson hono, oblegid goleuni tanbaid y mellt fforchog—twrf y taranau trymion—hyrddiadau y corwyntoedd—a chynhyrfiad y dyfroedd aflonydd, a'r tonau chwyddiedig.

CYFARFOD Y BOBL DDUON YN CINCINNATI.

Yn mis Rhagfyr, 1850, y daethom gyntaf i Cincinnati, O., lle yr oedd Davies yn weinidog. Cefais groesawiad ganddo ef a'i briod, a charedigrwydd mawr gan aelodau ei eglwys, yn enwedig gan Wm. Griffiths, a James Griffiths, a'u brodyr parchus a chrefyddol eraill—meibion yr anfarwol Griffiths, o Horeb. Yno y gwelais Mr. Chidlaw gyntaf. Yr oeddwn yn awyddus am weled a chlywed y bobl dduon yn addoli. Cefais gyfleustra; yr oeddynt yn cynnal eu *revival meetings* yn y ddinas ar nosweithiau yr wythnos hono. Yr oeddynt yn dechreu eu cyfarfodydd yn hwyrol iawn. Aethum gyda Davies a Chidlaw, i mewn i'w haddoldy; ac yr oedd yn orlawn. Yn y pulpud yr oedd eu gweinidog—henafgwr oedranus, a'i wallt yn wyn, yn pregethu yn fywiog, nerthol, ac effeithiol. Yr oedd ei sylwadau yn ysgrythyrol, a'i weddïau yn afaelgar. Terfynodd. Daeth i lawr, a safodd o flaen yr areithfa, a daeth ei bobl yn gylch o'i amgylch, gan afael yn nwyllaw eu gilydd, a chydganu canïadau y groes yn dra effeithiol. Wedi hynysyrthiasant ar eu gliniau, ac yr oedd lluoedd yn cydweddio a'u gweinidog yn gyhoeddus! Yr oedd teimlad byw drwy yr holl gynulleidfa, a llawer yn neidio ac yn gorfoleddu. Minau a Chidlaw yn wylo; a Davies ar ei draed yn codi ei ddwyllaw, ac yn gwaeddi, "O diolch! gogoniant!" yn Gymraeg! Dyna oedfa effeithiol. Yr oedd Duw yn y lle. Tybiais fy mod yn un o gapelau Cymru, yn amser yr adfywiadau mawrion fu yno; pan oedd yr hen dduwiolion gwresog yn yno yn canmol gras Duw, yn neidio, ac yn gorfoleddu, dan dywalltiad mawr o'r dylanwadau dwyfol. Mae bywiogrwydd a theimlad yr Affricaniaid duon, wrth addoli yr Arglwydd, yn deilwng o efelychiad.

Y GORFOLEDD YN BETHEL.

Yn mhlwyf Remsen, Oneida Co. N. Y., y saif capel Bethel. Yno y cynaliwyd cyfarfod olaf Cymanfa yr Annibynwyr yn Oneida Co., yn y flwyddyn 1850. Er

fod pregethu da iawn yn yr holl gyfarfodydd blaenorol; nid oedd ond ychydig o'r gwllith nefol yn disgyn arnynt, yr hyn a barodd i'r gweinidogion deimlo yn ofidus, a phenderfynasant, yn Floyd, weddio yn daerach am wenau yr Arglwydd. Atebwyd eu gweddiau yn Bethel. Caed cyfarfod nodedig o wllithog yno. Yr oeddwn i a Davies wedi ein cyhoeddi i bregethu ar noson olaf y Gymanfa yno. Pregethais o'i flaen ef ar "Arfogaeth y Cristion." Er nad oedd dim rhagorol ynoffi, nac yn fy mhregeth, eto teimlais ryw ddylanwad nefol, anarferol a grymusol ar fy meddwl; ac effeithiodd y cyffelyb ddylanwad ar feddyliau y gweinidogion eraill, a'r gwragedd duwiol, a lluoedd o'r gwrandawyr. Dechreuodd Mrs. Roberts (gwraig y Parch. Morris Roberts), orfoleddu a chanmol y Gwardwr yn y modd mwyaf doniol ac effeithiol. Dilynwyd hi gan amrai o chwiorydd doniol eraill; ac yna gan ei phriod, (gweinidog enwog yr eglwys) yr hwn a wylai ddagrau yn llifeiriol, a gwaeddodd *gogoniant*, gyda'i lais mawr hygryw, nes oedd y gynulleidfa yn fyw drwyddi oll! Eisteddais i lawr yn y pulpud, i wylu ac i gydfolianu y Ceidwad mawr. Llanwyd y lle â gorfoledd! Yr oedd y Parch. Evan Griffiths, Utica, y pryd hwnw, yn ddig wrtho ei hun am ei fod yn methu wylu a gorfoleddu; ond yn fuan gorchfygwyd yntau—dechreuodd y dagrau fwrlymu o'i lygaid. Cododd ar ei draed, a gwaeddodd, *Diolch!* gyda llais cryf fel udgorn, nes oedd pawb yn synu. Ond yspryd *pregethu* oedd yn fy hen gyfaill Davies; cerddai yn ol ac mlaen, i lawr ac i fyny—rho'es benill allan, ond ni chynnygiwyd ei ganu, gan faint y gorfoledd; ac ni chafodd gyfle i bregethu y noson hono. Parhaodd y gorfoledd am dros awr yn y capel, a pharhaodd Mrs. Margaret Roberts i *orfoleddu* yr holl ffordd o'r capel i dy W. N. Davies, tua hanner milldir o'r addoldy. O, gyfarfod dedwydd! O, deimlad nefol! Nid anghofiaf y cyfarfod nodedig hwnw byth. Mae amryw oedd yn hwnw yn moli yn y nef yn awr—Davies yn eu plith.

PENILLION ER COFFADWRIAETHI

AM

Y PARCII. JAMES DAVIES, RADNOR, O.

GAN Y PARCH. D. DAVIES (DEWI EMLYN).

Gwr Duw wedi marw!—y Davies, o Lanfair,
 Fu'n ysgwyd eglwysi yn Nghymru a'i ddawn,
 A thafu tyrfaoedd lluosog i lesmair
 Wrth son am Galfaria, a rhinwedd yr Iawn :
 A Davies, o Allen, yr Unol Daleithau,
 Bregethai oludoedd efengyl a'i hedd ;
 Y mae dau gyfandir fendithiwyd a'i ddoniau
 Yn cyd-dywallt dagrau ar lanerch ei fedd.

Tuag oedran yr Iesu yn mhlith y doctoriaid,
 Ymroddes dan ofal y Doctor o'r nef,
 Yn Merthyr; a hwnw ddiddyfnodd ei enaid
 Oddiwrth arferiadau a gwagedd y dref ;
 Ar faes y Gwirionedd bu beunydd yn pori,
 Nes gwneuthur ei feddwl yn Feiblaidd o'r gwraidd ;
 Ar fryniau Brycheiniog dechreuodd gyhoeddi
 Gras mawr y Pen-bugail, a'i gariad i'r praidd.

Sychedai am addysg, er rhoddi i'w Frenin
 Wasanaeth rhagorach, a chwaneg o rym ;
 Wrth draed Doctor Lewis, yn Ngholeg Llanfyllin,
 Bu'n hogi ei gryman nes ydoedd yn llym ;
 Ar waith y cynhauaf yn Llanfair a Phenarth,
 A'r broydd cylchynol, wynebodd yn hyf ;
 Llafuriodd yn galed dros lesiant ei ranbarth,
 A'i Arglwydd wna'i ddala ei freichiau yn gryf.

Bu'n ddiwyd, fel amser, wrth ddirwyn ein hoes,
 Neu'r cefnfor wrth lanw a threio ;
 Ei ysbryd ymweithiai fel burym mewn toes,
 Trwy'r ardal, nes iddo'i llawn drwytho ;
 Rhyfeddol yw'r egni arferodd yn hir
 Er lles i gyffiniau Clawdd Offa ;
 Myfyriai, gweddiiai, pregethai y gwir,
 Fel un oedd i farw'r awr nesa'.

Trwy lafur ac ymdrech, bob adeg a hin,
 Cyhoeddai yr Iesu a'i aberth ;
 Llafurwaith dros Iesu ni theimlai yn flin,
 Na lludded dros Iesu yn drafferth ;
 Ei bregeth fel dwys genadwri o'r nef,
 I ddynton colledig draddodai ;
 Deallai 'i wrandawyr yn rhwydd ei fod ef
 Yn credu yr hyn a lefarai.

A'i enaid yn enyn yn danllyd o sêl,
 Ceryddai bechodau yr ardal ;
 A'i eiriau'n diferu'n fwyneiddiach na'r mel,
 Gysurai blant Duw yn yr anial ;
 Pe'n sefyll i siarad wrth borth anwn ddu,
 Ni roisai onestach rhybuddion ;
 Pe'n gweled y nefoedd, a chlywed ei llu,
 Ni buasai'n wresocach ei galon.

Bu Duw iddo'n noddfa rhag saethau gelynion,
 Fe'i cuddiodd yn nghysgod ei law rhag pob brad ;
 A chanoedd o weithiau bu'r dwyfol awelon
 Yn gwneyd ei bregethau yn foddion lleshad ;
 Diwygiad mawr Siloh, ar noson Nadolig,
 A throion cyffelyb, sy'n brofion nodedig,
 I lawer o dlawd afradloniaid colledig
 Gael trwyddo ddychweliad i fynwes eu Tad.

Am dros dri deg o flwyddi,
 Ca'dd Maldwyn brofi gwerth
 Ei ffydd, ei sel, a'i daerni,
 Yn gweithio gyda nerth ;
 Ca'dd siroedd eraill hefyd,
 Mewn llawer bro a thref,
 Ryw newydd nerth a bywyd,
 O'i ymweliadau ef.

Trwy'r 'Werddon draw, a'r Alban,
 Ei gref athrylith fu
 Fel gweithrediadau trydan,
 Yn ysgwyd llawer llu ;
 Ei sel enynai'n danllwyth,
 Yn nhrefi Lloegr lân,
 Ond Cymru gafodd flaenffrwyth
 Ei rym, ei ddawn, a'i dân.

Ow ! Maldwyn, 'nol gwledda ar hufen ei ddoniau,
 Tra'n nghryfder ei ddyddiau, fel cenad y groes,

Gadewaist yn oeraidd i'r bugail aur-enau,
 O'th randir ymfudo'n mhrydnawnddydd ei oes !
 Ymadael â meusydd ei lafur oedd galed,
 Ond daliodd Americ i'w wresog wahodd ;
 Yn nhref Cincinnati ca'dd freichiau agored
 I'w roesaw i'r winllan, a gwaith wrth ei fodd.

Llafurio dros Iesu oedd hoff waith ei enaid,
 Ar diroedd Americ, o'i laniad i'w fedd ;
 Wrth ddweyd am drueni a pherygl annuwiaid,
 Difrifwch a dwysder orchuddient ei wedd ;
 Ond pan safai'n ymyl y groes, yn Lle'r Benglog,
 I gynyg maddeuant trwy'r gwaed i rai euog,
 A dadgan gogoniant a gras yr Eneiniog,
 Edrychai mor ddedwydd a brenin mewn gwledd.

Clywodd Cymry Allen ganddo
 Wirioneddau saif pan f'o
 Hen fynyddau Colorado
 Trwy Ohio 'n rhoddi tro ;
 Saif y pethau wnaeth gyhoeddi
 Am fôr cariad Iesu glân,
 Pan fo dyffryn Mississippi
 Drwyddo oll yn fôr o dân.

Yn Trenton, Oneida, a Radnor, Ohio,
 Bu ffrydlif ei dalent yn grymus lifeirio,
 Nes gwneyd gerddi Iesu yn wyrddlas a ffrwythlon,
 A'u hegin yn irlas, a'u blodau 'n harddwythion,
 A melus rasmusau, ffydd, gobaith, a chariad,
 Fel addfed rawnsypiau, neu aeron nefolwlad,
 O'u mewn yn hardd bwngo, a'u tegwch a'u tlyzni,
 Yn salm o glodforedd i Arglwydd y gerddi.

Gwel ef mewn myfyrgell, o flaen ei bapyren,
 A'r llyfrau yn dysgwyl eu tro yma a'thraw,
 Y Beibl yn frenin, a Henry ac Owen,
 A Flavel a Charnock, fel gweision gerllaw ;
 O fel yr ymweithiai ei rymus feddyliau
 Ar bethau cyfamod trag'wyddol y nef ;
 Pan ddelai oddiyno i sefyll y brwydrau,
 Mewn cyflawn arfogaeth yn barod 'r oedd ef.

Gwel ef mewn areithfa ac angerdd ei enaid
 I'w wel'd yn mhob ystum, yn seinio'n mhob brawd,
 A than ei sêl santaidd yn enyn yn danbaid,
 Tra'n anog trueiniaid at Iesu am nawdd,

Gan ddweyd am Galfaria a golud trugaredd,
 A'r dyrfa'n tyneru dan ddafnau ei ddawn,
 Calonau yn llosgi gan dân y gwirionedd,
 Y gruiddiau yn lleithion, a'r llygaid yn llawn.

Gwnaeth ffurfio eglwysi a chodi addoldai
 Mewn amryw o fanau yn ystod ei daith,
 A fyddant am oesoedd yn fendith i rywrai ;
 A thalodd eu dyled ! Ie, dyna y gwaith
 Rhyfeddaf o'r cyfan, bu'n crwydro am fisoedd,
 Ca'dd lawer gair trwstan, edliwiad a sen,
 Er goddef gwres dirfawr, ac oerion dymhestloedd,
 Ni pheidiai nes dyfod a'r casgliad i ben.

Mewn cyfeillach hoffai godi
 Cristion egwan oedd ar lawr ;
 Elai'n selog i gwrdd gweddi,
 Megys i'r gymanfa fawr ;
 Deuai'n llawnach bob diwrnod,
 O garedig naws y nef,
 Nes i'w Dad ei wel'd yn barod
 I ddod gartref ato ef.

Daeth cerbyd ei Arglwydd yn sydyn,
 Fel daeth at Elias ryw ddydd,
 I'w gyrchu yn chwai trwy y dyffryn,
 At gwmmi gwroniaid y ffydd ;
 Ei gorffyn yn Radnor sy'n huno,
 Hyd foreu y deffro, pan fydd
 I deyrnas marwolaeth i ffwydro,
 A chaethion y bedd ddod yn rhydd.

E R A I L L .

GAN Y PARCH. T. EDWARDS, BIRMINGHAM, PA.

Cofio'r y'm am Davies hwylus,
 Yn pregethu'n felus iawn;
 Parod ydoedd i lefaru,
 Yn y boreu a'r prydawn;
 Gan ei wres chwys lifai'allan,
 Tra cyhoeddai Geidwad hedd;
 Mae ei ysbryd eto'n danllyd,
 Yn y byd tu draw i'r bedd.

Nid pregethwr gwael, dilafur,
 Ydoedd Davies yn ei ddydd;
 Ond un effro, llawn o fywyd,
 Hyd nes ca'dd ei roddi'n rhydd;
 Fe fu'n ffyddlon yn y winllan
 Am flynyddau lawer iawn;
 Ysgrythyrwr enwog ydoedd
 Pan anerchai'r lluoedd llawn.

Y mae eto rai 'n ei gofio
 Pan oedd draw yn Llanfair bell;
 Ar ol dyfod i'r Amerig,
 Braidd nad ydoedd ef yn well;
 Wrth gyhoeddi Iesu grasol,
 A rhinweddau'i ddwyfol loes,
 Ni wnai gefnu ar Galfaria
 Wrth bregethu trwy ei oes.

Fe'i cynaliwyd yn yr anial,
 Ar ei yrfa tua'r nef;
 Gorphen wnaeth ei daith flinderus,
 Heddyw'n gorphwys y mae ef,
 Uwch gofidiau a chystuddiau
 Gyda'r perffeithiedig rai,
 Oll mewn tlysiion wynion ynau,
 Nid oes yno un a'i fai.

Boed ei weddw sy'n alarus,
 O dan ofal Iesu Grist,
 A'i blant tirion, hyd nes cwrddyd
 Lle na bydd yr un yn drist.
 Cyn bo hir ceir ail gyfarfod
 Lle na fydd marwolaeth mwy;
 Draw ar dir y Ganaan nefol,
 Lle nad oes na phoen na chlwy'.

CERDD-GOFFA,

GAN JOSIAH BRYNMAIR.

Llawer galar-gân ddarllenais ;
 Cyfansoddais rai fy hun ;
 Erioed ni fu deilyngach gwrthddrych
 Na'r enwog Davies, i gael un ;
 Duw a'i cododd, ac a'i doniodd,
 I udganu udgorn hedd ;
 Yntau'n wresog ymgysegrodd
 I'r gwasanaeth hyd ei fedd.

O Lanwrtyd y cychwynodd
 Gyda grym oraclau'r nef,
 I gyhoeddi iechydwriaeth
 Crist, a bywyd ynddo ef ;
 'Roedd ei galon fel yn berwi,
 'N llawn o genadwri gras,
 A'i holl enaid yn awyddu
 " Llwyddo a dyrchafu'r Gwas."

Aeth yn ieutanc i'r athrofa
 I bar'toi'r talentau'n well,
 Casglu addysg i fasnachu
 Yn nhrysorau'r Ganaan bell,
 A'u cyfranu i dylodion
 Llwm, angenus deulu'r llawr,
 I'w cymwyso'n etifeddion
 Y nefol etifeddiaeth fawr.

Cafodd Penarth a Brynelen
 Glywed sain ei udgorn clir ;
 Llanfair hefyd, a'r amgylchoedd,
 Bu'n llafurio yno'n hir ;
 Mae'r addoldai adeiladwyd
 Trwy'r ardaloedd hyny, 'n awr
 Yn gof golofnau anrhydeddus
 O'i bryder dwys a'i lafur mawr.

Fe gysegrodd ei alluoedd,
 Do, a chwysodd fwy na mwy,
 Er dychwelyd afradloniaid,
 Canmol Crist a'i farwol glwy' ;
 Nid oedd derfyn ar ei lafur—
 Planu a dyfrhau'n ddi-ludd,

Adeiladu yr eglwysi,
A dyddanu teulu'r ffydd.

Nid oedd nodded na gorphwysfa
I'w enaid bywiog, nos na dydd,
Nes cael temlau'r Oen, a Seion,
O'u dyledion caeth yn rhydd ;
Yn Lloegr, Scotland, a'r Iwerddon,
Bu yn casglu gyda llwydd,
Gwreng a bonedd yn garedig
A gyfranent iddo'n rhwydd.

Egwyddori yr ysgolion
Oedd wrth fodd ei galon gu,
Hyd gangenau pren y bywyd
Yn nghanol yr afalau bu—
Chwalu'r ffrwythau, a'u gwasgaru
Rhwing y gynulleidfa lawr ;
'Roedd cymanfa yr ysgolion
Megys nefoedd ar y llawr.

Ar ol diball, hir lafurio,
Draw yn Nghymru, ymfudo wnaeth
I'r Gorllewin, yn llawn teimlad
Gwres a chariad at ei waith ;
Ca'dd eglwysi Cincinnati,
Gomer a Delhi fwynhau
Ei weinidogaeth lawn o gariad
Crist, a'i drefn i gyfiawnhau.

Yr oedd yr hen oraclau dwyfol
Ar ei wefus fel y gwin ;
A disgynt megys ffrydlif,
Rasol hylif, dros ei fin ;
Adnodau'r Gair oedd fel boglynau
Aur yn ei bregethau 'gyd ;
I ategu pob athrawiaeth
Dygai'r Beibl yn ei bryd.

Bychan oedd ei gorff, ond cadarn,
Ei gyfansoddiad fel y dur,
Wedi'i gyflawn gyd-gymwyso
I'w enaid mawr a'i feddwl pur ;
Ni cha'dd diogi na seguryd
Erioed lesteirio'i enaid hy',
Yn ngwasanaeth Brenin Seion
Ffyddlon a diffuant fu.

Ond ehedodd o'r gwasanaeth
 Isod i'r gwasanaeth fry,
 Gan roi'r groes a'r cleddyf heibio,
 I uno gyda'r dedwydd lu ;
 Ei fantell yma a adawodd
 Ac esgynodd at ei Dduw,
 I offeiriadu yn berffeithiach
 O gylch sedd ei Brynwr byw.

Troi dalenau llyfrau'r arfaeth,
 Trefn y gyfryngwriaeth fawr,
 Cariad Crist yn ymgawdoli,
 A marw'r groes, mae ef yn awr,
 Gan ryfeddu uwch dyfnderoedd
 Môr anfeidrol cariad Duw,
 At annheilwng fyd colledig,
 Yn codi dyn, a'i gadw'n fyw.

Ffarwel, enaid perffeithiedig,
 Boddi mae fy meddwl i
 Wrth fyfyrto am y delyn
 Aur, a'i nefol dannau hi—
 Am y gwisgoedd a'r coronau,
 Hardd orielau 'r dedwydd lu,
 A gogoniant annhraethadwy
 Y saint o gylch yr orsedd fry !

Ymgysured y perth'nasau
 Oll yn addewidion Duw ;
 O genedlaeth i genedlaeth,
 Ffyddlon, dianwadal yw ;
 Mae ei lygaid ef yn gwylio
 Dros y weddw, a'r plant i gyd,
 Ac fe wylia nes daw'r adeg
 Cyd gyfarfod mewn gwell byd.

ENGLISH DEPARTMENT.

REMINISCENCE OF REV. JAMES DAVIES.

BY B. W. CHIDLAW, M. A.

Forty years ago, during a visit to Wales, it was my pleasure to know the late Rev. James Davies, of Llanfair. In referring to my journal I find the following: "June 29th, 1835.—Preached at Mivod at 10 A. M., at Main, 3 P. M., and at Llanfair in the evening. On the way, I was met by the pastor, Rev. James Davies. We rode together several miles, talking of the kingdom of Christ. The chapel was crowded; Bro. Davies opened the services; his prayer was remarkable for its pleadings and pathos. My soul was blessed and strengthened for the duty before me."

I found Bro. Davies full of life and devotion to the work of the ministry. On his field of labor he occupied the position, doing the work of a bishop in the apostolic sense. I preached in all of his chapels and school houses, in the vales and on the mountain sides, where I found large congregations and excellent Sabbath Schools. In the oversight of this wide field he performed immense labor, is greatly esteemed by the people, and honored of God in building up the cause of Christ.

I also find in my journal: "July 7th.—I went with Bro. Davies to Bwlch-y-ffridd, to the ordination of Rev. Mr. Davies, late of Carmarthen Theological School. The ministers present were Dr. D. Morgan, Machynlleth; Roberts, Llanbryn-mair; Williams, Dinas; Morgans, Poole; Owens, Sarnau; Davies, Llangollen; Jones, Ministerley; Dr. Davies, Newtown; Morgan, Samah; Davies, Llanfair, and ten students from

Newtown. Morgans, of Poole, delivered an address on the Constitution and Order of a Dissenting Church. Davies, Llanfair, delivered a charge to the young pastor, founded on 2 Tim. 4: 5. It was plain, practical and impressive; it came from the heart, clothed in Bible language, and it reached the heart of his hearers. Dr. Morgan's charge to the people, founded on 1 Cor. 16: 10, was worthy of the great preacher, the profound scholar and the occasion."

When a youth, and a stranger in a distant land, the cordial welcome, the genial friendship and the Christian society of Bro. Davies did me great good. His energy was an inspiration, his example in the pulpit and out of it a model, and his warm friendship a cement binding my heart to his when the ocean rolled between us. Many years afterwards, it was my happiness to greet him and his dear family on their arrival at Cincinnati, and to see much of him until his death, ripe in age, usefulness and meetness for the eternal inheritance. The impressions produced on my mind, when in Wales, in regard to Bro. Davies as a man, a Christian and a minister were deepened in my riper years, and by a more intimate knowledge of his personal character and ministerial labors. His sermons were carefully prepared, sound in doctrine, eminently scriptural and practical. His retentive memory was a vast storehouse of the sacred text. Few men used so much of the Bible in their discourses. The *verbatim* language and illustration of the Scriptures he always and freely used to the edification and instruction of his hearers. This was one of his peculiarities. He knew the Bible, and used his knowledge, giving strength and power to his pulpit labors. He was a man of great endurance, and abounded in labor. He made many appointments, and never failed to meet his engagements. He never disappointed a congregation. In Wales he was a leader in the cause of Sabbath Schools and Bible teaching, and his early intent remained to the years of age. In the church meetings, the religious confer-

ence and the weekly prayer meetings, he was always present full of life, cheer, and a rich spiritual blessing. The last year of his life he would frequently walk two or three miles to attend prayer meetings in the dwellings of the Radnor congregation, and always led the devotions of the people with earnest intent and spirituality. At the "Cymanfa," both in Wales and in this country, James Davies was the eminent preacher and the wise counselor. His preaching was with power and produced marked results on the congregations that heard with gladness the "words of this salvation" gushing from his sympathetic heart and eloquent lips.

" Servant of God ! well done !
Rest from thy loved employ ;
The battle fought—the victory won,
Enter thy Master's joy."

LETTER TO A YOUNG MAN.

RADNOR, DELAWARE Co., O., *Aug. 17, 1866.*

MY DEAR YOUNG FRIEND :

I have often thought of your spiritual condition and prospects, and have frequently made you and other young men special subjects of prayer. You are a member of our Sabbath School and a regular attendant upon the prayer meeting. You unite with us in singing God's praise, and are constant in your attendance at the preaching services. You have enjoyed peculiar privileges. It grieves me deeply to see you and many others neglecting to consecrate yourselves to the blessed Redeemer who died for you. I have no doubt but that you are convinced of your great need of a Saviour, for you have made this confession to me. You feel at times a desire to be a follower of Jesus Christ ; you know that he is worthy of your service. It may be that you regard yourself as unworthy, and fear that you would not be able to persevere in the re-

ligious life ; perhaps you are waiting for deeper conviction, or a more convenient time, or that you are young enough yet. I write this letter in the hope that it may be divinely blessed to banish all these excuses, and bring you to an immediate surrender of yourself to the blessed Saviour.

Consider how great an honor it is to be a follower of Jesus Christ in the morning of life. Abijah was the son of a wicked king, living in the midst of a wicked and perverse generation, yet in him "there was found some good thing toward the Lord God of Israel." 1 Kings 14: 13. That young man lived under peculiar disadvantages in such an ungodly family. You are quite differently situated ; there are no family obstacles in your pathway ; you have Christian parents to advise and pray for you ; and, Oh, how it would rejoice their hearts to see you uniting yourself with God's people, and making a public profession of your faith in Christ as your Saviour. Oh, that you would seriously consider your many advantages, and fall in with the offers of mercy without delay. How many young men are now in everlasting perdition who would willingly give ten thousand worlds for an opportunity of hearing one more sermon or spending one more Sabbath ; but it is forever too late, all is lost ; they have sinned away their day of grace ; they have frittered away the golden opportunities of being saved. Josiah, the king of Israel, was another illustrious example of early piety ; "For in the eighth year of his reign, while he was yet young, he began to seek after the God of David, his father." 2 Chron. 34: 3. It is greater honor for a young man to conquer sin, and Satan, and his own lusts than, like Alexander, to have conquered the whole world ; godliness is the only road to true greatness. My dear friend, "Exalt her and she shall promote thee." Prov. 4: 5. Christ loved poor sinners and gave himself for them in the prime of life, and will you delay to enter his service until old age shall overtake you ?

It is easier to become a Christian early in life than

in old age. You have fewer sins to repent of; the heart is more susceptible to religious truths; the will is less stubborn, and the faculties of the mind more plastic—there is but a step now between you and the kingdom. Multitudes of sins and sorrows are prevented by early piety. Among many things for which Beza gave thanks, in his last will, the first and chiefest was, that at the age of sixteen he gave himself to the Saviour, and so prevented many sins and sorrows that otherwise would have overtaken him and made his life miserable. Remember that time is precious, and for the right use of it you must account to God. I have read of a devout man who, when he heard the clock strike, would say: "There is one hour gone for which I must answer." Time is swift and soon flees away. Job 9: 25. An eternity of felicity and glory hangs upon the few moments allotted to you. Do not be allured by the halo of some better time in the future; the present is the only time you are sure of; the past can not be recalled, and the future is uncertain and may never be yours. "To-day, if you will hear his voice, harden not your hearts." Heb. 3: 15. Felix, though almost persuaded to be a Christian, permitted the opportunity to pass away, and it probably never returned. Do not neglect the day of grace; let not Satan keep your soul and Christ asunder any longer.

Early piety will give the greatest comfort and joy to old age. "Thou art my hope, O Lord God, my trust from my youth." Obadiah could say that he feared the Lord from his youth. There are no consolations, or joys, or comfort to the aged like those of religion; when your eyes become dim, and your step tottering, then his "rod, and his staff shall comfort you."

The promise of finding God is made to those that seek him early. "I love them that love me, and those that seek me early shall find me." Prov. 8: 17. "Remember now thy Creator in the days of thy youth." Eccles. 12: 1. The time of youth is the fittest time for service. Now your faculties are lively and vigorous,

you are full of hope and strength, you are in the prime and vigor of your young life ; consecrate all this vigor, and hope and strength to the service of God ; begin now to serve him, for those that enter his service in youth become the brightest and the most useful Christians ; and they will accomplish the most for Christ and the world ; those that do the most good shall receive the greatest reward : “ And they that be wise, shall shine as the brightness of the firmament, and they that turn many to righteousness, as the stars for ever and ever.” Dan. 12:3. If you are not converted now, the probabilities are that you never will be ; for very few are converted in old age ; if the tree does not bud and blossom in spring time, it is very probable that it never will. True repentance is never too late, yet late repentance is seldom true ; thousands of the lost flattered themselves with the thought of future repentance. There is every encouragement for you to seek the Saviour and to serve him ; to believe, obey and love him. “ In him is life, and the life is the light of men.” John. 1 : 4. He is mighty to save, he is ready and willing to receive you, and his grace is sufficient for you.

Finally, my dear friend, let me urge upon you the duty of immediate repentance ; do not put off this great and important work ; the Saviour calls you, the invitations of the gospel are calling aloud, your own spiritual condition calls, the Spirit and the bride say, Come ; the happiness and blessedness of glorified saints call upon you to make sure a glorious eternity. Will you read and ponder these truths, written to you by one who has a special interest in your soul's salvation.

JAMES DAVIES.

THE PLEASURES OF RELIGION.

“ Her ways are ways of pleasantness, and all her paths are peace.”
—PROV. 3 : 17.

This chapter is one of the most excellent in the book of Proverbs ; rich and full in advices and directions as to the manner of getting wisdom or piety.

1. *We must find it.*—We must search for it as for hidden treasure. “Happy is the man that findeth wisdom.” Ver. 13. Religion must be made the chief object of pursuit; it must be our main business in life; it must occupy the best of our thoughts and time and talents. We must be willing to part with all for it; “For the merchandise thereof is better than the merchandise of silver, and the gain thereof than fine gold.” Ver. 14. It is the pearl of great price.

2. *We must lay hold on it*—grasp it with avidity and with earnestness. “She is a tree of life to them that lay hold upon her.” Ver. 18.

3. *We must retain it.*—“Happy is every one that retaineth her.” Ver. 18. We must do all in our power to revive and restore the declining interest in religion in our own hearts and in the community in which we live: Happy is the man that findeth wisdom—a transcendental happiness, greater than can be found in all the wealth or honor this world can bestow. She is more precious than rubies, “and all things thou canst desire are not to be compared to her.” Ver. 15. Religion has an affluence of blessing. “Length of days is in her right hand, and in her left hand riches and honor.” Ver. 16. “Her ways are ways of pleasantness, and all her paths are peace.”

I. LET US NOTICE SOME OF THE PRINCIPAL WAYS AND PATHS OF GENUINE RELIGION.—Dr. Buddington thus defines it: “Religion consists in the surrendering of the will to God’s will; to avoid whatever we are persuaded he would disapprove; to dispatch the work he has assigned us in life, and to promote his glory in the happiness of the world.”

1. *The way of repentance toward God*; which signifies an after-thought, or the soul recollecting its own actions, which produces conviction of sin, sincere sorrow for it, full and free confession of it; intense hatred to it, and a thorough and cheerful renunciation of it. The way of repentance must be traveled by all. “Repent ye, therefore, and be converted.” Act 3: 19. “And

except ye repent, ye shall all likewise perish." Luke 13: 3. Repentance was the grand theme of the ministry of John the Baptist. Christ and his apostles also preached upon it, giving it great prominence in their ministry. And from this we infer its prime necessity to the salvation of men. The time to repent is the present life. "Seek ye the Lord while he may be found, call ye upon him while he is near." Is. 66: 6. And the author of repentance is God; "He gives repentance to Israel and forgiveness of sins." Acts 5: 31.

2. *The way of faith in Christ.*—"Believe on the Lord Jesus Christ, and thou shalt be saved." Acts 16: 31; Phil. 1: 29; Heb. 12: 2. Saving faith is that gracious quality, principle or habit wrought in the heart by the Spirit of God, whereby we receive Christ, and rest on him alone for salvation; faith is the hand of the soul to hold Christ and work holy obedience. The lowest degree of saving faith is of the same saving quality as the strongest, and will always continue operative, for it is "the seed of God which will abide for ever." Faith may be said to justify us in the same sense that the hand feeds us—instrumentally; faith is the instrument of justification. God's promises are the life of faith, and if nothing is too hard for God, nothing that is promised is too high for faith. God says to each of his people, "I am thy salvation;" faith responds, "Thou art my God." This interlocking of faith and omnipotence, of man and his Maker, renders certain the final salvation of every true believer. "He that believeth on the Son hath everlasting life." John 3: 36.

3. *The way of voluntary submission to the will of God.*—"Take my yoke upon you and learn of me." Math. 11: 29. This implies self-denial. "If any man will come after me, let him deny himself, and take up his cross and follow me." Math. 16: 24. It implies also an utter divorcement from all sin. "What have I to do any more with idols?" Hosea 12: 8. This submission to the will to God is a personal work.

Rom. 12: 1; a present duty; "Come now and let us reason together." Is. 1: 18. "Behold now is the accepted time," and a constant duty. Be thou faithful unto death.

4. *The way of prayer and holy meditation.* These are dual forces, working together in the promotion of our religious life. Nothing can be more reasonable and in harmony with our relations to God than the exercise of this duty. The injunction of the Redeemer is "that men ought always to pray and not to faint." Luke 18: 1. God has ordained prayer as a means for the reception and enjoyment of all religious influences. All the godly walk in this road. "For this shall every one that is godly pray unto thee in a time when thou mayest be found." Ps. 32: 6. Christ has made the way of approach to God in prayer open to all the world. "Now we have boldness to enter into the holiest by the blood of Jesus." Heb. 10: 19, 20. And the Holy Spirit helps us to travel this road, "for we know not what we should pray for as we ought, but the Spirit itself maketh intercession for us." Rom. 8: 26. A Christian has matter enough for sweet communion with God to wear out time, and to fill up eternity. The longer this duty is neglected the more difficult it is of accomplishment, partly because of shame for the neglect, and partly because of the difficulty of its performance; let us continue instant in prayer.

5. *The way of practical holiness and public usefulness.*—Our holiness consists in our suitableness to the nature of God; hence saints are made partakers of the divine nature. 2 Peter 1: 4. Not partakers of his essence, for this is Pantheism—a monstrous delusion—but partakers of his image; they love what he loves, and hate what he hates. God's nature is the pattern of holiness, and his will the rule of holiness. Our chief aim in life should be to "put on the new man, which after God is created in righteousness and true holiness." Eph. 4: 24. God's grand design in the world is to make man like himself; the end of all

God's ordinances and promises is to foster and encourage holiness. God's purpose in sending his Holy Spirit is "to anoint us with the holy unction." 1 John 2: 20. The end of all our afflictions is to make us holy; but "he chastens us for our profit, that we might be made partakers of his holiness." Heb. 12: 10. And the end of Christ's death is to make us holy. "Who gave himself for us that he might redeem us from all iniquity and purify unto himself a peculiar people." Titus 2: 14. This spirit of holiness is the grand distinguishing character of God's children. "And let every one that nameth the name of Christ depart from iniquity." 2 Tim. 2: 19. Holiness is the chief ornament of the Christian; without it his beauty becomes deformity, and his strength weakness. Practical holiness produces and promotes public usefulness. "Let your light so shine before men that they may see your good works and glorify your Father who is in heaven." Math. 5: 16. And the way of holiness leads to heaven. "The pure in heart shall see God." Math. 5: 8; Rev. 22: 14.

II. THE HIGH COMMENDATION OF RELIGION.—Pleasantness and peace. But the wisdom that is from above is first pure, then peaceable, gentle, and easy to be entreated; full of mercy and good fruits, "without partiality and without hypocrisy." James 3: 17. "Godliness is profitable unto all things, having a promise of the life that now is, and of that which is to come." 1 Tim. 4: 8.

1. *It enables all its subjects to answer the chief end of their creation; to glorify God and to enjoy him forever.* Rom. 6: 22.—It converts all the faculties of the soul to their original purpose and design. "This people have I made for myself, they shall show forth my praise." This is genuine pleasure and peace; this is the only legitimate employment of the soul; there is no real pleasure in sin; there is in it no substantial satisfaction. Stripped of its mirage there is nothing left but guilt, and terror, and shame. But O, what in-

expressible pleasure, what ineffable joy and peace does religion afford! "Her ways are ways of pleasantness, and all her paths are peace." "They shall be abundantly satisfied with the fatness of thy house." Ps. 36: 8.

2. *Religion elevates man's nature to the image of God.*—It sets the heart and its affections on things in heaven. "But our conversation is in heaven." Phil. 3: 20. While others are trading for trifles, the gracious soul is trading with God for pardon and peace, for righteousness and life, for glory and immortality. Our fellowship is with the Father, and with his Son, Jesus Christ. 1 John 1: 3. Religion adorns the soul with incomparable ornaments; even the ornaments of a meek and quiet spirit, which is in the sight of God of great price. 1 Peter 3: 4.

3. *Religion is the only preservation from sin and its thralldom.*—Native force of will, family pride, the restraints of good society, the fear of punishment, natural godness of heart, the most careful training, the most refined culture, all these will yield to the force of temptation. Religion is the only solid and permanent basis for the building up of a substantial character; all other ground is sinking sand. "It is a good thing that the heart be established with grace." Heb. 13: 9.

4. *Religion leads to the full enjoyment of endless happiness.*—He shall enter into peace. Is. 57: 2. Where sin and sorrow, afflictions and death, shall never come. Oh! happy day, when will it dawn? We infer:

1. If religion is so precious and delightful to its possessor, it is the duty of all to seek it; let us cry after knowledge, and lift up our voice for understanding. "Seek her as silver, and search for her as for hidden treasures." Prov. 2: 3, 4; "for wisdom is the principal thing; therefore get wisdom; and with all thy getting get understanding." Prov. 4: 7, 8.

2. If there is so much pleasure and peace in the ways and paths of religion in this world, what shall be the full and perfect fruition in heaven? "For eye hath

not seen, nor ear heard, neither have entered into the heart of man the things which God hath prepared for them that love him." 1 Cor. 4: 9.

GOD NOT THE AUTHOR OF MAN'S RUIN.

"Behold, the Lord's hand is not shortened, that it can not save; neither his ear heavy, that it can not hear: But your iniquities have separated between you and your God, and your sins have hid his face from you that he will not hear."—ISAIAH 59: 1, 2.

These words were written and sent as a *Circular Letter* to the Jews in Babylon, to reveal to them the cause of their captivity, and induce in them, if possible, a spirit of repentance. The cause which led to their banishment was the sin of *idolatry*; a sin that was exceedingly heinous in the sight of God, because of his marvelous kindness towards them, and the frequent and remarkable demonstrations of his power in their behalf throughout so many generations. Observe: The history of God's dealings with his people demonstrates the truth that God can not tolerate sin in his children without rebuke any more than in the unconverted. From the words of the text I shall attempt

I. TO MAKE IT EVIDENT THAT THERE IS NOTHING ON THE PART OF GOD OPPOSED TO THE SALVATION OF SINNERS.—"His hand is not shortened, neither his ear heavy."

II. THAT THE ETERNAL RUIN OF SINNERS IS ENTIRELY THEIR OWN WORK.—"But your iniquities have separated between you and your God."

III. THE IMPORTANCE OF PUBLISHING THESE GREAT TRUTHS TO THE WORLD.—"Behold," &c. But

I. THAT THERE IS NOTHING ON THE PART OF GOD OBSTRUCTING THE SALVATION OF SINNERS.—If any sinner should ask sincerely and seriously: "Can a sinner like me be saved?" To such I would answer, Yes.

1. *That all the obstacles to salvation are removed.*—The way to life everlasting is now open. The hindrances to man's salvation were two-fold. On the part of God this obstacle, however, was not a lack of disposition to save man, for He is infinite in compassion. God is love; but the want of just and honorable medium for the expression of mercy, a medium through which He might maintain the dignity of his moral government, and, at the same time, manifest clemency towards those guilty of rebellion. This, king Darius, failed to find when he had set his heart to save Daniel, though he labored till the going down of the sun. God looked into his own fold, and there found a Lamb for a burnt-offering in the person of his own Son, whom he made a propitiation for our sins, and for the sins of the world. In the atonement of Christ all the obstacles were removed; the law is magnified and made honorable. God proclaims himself able, ready, and delighted to save. "He has a Sabbath in his love, and joys over sinners with singing." Zeph. 3: 17. "God is in Christ reconciling the world unto himself, not imputing their trespasses unto them; and hath committed unto us the word of reconciliation."

The obstacle on the part of sinners is enmity of the heart against God—an unwillingness to be saved in the way of God's appointment. Means and agencies have been provided to remove this obstacle, too. The atonement of Christ is the first. This exhibition of the infinite love of the Redeemer is adapted to soften the hardest heart, and to subdue the most stubborn will. One look of Jesus melted Peter to tears; yet to be effectual, its blessings must be appropriated. Christ says: "I am come that ye might have life;" but in another place mournfully complains, "And ye will not come to me, that ye might have life." The second agency is the Gospel ministry as a system of motives. Faith comes by hearing, and faith receives its testimony, and closes with its offers. The Gospel is the hammer to break the rock, the net to catch the souls

of men, the cord to draw enemies to God. The influence of the Holy Spirit is the third agency, and forms the necessary connection in the chain of means, and without which all others would be ineffectual. "For it is God that worketh in you both to will and to do." Phil. 2: 13.

2. *All the means necessary for the recovery of man are contained in the Gospel of the blessed God.*—All things are now ready. God, the Father, the Son, and Holy Spirit are ready and waiting to be gracious; the angels are ready—are they not all ministering spirits, sent forth to minister for them who shall be heirs of salvation? Every blessing is provided. Christ is made unto us wisdom, and righteousness, and sanctification, and redemption. God hath blessed us with all spiritual blessings in heavenly places in Christ. Forgiveness is freely offered. "There is forgiveness with Thee that thou mayest be feared." Adoption into God's family is another inestimable spiritual benefit conferred upon the penitent. "Behold what manner of love the Father hath bestowed upon us, that we should be called the sons of God!" Boldness at the throne of grace in prayer is another privilege granted. Heb. 4: 16; 10: 19, 20, 21. "And a kingdom prepared for them that love Him, an inheritance incorruptible, undefiled, and which fadeth not away."

3. *God lovingly invites all men to avail themselves of the rich promises of his mercy.*—"A certain man made a great feast, and bade many." The Gospel call is universal, without respect to social position, or intellectual qualities; none are excluded from its benefits; "As many as you find, bid to the marriage. Hear the sublimely expressive language of this vocation. "Look unto me and be saved, all the ends of the earth." What more inspiring to those "that labor and are heavy laden?" The great commission is, "preach the Gospel to every creature," and "whosoever will, let him take of the water of life freely." All are invited to Christ, because "He tasted death for every man."

A great multitude has actually been saved. Many sons were brought to glory before the Captain of our Salvation was made perfect through suffering. Heb. 2: 10; and those were but the first-fruits of the great incoming harvest. "The heathen have been given him for his inheritance, and the uttermost parts of the earth for his possession." Ps. 2: 8.

4. *The salvation of sinners is the central point of the glory of God's perfections.*—"Mercy and truth are met together, righteousness and peace have kissed each other." Ps. 85: 10. The natural attributes of God all meet in active union and cooperation in order to accomplish the salvation of lost sinners. This grand union of mercy and truth, righteousness and peace, omnipotent power and infinite love, furnishes the most amazing display of moral forces ever presented in God's universe; and the crowning glory and wonder of all is that they are concerned chiefly and unceasingly in the restoration of the lost children of Adam to God's love and favor!

II. THE FINAL PERDITION OF SINNERS IS ENTIRELY THEIR OWN WORK.—"But your iniquities have separated between you and your God, and your sins have hid his face from you."

1. *That iniquity and sin are the sole and peculiar property of the sinner himself.*—God has no active agency in the production of moral evil. "Let no man say when he is tempted, I am tempted of God; for God can not be tempted with evil, neither tempteth he any man." James 1: 13. It is true God *permitted* sin to enter our world for some wise and mysterious purpose, yet it is gross injustice and a positive insult to ascribe sin directly or indirectly to God, to his decrees or providence. It proceeds entirely from our own "evil hearts of unbelief, in *departing* from the living God."

2. *That the invariable tendency of sin is to separate man from his Maker.*—Man can not, however, be separated from the omniscience and omnipresence of the Al-

mighty, nor can sin sever the relations we sustain to him as subjects of his moral government; but it separates us from peace and communion with God, from the house and ordinances of God, and will finally, if persisted in, separate us eternally from heaven.

3. *That God will surely manifest his displeasure against sin.*—The death of the Redeemer of the world on Calvary was the clearest manifestation, and the most emphatic expression of God's estimate of sin, and his abhorrence of it. This punishment of sin in a Surety opened a way of escape for the guilty, and he may be saved by faith in His name, coupled with true repentance and a thorough reformation. "Whosoever believeth on him shall not perish, but have everlasting life." God's displeasure against sin will also be signally manifested in the everlasting punishment of the wicked; in their banishment from his presence, in the glorious home "which was prepared for his people from the foundation of the world."

III. THE GREAT IMPORTANCE OF PUBLISHING THESE TRUTHS TO THE WORLD.—"Behold," &c. This will appear if we consider that it was necessary

1. *In order to the vindication of the two-fold character of God as the "Judge of all the earth," and the "God of all grace."*—And also in order to unfold the true position and character of man, as an accountable subject of God's moral government, and an unworthy recipient of his free grace.

2. *In order to show the relations existing between man and God, and the duties resulting therefrom.*—The duty of supreme love to God, of cheerful obedience to his laws, of implicit confidence in his character, and earnest effort in his service.

3. *In order to a clear view of the glory of the way of salvation.*—In the light of these truths alone can we see the wonderful wisdom, the unspeakable preciousness, and infinite grace of redeeming love as displayed in the plan of salvation. "For by grace are ye saved,

through faith, and that not of yourselves, it is the gift of God."

4. *In order that we may attribute all the praise unto God as the author of our salvation.*—"Not unto us, O Lord, not unto us, but unto thy name give glory, for thy mercy and for thy truth's sake;" and also that we may see that we are the sole authors of our own destruction. "O, Israel, thou hast destroyed thyself."

5. *In order to a right understanding and proper appreciation of doctrinal and practical religion.*—It is important that we should know the truth as it is in Jesus. Let us learn

1. The deplorable condition of an unconverted sinner—separated from God.

2. The adaptation of the means found for his reclamation.

3. The strong encouragement herein offered us to turn unto the Lord. "Behold the Lord's hand is not shortened, that he can not save, neither his ear heavy that it can not hear." Let us pray God to stretch forth his hand to save. Amen.

CAWELLAID O FAN SAETHAU EI FWA.

 DIOGELWCH YR EGLWYS.

“A'r Arglwydd a grea ar bob trigfa o fynydd Seion, ac ar ei gymanfaoedd, gwmwl a mwg y dydd, a llewyrch tân fflamlyd y nos: canys ar yr holl ogoniant y bydd amddiffyn.” Esa. 4: 5. Gogoniant yr eglwys ydyw ei rhinweddau, ei santeiddrwydd, ei hundeb, a'i gweithgarwch. Mae ei gelynyon yn eiddigeddu wrthi o'u herwydd, ac yn ceisio ei hysbeilio o'r gemau dymunol yna, ond ni lwyddant; “canys ar yr holl ogoniant y bydd amddiffyn.” *O Dduw y mae ei diogelwch.* “A'r Arglwydd a grea ar bob trigfa, gwmwl a mwg a llewyrch tân fflamlyd.” *Bydd yn ddiogel yn ei holl ranau.* “Efe a grea ar bob trigfa, ac ar ei gymanfaoedd.” *Bydd yn ddiogel yn mhob cyfnod hefyd.* “Cwmwl a mwg y dydd, a llewyrch tân fflamlyd y nos.” *Bydd ei holl addurniadau a'i thrysorau yn ddiogel.* “Canys ar yr holl ogoniant y bydd amddiffyn.” Yr arch a'r drugareddfa—y crochan aur a'r manna—a holl lestri ty yr Arglwydd yn eu lle. Dim un i gael ei gario i Babilon.

 LLAFUR ENAID A GWOBR CRIST.

“O lafur ei enaid y gwel ac y diwellir.” Esa. 53: 11. Mae yr ymadrodd “llafur enaid” yn rhoddi ar ddeall i ni fod pwysfawredd annrhaethadwy yn yr hyn a wnai. Ymddiriedesid anrhydedd y llywodraeth, gogoniant ei Dad, condemniad pechod, ac achubiaeth dynion i'w gadwraeth Ef fel cyfryngwr. Ond er trymed y dasg, efe a'i cyflawnodd er perffaith foddlonrwydd. Fel ffrwyth ei lafur, gwel awdurdod y gyfraith ddwyfol yn cael ei gynnal i fyny a'i barchu; gwel elynion Duw yn ymostwng tano, o herwydd ei saethau llymion yn glynu

yn eu calonau; gwel ei eglwys wedi ei santeiddio yn gwbl oll—heb fod arni frycheuyn na chrychni. Sicrheir ni o hyn, gan berffeithrwydd yr aberth a roddodd, a'r tystiolaeth cymeradwyol o hono. Gan ffyddlondeb i'r addewidion a wnaeth i'w Fab, Efe a edrycha ar y cyf- amod, ac a rydd dywyll leoedd y ddaear iddo—gan eiriolaeth y Gwardwr yn y nef.

CRIST YN CURO WRTH DDRWS Y GALON.

“Wele yr wyf yn sefyll wrth y drws, ac yn curo. Os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn ato ef, ac a swperaf gydag ef, ac yntau gyda minau.” Dat. 3:20. Mae y meddyliau canlynol yn codi yn naturiol o'r geiriau tarawiadol uchod. *Fod gan yr Arglwydd Iesu neges bwysig at bechadur i beri iddo ymddangos yn yr agwedd a ddynodir wrth ddrws y galon.* Nid anfonodd ei Yspryd atom, ac ni ddarostyngodd ef i gael ei wrthwynebu, ei ddiffodd, a'i ddifenwi gan ddynion, heb fod ganddo ryw ddyben teilwng. Beth ydyw yr amcan? Gwneyd calon newydd, calon lan, calon dyner o gig o'r un galed, halogedig, a mwy ei thwyll na dim. *Mae yn awyddus i wneyd hynny arni.* Gwelir hynny yn ei agwedd; *sefyll y mae*, nid gorwedd yn ddiatater. *Mae yn curo hefyd.* Arfera foddion i'w cymell i agoryd, defnyddia wahanol oruch- wyliaethau ei ragluniaeth i beri iddynt ddeall nad ydyw nepell oddiwrthynt. Cura weithiau trwy gys- tuddiau personol, a phryd arall trwy anfon cenad angau i gymeryd ein rhai anwyl o'n mynwesau. *Mae yn ar- fer rhesymau hefyd gyda hwynt i'w perswadio i agor- yd.* Sicrha hwynt ei fod yn dyfod mewn hedd a chariad atynt, ac nid fel gelyn—o ganlyniad nad oedd achos iddynt gadw y drws yn folltiedig yn ei erbyn; ac heblaw hynny *mai nid dod yno i fod yn bwysau arnynt yr oedd*—nad oedd wedi dod yn waglaw, ac na byddent ar eu colled o agoryd iddo. Mae yr Iesu, meddwn, yn dweyd hynny wrthynt er eu tueddu i agoryd iddo: “Os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i

mewn ato ef, ac a swperaf gydag ef, *ac yntau gyda minau.*” O, fawredd ei ymostyngiad a'i raslonrwydd yn hyn! Brysiwn agoryd iddo; rhoddwn groesaw calonog ac *ebrwydd* iddo. Nid erys yn hir. Sefyll y mae. Mae perygl y clywir Ef yn dywedyd, “ Af a dychwelaf i'm lle.”

GLYNU YN EIN PROFFES.

“Gan fod wrth hynny i ni Archoffeiriad mawr, yr hwn a aeth i'r nefoedd, Iesu Mab Duw, glynwn yn ein proffes.” Heb. 4 : 14. Prif amcan yr Epistol at yr Hebraid yw dangos rhagoriaeth yr oruchwyliaeth hon ar yr un a fu o'i blaen. Gwneir hynny trwy alw sylw at uchafiaeth Crist ar yr angylion—mai. ysprydion gwasanaethgar ydynt hwy—na ddywedodd y Tad wrth yr un o honynt hwy am eistedd ar ei ddeheulaw, a'i fod wedi erchi yn bendant iddynt addoli y Mab. Hefyd ei fod uwchlaw Moses, pen a chynrychiolydd yr oruchwyliaeth seremoniol. Bu Moses yn ffyddlon *megys gwas*, er tystiolaeth i'r pethau oedd i'w llefaru; eithr Crist, megys *Mab ar ei dy ei hun*. Y cymwysiad o'r ymresymiad yna yw hwn—Gan fod ein breintiau ni yn rhagori, y dylem ninau eu mawrhau yn gyfartal—gwneyd y defnydd goraf o honynt, a “*glynw yn ein proffes*” (1.) *Glynwn yn egwyddorion ac athrawiaethau yr Ysgrythyrau*. Na huder ni gan gyfeiliornwyr a waeddant, “Llyma Grist neu llyna.” Glynwn mewn ymarweddiad addas i'n proffes; glynwn yn gyson gyda'n dyledswyddau; daliwn yn ofalus ein harchwaeth at bethau crefydd. Gwrol ymdrechwn hyd y diwedd o blaid y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint. Na foed i ni droi ein cefn ar ein Blaenor yn nydd y frwydr. Mae genym anogaethau cryfion i lynu yn ein proffes. *Yn urddasrwydd yr Archoffeiriad*—“*Archoffeiriad mawr.*” Mae undeb rhyngddo a ni —“gan fod i ni Archoffeiriad.” *Pwysigrwydd y gwaith a gyflawna trosom*—aberthu ac eiriol. Oblegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw aner wedi ei daenellu ar y

rhai a halogwyd yn santeiddio i bureiddiad y cnawd, pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr Ys-
 pryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i
 Dduw, buro eich cydwybod oddiwrth weithredoedd
 meirwon? *Ardderchawgrwydd y lle y mae Efe, ac
 uchder ei sefyllfa yno, "Yr hwn a aeth i'r nefoedd."*
 Glynwn ynte ynddo o lwyrfryd calon.

 DWFR I'R SYCHEDIG.

"Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed." Ioan
 7:37. Ystyrier y calondid sydd yn y geiriau i enaid
 tlawd i geisio iachawdwriaeth trwy y Cyfryngwr. *Yr
 Iesu a safodd i fyny i wneuthur y gwahoddiad.* Ys-
 tyr ei enw yw Gwardwr. Felly mae cefnogaeth yn
 llythyrenau ei enw, ac mewn gwir adnabyddiaeth o'i
 gymeriad. *Ar y dydd olaf o'r wyl y rho'es y gwahodd-
 iad*—er eu bod wedi gwrthod ei garedigrwydd o'r
 blaen, ac wedi ei anmharchu cyhyd, nid oedd eto wedi
 eu rhoddi i fyny. *Mae yn arferyd taerni mawr.* "Efe
 a lefodd, gan ddywedyd, Od oes ar neb syched, deued
 ataf fi, ac yfed." Teimlai yn ddwys tros eu truenus
 gyflwr, a dymunai eu hachub. *Mae y gwahoddiad yn
 rhydd a chyffredinol.* "Od oes ar neb syched, deued
 ataf fi ac yfed." Pob gradd, pob oedran, a phob cym-
 eriad; a phwy bynag a ddel, nis bwriaf ef allan ddim.
 Felly nid oes achos i neb anobeithio. Os yw yr anwir-
 edd yn fawr, mae yr Iawn yn fawr hefyd.

 TYWALLTIAD YR YSPRYD, A'I EFFEITHIAU.

"A thywalltaf ar dy Dafydd, ac ar breswylwyr Jeru-
 salem, yspryd gras a gweddiau; a hwy a edrychant ar-
 naf fi yr hwn a wanasant, galarant hefyd am dano fel
 un yn galaru am ei uniganedig, ac ymofidiant am dano
 ef megys un yn gofidio am ei gyntafanedig," &c. Zech.
 12:10, 11, 12, 13, 14. Mae yn yr adnodau fendith
 werthfawr yn cael ei haddaw—"Yspryd gras a gweddi-
 au." Mae angen mawr am dani i'n cadw rhag ffurfiol-

deb ac esmwythdra pechadurtis gyda chrefydd. Duw sydd yn ei haddaw, ac ni fedd arall y dylanwadau angenrheidiol a chyfaddas i hyny. Addawa roddi yn hel-aeth, ac mewn dull nad ellir ei atal i gyflawni ei fwr-iadau grasol tuag at ei eglwys: "Tywalltaf ar dy Dafydd, ac ar breswylwyr Jerusalem." Effeithiau an-foniad yr Yspryd a fydd: Tristwch duwiol am bechod, wedi agoriad llygaid yn edifeiriol gan Yspryd Duw i weled ei fawr ddrygedd yn angau y groes. Galar dwys a gwasgedig, fel galar am uniganedig a chyntafanedig. Weithiau nid yw galar plant ar ol eu rhieni mor dost; ond, O, mae tristwch mam ar ol ei chyntafanedig yn annrhaethadwy. Felly y bydd y galar hwn. Bydd yn alar teuluaidd a neillduol—pob teulu wrtho ei hun yn rhodio yn alarus. Mae crefydd yn beth personol a theuluaidd, yn gystal a chymdeithasol yn nhy yr Ar-glwydd, i gyraedd y llys a'r orsedd, yn gystal ar bwth-yn tlawd. Ty Dafydd a phreswylwyr Jerusalem—ty Levi, a thy Simeï. Bydd yn gyffredinol hefyd. "A'r wlad a alara, a'r holl deuluoedd eraill." Mae miloedd i ddod ar ddarfod am danynt at Grist y Gwardedwr, yn wir. Mae y gronyn gwenith a syrthiodd i'r ddaear yn ngwlad Judea, ac a fu farw, i ddwyn ffrwyth lawer.

Y LLWYDDIANT MAWR A FYDD AR GREFYDD.

"Pwy yw y rhai hyn a ehedant fel cwmwl, ac fel colomenod i'w ffenestri?" Esa. 60 : 8. Duw sydd wedi datguddio i'w was yma y dylifiad a fydd yn y dyddiau diweddaf i'w eglwys. Dysgir colomenod gan reddf i chwilio am gysgod o flaen tymestl. Mae Yspryd Duw, trwy argyhoeddiad, yn tueddu pechaduriaid i ffoi at Grist am nodedd rhag y llied a fydd. "O, na byddai i mi adenydd fel colomen! yna yr ehedwn ymaith, ac y gorphwyswn. Brysiwn i ddianc rhag y gwynt ystorm-us a'r dymestl." *Pa fodd y deuant?* "Fel cwmwl." *Mae llawer o fan ronynau mewn cwmwl.* Pobloedd lawer, a chenedloedd cryfion a ddeuant i geisio Ar-glwydd y lluoedd yn Jerusalem, ac i weddio ger bron

yr Arglwydd. Ond er mor lluosog, *byddant oll yn un*—fel cwmwl—neb yn tynu yn groes, neb yn eiddigeddu wrth nac yn athrodi arall. Ephraim wedi peidio a chenfigenu wrth Juda, a Juda wedi peidio a gorthrymu ar Ephraim. Partïol farn, a rhagfarn tan draed, ac yspryd hedd ar yr orsedd. “*Ac fel colomenod i’w ffenestri.*” Aderyn bach cwynfanus yw y golomen; mae beunydd yn trydar. Felly yr edifeiriol. Hefyd maent yn ddi-niwed fel y golomen. Cyflymdra ei hedyn yw diogelwch y golomen—ar edyn ffydd y mae duwiolion yn gallu ymgodi uwchben temtasiynau a pheryglon. *Onid i ba ffenestri yr ehedant?* Ffenestr myfyrdodau santaidd. Ffenestr gweddi daer, dyfal, a hyderus. Minau nesâu at Dduw sydd dda i mi. Bendigedig a fyddo Duw, yr hwn ni throdd fy ngweddi oddiwrtho, na’i dragaredd ef oddiwrthyf finau. Ffenestr ordinhadau ty yr Arglwydd. Pa bryd y deuf ac yr ymddangosaf ger bron Duw? Fy enaid a hiraetha, ie, ac a flysia am gyn-teddau yr Arglwydd.

ADEILADU A RHYFELA.

“Canys pob un o’r adeiladwyr oedd wedi gwregysu ei gleddyf ar ei glun, ac yn adeiladu,” &c. Nehem. 4: 18. Mae gan bob un sydd wedi hunan-ymgyflwyno i Dduw waith i’w gyflawni, sef adeiladu—Gan adeiladu eich hunain ar eich santeiddiaf fydd. Mae ganddynt i filwrio hefyd yr un amser. 1 Tim. 6: 12. Yn y testyn desgrifir dull yr Iuddewon duwiol yn dwyn yn mlaen adeiladaeth yr ail deml. Drylliwyd muriau y gyntaf, a llosgwyd ei phyrth a thân, a thorwyd ei holl gerfiadau i lawr a bweyll ac a morthwylion. Er nad oeddynt ond gweiniaid a thlodion, codasant ati yn selog i adgyweirio ty yr Arglwydd a’r ddinas. Clybu Sanbalat a Thobia am hyny, a daethant i fyny i’w gwawdio a cheisio eu rhwystro. Mae adgyweiriad Jerusalem yn gysgod o ddygiad yn mlaen waith gras yn y galon, ac o santeiddiaid yr eglwys. Y gosodiad a gaiff fod dan sylw

genyf yw hwn : Y rhaid i'r adeiladwr ysprydol fod yn rhyfelwr ysprydol hefyd.

I. Y SAINT FEL ADEILADWYR YSPRYDOL.

1. *Maent mewn cysylltiad ar Pen Adeiladydd.*—Maent wedi eu dysgu gan Dduw. Pob un gan hynny a glywodd gan y Tad, ac a ddysgodd, sydd yn dyfod ataf fi. Maent yn cael eu dysgu mewn perthynas i'r defnyddiau priodol i adeiladu â hwynt.

2. *Maent yn ofalus am fod ganddynt sylfaen gref*—ac nad adeiladant ar y tywod. Sylfaen dda erbyn yr amser sydd ar ddyfod, fel na byddo achos iddynt frysio pan ddisgyno y gwlawogydd, ac y rhuthra y gwyntoedd ar y ty. Y sylfaen hono yw Crist. “Wele fi yn sylfaenu maen yn Seion, maen profedig, congl-faen gwerthfawr, sylfaen safadwy.”

3. *Dygant y gwaith yn mlaen tan gyfarwyddyd Duw, ac wrth y rheol berffaith a roddes Efe iddynt.*—Hebdo ef teimlant nas gallant wneuthur dim. Os yr Arglwydd nid adeiladu y ty, ofer y llafuria ei adeiladwyr wrtho. Os yr Arglwydd ni cheidw y ddinas, yn ofer y gwylia y ceidwaid. Ofer a fydd bore godia myned yn hwyr i gysgu ; ond tan ei nawdd a'i fendith ef, pa beth bynag a wnelwn, nyini a lwyddwn. Yn bersonol, nyini a gynyddwn mewn gras a rhinwedd, ac yn gymdeithasol nyini a gynyddwn yn deml santaidd yn yr Arglwydd.

I. Y SAINT FEL RHYFELWYR.

1. *Y maent wedi ymrestru o'u bodd fel y cyfryw.*—Dy bobl fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth. Nid oes *drafted men* yn myddin yr Oen.

2. *Maent wedi eu gwisgo mewn cyflawn arfogaeth,*—sef holl rasmusau yr Yspryd, tarian y ffydd, helm iachawdwriaeth, dwyfroneg cyflawnder, ac esgidiau paratoad efengyl y tangnefedd—a chleddyf yr Yspryd, yr hwn yw gair Duw. Sonir yn y testyn fod gan bob un o'r adeiladwyr gleddyf, a'i fod yn barod i'w ddefnyddio. Yr addysg oddiwrth hyn yw y dylem fod yn hyddysg yn yr Ysgrhythrau a medrus i'w cymhwyso

yn amddiffyniad ein crefydd, ac i yru gyda hwynt fyddinoedd yr estroniaid i gilio.

III. RHAI RHESYMAU PAHAM Y DYLAI ADEILADWYR FOD YN RHYFELWYR HEFYD.

1. *Mae gelynion lawer i'r adeiladaeth*—Byd, cnawd, a'r diafol yn ceisio ei rwystro yn yr enaid. Breninoedd y ddaear yn ymosod, a'r penaethiaid yn ymgyng-hori yn nghyd yn erbyn yr eglwys neu deyrnas Crist ar y ddaear. Rhaid i ni fod tan arfau ynte, ac ymdrechu yn lew.

2. *Mae y gelynion yn gryfion a chyfrwys hefyd.*—Felly yr oedd Sanbalat a Thobia a'u canlynwyr—ac felly yr eiddom ninau.

3. *Oblegid mai yn ngwlad ac yn nghanol y gelynion y mae yr adeiladaeth yn cael ei rhoddi i fyny.*—Mae Crist yn llywodraethu yn nghanol ei elynion, ac er eu gwaethaf. Mae gan Satan synagogau lawer o'u deutu, a chanddo lid mawr tuag atom; rhodia oddiamgylch megys llew rhuadwy, gan geisio y neb a allo lyncu. Byddwn effro, ynte—byddwn wyliadwrus ac ymdrechgar, a dyrchafwn ein llygaid i'r mynyddoedd, o'r lle y daw ein cymorth. Canys ein cymorth ni a ddaw oddiwrth yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear.

CYNGOR I BOBL IEUAINC.

“Y gwyr ieuainc yr un ffunud cynghora i fod yn sobr.” Titus 2 : 6. Mae Paul yn y benod hon yn rhoddi hyfforddiadau i Titus, fel gweinidog ieuanc. pa fodd i gyflawni ei weinidogaeth yn nglyn a gwahanol ddosbarthiadau tan ei ofal. Dengys fod yn angenrheidiol iddo yn mlaenaf dim edrych ei fod yn iach yn y ffydd, a llefaru y pethau a weddant i athrawiaeth iachus; ond y mae yn ei anog gyda hyny i bregethu dyledswyddau, a chadw gwyliadwriaeth dros ymarweddiadau y rhai a wasanaethai yn yr efengyl, gan eu hanog i harddu athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr yn mhob peth. Y modd y mae y gwyr ieuainc i wneyd hyny ydyw trwy fod yn sobr.

Golyga hyny: 1. *Fod yn ystyriol*.—Rhyfyg ydyw pechod parod ieuentyd, fel dosparth. Hunan-hyder sydd yn dinystrio y mwyafrif o honynt. O, na baent ddoethion, na ddeallant hyn, nad ystyrient eu diwedd.

2. *Bod yn ddoeth*.—Ceisio doethineb ac â'u holl gyfoeth geisio deall. Dyna fwriad Dafydd wrth droi allan i'r byd: Byddaf ddeallus mewn ffordd berffaith. A Dafydd a ymddug yn ddoeth yn ei holl ffyrdd; a'r Arglwydd oedd gydag ef. 1 Sam. 18: 14. Hyn hefyd oedd baich penaf gweddi ei fab Solomon: "Am hyny dyro i'th was *galon ddeallus*, i farnu dy bobl, i ddeall rhagor rhwng da a drwg; canys pwy a ddichon farnu dy luosog bobl hyn?" Mae angen doethineb ar ieuentyd i ddewis y gwrthdrysychau goraf yn gyntaf, i gyflawnieu gorchwylion yn ol y rheol oraf, yn yr adeg fwyaf priodol, a chyda'r amcanion uchaf.

3. *Golyga fod yn ostyngedig*.—Mae Duw yn ffeiddio y balch o hir-bell, ond yn rhoddi gras i'r gostyngedig. Dysga ni i beidio ag uchel synied am danom ein hunain, eithr synied i sobrwydd, fel y rhanodd efe i bob un fesur ffydd. Yr un ffunud yr ieuainc, byddwch ostyngedig i'r henuriaid; a byddwch bawb yn ostyngedig i'ch gilydd, ac ymdrwsiwch oddifewn â gostyngedid-rwydd.

4. *Golyga fod yn gymedrol a hunan-ymwadol*—mewn gwrthgyferbyniad i ddiota a meddwdod. O fy nghyfeillion ieuainc, ymgedwch yn mhell oddiwrth y pechod cyffredin a pheryglus hwn, yn nghyd a'r achlysuron iddo. Fe laddodd ddegau o filoedd o wyr ieuainc a gwryfon hefyd, oeddynt flodau a gobaith yr oes—fe andwyodd eu hiechyd, dinystriodd eu cymeriadau, calododd eu calonau, ac yn y diwedd llusgodd hwynt i ystafelloedd tywyllion yr ail farwolaeth. Na feddwer chwi ynte gan win, ac nac edrychwch ar y gwin pan fyddo coch, pan ymddangoso ei liw yn y cwpan, pan ymgynhyrfo yn iawn, oblegid yn y diwedd efe a frath fel y sarp, ac a biga fel y neidr.

5. *Golyga fod yn ddifrifol*—mewn gwrthgyferbyniad i ysgafnder a gwamalrwydd pechadurus. Nid ydyw,

beth bynag, yn milwrio yn erbyn sirioldeb naturiol, na difyrion cyfreithlon, ac o fewn terfynau rhesymol. Nid ydyw anghydsafadwy a llawenydd. Mae Iesu Grist yn caru gweled arwyddion o hapusrwydd yn ngwynebaw a holl ysgogiadau pawb yn ei wasanaeth ef. Archa iddynt *mewn llawenydd* dynu dwfr o ffynonau iachawdwriaeth. Cyfiawnder, tangnefedd, a llawenydd yn yr Yspryd Glau ydyw darnodiad Paul o deyrnas Dduw; ond eto cofier mai llawenydd *santaidd* ydyw fel llawenydd, ac nid gloddest halogedig diotwr uwchben ei wirodydd, neu ynyfydion a phlant y byd hwn pan amlhao eu hyd a'u gwin.

ANOGAETHAU I RODDI Y CYNGOR MEWN YMARFERIAD.

1. *Cofiwch eich bod yn greaduriaid cyfaddasedig i fwynhau gwrthddrychau tragwyddol*—ac o ganlyniad nad ydyw gyson a'ch cymeriad, eich safle uchel, a'ch bonedd, i dreulio eich dyddiau i gellwair gyda gwagedd o wagedd. Cofiwch hyn, meddaf, a byddwch wyr.

2. *Cofiwch eich bod yn droseddwr o gyfraith Duw*—wedi haeddu cospedigaeth oddiwrth yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef. Mae tuedd mewn adfyfyriadau o'r fath yna i'ch sobri. Mae colledigaeth enaid i'w arswydo yn fwy na marwolaeth y corff. Mae enbydrwydd eich sefyllfa, ond ei edrych yn ei wyneb, a sefyll yn ystyriol uwch ei ben, yn ddigon i ddwyn gwelwder Belsassar i'ch wynebaw, a pheri ei gryndod yn eich aelodau. Cymerant dympan a thelyn, a llawenychant wrth lais yr organ, ebe Job; treuliant eu dyddiau mewn daioni, ac mewn moment y disgynant i'r bedd. Dim ynte ond cofio y farn a fydd sydd eis-iau i gadw ieuencyd heinif a bywiog rhag rhedeg i eithafoedd mewn amryfusedd.

3. *Sobrwydd yw y diogelwch penaf rhag eich maglu yn hoenybau y gelyn.*

CYFARWYDDIADAU I GARIO ALLAN Y CYNGOR.

1. *Dewiswch y cymdeithion goraf*—rhai mwy profiadol na chwi eich hunain. Y neb a rodia gyda'r doeth a

fydd doethach. Mae cymdeithasiadau llygredig yn llygru moesau da; am hyny os pechaduriaid a'ch denant, na chytunwch.

2. *Darllenwch lawer ar, a myfyriwch lawer yn y llufrau goraf.*—Ymgedwch rhag darllen ffug-chwedlau (*novels*), maent yn sicr o wenwyno eich meddyliau os gwnewch, a chymeryd ymaith eich archwaeth at fara y bywyd a didwyll laeth y gair. Cymeradwyaeth uchel Timotheus oedd ei fod yn gwybod yr Ysgrhythyr Lân er yn fachgen. Hyny a wnaeth Dafydd yn ddoethach na'i athrawon.

3. *Cymerwch addysg oddiwrth esiamplu rhinweddol duwiolion*—a dysgwch ochelgarwch hefyd oddiwrth eu ffaeiddau hwy a phawb.

4. *Cydiwch o ddiwfrif ac yn benderfynol yn mhriw waith eich bywydau.*—Mae y sobrwydd hwn yn anhegorol i osod i chwi eich hunain sail dda erbyn yr amser sydd ar ddyfod, a pharatoi i gyfarfod a Duw.

PREGETH FER I HEN BOBL.

“Coron anrhydeddus yw penllwydni, os bydd mewn ffordd cyfiawnder.” Diar. 16 : 31. Bernir gan lawer i Solomon ysgrifenu llyfr y Caniadau pan yn ieuanc, a'i feddwl yn llawn bywiogrwydd ac yni barddonol; a llyfr y Diarhebbion pan tua chanol oed, pan yr oedd ei gynheddfau gryfaf a dysgleiriaf; a llyfr y Pregethwyr yn ei henaint ac mewn llawn addfedrwydd profiadol. Mae y llyfr hwn wedi ei gyfansoddi mewn arddull wahanol i lyfrau eraill y gyfrol santaidd. Gwneir ef fyny o ddywediadau byrion, llawn o synwyr, a phwrpas ol iawn—pob un yn gyflawn ynddo ei hun, a'i adnoda fel modrwyau aur yn rhyddion yn nghist yr Ysgrhythyrau. Cymeraf un o honynt allan yn awr i'w doddi a fyseidd hen dadau a mamau yn yr Arglwydd. Coro anrhydeddus yw penllwydni, os bydd mewn ffordd cyfiawnder. Sylwaf yn

I. DYLEDSDWYDD HEN BOBL—*Bod yn ffordd cyfiawnder neu grefydd.*

1. *Mae hen bobl mewn angen am grefydd.*—Rhaid iddynt hwy, fel eraill, wrth edifeirwch am bechod, wrth ffydd yn Nghrist, wrth santeiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd. Maent yn hen wrthryfelwyr yn erbyn y nefoedd—wedi *cynefino* a gwneuthur drwg, nes y mae hen arferiadau pechadurus wedi dod i fod i'w natur fel y brychni yn nghroen a llewpard. Maent yn hen wrthodwyr o'r Ceidwad, y llawer o honynt yn hen ail-groeshoelwyr o hono, a thristawyr yr Yspryd Glan. Ond y mae yn ddyledswydd arnynt hwy, yn gystal a rhai sydd ieuengach na hwynt, i adael pob ffordd ddrygionus a meddyliau ofer i geisio ffordd cyfiawnder.

2. *Mae manteision a chysuron neillduol i hen bobl yn ffordd cyfiawnder.*—Clywyd ambell i hen bechadur briglwyd, wedi ei ddeffroi yn nghylch ei gyflwr, yn gofyn yn bryderus weithiau, a ydyw yn debyg yr achubir fi—a ydyw yn derbynia Duw fi wedi i mi wrthod gwrandaw ar ei rasol wahoddiadau am gyhyd o amser? A'n hateb iddynt yn ddieithriad ydoedd, Ydyw. Mae cadwyn fawr y cyfamod tragwyddol yn cyrhaedd hyd at yrhai y mae methiantwch henaint wedi eu dal, a'r ceiliog rhedyn yn faich iddynt. Na ddigalonwch ynte frodyr a chwirydd oedranus. Hyd henaint hefyd myfi yw, medd yr Arglwydd, eich tywysydd hyd angau.

3. *Mae Duw yn dysgwyl i hen bobl wneyd derbyniad o'i drefn.*—Mae wedi hir ddysgwyl wrth hen wrandawwyr yn unig, ac wedi anfon atynt lin ar lin—llin ar lin—ychydig yma ac ychydig acw—ac o herwydd eu gwaith yu cloffi cyhyd cydrhwng dau feddwl yn gofyn—Pa bryd bellach? Pa hyd y cloffwch cydrhwng dau feddwl?

II. RHAGOFRRAINT HEN BOBL.—“*Coron anrhydeddus yw penllwydni, os bydd yn ffordd cyfiawnder.*” Nodaf rai o brif berlau eu coron.

1. *Parch diffuant oddiwrth eu cyd-ddynion.*—Mae Duw yn erchi hyn yn bendânt iddynt oddiwrth eraill: “Cyfod ger bron penwyni, a pharcha wyneb henur-

iaid." Lef. 19 : 33. Mae Job yn cwyno yn dost o herwydd esgeulusdra rhyw genedlaeth ddiras yn amser ei adfyd ef, a esgeulusant dalu y deyrnged gyfiawn hon i henaint. "Ond yn awr y rhai sydd ieuengach na mi sydd yn fy ngwatwar—y rhai y diystyraswn eu tadau i'w gosod gyda chwn fy nefaid—meibion yr ynyfd, a meibion rhai anenwog oeddynt: gwaelach na'r ddaear oeddynt. Ac yn awr, eu cân hwy ydwyf fi, a myfi sydd yn destyn iddynt—y maent yn fy ffeiddio, yn cilio yn mhell oddiwrthyf, ac nid arbedant boeri yn fy wyneb. Y rhai ieuainc sydd yn codi ar fy llaw ddeheu; y maent yn gwthio fy nhraed, ac yn sarnu i'm herbyn ffyrdd eu dinystr." Mae Paul yn cynggori Timotheus i *gynghori* ac nid *ceryddu* hynafgwr. Mae henaint yn rhyglyddu cydnabyddiaeth oddiwrthym, a'r hen ddysgybl duwiol yn deilwng o barch dau-ddyblyg.

2. *Amlgyiadau helaethach o gyfrinach a meddwl Duw.*—"Doethineb sydd mewn henuriaid, a deall mewn hir ddyddiau." Mae yr hen ddysgybl wedi bod yn hir iawn yn nghwmni ei Dad nefol, ac yn teimlo yn rhydd a theuluaidd iawn yn ei gymdeithas, ac felly, o'r diwedd, wedi dod mor hoff o hono fel y symia i fyny ei holl ddymuniadau yn yr un hwnw—sef caffael trigo yn nhy yr Arglwydd holl ddyddiau ei fywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei deml.

3. *Cyfoeth o grefydd brofiadol.*—Mae gan hen Gristion brofiad helaethach o ffyrdd a dyledswyddau gwasanaeth y Meistr dwyfol na'r ieuainc—o felusdra y Gair a chariad Crist wedi ei dywallt yn ei galon trwy yr Yspryd Glan; a gall felly roddi eglurhad ar y gorfoledd mewn gorthrymderau—y cysur cryf wrth ffoi i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'i flaen.

4. *Penderfyniad diysgog i ymlynu mewn crefydd.*—Mae hen ddysgybl yn dod i fod yn golofn yn nheml Duw, ac allan nid ant mwyach. Pedwar ugain mlynedd, ebe Polycarp, gweinidog eglwys Smyrna, y bum yn ngwasanaeth Iesu, ac ni welais ond tynerwch erioed oddiar ei law, ac a wadaf fi ef yn awr!

5. *Parodrwydd meddwl i gyfarfod ag angau.*—Llaw-

er gwaith, ebe y duwiol Cowper, yr hiraethais am gael marw am fy mod wedi blino ar bechod. Yr awrhon, Arglwydd, ebe yr hen Simeon, y gollyngi dy was mewn tangnefedd, yn ol dy air; canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth; yr hon a barotoaist ger bron wyneb yr holl bobloedd—goleuni i oleu y cenedlcedd, a gogoniant dy bobl Israel. Ac ebe Paul, “Canys myfi yr awrhon a aberthir, ac amser fy ymddatodiad i a nesodd. Myfi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i’w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw: ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef.

6. *Taledigaeth y gwobrwy yn y nefoedd.*—Yn y byd a ddaw, bywyd tragywyddol. Rhywbeth na welodd llygaid, na chlywodd clust, ac na ddaeth i galon dyn, ag y mae y Tad wedi ei ddarparu i’r rhai a’i carant ef. Peidiwn ymlesgâu ynte, dadau a mamau yn Seion; er poethed gwres y dydd, ac er serthed y tylau o’n blaen, ni gyrhaeddwn ben Nebo maes o law. Cawn olwg ar y tir pell, a’r Brenin yn ei degwch—cawn nerth wrth raid. Ni rydd Daw ni i fyny yn nyddiau henaint a phenllwydni, ac ni wrthod ni pan balla ein nerth.

PYNCIAU YSGOL.

Y BOD O DDUW.

GOF. I. A oes rhai mor ffol a dyweyd nad oes un Duw?

AT. Oes, llawer. Ps. 14: 1.

GOF. II. Pa sylfaen sydd genych yn erbyn atheistiaid, fod Duw?

AT. 1. Fod Duw, yw sylfaen crefydd. Heb. 11. 8.

2. Mae ein rheswm naturiol yn dywedyd fod Duw. Rhuf. 1: 20.

3. Mae unol gyfaddefiad a chydsyniad holl genedloedd y ddaear yn brawf fod Duw. Mae tuedd addoli yn mhawb. Esa. 44: 17.

4. Mae ofnau a dychrynfeydd cydwybod yn profi fod Duw; megys yn Adda, a Belsassar. Gen. 3: 8. Dan. 5: 5, 6.

5. Mae creadigaeth pob peth yn profi fod Duw. Esa. 40: 12, 13, 18, 19, 20, 21, 22.

6. Nis gall fod y byd er tragywyddoldeb; gan hynny rhaid fod Creawdwr, a'r Creawdwr hwnw ydyw Duw. Heb. 11: 3.

7. Nis dichon un creadur wneyd ei hun. Ps. 100: 3.

8. Nis gall un creadur wneyd y byd. Esa. 45: 6, 7.

9. Nis gall un creadur gynal ei hun. Esa. 38: 12.

10. Rhaid fod achos i bob peth, a'r achos hwnw yw Duw. Ps. 89. 12.

11. Mae gwasanaethgarwch y naill beth i'r llall yn profi fod Duw. Ps. 104: 5—23.

12. Mae'r holl wasanaethgarwch hyn er mwyn dyn. Ps. 8: 4—9.

13. Mae doethineb Duw yn argraffedig ar ei holl weithredoedd. Jer. 10: 12.

14. Mae llywodraethiad a threfn pob peth yn dangos fod Duw. Job 37: 1—24.

15. Mae cynaliaeth pob peth yn dangos yn eglur fod Duw. Ps. 104: 24.

16. Mae holl gyfundraeth dynoliaeth yn brawf eglur fod Duw. Gen. 1: 26.

17. Mae lluniad corff dyn yn dangos fod Duw. Job 10: 8—11.

18. Mae natur yr enaid, eangder ei alluoedd, a'i anfarwoldeb, yn profi fod Duw, tu hwnt i bob dadl. Mat. 10: 28.

19. Mae'r barnedigaethau anghyffredinol. Ps. 9: 16; Act. 12: 21—23.

20. Mae'r holl wyrthiau a wnawd yn y byd yn profi fod Duw. Ps. 65: 7; 72: 18.

21. Mae cyflawniad y prophwydoliaethau yn dangos yn eglur fod Duw. Esa. 46: 10.

22. Mae'r atalfeydd sydd ar dwrf a therfysg dynion yn erbyn eu gilydd yn dangos yn eglur fod Duw. Ps. 65: 7.

GOF. III. Onid yw pob dyn yn ei gyflwr natur yn atheist ymarferol?

At. Ydynt yn ddiddadl.

1. Mae gweithredoedd yn well esponiad o'r egwyddor na geiriau. Titus 1. 16.

2. Atheistiaeth yw ffynonell pob pechod. Gen. 20: 11.

3. Mae pob pechod yn dyweyd fod Duw yn annheilwng o fodolaeth. Deut. 32: 15; Jer. 32: 33.

4. Mae ymgais pob pechod i wneyd Duw yn ffol ac ansanctaidd. Num. 15: 30; 1 Ioan 5: 10.

5. Mae pechod yn ymdrechu gwneyd Duw y bod mwyaf truenus. Esa. 43: 24; Rhuf. 8: 7.

6. Mae dynion mewn rhai amgylchiadau yn dymuno na byddai un Duw. Job 21: 16.

7. Mae dyn yn anewyllysgar i ymarferyd a'r rheol a osododd Duw iddo. Ps. 50: 17; Hos. 8: 12.

8. Maent yn esgeuluso moddion gwybodaeth am ewyllys Duw. Rhuf. 1: 28.

9. Nid ydynt yn ymhyfrydu meddwl am Dduw. Jud. 19.

GOF. IV. Yn mha bethau yn mhellach mae ysbryd atheistiaeth yn amlygu ei hun?

AT. 1. Mewn troseddiad rhyfygus o gyfraith Duw. Jer. 44: 16, 17.

2. Mewn gwrthwynebiad i holl ewyllys ddatguddiedig Duw. Ps. 119: 126.

3. Trwy ddiystyru Duw yn yr hyn sy'n dwyn fwyaf o ogoniant iddo. Hos. 6: 6, 7.

4. Trwy roddi ein hunain yn agored i'r peryglon mwyaf er mwyn gwrthwynebu ewyllys Duw, ac yn cymeryd mwy o boen i bechu nag a fyddai raid i fyw yn dduwiol. Diar. 13: 15.

5. Pan yn ystyried addoliad Duw yn ddiwerth. Job 21: 15; Mal. 3: 14.

6. Mae ysbryd atheistiaeth yn dangos ei hun mewn caledwch calon dan holl oruchwyliaethau Duw. Amos 4: 6—11.

7. Pan yn ufuddhau i ewyllys dyn yn wrthwyneb i ewyllys Duw. Dan. 3: 1, 2, 3; Titus 1: 14.

8. Trwy gymeryd ein tueddiadau llygredig yn rheol yn lle cyfraith Duw. Jer. 9: 31.

9. Trwy anghymeradwyo trefn llywodraeth Duw. Ezec. 18. 25.

10. Trwy osod rheolau i addoli Duw, heblaw y rhai osodwyd. Yr oedd Paul yn ofni hyn. 2 Cor. 11. 3.

11. Mae atheistiaeth yn amlygu ei hun trwy ddyrchafu a molianu ein hunain, fel y Phariseaid. Luc 18: 11.

12. Trwy roddi y gogoniant i ni ein hunain, ac nid i Dduw. Dan. 4: 30, 31.

13. Pan yn fwy ein gofal am y cam a wneir â ni nag am y cam a wneir â Duw, megys Saul. 1 Sam. 15: 30.

14. Pan yn meddwl llai am Dduw nag am ddim arall. Ps. 10: 4.

15. Pan yn fwy ein llafur a'n diwydrwydd am y byd hwn nag am y byd tragwyddol. Job 31: 24—28.

16. Trwy ymdrechgu gwneyd ein hunain yn ddyben

pob peth, yn lle Duw; parchu ein hunain yn lle parchu Duw. Ezeq. 28: 2—7.

17. Pan yn gwasanaethu Duw er mwyn hunan glod a hunan elw. Ps. 78. 36.

18. Pan nad ydym yn amyneddgar i ddysgwyl am atebiad gweddi. Esa. 58: 3.

19. Trwy feddyliau annheilwng am Dduw mewn eifunaddoliaeth. Rhuf. 1: 23.

20. Mae atheistiaeth yn amlygu ei hun mewn dymuniad i ymbellhau oddiwrth Dduw. Job 22: 17.

GOR. V. Onid yw o'r pwys mwyaf fod ein crediniaeth yn gadarn a diysgog am y bod o Dduw?

Ydyw: 1. Heb hyn nis gallwn ei addoli yn deilwng o'i natur. Ioan 4: 24.

2. Heb iawn grediniaeth am Dduw, nis gallwn iawn reoleiddio ein bucheddau. Gen. 17: 1.

3. Heb hyn nis gallwn ymddiried ynddo. Ps. 9: 10.

4. Heb hyn nis gallwn gredu dwyfolder y Beibl, ond bydd y gair yn wrthodedig genym. Jer. 6: 10.

GOR. VI. Pa addysgiadau buddiol a allwch dynu oddiwrth y gwirioneddau hyn?

AT. 1. Yr ydym yn cael achos i ryfeddu amynedd a thrugaredd Duw. Mae miliynau o atheistiaid ymarferol yn anadlu yn ei awyr bob dydd, ac yn byw ar ei haelioni bob mynyd, sydd wedi haeddi bod yn ddeiliaid uffern yn hytrach nag yn ddeiliaid y ddaear. Mae anfeidrol santeidrwydd yn cael ei dramgwyddo, ac anfeidrol gyfiawnder yn cael ei gyffroi; er hyny y mae anfeidrol amynedd yn oedi cosp, ac anfeidrol ddaioni yn diwallu ein hangenion. Pwy a ddysgwyliai lai na digofaint i'n dryllio, a datod colofnau y ddaear? Ond O, mor fawr yw ei dosturiaethau at wrthryfelwyr! mae ei haul yn goleuo i ni; ei ragluniaeth yn gweini i ni; ei freichiau a'i fynwes yn agored i'n derbyn. Er i ni geisio tynu ei goron oddiar ei ben, a'i ddiosg o'i ogoniant, mae'n cyhoeddi maddeuant a rhyddhad heddyw. Bydded i'w amynedd ein tywys i edifeirwch.

2. Dysgwn y mawr angenrheidrwydd am gyfnewid- iad natur, i newid ein natur atheistaidd. Nid yw dyn

wrth natur yn derbyn mwy o effaith oddiwrth lais Duw a goleuni ei wirionedd, na chorff marw oddiwrth ruad taran, neu ddall oddiwrth oleuni yr haul. Yr achos o hyn ydyw, fod ein atheistiaeth mor fawr a marwolaeth un a dallineb y llall. Mae yr egwyddor yn nerthol i gau pyrth y meddyliau a'r serchiadau yn erbyn Duw. Nid yw llawenydd y nefoedd yn ein denu, na dychrynfeydd uffern yn ein dychrynu; fel pe byddai Duw yn analluog i gyfranu un, a gweinyddu y llall. Mae yn anmhosibl rhoddi ergyd marwol i un pechod, nes argraffu iawn ystyriaeth o Dduw ar y meddwl; mae ein gwrthwynebiad i Dduw mor fawr a'n cariad at bechod. Rhaid i'r tuedd hwn gael ei newid cyn y gallom wneyd Duw yn rheol ac yn ddyben. Nis gallwn roddi y parch uchaf i Dduw heb y cariad uchaf ato; ac nis gallwn ei ogoneddu megys Duw heb natur newydd; gan hyny mae llw Mab Duw o'r pwys mwyaf i bawb. Ioan 3: 3.

3. Gwelwn y rheswm am anghrediniaeth, paham y mae dynion yn fwy anewyllysgar i dderbyn yr efengyl, nag i gyfaddef uniondeb y ddeddf; oblegid fod mwy o natur a pherffeithrwydd Duw yn cael ei dangos yn yr efengyl. Mae yr efengyl yn ei ddihatru o'i nerth a'i gyfiawnder ei hunan yn hollol; yn bwrw ei ddychymygion i lawr, ac yn ei gaethiwo i ufudd dod Crist; gan hyny mae yn haws cael dynion at fywyd moesol nag i dderbyn Crist. Mae yr atheist yn waeth na'r lleidr; mae hwnw yn dwyn ein heiddo oddi arnom, ond mae yr atheist yn dwyn ein Duw oddi arnom. Mae bucheddau y rhan fwyaf o'r byd yn dweyd nad oes un Duw. O ba le y tardd godineb, meddwdod, anwiredd a thwyll, gelyniaeth a balchder, rhyfyg a rhagfarn, anghof o Dduw ac anystyriaeth, ond oddiar anghrediniaeth am y bod o Dduw. Llefwn am dywalltiad yr Ysbryd Glan i argyhoeddi dynion o'r pechod atgas hwn ar frys.

4. Mae'r sylwadau blaenorol yn dangos yn eglur pwy yw awdwr gwir ddychweliad; ni ddychwelodd un atheist erioed at Dduw ei hun, heb ei droi gan Dduw; ni all holl angylion y nefoedd, na holl ddoniau dynion,

droi un pechadur at Dduw; nis gall dim newid natur ond gallu goruch natur. Mae mor hawdd i uffern fod yn nefoedd, i ddiabol fod yn sant, ag yw i atheist fod yn gredadyn; rhaid ei greu o newydd, ei adgyfodi o farwolaeth, ac o feddiant y tywyllwch i deyrnas Mab Duw, a rhaid cael rhagorol fawredd nerth at y gorchwyl hwn. Mae digon o nerth yn mraich Jehofah i achub yr atheist caletaf. Gweddiwn am i'r fraich fawr ddefroi a gwisgo ei nerth fel yn y dyddiau gynt, ac fel yn yr oesoedd gynt.

5. Gwelwn ffynonell holl wrthgiliadau y byd, sef ysbryd atheistiaeth yn ymadaw oddiwrth y Duw byw, ac yn ymddyethrio oddiwrth fuchedd Duw; maent yn casâu ei reol a'i ogoniant; maent yn caru gogoniant dynion yn fwy na gogoniant Duw. Pan y byddo dynion yn troi oddiwrth wirionedd at gyfeiliornad, maent yn myned bellach bellach i gamgymeriadau, ac yn cael eu rhoddi i fyny i feddyliau anghymeradwy, i wneuthur y pethau nid ydynt yn weddaidd, nes o'r diwedd gorphen eu gyrfa yn y trueni tragwyddol, oni ragflaenir ef a gras.

6. Mae'r pethau a ddywedwyd yn dangos ardderchawgrwydd yr efengyl a'r grefydd Gristionogol; mae yn rhoddi i ddyw ei le priodol, ac yn rhoddi i Dduw y gogoniant sy'n deilwng iddo; mae'n gosod dyn yn y llwch, lle y dylai fod, ac yn dyrchafu Duw i'r orsedd, lle y dylai eistedd. Mae dyn wrth natur am ddiddymu Duw, a gwneyd ei hun yn Dduw; mae'r efengyl yn goneddu Duw, ac yn diddymu dyn; yn ein hymadawiad â Duw yr oeddyd am fod yn debyg iddo mewn gwybodaeth; yn ein hadnewyddiad gan Dduw, cawn fod yn debyg iddo mewn gras. Mae'r efengyl yn dangos ein bod yn wrthddrychau o ostyngeddwydd, a Duw yn wrthddrych o debygolrwydd. Mae goleuni natur yn dangos fod Duw a'r efengyl yn darlunio pa fath Dduw ydyw. Mae goleuni natur yn condemnio atheistiaeth cyhoeddus, a goleuni efengyl yn gorchfygu atheistiaeth ysbrydol y galon.

7. Dysgw'n fod yn ddwys-ystyriol o atheistiaeth ein

calon, ac ymostwng ger bron Duw o'i blegid; na fydded i ni fod yn anystyriol o'r hyn sy'n ddinystyr i'n dedwyddwch, yn warth i ddynoliaeth, yn cau o'r nefoedd, ac yn ddefnydd uffern. O, bydded ein pen yn ddyfroedd, a'n llygaid yn ffynon o ddagrau, oblegid mawredd ein llygredd. A ydym yn dymuno adnabod Duw?—a ydym yn ymhyfrydu ynddo?—ac yn caru meddwl am dano?—a ydyw ein parch iddo yn gyfartal i'n gwybodaeth am dano?—onid yw'r byd yn fwy parchus na'r Creawdwr?—onid yw'r creaduriaid yn cael mwy o'n cariad a'n hymddiried na Duw?—onid ydym yn dueddol i ymddiried ynom ein hunain yn fwy nag yn Nuw? Oni ddylem alaru gan hyny fod mor lleied o Dduw yn ein calon a'n bucheddau?

8. Dysgwn fod ysbryd atheistiaeth y dirmyg mwyaf ar Dduw, fel pe byddai Duw ygwagedd mwyaf. Wrth ddewis pechod o flaen Duw, yr ydym yn dweyd mewn ymarferiad mai pechod yw ein creawdwr a'n cynaliwr; Duw yw y bod hawddgaraf, gan hyny mae i'w garu a'i ddilyn. Os ydym yn ffeiddio cam-ymddygiad plentyn at ei dad, a chamymddygiad gwas at feistr cymwynasgar, pa faint mwy ffaidd yw ein cam-ymddygiad ni at Dduw? O ba le y tardd ein trugareddau, ein hiechyd, ein hanadl, a'n diogelwch, ond oddiwrth Dduw? Nis gall Duw wneyd cam a ni oblegid ei uniondeb a'i ddaioni; eto mae dynion yn dirmygu Duw, trwy feio ar ei arfaeth a'i waith, trwy droseddu ei gyfraith a gwrthod ei drefn. Gellir gofyn gyda'r priodoldeb mwyaf, Paham y dirmyga'r annuwiol Dduw?

9. Gan fod Duw, gwae ei holl elynion; mae'n byw byth i ddial arnynt. Peth ofnadwy yw syrthio yn ei ddwyllaw. Y rhai sy'n rhedeg o freichiau ei drugaredd faddeuol, sy'n rhedeg i freichiau ei gyfiawnder ddialeddol. Os na chyffeswn ef fel Duw y gogoniant, fe'n hysgarir oddiwrtho fel Duw y cysuron. Os yw rhuadau llew yn ddychrynlyd, pa faint mwy yw pan mae'n dryllio ei ysglyfaeth? O, nad ystyriem hyn mewn prydd. "Os hogaf fy nghleddyf dysglaer, ac ymaflyd o'm llaw mewn barn, dychwelaf ddial ar fy ngelynion,

a thalaf y pwyth i'm caseuon. Deallwch hyn yn awr, y rhai ydych yn anghofio Duw rhag i mi eich rhwygo ac na byddo meddyginiaeth." Pa mor ffol ydym i yfed môr o ddigofaint er mwyn dafn o bleser; mae miloedd yn myned tuag uffern dan ddawnsio. Dydd marwol-aeth yw dydd dedfryd yr annuwiol. Mae tragywydd-oldeb yn ol gan Dduw i gospi ei elynion, y rhai a ânt i gospedigaeth dragywyddol.

10. Ac yn ddiweddaf, dysgwn mai ein dyledswydd yw credu yr athrawiaeth ogoneddus o fod Duw; iawn grediniaeth fod Duw yw sylfaen a bywyd crefydd; pa gryfaf y byddo ein crediniaeth yn Nuw, a'i berffeith-rwydd, mwyaf santaidd ac angylaidd y byddwn yn ein bywyd; dyma'r gwrthglawdd mawr yn erbyn pechod, a'r anogaeth gryfaf at ddyledswydd. Dyma adenydd gweddi, ac olew addoliad. Myfyriwn lawer ar ardderch-awgrwydd Duw. Dyeithrwch i Dduw yw mam a mag-wraeth anghariad ato; pa fwyaf a feddyliom am Dduw, mwyaf i gyd o'i ardderchawgrwydd a ymddengys i'n meddwl; trwy hyn yr alltudir ein hofnau, y gwanychir ein pechodau, y cryfheir ein grasau, y melusir ein cys-tuddiau, ac y cryfheir ein serchiadau mewn cariad ato. Ymofynwn am hawl ynddo; collasom heddwch Duw, ei ddelw, a'i gymdeithas; ond mae'n bosibl enill y peth-au hyn yn ol, ac i ddweyd, "Y Duw hwn yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd."

YSBRYDOLRWYDD DUW.

GOR. I. Pa bethau a brawf fod Duw yn yspryd pur a diranau?

AT. 1. Rhaid ei fod yn yspryd cyn y gallai fod yn Greawdwr, mewn doethineb, gwybodaeth, a gallu. Job 38: 36.

2. Pe na bae yn yspryd nis gallai fod yn un. Ond y mae Duw yn un, heb gymysgedd. Deut. 6: 4.

3. Mae'n eglur ei fod yn yspryd, o herwydd ei fod yn anweledig. 1 Tim. 1: 17; 1 Tim. 6: 16.

4. Mae anfeidroldeb Duw yn brawf ei fod yn yspryd diranau. Mae pob cyrff yn feidrol. 2 Chron. 2: 6.

5. Oni bae ei fod yn ysbryd, nis gallai fod yn anymddibynol. Esa. 44: 6.

6. Heb ei fod yn yspryd nis gallai fod yn anghyfnewidiol. Mae ei anghyfnewidioldeb yn ymddibynu ar ei unigolrwydd. Mal. 3: 6.

7. Nis gallai fod yn holl-bresenol heb ei fod yn yspryd. Job 11: 9; Jer. 23: 24.

8. Rhaid ei fod yn yspryd cyn y gall fod y bod perffeithiaf. 1 Ioan 1: 5.

9. Pan y dywedir fod Duw wedi ymddangos i rai o saint yr Hen Destament, nid yw hyn ond helaethach datguddiad o Dduw i'r synwrau naturiol, neu yn hytrach i'r meddwl, oblegid mae Duw yn dywedyd wrth Moses nas gellir gweled ei wyneb. Ex. 33: 20.

GOF. II. Yn mha agwedd y mae Duw yma i gael ei addoli?

AT. Mewn agwedd ysprydol. Ioan 4: 24.

GOF. III. Pa fodd y mae i'w addoli mewn yspryd a gwirionedd?

AT. 1. Mae iawn arferiad o addoliad yn codi oddi wrth ysprydolrwydd Duw. Heb. 12: 28, 29.

2. Mae natur pethau, sef natur Duw a'n natur ni-nau, yn galw am addoliad ysprydol. Ps. 100: 2.

3. Yr oedd Duw yn wastad yn gofyn am addoliad ysprydol. Gen. 17: 1.

4. Mae'r gyfraith seremoniol wedi ei diddymu er mwyn rhoddi lle i'r addoliad ysprydol. 2 Cor. 3: 13, 14.

5. Nid yw ysprydolrwydd addoliad yn milwrio yn erbyn addoliad corfforol. Mae'r Arglwydd yn gofyn y corff a'r enaid. 1 Cor. 6: 20.

6. Mae'r addoliad hwn i gael ei ddwyn yn mlaen trwy ddylanwadau a chynorthwyon yr Yspryd Glan. Rhuf. 8: 26.

7. Oddiar egwyddorion efengylaidd. Rhuf. 1: 9.

8. Mewn undeb calon, nid yn hanerog. Ps. 86: 11.

9. Gyda bywiogrwydd a zel. Ps. 80: 18.

10. Rhaid addoli yn yr arferiad o bob cylch crefyddol. Col. 3 : 16.

11. Mewn ffydd. Heb. 11 : 6 .

12. Gyda chariad goruchel at Dduw. Rhuf. 8 : 15.

13. Gydag ystyriaeth o'n hannheilyngdod. Luc 18:13.

14. Gyda dymuniadau ysprydol am gymundeb a Duw. Ps. 42 : 2.

15. Mae yspryd diolchgarwch i gael ei arferyd mewn addoli. 150 : 1, 3.

16. Mae Duw i gael ei addoli gyda'r hyfrydwch mwyaf. Esa. 12 : 3.

17. Rhaid ei addoli gyda goruchel barch iddo. Preg. 5 : 2.

18. Mae Duw i gael ei addoli mewn dwfn ostyng-eiddrwydd. Ps. 51 : 16, 17.

19. Ei addoli mewn santeiddrwydd ymarferol. Ps. 26 : 6.

20. Ei addoli yn enw Crist. 1 Pedr 2 : 5.

GOF. IV. Paham y dylai Duw gael ei addoli yn y dull a enwasoch, neu yr angenrheidrwydd am y fath addoliad ?

AT. 1. Sylwn fod y peth goreu a feddwn i gael ei roddi i Dduw oblegid teilyngdod ei natur. Marc 12 : 33.

2. Fe roddodd Duw y peth goreu a fedd i ni. Rhuf. 8 : 32.

3. Mae agosrwydd ei berthynas a ni yn galw am y fath addoliad. 2 Sam. 24 : 24.

4. Heb hyn nis gallwn ymddwyn at Dduw fel cread-uriaid rhesymol. Rhuf. 12 : 1.

5. Mae pob addolwr rhagrithiol dan felldith Duw. Mal. 1 : 14.

6. Dyma un o ddybenion marwolaeth Iesu, ein ddwyn at Dduw a'i wasanaeth. 1 Pedr. 3 : 18.

7. Mewn addoliad mae nesâd yr enaid at Dduw, ac onid yw yr holl ddyn i nesau. Lev. 10 : 3.

8. Nid oes un addoliad yn gymeradwy gan Dduw heb yr yspryd. Mal. 3 : 3, 4.

9. Mae addoliad cnawdol y dirmyg mwyaf ar y mawr- hyd i dwyfol. Preg. 5 : 1.

10. Mae addoliad marw a hanerog yn erbyn bywyd Duw. Dyben gwaed Iesu yw ein puro i wasanaethu y Duw byw. Heb. 9: 14.

11. Mae'n taro yn erbyn ysbrydolrwydd Duw. Esa. 66: 2.

12. Addoliad heb y galon yw'r esponiad mwyaf eglur o dwyll y galon. Eze. 33: 32.

13. Mae'r fath addoliad twyllodrus yn erbyn doethineb Duw. Gall yr Arglwydd ddywedyd am y cyfryw fel y dywedodd Achis am Dafydd. 1 Sam. 21: 15.

14. Mae addoliad cnawdol yn erbyn hollwybodaeth Duw fel chwiliwr y galon. Jer. 17: 10.

15. Mae'n taro yn erbyn santeiddrwydd Duw. Diar. 21: 27.

16. Mae addoliad hanerog yn erbyn cariad a chymwynasgarwch Duw. Gwelwn yspryd Dafydd. Ps. 5: 7.

17. Mae addoliad hanerog yn dangos cloffni mawr yn y pethau mwyaf eu pwys. 1 Bren. 18: 21.

18. Mae addoliad twyllodrus a chnawdol yn anfodhaol gan Dduw. Dat. 3: 16.

19. Bydd yr addolwr twyllodrus i gael ei fwrw gyda'r drwg-weithredwyr i'r tân tragywyddol. Math. 24: 51.

HOLLWYBODAETH DUW.

GOR. A wnewch chwi ymdrechu rhoddi rhai darlun-
iadau o hollwybodaeth Duw?

AT. 1. Mae Duw yn perffaith adnabod ei hun.
1 Cor. 2: 11.

2. Mae yn gwybod pob peth sydd yn bosibl i gymer-
yd lle, ac na chymer le. Ps. 147: 5.

3. Mae Duw yn gwybod pob peth a aeth heibio;
gwyr am bob pechod a gyflawnwyd. Ps. 50: 21.

4. Mae'n gwybod pob peth presenol. Heb. 4: 14.

5. Mae'n adnabod holl raddau ei greaduriaid.

6. Mae Duw yn adnabod calonau a meddyliau dir-
gel dynion. Ps. 15: 11.

7. Mae'n adnabod pob peth trwy ei natur ei hun.
Ps. 94 : 9.

8. Mae Duw yn adnabod pob peth ar unwaith.
Actau 15 : 18.

9. Mae ei wybodaeth yn anymddibynol. Esa. 40 :
13, 14.

10. Mae gwybodaeth y Duwdod yn eithaf eglur.
1 Ioan 1 : 5.

11. Mae ei wybodaeth yn anffaeledig. Esa. 14 : 24.

12. Mae ei wybodaeth yn ddigynydd ac anghyfnawid-
iol. Ps. 139 : 12.

13. Mae ei wybodaeth yn dragywyddol. Sam. 2 : 3.

GOF. II. Pa brofion sydd genych o hollwybodaeth
Duw?

At. 1. Mae perffeithrwydd ei natur yn brawf o'i holl-
wybodaeth. Esa. 66 : 18.

2. Mae pob gwybodaethau eraill wedi deilliaw oddi-
wrth Dduw. Ps. 94 : 10.

3. Mae cyhuddiadau cydwybod yn brawf o hollwy-
bodaeth Duw. 1 Ioan 3 : 20.

4. Duw yw achos cyntaf pob peth. Esa. 40 : 28.

5. Heb hollwybodaeth nis gallai fod yn llywodraeth-
wr. Mae rhagluniaeth yn ymddibynu ar wybodaeth a
daioni Duw. Math. 6 : 32.

6. Mae hollwybodaeth yn angenrheidiol er gweiny-
yddu gwobrwyon a chospedigaethau. 1 Cor. 4 : 5.

GOF. III. Trwy ba ffyrdd mae dynion yn gwneyd
cam a hollwybodaeth Duw?

At. 1. Trwy eilunaddoliaeth. Esa. 44 : 15.

2. Trwy wadiad ymarferol o'i hollwybodaeth, megys
Adda a Chain. Gen. 3 : 10.

3. Trwy anghof ac anystyriaeth o Dduw. Hosea 7 : 2.

4. Trwy chwilio i bethau dirgel Duw, a gadael heibio
y pethau amlwg. Deut. 29 : 29.

5. Yr ydym yn pechu yn erbyn y briodoledd hon
trwy ragfarnu eraill. Rhuf. 14 : 12, 13.

6. Trwy luosogi pechodau yn erbyn Duw. Ezec. 9 : 9.

7. Trwy gyfaddefiad hanerog o'n pechodau ger bron
Duw. Job 31 : 33.

8. Trwy feithrin lluaws o feddyliau drwg. Ephesiaid 4 : 17.

9. Trwy weneithio a rhagrithio iddo. Esa. 29 : 13.

GOF. IV. Onid yw hollwybodaeth Duw yn gysur cryf iawn i'r eglwys ?

AT. 1. Ydyw, yn ddiau ; pan mae dynion yn bwriadu, ac yn dyfeisio drwg yn erbyn yr Eglwys, mae Duw yn eu gweled. Ps. 69 : 9.

2. Mae'n addas wrthddrych gobaith, ac ymddiried, oblegid ei hollwybodaeth. Ps. 195 : 42.

3. Mae'n gysur cryf ei fod yn adnabod personau ei bobl. 2 Tim. 2 : 19.

4. Mae Duw yn adnabod uniondeb calon y saint. Ps. 1 : 6.

5. Mae ystyriaeth o'r briodoledd hon yn gysur cryf mewn gweddi ddirgel ac ocheneidiau y saint. Ps. 38 : 9.

6. Mae hollwybodaeth yn gysur cryf i'r saint yn eu holl gystuddiau. Ps. 10 : 14.

7. Mae'n gysur mawr yn ein holl wendidau. Ps. 103 : 14.

8. Mae hollwybodaeth Duw yn gysur cryf yn wyneb llygredd tu mewnol y galon. Ps. 139 : 23.

GOF. V. Onid yw yn fanteisiol iawn i sylwi a myfyrio llawer ar hollwybodaeth Duw ?

AT. 1. Ydyw, mae hyn yn wrthglawdd cryf iawn yn yn erbyn pechod. Job 31 : 4.

2. Mae hyn yn feddyginiaeth gref iawn rhag hunandwyll. Psalm 44 : 21.

3. Dwys ystyriaeth o hollwybodaeth Duw a'n gwna yn wylidwrus. Psalm 139 : 1—3.

4. Dyma y parotoad goreu i bob dyledswydd. Psalm 123 : 1.

5. Hyn a'n gwna yn ddidwyll yn ein holl gylchoedd. Psalm 119 : 168.

6. Ystyriaeth o hollwybodaeth Duw a'n gwna yn os-tyngedig. Job 42 : 5, 6.

7. Hyn a'n dwg i ymhyfrydu yn Nuw, ac i ymorphwys arno. Psalm 10 : 14.

GOF. VI. A wnewch chwi ymdrechu tynu rhai add-

ysgiadau oddiwrth y gwirioneddau pwysig a adrodd-
asoch ?

AT. 1. Fod hollwybodaeth Duw yn gysur mawr iawn i'r eglwys yn mhob amgylchiad. Mae ei lygaid yn treiddio mor bell a dyfnder uffern ; mae ei holl elynion ger bron ei lygaid ; gwyr Duw am eu holl ddichellion. Mae ymosodiadau nerthol ar Seion, ond gwyr Duw am danynt oll, a bydd iddo wared ei saint o'u gafael yn fuan. Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef ; mae yn adnabod pob peth, oblegid mai efe a'u creodd ; ac yn adnabod ei bobl, oblegid mai efe a'u dewisodd. Y rhai a ragwybu, a ragluniodd efe ; a'r rhai a ragluniodd efe, y rhai hyny hefyd a alwodd efe ; a'r rhai a alwodd efe, y rhai hyny hefyd a gyfiawnhaodd efe ; a'r rhai a gyfiawnhaodd efe, y rhai hyny hefyd a ogoneddodd efe. Dywedir fod cof Cyrus mor berffaith, a'i fod yn adnabod enw pob milwr yn ei fyddinoedd lluosog ; pa faint perffeithiach mae Duw yn adnabod ei saint ! Mae yn eu hadnabod fel tywysog i'w harwain ; fel prophwyd i'w dysgu ; fel un doeth i'w cyfarwyddo ; fel un galluog i'w cynal ; fel un cyfoethog i'w gwobrwyo.

2. Dysgwn fod Duw yn addas wrthddrych ymddiried i bawb. Pe byddai yn anghofio, pa gysur allem gael mewn addewid ? Pe byddai yn anwybodus o'n sefyllfa, pa fodd y gallem ymddibynu arno ? Llygad Duw yw ei wybodaeth i'w gyfarwyddo am holl angenion ei bobl, ac i gyfarwyddo y priodoliaethau eraill er ein cysur ; ond gallwn ymddibynu arno oblegid mawredd ei wybodaeth am danom a'n hangenion. Mae ganddo ddigon o gyfoeth i gyflawni ein holl raid yn ol ei olud ef mewn gogoniant trwy Iesu Grist.

3. Gallwn gymeryd cysur fod Duw yn adnabod calon onest ei blant. Yr Arglwydd a edwyn ffordd y rhai cyfiawn. Mae yn eu hadnabod i'w cymeradwyo, a'i gwobrwyo. Mae hyn yn gysur cryf mewn gweddi ddirgel. Mae gweddi yn waith tu mewnol ; nid yw geiriau ond dillad gweddi. Pe na byddai Duw yn deall y galon, gallai rhagrithiwr fod yn fwy cymeradwy na'r didwyll. Nid ydym yn galw ar eilun dall a byddar, ond ar yr

hwn sy'n gwrando'r uchenaidd ddirgel; er fod miliynau o ucheneidiau yn cael eu hanfon i fyny ar unwaith, mae Duw yn sylwi arnynt oll. Gan hyny, mae cyngor Iesu Grist o'r pwys mwyaf, Ond tydi pan weddiech, dos i'th ystafell a chau dy ddrysau arnat, a gweddia ar dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel, a'th Dad yr hwn a wel yn y dirgel, efe a dâl i ti yn yr amlwg.

4. Dysgwn fod hollwybodaeth Duw yn gysur cryf i'r saint mewn cystuddiau; mae'n adnabod eu beichiau yn gystal a'i gweddiau. Dichon i Joseph anghofio ei frodyr, a'r dysgyblion fethu adnabod Iesu pan yn rhodio ar y môr yn y nos; ond ni all ffau'r llewod guddio Daniel, na bol y morfil guddio Jonah o wydd Duw. Mae'n gweled Pedr yn y carchar, a Stephan dan y gafod geryg; mae'n adnabod Abel yn ei waed, a Lazarus yn ei gornwydydd; ac o'r tu arall, mai hollol ofer yw pob ymgais i guddio ein pechodau oddiwrth Dduw. Mae ein dirgel-bechodau yn ngoleuni ei wyneb; er fod Duw yn anweledig i ni, na feddyliwn ein bod ni felly iddo ef. Yr un ffunud yw tywyllwch a goleuni i Dduw; mae llygad ei wybodaeth yn cyfarwyddo llaw ei gyfiawnder mewn cosp, canys Duw a ddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynag a fyddo ai da ai drwg.

LLYWODRAETH JEHOFAH.

GOF. I. Ai Duw yw llywodraethwr pawb a phob peth?

AT. Ie, yn ddiamen. Ps. 103: 19.

GOF. II. Pa sylwadau eglurhaol sydd genych ar lywodraeth Duw?

AT. 1. Sylwn fod gan Dduw y fath lywodraeth, nis gellir meddwl am dano yn gyson heb feddwl am dano fel llywodraethwr. 1 Tim. 6: 15.

2. Mae neillduol wahaniaeth rhwng gallu Duw a'i awdurdod. Wrth ei allu yr ydym i ddeall, y nerth sydd ynddo i effeithio ei fwriadau; ac wrth ei awdur-

dod y deallir ei hawl i weithredu fel y myno. Dichon deiliad fod yn gryfach na'i dywysog, ond gan y tywysog mae'r awdurdod fwyaf. Mae ganddo hawl i wneyd yr hyn a fydd, i feddianu yr hyn a wnaeth, ac i drefnu yr hyn sydd yn ei feddiant, yn ol ei ewyllys. Daniel 4: 35.

3. Mae'r llywodraeth hon wedi ei sylfaenu ar ardderchawgrwydd ei natur. Mae Duw yn meddianu anfeidrol berffeithrwydd a rhinwedd. Jer. 10: 6, 7.

4. Mae wedi ei sylfaenu ar ei berthynas â phob peth fel Creawdwr, yn nghyd a'u hymddibyniad arno am eu bodolaeth, a daioni eu bodolaeth. Psalm 95: 3, 5.

5. Fel ag y mae Duw yn achos diweddaf, neu ddyben pob peth, felly hefyd efe yw Arglwydd pob peth. Dat. 4: 11.

6. Mae ei lywodraeth wedi ei sylfaenu ar ei waith yn cynnal pob peth. Psalm 75: 3.

7. Mae ei lywodraeth yn cael ei chadarnhau trwy y rhoddion dirifedi mae yn gyfranu. Mae rhoddion natur a gras yn cynyddu ein rhwymau o ufudd-dod iddo. 1 Cor. 6: 19, 20.

GOR. III. Pa fath lywodraeth ydyw, o ran ei natur?

AT. 1. Mae'n anymddibynol. Nis gallwn ofyn i Dduw reswm am ei weithredoedd. Rhuf. 9: 20.

2. Mae ei lywodraeth yn cael ei gweini yn ol ei ewyllys. Daniel 4: 32.

3. Mae'r llywodraeth hon yn cael ei gweinyddu mewn dwyfol ddoethineb. Rhuf. 11: 33.

4. Mae'n cael ei dwyn yn mlaen yn ol rheol uniondeb. Psalm 89: 14.

5. Mae'n cael ei gweini mewn dwyfol ddaioni. Gras yw enw'r orsedd. Heb. 4: 16.

6. Mae llywodraeth Jehofah yn dra eang. Mae nefoedd o angylion, a chreaduriaid ardderchog eraill, yn perthyn i'w lywodraeth. Esaiah 45: 12.

7. Mae uffern o gythreuliaid dan ei lywodraeth. Ps. 78: 49.

8. Mae dacar o ddynion dan lywodraeth Jehofah. Psalm 47: 7.

9. Mae calonau llywodraethwyr gwladol dan lywodraeth Duw. Diar. 21: 1.

10. Mae ei lywodraeth yn ddiderfyn mewn parhad. Psalm 29: 10.

GOF. IV. Yn mha bethau mae llywodraeth Jehofah yn amlygu ei hun?

AT. 1. Yn ngosodiad cyfreithiau, yn neillduol yn y gyfraith foesol. Iago 4: 12.

2. Yn null cyhoeddiad y gyfraith, gyda mawrhydi dwyfol. Exodus 31: 18.

3. Yn ysbrydolrwydd gofyniadau y gyfraith; mae yn sylwi ar y meddyliau mwyaf dirgel. Luc 12: 3.

4. Mae llywodraeth Duw yn ymddangos yn nghosbedigaeth troseddwr y gyfraith. Psalm 11: 6.

5. Yn ngweinidogaeth rhagluniaeth; mae'n cyfodi un i fyny, ac yn tynu'r llall i lawr. Psalm 75: 7.

6. Mae'n rheoleiddio ysprydoedd dynion fel y myno. Trefnodd i ferch Pharaoh i ddyfod i ymolchi yn yr amser, ac i'r fan yr oedd Moses mewn arch o hesg, er ei bod yn ferch y brenin, ac yn ffeiddio y genedl Iuddewig; eto rhoddodd Duw yn ei chalon i gymeryd y maban dan ei gofal, a'i fagu ar ei thraul ei hun. Exodus 2: 5—9.

7. Yn ei waith yn atal cynddeiriog nwydau dynion, a gosod rhwystrau. Esaiah 59: 19.

8. Pan mae'n dinystrio bwriadau dynion. Job 5: 12.

9. Mae ei lywodraeth yn ymddangos wrth dywallt barnedigaethau ar y neb y myno. Jer. 47: 6, 7.

10. Mae ei lywodraeth yn ymddangos yn sefydliad galwedigaethau a sefyllfaoedd dynion. Actau 17: 26.

11. Mae tymor bywydau dan lywodraeth Duw. Ps. 31: 15.

12. Yn ei waith yn dewis dynion er tragwyddoldeb i fod yn santaidd a dedwydd. Ephes. 1: 4.

13. Nid rhinwedd y creadur, ond cyfoeth gras, a benderynodd yr arfaeth dragywyddol. 2 Tim. 1: 9.

14. Mae'n ymddangos fel Duw pob gras, ac fel barnwr, trwy anfon ei Fab i'r byd a rhoddi cosp pechod arno. Galatiaid 1: 4.

15. Mae ei lywodraeth yn ymddangos yn nyrchafiad yr Arglwydd Iesu i oruchel anrhydedd. Mat. 28: 18.

16. Pan mae'n rhoddi moddion gras i rai ac nid i eraill. Psalm 147: 17, 20.

17. Mae llywodraeth Duw yn ymddangos yn ngwahanol effeithiau yr efengyl ar ddynion; arogl marwol-aeth i rai, a bywyd i eraill. 2 Cor. 2: 16.

18. Trwy roddi graddau helaethach o wybodaeth i rai nag i eraill. 1 Cor. 12: 11.

19. Trwy roddi gras i'r neb y myno. Rhuf. 9: 18.

20. Pan mae'n galw yr isel-radd, ac yn gadael y cyfoethogion. 1 Cor. 1: 26—29.

21. Mae ei lywodraeth yn ymddangos trwy alw rhai i swyddi mwy neillduol yn eu hoes. Rhuf. 9: 21.

22. Trwy roddi mwy o gyfoeth ac anrhydedd i rai na'u gilydd. Diar. 22: 2.

23. Mae ei lywodraeth yn ymddangos yn amser gweinyddiad ei ddaioni i ddynion. Actau 1: 7.

24. Mae llywodraeth Duw yn ymddangos yn achlysuron dychweliad dynion at Dduw; megys yn amgylchiad Onesimus yn dianc o wasanaeth ei feistr, yn cael ei dywys i gyfeillach Paul, ac i fynwes Iesu. Philemon 10, 15.

GOF. V. Trwy ba ffyrdd y mae dynion yn dirmygu llywodraeth Jehofah?

AT. 1. Mae pob pechod, yn ei natur, yn wrthryfel yn erbyn llywodraeth Duw. Rhuf. 8: 7.

2. Mae pob pechod a'i duedd i ysbeilio Duw o'i lywodraeth. Mae'n eglur mai dyma bechod Adda. Gen. 3: 5.

3. Mae llywodraeth Duw yn cael ei dirmygu yn mucheddau dynion; megys Nebuchodonosor yn gosod i fyny ddelw i'w haddoli. Daniel 3: 1.

4. Mae llywodraeth Duw yn cael ei anmharchu mewn yspryd ymddial. Duw bia dial. Ezeziel 25: 12, 13.

5. Mae balchder a rhyfyg yn ddirmyg ar lywodraeth Duw. Exodus 15: 9.

6. Mae esgeuluso gwasanaeth Duw yn ddirmyg ar ei lywodraeth. Job 22: 17.

7. Mae llywodraeth Duw yn cael ei dirmygu trwy yspryd rhagfarn. Iago 4: 11, 12.

8. Mae llywodraeth Duw yn cael ei dirmygu pan nad ydym yn amyneddgar dan oruchwyliaethau Duw. 2 Breninoedd 6: 33.

GOF. VI. Pa bethau a ellir gasglu oddiwrth oruchel lywodraeth Jehofah?

AT. 1. Gan fod Duw y fath lywodraethwr, fod yn anmhosibl iddo wneyd cam a neb. Nid yw'r Arglwydd yn gweled yn dda wneuthur cam a gwr yn ei fater. Pan mae'n cymeryd ein meddianau a'n bywydau, mae'n cymeryd ei eiddo ei hun. Nid yw yn ddyledwr i neb; o hono ef a thrwyddo ef y mae pob peth. Nid yw yn Arglwydd i ni trwy etholiad; ond mae ganddo hawl naturiol. Nid oes ganddo un gyfraith, ond ei ewyllys ei hun. Mae pob ymfrost ddynol wedi ei gau allan. Nid yw trigolion y nef yn teilyngu dim oddiar law Duw; llai o lawer ni, lwch y llawr. Mae ysprydion cyfiawn yn mwynhau gogoniant, nid oddiar deilyngdod eu natur, ond oddiar ewyllys da eu llywodraethwr. Nid ydym yn rhoddi iddo ond ei eiddo ei hun; gan hyny, cauer pob genau; taw, gnawd, yn ngwydd yr Arglwydd; y neb a ymfrostio, ymfrostied yn yr Arglwydd

2. Dysgwn nad yw yr holl swyddogion gwladol ond gweision dros Dduw; efe yw y Pen-llywodraethwr, ac iddo ef maent yn rhwymedi ac yn gyfrifol. Mae yn gweddu iddynt fod yn ufudd iddo. Mae'n gweddu i'r deiliaid ymddarostwng i'r awdurdodau goruchel, ac i'r awdurdodau goruchel ymddarostwng i Dduw. Gwyl-iwn rhag codi yn erbyn y llywodraeth wladol, na'r swyddogion, tra y byddont o fewn terfynau gorchymynion Duw.

3. Pa mor ddychrynlyd yw'r athrawiaeth hon i'r holl wrthryfelwyr. Mae llywodraeth Duw yn gyfiawn a nerthol, a chosp yn canlyn trosedd o honi yn angenrheidiol. Rhaid i Dduw amddiffyn awdurdod ei or-

sedd. Boddodd Duw y byd a dylif; boddodd Pharaoh yn y mor; taffodd frenin balch oddiar ei orsedd i bori glaswellt, er amddiffyn awdurdod ei orsedd ac anrhydedd ei briodoliaethau. Mae'r gospyn anocheladwy; ni ddianc un gelyn. Pa beth a wnewch yn nydd yr ymweliad, ac yn y distryw a ddaw o bell? At bwy y ffowch; a pha le y gadewch eich gogoniant? Dichon Duw godi'r holl ymerodraeth mewn arfau yn erbyn ei elynion. Rhaid fod y gosp hon yn ddychrynlyd. Os yw digofaint brenin fel rhuad llew, pa mor fawr yw digofaint Brenin y breninoedd. Y ffolineb a'r ynfydrwydd mwyaf yw codi arfau yn ei erbyn. Gwell syrthio wrth ei draed i lefain am ei heddwch, tra mae ei lais ar ein hol.

4. Dysgwn fod llywodraeth Duw yn gweini cysur neillduol i Seion yn mhob cyfyngder. Mae ei orsedd yn dyferu mel a llaeth i'r plant. Mae ei gariad atynt mor fawr a'i arglwyddiaeth drostynt. Mae'n briod iddynt, i'w derbyn i'w bresenoldeb a'i gymdeithas. Y mae maddeuant yn sicr iddynt. Myfi, ie, myfi a ddileaf dy gamweddau, er fy mwyn fy hun, ac ni chofiaf dy bechodau. Fe wanychir eu llygredd; efe a ddarostwng eu hanwireddau; fe esyd ei holl elynion dan ei draed. Dyma anogaeth gref iawn i weddio arno; mae'n hoff ganddo glywed llais ei blant. Mae llywodraeth Duw yn gysur cryf mewn cystuddiau. Mae'n cystuddio fel llywydd, ac yn dysgu fel tad. Gall droi'r holl awelon o'n tu, i chwythu ein llestri yn nes i'r hafan. Mae yr eglwys yn ddiogel yn mhob erledigaeth; fe oruwchlywodraetha holl ddrwg dynion ac angyllion, er llesad ei bobl. Dyma ein twr cadarn; rhedwn ato am ddiogelwch.

5. Gan fod y fath lywodraeth gan Dduw, dysgwn ei rhyfeddu a mysyrio arni. Hyn a'n cynorthwya i ymddiried ynndo, i dreiddio trwy holl ail achosion at y ffynon fawr. Y rhai a adwaenant dy enw a ymddiriediant ynot. Dyma'r ffordd i'n gwneyd yn ddiwyd yn ei wasanaeth; i ochelyd ymddango ger ei fron yn wglaw, ond mewn meddyliau santaidd, i roddi iddo y

peth goreu a feddom, a'i addoli gyda gwylder a pharch-edig ofn a'n holl galon; ac i gynal ei achos a'n meddianau bydol, fel y byddo Duw yn ein llwyddo. Iawn ystyriaeth o lywodraeth Duw a'n gwna yn wyliadwrus ac yn arfog yn erbyn pechod; hyn a wanycha bob profedigaeth; a pha fwyaf a fyfyrion ar arglwyddiaeth Duw, mwyaf cyflawn fydd ein ymroddiad iddo, a'n penderfyniad i lynu wrtho, trwy gyfamod tragwyddol yr hwn nid anghofir.

6. Mae llywodraeth Duw yn dysgu gostyngeidd-rwydd i bawb. Dyma ddygodd Job i'r llwch. Ystyriaeth o Dduw fel Barnwr a ddygodd Abraham i gyfaddef ei hun yn llwch ac yn lludw. Pa fodd y safwn ni o'i flaen, pan y mae'r angylion yn cuddio eu hwynebau yn ei wyddfed? Pa mor afresymol yw balchder! Nid oes genym ddim ond a dderbyniasom, a phaham yr ymfrostriwn fel pe baem heb dderbyn? yn hytrach dysgwn fod yn ddiolchgar iddo, fel ffynonell ein holl ddaioni. Y llwybr i dderbyn trugareddau newyddion yw bod yn ddiolchgar i Dduw am y rhai a gawd. Mae yn addas wrthddrych parch. Pwy ni'th ofna di, Brenin y cenedloedd; llefwn am i lywodraeth ei ras gynyddu o for i for, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear; fel y llanwer y ddaear a gwybodaeth gogoniant yr Arglwydd, fel mae'r dyfroedd yn toi y mor.

7. Ac yn ddiweddaf, dysgwn fod genym yr anogaethau cryfaf i ufuddhau iddo. Mae ei gyfiawnder yn galw am ofn; ei ddaioni am ddiolchgarwch; ei ffyddlondeb am ymddiried; ei wirionedd am grediniaeth; a'i arglwyddiaeth yn galw am ufudd-dod. Fel ag y mae yn gweddu iddo lywodraethu, oblegid ei ardderchawgrwydd, felly y mae yn gweddu i ninau ufuddhau iddo oblegid ei awdurdod. Efe yw'r Arglwydd, a ninau yw'r deiliaid; efe yw'r meistr, a ninau yw'r gweision. Mae yn anrhydedd ac yn fanteisiol i ufuddhau i Dduw. Y mae pob creadur arall yn ufuddhau iddo. Mae'r mor yn cadw ei derfynau; mae'r tân a'r dwfr, y llewod a'r seirph, yr haul a'r lleuad, a'r ser, y gwynt, y gwlaw, a'r cenllysg, yn ufuddhau i Dduw; ac a gawn ninau ddim

ufuddhau iddo? Bydded ein hufudd-dod i Dduw yn ngolwg ei awdurdod, yn ufudd-dod cyflawn, nid hanerog; yn ufudd-dod cyffredinol, ewyllysgar, a gwastadol. Mae ufudd-dod yn rhinwedd dragywyddol. Rhaid ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion. Llwyddiant i'r cyfarfod heddyw i ddwyn y cyndyn yn ufudd.

SANTEIDDHAD.

GOF. I. Pa beth yw santeiddhad yn ei natur?

AT. 1. Fe'i gosodir allan fel dyledswydd gyffredinol, orchymynedig yn nghyfraith Duw. Mat. 5 : 48.

2. Mae'n cael ei ddarlunio fel bendith o anghydmorol werth, mewn addewid. Ezeziel 36 : 25—27.

3. Gwaith tu mewnol yn y galon ydyw. Jer. 31, 33.

4. Gwaith graddol. Diarhebion 4 : 18.

5. Mae'n waith cyffredinol, yn adnewyddiad ar yr holl natur; yn oleuni yn y deall; yn buredd yn y cof; yn gariad yn y serch; yn dynerwch yn y gydwybod; yn ufudd-dod yn yr ewyllys; yn symlrydd yn y llygaid; yn halen ar y tafod; yn ogwydd yn y glust; yn wylriadwriaeth ar y bywyd. 2 Cor. 5 : 17.

6. Mae'n arosol yn yr enaid, ac i gael ei orphen. Philip. 1 : 6.

7. Mae'n gweithio mewn amrywiol ffyrdd er gogoniant Duw. Iago 3 : 17.

GOF. II. Pwy yw awdwr santeiddiad pechadur?

AT. 1. Duw yn Nghrist yn unig. Lef. 20 : 6; ond yn fwy neillduol fe'i priodolir i'r Tad. Judas 1.

2. Nis gallasai dim ond gras ei gymell i'n santeiddio. Ephesiaid 2 : 4, 5.

3. Cyfrwng a gwerth y fendith yw aberth Crist. Hebreaid 9 : 14.

4. Ond yn fwy neillduol fe'i priodolir i'r Yspryd Glan fel prif weinyddydd y cyfamod. Titus 3 : 5.

5. Mae dyfnder llygredd dyn o'r fath ag sydd yn anmhosibl i'w wared heb allu dwyfol. Jeremiah 13 : 2, 3.

6. Mae Duw yn priodoli y gwaith hwn iddo ei hun yn unig. Lefiticus 22 : 32.

7. Mae cân y gwaredigion mewn gogoniant yn brawf o ddwyfoder y gwaith. Dat. 7 : 13, 16.

GOF. III. Pa bethau sydd yn dangos pwysfawrog-rwydd y gwaith o santeiddhad ?

At. 1. Dyma amcan mawr etholodigaeth gras. Eph. 1 : 4, 5.

2. Dyma un o amcanion gogoneddus aberth Mab Duw. 1 Cor. 6 : 20.

3. Dyma ddyben dyrchafiad y Mab i'r nef. 1 Pedr 1 : 21, 22.

4. Dyma amcan galwad yr efengyl. 2 Tim. 1 : 9.

5. Dyma un o brif arwyddion cyfiawnhad. Rhuf. 7 : 5, 6.

6. Ein santeiddiad yw'r nod cryfaf o ysbryd mabaidd. 2 Cor. 6 : 17, 18.

7. Mae o bwys mawr er ein cysur ysbrydol. Rhuf. 6 : 12, 13.

8. Mae yn dra angenrheidiol fel rhan o'r iachawdwr-iaeth. Rhuf. 11 : 26.

9. Mae'n angenrheidiol er ein cyd-ffurfiad a natur Duw, mewn cymdeithas a'r hwn y mae ein dedwydd-wch yn gynwysedig. Lef. 11 : 43, 44.

10. Mae yn hanfodol angenrheidiol, i ddangos ein hufudd-dod i ewyllys Duw. Mat. 22 : 37—40.

11. Mae yn angenrheidiol, i ddangos ein diolchgar-wch i Dduw am ei ddaioni. Luc 1 : 74, 75.

12. Dyma amcan holl oruchwyliaethau Duw tuag at-om, sef ein santeiddio. Esaiiah 27 : 9.

GOF. IV. Yn mha leoedd y mae cyfiawhad a santeidd-had wedi eu cysylltu ?

At. 1. Yn mwriad Duw. Rhuf. 8 : 29.

2. Yn swyddau Crist. 1 Cor. 1 : 30.

3. Maent wedi eu cysylltu yn athrawiaeth ac addeu-ridion yr efengyl. Actau 5 : 31.

4. Yn mhrofiad y saint. 1 Cor. 6 : 11.

GOF. V. Yn mha bethau y mae santeiddhad yn am-lygu ei hun ?

AT 1. Mewn parch santaidd i Dduw. Neh. 5: 15.

2. Gofal mawr am ei achos. Psalm 137: 5, 6.

3. Ymostyngiad dan ei law yn mhob amgylchiad. Psalm 39: 9.

4. Syched parhaus am gymdeithas a Duw. Psalm 42: 1, 2.

5. Hyfrydwch mawr yn ei wasanaeth. Psalm 27: 4.

6. Dwfn ostyngieddrwydd oblegid ein drwg. Job 42: 5, 6.

7. Cynydd mewn casineb at bechod. Psalm 119: 133.

8. Ymarferiad enaid â Duw mewn gweddi. Psalm 109: 4.

9. Ufudd-dod cyffredinol i'w holl orchymynion Ioan 15: 14.

10. Ymostyngiad i ddysgyblaeth eglwysig. Psalm 141: 5.

GOF. VI. Pa anogaethau sydd genym yn ngair y gwirionedd i fywyd santaidd?

AT 1. Mae cysur a defnyddioldeb ein bywyd yn ymddibynu i raddau helaeth ar ein hymdrech i fyw yn santaidd. Rhuf 8: 13.

2. Bywyd santaidd yw y cynwysder goreu at wasanaeth y cysegr. 2 Tim. 2: 21.

3. Mae ein cadarnhad a'n diogelwch mewn awr o brofedigaeth yn ymddibynu i raddau helaeth ar ein cynydd mewn santeiddrwydd. 2 Pedr 1: 4.

4. Nid oes dim ond sancteiddrwydd yn gweddu i dy Dduw.

5. Ar dir santeiddrwydd mae cymdeithas â Duw i'w mwynhau. 1 Ioan 1: 6, 7.

6. Santeiddrwydd yw y cynorthwy goreu i sefyll dan gystuddiau. Phil. 4: 12, 13.

7. Yn ol graddau ein cynydd mewn santeiddrwydd, y bydd graddau ein cynydd mewn syched am dano. Psalm 51: 2, 7, 10.

8. Yn ol cynydd ein santeiddrwydd y bydd cynydd ein syched am wlad well. Philip. 1: 21.

GOF. VII. A wnewch chwi roddi rhai cyfarwyddiad-

au tuag at feithrin a magu y rhinwedd a soniasoch am dano?

At. Gwnawn, os caniatâ Duw.

1. Ymarferwn ffydd. Hon a'n cynorthwya i gael iawn olwg ar wrthddrychau tragywyddol. 1 Petr 1: 7, 8.

2. Ymdrechwn i rôdio yn agos at Dduw. Dyma rydd archwaeth addas ar y meddwl. Gal. 1: 16.

3. Ymdrechwn gadw yn ofn Duw. Ofn Duw y'w feddyginiaeth oreu yn erbyn pechod. Diar. 16: 6.

4. Myfyriwn lawer ar wagedd a diddymdra y pethau a welir. Iago 1: 10, 11.

5. Ystyriwn y mawr ddrwg sydd mewn pechod, a'r anfoddlonrwydd mae Duw yn ddangos tuag at ddynion o'i blegid Rhuf. 1: 18.

6. Meddyliwn am y draul fawr a aeth ar Fab Duw tuag at roddi iawn am bechod drosom. Gwelwn ef yn chwysu yn yr ardd. Luc 22: 44.

7. Ystyriwn y fath dristwch ac archoll yw pechod Seion i'r Yspryd Glan. Ephes. 4: 30.

8. Ystyriwn nad oes dim daioni na gwir elw i neb, wrth ymarfer a phechod. Rhuf. 6: 25.

9. Edrychwn ar bwysfawrogrwydd cosp y damnedigion, dan euogrwydd y pechodau a gyflawnasant yn y byd hwn. Luc 16: 25.

10. Gwyliwn ar ymgadw oddiwrth holl achlysuron pechod. 1 Thes. 5: 22.

11. Gochelwn ddychymygu dwyn y gwaith yn mlaen yn ein nerth ein hunain. Eph 6: 10.

12. Ymarferwn lawer yn ngair Duw. Dyma arfdy Dafydd yn erbyn pechod. Psalm 119: 128.

13. Mae yn gweddu i bawb o honom i filwrio yn erbyn y pechod mwyaf tueddol i'n hatal i gynyddu mewn santeiddrwydd. Heb. 12: 1.

14. Cadwn wyliadwriaeth ar y pyrth, sef chwant y cnawd, chwant y llygad a balchder y bywyd. 1 Ioan 2: 16.

15. Ymarferwn gymdeithasu a dyoddefiaidau y Gwardwr. Phil. 3: 10.

16. Ymdrechwn gadw gwyliadwriaeth barhaus ar ein tafod ; mae'r tafod yn esponiad cywir o'r galon. Iago 1 : 16.

17. Myfyriwn ar werth y pethau sydd i gael eu henill neu eu colli, yn ol graddau ein cynydd mewn santeiddrwydd. 1 Cor. 9 : 26, 27.

18. Ymdrechwn gadw ein golwg yn barhaus ar dragwyddoldeb, lle y byddwn cyn bo hir. 2 Cor. 4 : 16-18.

19. Bod yn dra gochelgar rhag rhoddi ein serch ar bethau daear. Col. 3 : 2.

20. Ymgadwn yn y llwch. Phil. 2 : 3.

21. Ymarferwn i gadw cydwybod ddirwyst. Actau 24 : 16.

22. Gochelwn fod un gwreiddyn chwerwedd yn tyfu ynom i atal cynydd santeiddrwydd. Heb. 12 : 15.

G W E D D I.

GOR. I. Pa beth yw gweddi ?

AT. 1. Dyrchafiad yr enaid at Dduw yn enw Crist am bethau yn ol ewyllys Duw, trwy ei anerch, dan yr ystyriaeth o'i ddaioni a'i fawredd. Dan. 4 : 34, 35.

2. Cyfaddefiad o'n hannheilyngdod i dderbyn. 1 Ioan 1 : 9.

3. Erfyniad am fendithion drosom ein hunain, ac eraill. Mat. 7 : 7.

4. Diolchgarwch i Dduw am y pethau a dderbynwyd. Philip. 4 : 6.

GOR. II. Pa bethau sydd yn dangos ein rhwymedigaethau a'n calonddid i gyflawni'r ddyledswydd hono ?

AT. 1. Mae agosrwydd ein perthynas â Duw yn ein rhwymo at y ddyledswydd hon. Malachi 1 : 6.

2. Mae ein hymddibyniad gwastadol ar Dduw yn dangos rhesymoldeb y ddyledswydd. Actau 17 : 28.

3. Mae esiamplau Mab Duw yn anogaeth gref iawn i weddi. Heb. 5 : 7.

4. Mae gweddi yn foddion cymundeb rhwng dynion a Duw. Heb. 4: 16.

5. Arfer duwiolion yn mhob oes o'r byd oedd gweddio. Dyma eu gwrthglawdd yn erbyn eu gelynyon. Genesis 13: 3, 4.

6. Mae gwir arferiad gweddi yn brawf o wirionedd gras yn yr enaid. Zech. 12: 10.

7. Mae gweddi yn foddion i gynyddu gras yn yr enaid, fel y mae'n dwyn yr holl rasau eraill i ymarferiad. Psalm 13: 3, 4.

8. Mae mawr lwyddiant gweddi gyda Duw yn anogaeth gref iddi. Dyma'r agoriad sydd wedi agor a chau y nef. Genesis 32: 28.

9. Mae iawn arferiad o'r ddyledswydd hon yn gogoneddu Duw. Yma yr ydym yn gwadu ein haeddiant. Job 9: 15.

10. Mae'r hyfrydwch mawr sydd gan Dduw yn gwrando ei bobl yn rym mawr i gyflawni'r ddyledswydd. Can. 2: 14.

11. Trwy weddi mae'r meddwl yn cael ei esmwythân a'i gysuro dan ddyoddefiadau. Mae'r saint trwy weddi yn sugno bronau'r addewid. Psalm 62: 8.

12. Mae gweddi yn magu gwroldeb yn y meddwl dan ddyoddefiadau, megys Pedr ac Ioan. Actau 4: 13.

13. Mae'r ddyledswydd hon o'r fath ag y gellir ei chyflawni yn mhob sefyllfa. Nis gall carchar nac alltudiaeth atal masnach rhwng enaid a'r nefoedd. Actau 16: 25.

14. Mae cysylltiad annatodadwy rhwng arferiad gweddi a chyfraniad trugareddau. Jer. 29: 11, 12, 13.

15. Mae ein diogelwch mewn awr o brofedigaeth yn ymddibynu i raddau helaeth ar gydwybodol arferiad o'r ddyledswydd hon. Mat. 26: 41.

GOE. III. Pa fodd mae'r ddyledswydd hon i gael ei chyflawni tuag at fod yn gymeradwy gyda Duw?

AT. I. Gyda'r gostyngeddrrwydd a'r hunan-ymwadiad mwyaf, megys Jehosaphat. Er fod ganddo yn agos i fil o filoedd o filwyr parod i ryfel, heblaw holl filwyr

ei gestyll, eto yr oedd mor afaelgar mewn gweddi a phe buasai heb un. 2 Chron. 20 : 12.

2. Dylem fod yn daer iawn mewn gweddi, gyda'r wraig o Ganaan. Mae'n dda gan Dduw ofynwr taer. Mat. 15 : 21—27.

3. Dylem weddio am bethau yn unol ag ewyllys Duw. Os bydd y peth a ofynem yn unol a meddwl Duw, yr ydym yn sicr o'i gael. 1 Ioan 5 : 14.

4. Rhaid i'n gweddiau darddu oddiar ddyben cywir, sef gogoniant Duw a'n llesad ein hunain. Y diffyg o hyn yw ein bod yn aml heb dderbyn dim. Iago 4 : 3.

5. Mae gweddi i guel ei harfer mewn cysylltiad a llafur dros yr achos, ac nid ar ei phen ei hun. Galarnad 3 : 41.

6. Cyn y gallo ein gweddiau fod yn dderbyniol, rhaid ein bod mewn rhyfel a phob pechod, ac mewn undeb a'n gilydd. 1 Tim. 2 : 8.

7. Mae ein holl weddiau i gael eu dwyn yn mlaen mewn ffydd. Marc 11 : 24.

8. Gweddio yn enw Crist. Dyma'r unig gyfrwng i'n gweddiau dramwy i'r nef. Daniel 9 : 17.

9. Gweddio mewn ymorphwysiad ar allu a ffyddlondeb Duw am gyflawniad ac atebiad. 2 Chron. 13 : 14, 18.

10. Parhad gwastadol yn y gwaith, heb ddiffygio. Luc. 18 : 1.

GOF. IV. Dros bwy y dylem weddio?

AT. Nid yw ein gweddiau i derfynu ond lle mae gogoniant mynegol Duw yn terfynu; gan hyny,

1. Dylem weddio dros ein gelynyon. Matthew 5 : 44.

2. Dros lywiawdwyr gwladol. 1 Tim. 2 : 1, 2.

3. Dros yr holl saint, am eu heddwch a'u hundeb. Psalm 122 : 6.

■ 4. Dros holl genadau'r efengyl, am lwyddiant ar eu cenadwri. 2 Thes. 3 : 1.

GOF. V. Pa resymau anogaethol sydd genym i weddio dros weinidogion yr efengyl?

AT. 1. Pwysfawrogrwydd y gwaith—y gwaith mwyaf llafurus. Peth alaethus iawn yw syrthio i uffern o

dan y pwlpud; ond peth mwy alaethus yw syrthio i uffern o hono, yr hyn a barodd i Paul, y gwr cryfaf ei ysgwyddau o bawb o'i frodyr, waeddi allan, (2 Cor. 2: 16.) Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?

2. Mae'r gwrthwynebiadau sydd ar y ffordd i'r gwaith hwn fyn'd yn mlaen, yn galw am ein gweddïau taeraf. Fe'i gwrthwynebir gan uffern, a'r byd annuwïol. Zech. 3: 1.

3. Dylem weddio drostynt, oblegid fod cam-ymddygiadau gweinidogion yn beryglus i'r bobl. Yr oedd y diafol yn anelu at chwaneg na Phedr pan geisiodd genad i ymaflyd codwm ag ef. Gwyddai y byddai ei godwm ef yn debyg o godi sodlau llawer eraill. Luc 22: 5.

4. Dyma'r ffordd fwyaf tebygol i ni gael budd oddi-wrth eu gweinidogatth. Col. 4: 2, 3.

5. Ystyriwn y cyfrif mawr sydd ganddynt i roddi am eu gwaith, rhag fod eu cyfrif yn drist. Heb. 13: 17, 18.

GOR. VI. A ydyw gweddi deuluaidd yn ddyledswydd?

AT. Ydyw, yn ddiau, ac o'r pwys mwyaf.

1. Mae y gorchymyn cyffredinol hwnw am weddi yn dwyn gweddi deuluaidd i fod o fewn cylch ein dyledswydd. 1 Tim. 2: 8.

2. Arfer duwiolion yn mhob oes oedd cynal crefydd i fyny yn eu teuluoedd. Exodus 12: 21.

3. Mae'r hyn a ro'ir mewn ymddiried i benau teuluoedd, yn dangos mai eu dyledswydd yw gosod i fyny weddi yn eu teuluoedd. Mae pob penteulu i fod yn brophwyd, brenin, ac offeiriad yn ei dy. Deut. 11: 19.

4. Mae Duw yn bygwth tywallt y barkedigaethau mwyaf ofnadwy ar deuluoedd diweddi. Mae Polamus yn rhoddi hanes am dref yn Switzerland, yn cynwys deg a phedwar ugain o dai a ddinystriwyd yn y flwyddyn 1584, gan ddaeargryn, ond haner un ty, lle yr oedd y penteulu a'i wraig a'i blant ar eu gliniau yn taer weddio Duw. Jer. 10: 25.

5. Mae gweddi deuluaidd yn tueddu yn fawr at sobrydd ac undeb teulu. 1 Pedr 3: 7, 8.

GOF. VII. A ydyw gweddi yn rhan o'r addoliad cyhoeddus a orchymynir gan Dduw?

AT. 1. Ydyw. Mae'n cael ei gorchymyn gan Dduw. Deut. 6: 13, 14.

2. Mae genym esiamplau am y fath weddiau a hyn dan yr Hen Destament a'r Newydd. Zech. 8: 21, 22; Mat. 11: 17.

3. Mae gweddi gyhoeddus i gael ei harferyd fel cyfaddefiad o'n hymddibyniad ar, a'n hymostyngiad i Dduw. Deut. 26: 17, 18.

4. I gynnal cariad ac undeb yn yr eglwys. Mae Duw yn mawr hoffi undeb yn ei eglwys. Actau 2: 42, 46.

5. Mae gweddi gyhoeddus yn angenrheidiol er amddiffyniad y saint yn erbyn eu gelynyon; yma mae'r saint yn gorphwys mewn tawelwch. Can. 1: 7.

6. O herwydd yr hyfrydwch mawr sydd gan Dduw yn ngweddiau a diolchiadau cydunol ei bobl. Psalm 87: 2.

SWPER YR ARGLWYDD.

GOF. I. Pa rai yw prif amcanion sefydliad y swper santaidd?

AT. 1. Fe'i sefydlwyd i osod allan ddrylliad yr Arglwydd Iesu dros ein pechodau ni. Esa. 53: 10.

2. I amlgu purdeb ei garacter. Heb. 7: 26.

3. I fod yn gwllwm undeb cyhoeddus rhwng yr holl saint a'u gilydd. Ephes. 4: 3, 4.

4. I fod yn wystl anlwg ac effeithiol o gariad Crist at bechaduriaid. Ioan 15: 13.

5. I fod yn golofn goffadwriaethol o'r frwydr fawr a enillodd Iesu ar ei holl elynion. Col. 2: 15.

6. I selio ac adnewyddu ein cyfamod a Duw. Mae'r gair *sacrament* yn arwyddo llw milwraidd. Mae Duw yn selio manteision y cyfamod o'i du ef, a ninau yn

selio dyledswyddau y cyfamod o'n tu ninau. Deut. 26 : 16, 17.

7. I fod yn gyfrwng cymdeithas rhwng y saint a Duw, ac yn ernes o'r gymdeithas dragywyddol. Marc 14 : 25.

8. I gadarnhau'r cyfamod tragywyddol. Mat. 26 : 28.

GOF. II. A wnewch chwi enwi rhai o'r prif bethau sydd i'w cofio am Iesu yn yr ordinhad santaidd ?

AT. Gwnawn. 1. Dylem gofio goruchelder ei berson fel Duw. Rhuf. 9 : 5.

2. Cofio ei fwriad boreu i achub; fod ei hyfrydwch gyda dyn. Diar. 8 : 31.

3. Cofio dirgelwch ei briodas a dynoliaeth. 1 Tim. 3. 16.

4. Cofio mawredd ei ddarostyngiad. Phil. 2 : 7, 8.

5. Cofiw'n eangder ei gyfoeth, a dyfnder ei dlodi. 2 Cor. 8 : 9.

6. Dylem gofio perffeithrwydd digoll ei gyfryngdod. 1 Tim. 2 : 5.

7. Cofiw'n iddo gael ei erlid gan Herod yn faban bychan. Mat. 2 : 3, 4.

8. Dylem gofio y cam-gyhuddiadau a ddygwyd yn ei erbyn, ei alw yn ddyn glwth ac yfwr gwin, a bod cythraul ganddo. Mat. 11 : 18, 19.

9. Cofio iddo fyned dan y ddeddf yn ein lle ni. Gal. 4 : 4, 5.

10. Cofiw'n ei ymdrech caled mewn gweddi yn yr ardd. Luc 22 : 44.

11. Cofio am bwysfawrogrwydd y gosp a roddwyd arno. Esa. 53 : 5.

12. Cofio mawredd ei boenau corfforol. Mat. 26 : 67.

13. Cofio ei fradychu gan Judas i ddwyllaw ei elynion. Gwelwn dwyll calon dyn. Mat. 26 : 47—49.

14. Cofiw'n gyd-undeb ei elynion i'w osod i farwol-aeth. Luc 23 : 23, 24.

15. Cofiw'n fod ei holl ddyoddefiadau yn ol cyngor Duw. Act. 2 : 23.

16. Cofio y driniaeth arw a gafodd rhwng y lladron. Mat. 27 : 39—44.

17. Cofio goruchel lywodraeth Duw yn yr ysgrifen a

osodwyd uwch ei ben. Yr oedd y teitl yn groes i ewyllys ei elynion, yn deitl cyhoeddus ac anrhydeddus, yn deitl o amddiffyniad iddo, ac yn deitl anghyfnawidiol. Luc 23 : 38.

18. Cofiw'n ei gyfyngder mawr dan guddiadau wyneb ei Dad. Mat. 27 : 46.

19. Cofio ei fod yn gwneyd y cwbl dros eraill. 1 Pedr 3 : 18.

20. Mae'n werth oofio y rhyfeddodau a gymerasant le yn amser ei farwolaeth—yr haul yn tywyllu, y ddaear yn crynu, y meini yn hollti, a'r llen yn rhwygo. Mat. 27 : 45—52.

21. Cofiw'n ddirfawr boenau ei gorff dan y goron ddrain a'r hoelion. Ps. 22 : 16; Marc 15 : 17.

22. Cofiw'n ei fod yn ddigynorthwy oddiwrth neb yn ei ddyoddefiadau. Esa. 63 : 5.

23. Cofiw'n ei ewyllysgarwch i ddwyn ei waith yn mlaen. Ioan 10 : 18.

24. Cofio fod ei ddyoddefiadau yn iawn digonol. Rhuf. 3 : 25.

25. Fod ei aberth yn gymeradwy gan Dduw. Ephes. 5 : 2.

26. Cofiw'n am ei farwolaeth a'i gladdedigaeth anrhydeddus. Marc 15 : 43—46.

27. Cofiw'n am ei adgyfodiad gorfoleddus. Heb. 13:20.

28. Cofiw'n ei esgyniad buddugoliaethus. Eph. 4 : 10.

29. Cofiw'n am ei dderbyniad croesawus yn ei wlad ei hun. Psalm 24 : 7—9.

30. Cofiw'n ei fod yntau yn ein cofio ni drwy eiriol drosom. Heb. 7 : 25.

31. Cofiw'n gymeryd Iesu yn esiampl i'n holl ymarweddiad. 1 Pedr 2' : 21, 22.

32. Cofiw'n mai efe yw Pen llywodraethol a bywiol ei eglwys. Eph. 1 : 22, 23.

33. Cofio fod ei achos yn sicr o lwyddo trwy yr holl fyd. Esa. 9 : 7.

34. Cofio am y cymundeb cyflawn a geir gyda'r Iesu yn ei wlad ei hun. Mat. 26 : 29.

GOF. III. Yn mha agwedd y dylem gofio am yr Arglwydd Iesu yn y swper santiaidd?

AT. 1. Dylem ei gofio yn aml; nid unwaith yn y flwyddyn. Mae ein hangen yn galw am ei gofio yn aml. - 1 Cor. 11: 26.

2. Gyda galar dwfn am bechod. Zech. 12: 10.

3. Mewn gorfoledd santiaidd; fel Abraham wrth wel-ed ei ddydd. Ioan 8: 56.

4. Gyda dwfn ostyngieiddrwydd; dyma'r agwedd harddaf i dlodion wrth ddyfod at fwrdd y Brenin. Mat. 5: 3.

5. Gyda bwriadau cedyrn yn erbyn pechod; a rhaid carthu allan hen lefain malais a rhagrith. 1 Cor. 5: 7, 8.

6. Gyda goruchel gariad tuag ato. 1 Ioan 4: 19.

7. Mewn cariad brawdol, fel plant i'r un Tad, a deiliaid yr un Brenin. Mat. 5: 23, 24.

8. Gyda'r hunan-ymholiad dwysaf. 1 Cor. 11: 28.

GOF. IV. Paham y dylem holi ein hunain mor ddwys a difrifol?

AT. 1. Oblegid ein bod oll mewn heddwech â Duw, neu yn elynion iddo. Rhuf. 5: 1.

2. Oblegid y tebygolrwydd ymddangosiadol sydd rhwng gwir grefydd a rhagrith. 2 Tim. 3: 5.

3. Wrth ystyried anfeidrol bwys y mater; yr oedd Dafydd yn fanwl iawn. Psalm 77: 6.

4 Rhaid bod yn ddifrifol, oblegid twyll y galon. Jer. 17: 9.

5. Rhaid bod yn fanwl er hunan-adnabyddiaeth. 2 Cor. 13: 5.

6. Mae hunan-ymholiad yn bwysig oblegid anhawddra'r gwaith. Mae'n hawdd genym anghofio ein hunain. Iago 1: 23, 24.

7. Mae hunan-ymholiad yn angenrheidiol, oblegid y perygl i dwyllo ein hunain, a bwyta ac yfed yn annheilwng. 1 Cor. 11: 27.

8. Oblegid fod llawer wedi twyllo eu hunain yn barod; yn curo heb gael agoriad byth. Mat. 7: 22, 23.

9. Cofiw'n y daw'r Brenin mawr i'n holi yn fuan. Mat. 22: 11, 12.

10. Cymerwn y gair yn rheol i holi ein hunain. Esa. 8: 20.

11. Gochelwn i'n calon ein twyllo. Diar. 28: 25.

12. Llefwn am i Dduw ein chwilio. Ps 139: 23, 24.

GOF. V. Beth ydych yn ddysgu oddiwrth y swper sanctaidd?

At. 1. Dysgwn fod yr ordinhad santaidd yn dra manteisiol i eglwys Dduw er marweiddiad pechod. Pwy all fod yn falch wrth weled Iesu yn nyfnder ei gystudd? Pwy all fod yn gybydd wrth weled yr Iesu yn rhoddi ei hun, ac yn troi ei gefn ar holl gyfoeth y byd hwn? Yma y gwelwn fawredd drwg pechod, ac anfoddlonrwydd Duw yn ei erbyn. Mae tuedd yn yr ordinhad hon i fagu ynom edifeirwch dwfn am bechod; i gryfhau ein ffydd yn Nghrist; ac i gynyddu ein cariad ato. Pwy all edrych ar Iesu yn chwysu yn ei gyfyngder, wedi ei hoelio wrth y groes, a'r goron ddrain ar ei ben, dan guddiadau wyneb ei dad, a'i galon yn drist iawn hyd angu, ac heb doddi o gariad ato? Gochelwn ddadfeilio yn ein cariad, trwy ymarfer â rhyw bechod. Bydded ein cariad yn helaeth, yn ddiragrith, yn ddianwadal, ac yn gynyddfawr. Cariad yw bywyd ein holl rasau.

2. Gwelwn gynifer sydd yn gwirfoddol esgeuluso'r ordinhad hon, yn troi eu cefnau arni fel peth hollol ddiwerth. Nid yw wedi ei gosod i'w hesgeuluso. Edrychwn a yw sylfaeni eu dibrisdod o honi yn safadwy. Mae'r cyfryw yn mathru Mab Duw; yn barnu yn aflan waed y cyfamod; yn taflu yr anfri mwyaf ar ddaioni, doethineb, a chariad Duw; ac yn gwadu'r angenrheidrwydd am y fath draul a gymerwyd i achub. Mae rhai yn dadleu eu hanghymwysder. Mae'n wir nad oes un halogwr Sabboth, diotwyr na meddwon, na neb sydd yn byw mewn pechod yn anedifeiriol, i ddyfod at fwrdd yr Arglwydd; ond mae'r Iesu yn derbyn pechadur fel pechadur. Na chofleidiwn un esgus ond sy'n sicr o sefyll yn nydd y farn fawr.

3. Dysgwn fod swper yr Arglwydd yn ordinhad barhaus, hyd ddydd y farn. Dyma un o'r pethau ni siglir.

Mae'r ordinhad hon yn debyg i'r cwmwl niwl a'r golofn dân oedd yn arwain Israel trwy'r anialwch i Ganaan. Mae'r cyfamod yn parhau; yn ganlynol mae'r seliau yn parhau. Mae ein gwendid a'n dadfeiliad ysbrydol yn galw am barhad yr ordinhad hon. Mae gennynt waith i'w wneyd, taith i'w cherdded, a brwydrau i'w hymladd; gan hyny, mae arnom eisiau lluniaeth ac ymgeledd. Gan fod yr ordinhad i barhau, fe bery yr eglwys yn y byd hyd ddydd y farn. Yr eglwys yw gorseddfa'r ordinhadau. Nis gellir gwahaniaethu'r eglwys a'r ordinhadau oddiwrth eu gilydd. Wele yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd.


4. Gwelwn afresymoldeb yr athrawiaeth o draws-sylweddiad, fod y bara yn wir gorff a'r gwin yn wir waed Crist. Mae ein llygaid, ein harchwaeth, a'n teimlad yn tystio fod yr elfenau yn para yr un. Dyben yr ordinhad yw dwyn ar gof i ni gorff a gwaed Iesu. Manwl holwn ein hunain rhag bwyta ac yfed yn anheilwng. Ymdrechwn fod yn gyfarwydd â nodau gwir Gristion. Nac ymorphwyswn ar farn dda a ddwg dynion am danom. Cymerwn y gair yn rheol; ymarferwn ffydd ar aberth Iesu, a llefwn am oleuni a chymorth yr Ysbryd Glan at y gorchwyl. Gochelwn gymeryd ein tymer na'n teimladau yn rheol i holi ein hunain; ond Beibl Duw fyddo ein prif faen prawf. Dyma reol y farn.
















3 2044 021 074 786

THE BORROWER WILL BE CHARGED
AN OVERDUE FEE IF THIS BOOK IS
NOT RETURNED TO THE LIBRARY ON
OR BEFORE THE LAST DATE STAMPED
BELOW. NON-RECEIPT OF OVERDUE
NOTICES DOES NOT EXEMPT THE
BORROWER FROM OVERDUE FEES.

Harvard College Widener Library
Cambridge, MA 02138 (617) 495-2413



